This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

rhai *crefyddol* "bernwch *chwi* beth yr wyf yn ei ddywedyd." Ni ddywedaf ddim ond y *gwir*, er, o angenrheidrwydd, rhaid i mi ddywedyd *llai na'r holl wir*: Cymerai oes Methusela a hyodledd Demosthenes i lefaru *haner* drygedd yr arferiad llygredig yr ymosodwn yn ei erbyn.

D. S. Ar sail fy nhestyn yr wyf yn cymeryd yn ganiataol na raid ond profi fod yma "ddrygioni," ië "rhith drygioni," fod y peth hyn o fewn cylch "*all appearance of evil*," er profi mai dyledswydd pob cristion yw *ymgadw rhagddo*.

Felly dywedwn—

I. *Ymgedwch rhag* "Y FASNACH."—Gresyn yw fod angen am y fath annogaeth. Diffyg ystyriaeth yn y personau eu hunain, ac yn yr eglwysi y perthynant iddynt, yw fod *Crefyddwyr* yn y Fasnach. Ni welais ddim tebyg i hyn yn yr Amerig, eithr yn Mhrydain ac yn Nghymru y mae yn gyffredin iawn. Dywedai un wrthyf, yn ddiweddar, ei fod yn "*gydwybodol*" yn Dafarnwr. Ynfydrwydd, pa mor gyffredin bynag, yw son am *gydwybod* heb WYBOD. Am hyn nid ydym yn beiddio tewi; dyledswydd yw arnon wneyd pleidwyr y Fasnach yn *wybodol* o'i "drygioni." Felly byddant, oni adawant eu ffyrdd, *yn gydwybodol ddrwg*, ac, yn y cyfryw gymeriad 'does bosib y derbyniant ffafr yn "Eglwysi y Saint."

Sylwn

1. Fod "drygioni" mewn Masnachu mewn peth mor *afreidiol*.—Nid yw angen *gwastraff* anser ac arian lawer; a thebygaf nad dieuog, yn mawn yr Hwn a orchymynodd gasglu gweddill y briw-fwyd wedi porthi y miloedd yn ol haelionusrwydd gwyrthiol, sawl a ddeno neu a gefnogo ei gyd-ddyn i wastraffu rhan fawr o'i fywyd uwchben y *cwpan*, ac i wario ei arian "am yr hyn nid yw fara," a'i lafur "am yr hyn nid yw yn digoni." Llawer crefyddwr a waria fwy am ddiod, ac a abertha fwy i Bacchus mewn un flwyddyn nag a gyfranodd at achos Iesu yn ei oes.

Nid oes dros 260 o flynyddoedd er pan dygwyd gwirodydd i Brydain gyntaf. Ni adnabyddwyd *diod frag* yn ein gwlad hyd ddiwedd y 15fed ganrif. Os nad oedd ei hangen ar ein cyn-deidau, paham y mae yn rheidiol i *ni*? A ddywedir fod ansawdd llafur y gweithiwr

Celt 4003.91

HARVARD
COLLEGE
LIBRARY

"'ERYR ERYROD ERYRI,'
'Y CADARN A'R CYFRWYS.' 'Y BWCH YN UCHAF.'"

AWDL

MYNYDDOEDD ERYRI,

TESTUN

EISTEDDFOD ORSEDDOL CONWY,

1861.

GAN JOHN JONES,

(MYRDDIN FARDD.)

TREMADOG:
ARGRAFFWYD GAN ROBERT ISAAC JONES.
1862.

Cel 4003.91

5531
.5C7
14

RHAGDRAITH.

Un o'r ddwy Awdl a gyflwynwyd ar yr allor Farddol yn Eisteddfod Orseddol Conwy, 1861, ydyw yr Awdl ganlynol, ac edrychid arni fel aberth difai, er mai yr eiddo arall a offrymwyd, ac a rwymwyd wrth gyrn yr allor, tra y gollyngwyd hon yn rhydd; ond nid wyf yn meddwl, pan y ca y fuwch arall ei chyrn yn rhyddion, y bydd hon mewn llawer o berygl o gael ei llyncu ganddi, fel gwartheg culion Pharaoh! er mai teg aros heb fynegu ei rhinweddau hyd oni wna ei hymddangosiad; heblaw mai go afraid crybwyll dim am dani. Ond gan na chafwyd beirniadaeth dryddysg a gwerthfawr ar y cyfansoddiadau, megys ag y dylesid cael, meddyliais dynu yr eiddo fi trwy "lys y werin,"—y llys uchaf a chywiraf ar achos fel hyn, bob amser; a gwn gymaint a hyny am y natur ddynol, nad oes neb yn dewis i'w lafur fyned yn ofer, a chynenid yw teimlo rhyw faint o bryder am enw da.

Gan nad ydyw llenyddiaeth Gymreig yn berffaith, dylid, ar amgylchiad o fath hwn, athrolithio ar y diffygion; er nad ydys am honi cywirdeb, llawer llai perffeithrwydd:—ymgais ydyw at yr hyn sydd eto i'w gyrhaeddyd. Y mae diffygion ein llenyddiaeth yn ddeublyg yn eu natur; diffygion o du awdwyr, a diffygion o du beirniaid; tarddant o ddwy ffynonell: camgymlluniau, a chamolygiadau; a'r pwnc

y dadleuir yn ei erbyn yw, diffygion o du beirniaid, oblegyd o'u tu hwy mae mwyaf o drysgledd, mympwy, a phenchwibandod. Y mae dau eithafnod ag y'u gwelir yn llawer rhy dueddol i redeg iddynt, a thybiwyf mai rhwng y ddau eithafnod yna, fel pob eithafnod arall, y mae "canol llwybr barn" yn rhedeg; canys nis dylid diystyru y naill o herwydd nad yw yn gwisgo arddull y llall; eithr gwerthfawrogi y *jewels* pa un bynag ai yn y *rubbish*, ai yn y *cabinet*, y deuir o hyd iddynt. Teg, gan hyny, fyddai i'r sawl a ymddyrchafo i eisteddle barn, adnabod ei derfynau, ac ystyried pwy a'i hordeiniodd, a *nonsense* o'r mwyaf ydyw gadael i feirniaid o bob math, dryboli ymgeiswyr yn holl laid a llaca anwybodaeth eu tras eu hunain, fel pe tae nhwy y fath ddynion anffaeledig, ac mai nhwy yw eu safon, ond, atolwg, a ydynt yn gysegredig ac "uwch y cwymp?" A raid derbyn eu cynnyrchion drwy ffydd? ac a hwythau heb fod, nac yn gyson â'u gilydd nac â hwy eu hunain, yn rhedeg i'r eithafion yma a'r eithafion arall,—eithafion nad nad oes na rheol na rheswm, nac awdurdod yn eu cyfreithloni, nes y mae eu holl gynnyrchion beirniadol yn betrus hollol, ac yn peri trafferth a dyryswch. Y maent yn llawer rhy fyrbwyll a phenderfynol yn nghylch eu mater, ac yn dueddol i feddwl eu bod yn ei amgyffred yn drwyadl, pan y maent hwythau, yn rhy fynych, heb gymaint a deall elfenau cyntaf y peth y maent yn eu hystyried eu hunain yn athrawon ynddo. Nid rhyw ddyweyd blaen tafod, pa gyfansoddiad fyddo'r goreu, a ddylid wneyd, heb ddangos rhagoriaethau cymariaethol y gwahanol gyfansoddiadau yn feirniadol a dysgedig; canys peryglus yw penderfynu dim gyda golwg ar rŷw ddull neillduol, os byddis ar yr un pryd yn anwybodus o ansawdd y peth. Nid myned i eithafion gwrthwynebol, er mwyn gwrthwynebu, yw y ffordd debycaf i ddiwygio cyfeiliornad; ac, fel rheol gyffredin, gellir bod yn lled sicr nad mewn unrhyw eithafion chwaith y mae cywirdeb yn cartrefu. Dylai cyfansoddwyr ymdrechu gochel amwysedd, a bod yn feddianol ar ddigon o chwaeth a deall i ymgadw yn wastadol rhag gwall synwyr; ond nis dylent fod yn rhy frysiog i lyncu unrhŷw olygiad a ddygir

ger bron, oblegyd bob amser, y dynion parotaf i greda rhyw newydd-deb ydynt y parotaf hefyd i droi oddiwrtho, am fod y cwbl yn cael eu cymeryd ganddynt ar enw y beirniad, neu gymeradwyaeth rhyw un a ystyrient yn awdurdod uchel, ac nid oddiar ysbryd barn. Y mae dau eithafnod y dylid eu gochel, sef gwaseidd-dra a mympwyaeth. Y mae y cyntaf yn plygu cygynted ac y cura y gwynt arno, tra mae y llall yn gosod i fyny ei fympwy ei hun, ac nis myn ei argyhoeddi; ond y mae yn wir y dylid ymostwng i awdurdod y gwirionedd pan y ceir ef allan, a dylid meddu tymer ostyngedig wrth chwilio am dano, gan gydnabod fod yn bosibl cael goleuni a chyfarwyddiadau gan ereill; ond nis dylai y gostyngeiddrwydd hwnw beri i awdwyr gelli pob hyder ac ymddiried ynddynt eu hunain: fel y dywedir nas gwyr dyn mo'i wendid nes y dygir ef i'r prawf am y demtasiwn; felly hefyd, nis gwyr ei nerth nes dygir ef i brawf yn ngwyneb anhawsderau. Cynnorthwyr ac nid arweinwyr—cyfarwyddwyr ac nid rheolwyr, ddylai beirniaid fod; a rhaid i awdwyr feddu digon o hyder i ofyn "A ydyw y pethau hyn felly?" Mae yn wir nas dylai awdwyr ymddiried i'w deall eu hunain, ac y mae mor wir a hyny, nas dylent ymddiried i ddeall ereill ychwaith, ond dwyn y cwbl "at y gyfraith ac at y dystiolaeth."

Addefir gan bawb ag y mae o bwys am eu barn, nad oes gan feirniaid Cymru safon feirniadol—nas ceir prin ddau o honynt, yn cwbl gysoni â'u gilydd yn eu dewis-bethau a'u meddyliau—mai y cyfansoddiadau sydd yn ddiddan gan y naill, ydynt yn hollol ddiflas, ac, fe allai, yn niweidiog, yn ngolwg ereill—mai yr hyn a foddâo y naill, a fydd yn sier o anfoddâu y llall. Tra mae *un* beirniad am ddyrchafu yr athrawiaeth wir *hen* i fyny yn benaf, y mae y *llall* am ddenu sylw pawb at athrawiaeth wir *arall*, yr hon a farna ef yn fwy anebgorol. Tra mae *un* yn glynu yn rhy wresog, hwyrach, wrth *hen* ddefod a rheol, y mae y *llall* yn rhy chwanog i gofleidio rhai *newyddion*. Fel yna, yr ydys yn gweled nad oes nemawr o foddineb i'w gael ynddynt, ac fod eisiau gwneuthur un gyfyndrefn gyson, sylfaenedig ar ansawdd yr iaith, yn lle y cymysgedd mawr y sydd wedi

anurddo ein llenoriaeth, fel y gallom ddilyn rhyw drefniant rheolaidd, yn lle ymbalfalu yn y benbleth sydd yn hanfod yn ein plith, ac y mae amgylchiadau yr oes yr ydym ni yn byw ynddi—oes y darganfyddiadau mawrion—yn galw am rywbeth rhagorach nag opiniwn.

Y mae beirniadu ar waith ereill yn astudiaeth ag y gall dynion fyned yn bwysig gydag ychydig iawn o drafferth, ond mwy anrhydedd o lawer ydyw bod yn nôd i'w hergydion, nag yn perthyn i'w plaid. Iddynt hwy y perthyn dangos pa fodd y gellir gwisgo mantell Rhyddid Barn, fel "cochl malais," fel y medront guddio dagr yn ei phlygiadau, i sarnu teilyngdod, ac i goroni digywilydd-dra, trwy gymeryd iddynt eu hunain yr enw o feirniadu, pryd y dylent gofio mai nid gosod dyn mewn swydd i *ddyweyd* neu *gyhoeddi* pa un o'r ymgystadleuwyr fyddo'r goreu, yw Beirniadu! *Barnu* yw peth felly. Mae cymaint gwahaniaeth rhwng barnu a beirniadu, ag y sy rhwng *Barnyddiaeth* a *Beirniadaeth*; felly, mae cymmaint gwahaniaeth rhwng Barnwr a Beirniad ag y sy rhwng *Judge* a *Critic*. Y mae yn wir y gall pob dyn o synwyr cyffredin *ddedfrydu* yn eithaf; tra nas gall *adolygu*, heb fod ganddo *gymwysder* i hyny: wrth hyna, *awdurdod* y sydd yn gwneyd i fyny farnwr neu *judge*, a *chymwysder* y sydd yn gwneyd i fyny feirniad neu *critic*.

Dangosodd y Parch. R. Parry, (*Gwalchmai*,) raddau o'i annghymwysder i sefyll mewn swydd beirniad wrth geisio beirniadu yr Awdl hon, a'r llall hefyd. Wrth roddi engraffau o ragoroldeb yr Awdl oreu, (ys dywed ef,) rhoddodd y ddwy linell yma.—

"Am yfed ei phum afon,
I'w rho'i'n glwm am wddw Mon."

Boed ysbys iddo nad rheolaidd rhoddi cynganedd lusg yn olaf mewn cwpl cywydd, a dyma fi, fel un o gyfreithwyr D. ab Edmwnd, yn gofyn i Gwalchmai paham na thalasai y deyrnged ddyledus idd ei arglwydd, drwy ufuddâu iddo, yn lle goddef i'w orchymynion gael eu tori! Ond nis dylid

bod yn rhy frwnt ar y pen hwn; canys haws yw tynu i lawr nag adeiladu, beio na diwygio, a pho caethaf y cyfreithiau, amlaf y troseddau.

Anfonais gywydd wedi ei gyfansoddi yn broestodl, ar y testun "Galwad ar y Greadigaeth i Foliannu Duw," i gystadleuaeth Pen Lleyn, erbyn Nadolig, 1860. Eben Vardd yn feirniad, a dyma ei feirniadaeth:—"Un cywydd yn unig a ddaeth i law ar y testun hwn, ac y mae ar ben ei hun mewn mwy nag un ffordd—y mae ar ben ei hun am na ddaeth ond efe i'r gystadleuaeth—y mae ar ben ei hun am nad oes gymhar iddo yn y byd barddonol. Y mae pob llinell ynddo yn gywir ar ei phen ei hun—yn gywir mewn corfaniad, ond ei fod heb un math o odliad. Fe ddylai yr awdwr blygu i ddeddfau ei athrawon, neu ynte wneyd rhywbeth o werth fel y byddo yn athraw ei hun." Dyna hi ei dipyn beirniadaeth, ond nid yw yn werth diolch am dani. Gyda phob parch dyledus i Eben Vardd, ac odid na theilynga barch â'r blaenaf o feirdd, y dymunwn awgrymu fod dadganiad y gwr mawr hwnw o'i farn ar y cywydd dan sylw yn brawf diymwad nad yw yntau yn berffaith. Ond gobeithio y caiff fyw yn hwy na'i ragfarn, ac y gall eto weled teilyngdod mewn cyfansoddiad na chyduna â'i farn ef. Ai tybed nas gwelodd ef y dull proestiawg o gywyddu yn ngwaith y gohenfeirdd? Y mae yn debyg hyny, neu ni fuasai yn dadgan barn fel yr uchod; na'r hon nis gall fod dim annghywirach. Pe buaswn wedi tori rheolau ein hathrawon, ai tybed mai pechod anfaddeuol fuasai tori tir newydd? A oes rheolau nas gellir eu tori, fel deddfau y Mediaid a'r Persiaid, ar y pwnc? Pwy a roddes reolau i Homer a Virgil? Ai ni feiddiasant hwy dori ar hen arferion a defodau cyfansoddiad? Pa ham nad oes rhyddid i'r Cymry, fel rhyw genedl arall, fyned rhagddynt at berffeithrwydd? A pha ham na thrinir llenoriaeth Cymru yr un fath â llenoriaeth gwledydd ereill?

Nis caniateid i mi amlygu, nac amddiffyn fy ngolygiadau, yn erbyn Eben Vardd, mewn na chyhoeddiad misol, na newyddiadur wythnosol; hyd yn nod gan y rhai a broffesent eu bod yn flaenoriaid y gâd, fel pleidwyr *rhydd*

ddadleuaeth, ac fel rhai cymwys o ran *maint*, i ymdrin â materion fel y rhai tan sylw. Ond cofier mai nid y ffordd oreu, na'r feraf, na'r sicraf ychwaith er argyhoeddi dynion, ydyw i bob Golygydd *gloi* tafod ei wasg yn erbyn y rhai a wahaniaethant yn eu golygiadau iddynt hwy. Nid nychu o'r darfodedigaeth a wna *gwirionedd* drwy ei atal i'r amlwg; ond prifio yn *gawr* mewn nerth; a phan gyrhaeddo ei nôd apwyntiedig, oferedd i'w wrthwynebwyr sefyll o'i flaen. Dyma ran o lythyr a dderbyniais oddiwrth y Parch. R. Ellis, (*Cynddelw*,) o berthynas i'r cywydd crybwylledig :—

Sirhowy, Ionawr 16, 1861.

Anwyl Gymrawd:—Dywed *Cyfrinach y Beirdd*, tudal. 105, "Yng Ngwynedd cenir cyplau Cywydd yn broestodl; eithr nid rhywiog hynny o ganu." Gwelais Gywydd o waith W. Cynwal ar y dull hwn o ganu, ond nis gallaf ddweyd yn awr yn mha le; tybiaf mai yn y *Cylchgrawn* a olygid gan Blackwell, ond nid yw hwnw yn bresenol yn fy ymyl. Nid wyf yn meddwl fod y dull proestiawg o gyfansoddi Cywydd yn werth trafferthu llawer i'w ddilyn, eto mae genych "awdurdod" i wneyd hyny os mynwch, yn amgen ni feiddiwch Gywyddu yn mhob dull dichonadwy. Nid i un mesur neilldu o'l y perthyna Proest, ond i ba fesur bynag y byddo y dull hwnw o odli yn gweddu. *Ond mae yn fesur arbenig pan genir Gorchan arno.* Trowch i *Tafol y Beirdd*, tud. 85, tybiwch fod un o'r Gorchanau yna yn odli yn Broestiawg, yna newidiant eu hansawdd a throant yn fesur gwahanol, sef Proest Cyfnewidiog neu Gadwynog. Os bydd deufan Cywydd yn proestio yn fwy naturiol na Chywyddodli yn y dull arferol, y mae Braint a Rhyddid y mesur yn eich awdurdodi i ganu felly, neu os bydd cywreinrwydd neu ddifyrwch yn eich tueddu i ganu felly; gallwch ei wneyd fel yr arferir Cymeriad Llythyrenol, neu Drych-hollti, neu Orchest y Beirdd, neu rywbeth cyfunhyd. Mae mwy o engraffau o Broestiaw ar wahanol fesurau yn *Nghyfrinach y Beirdd* nag sydd yn *Nhafol y Beirdd*, ond y blaenaf yw sail yr olaf bron bob amser.

Fy amcan i oedd crynhoi engraffau o bob modd dichonadwy i ganu y gwahanol fesurau, fel na byddai cymaint o achos i achwyn oblegyd caethiwed a chyfyngder y Rheolau. Dymunaf i chwi lwydd yn eich gyrfa.

Yr eiddoch yn gywir,

Myrddin Fardd. R. Ellis.

Nid yw danod beiau yn orchwyl hyfryd mewn un modd ; end gan fod yn hanfodi gymaint o annhrefn, y mae yn hen bryd ymwroli; er nad oes un anmheuaeth yn y byd nad oes dirgeledigaethau dyfnion a phwysig iawn yn cael eu dadlenu—y mae y caddug yn ffoi—y niwl yn cael ei wasgaru, a theyrnasiad y nos yn darfod, a'r gorchudd yn cael ei dynu oddiar wyneb gwybodaethau rhyfedd a gwerthfawr; ac yr ydys yn feddianol ar awdurdod a hyfforddiadau da, ond fel y mae beirniaid yn eu cam drin, megys ag y cymer y naill olwg wahanol i'r llall, felly hefyd y siaradant yn wahanol. Dyna hen ramadegwyr godidog, a rhai diweddar hefyd, yn ein dysgu beth yw beiau gwaharddedig cerdd dafod, a dyna feirniad yn nanedd y ddysg hono yn condemnio llinellau, ac yn llunio beiau lle nad oes beiau! Dyna Caledfryn yn dweyd mai *haner proest* yw

"A gaf fi eich cwmni cu?"—*i*, *i*, *u*;

pan, mewn gwirionedd, mai *dybryd sain llafarog* ydyw. Dywed Nicander mai "*cynghanedd fantach*," ac hefyd "*yn gynghanedd groes rywiog ewineg*," yw y llinell gywrain—

"Dy ddwys fad ddeisyfiadau,"

tra nad yw na "*chynghanedd fantach*" na "*chynghanedd groes rywiog*," nac "*ewinog*" chwaith ; ond yn *gynganedd lusg*, ac yn *gynganedd groes o gyswllt ddisgynedig*. Yr ydys wedi gwneuthur y sylwadau blaenorol, nid er mwyn hybu y beirniaid, ond er mwyn y Bardd-efrydydd ieuanc yn unig.

Gadewir yr Awdl i ymbwyll y darllenydd, heb rwgnach na beio dim o herwydd colli'r dydd yn yr Eisteddfod, a chroesaw i bob un ddyweyd a fyno am dani. Gwn y dywedir llawer—llawer yn ddiau gan *Feirdd* a *Llenorion* deallus, llawer gan *Grach-feirdd* a *Chrach-feirniaid*; ond gwan a disylw y cyfrifwyf gyhuddwyr, y rhai a ymhyfrydant weled ereill dan y gyrdd, eithr nis mynant ddisgyn i'r maes eu hunain, rhag peryglu eu penau yn y frwydr. Nid y crochlefwr uchaf neu yr amlaf ei eiriau, eithr yr ymresymydd cywiraf, yw yr ymdrechwr goreu mewn brwydrau llenyddol. Y mae yn wir mai'r darllenwyr y sydd i farnu o

barthed teilyngdod yr Awdl; ac wrth eu brawdle hwy mae i sefyll neu syrthio; ond amser a bwysa bob ysgrifenydd a'i ysgrifau yn ddiduedd, ac a esyd ddedfryd yn ol yr haeddiant priodol. Nid oes eisiau ymbil am nawdd neb yn ngwyneb amgylchiad fel hwn pa bynag; y mae hyny yn rhy wasaidd mewn awduron, dylent fod yn ddigon o nawdd iddynt eu hunain. Teilyngdod ei waith yw y nawdd goreu all awdwr gael. Y mae gwir deilyngdod yn anorchfygol; ac y mae annheilyngdod yn beth nas gall na senedd na llys, na synod na chymanfa, ei ddal i fyny yn hir.

Er mwyn y darllenydd cyffredin, buasai yn dra dymunol fod nodiadau ar luaws o bethau a grybwyllir ac y cyfeirir atynt yn yr Awdl; ond gan y chwyddai hyny y llyfr i faintioli mwy nag yr arferir i lyfr gogyffelyb fod, rhaid ymfoddloni hebddynt.

Wrth farnu ereill, nid wyf yn annghofio fy mod fy hunan yn agored i farn, a dymunwyf bob llwyddiant mewn cysylltiad âg ysgolheigdod Brythonaidd. Encilied y rhwystrau yn fuan—lluosoged y rhagoriaethau yn gyflym—diflaned y beiau yn llwyr, a llanwer y diffygion o'r bron; yna bydd llenoriaeth ein gwlad yn deilwng o "Gymru, Cymro, a Chymraeg."

Yr eiddoch, ddarllenwyr goleuddawn,

Gyda phob dyledus barch,

Ebrill 17*eg*, 1862. MYRDDIN FARDD.

AWDL
MYNYDDOEDD ERYRI.

Mynyddoedd yr Eryri,
Uched eu hafrifed fri;
Hwy o gôf nis annghofir
Tra Cymry, bydd hyny 'n hir;
Lluosog ac enwog ynt,
A nerth yn dirwyn wrthynt;—
Trumau eu breiniau o'ent brif,
A rhy dàl braidd i'r dylif.

Llinunwyd hwy oll yn unwedd—i gain
Gynwys pob rhyw symledd,
A mawreddog yddfog wedd,
A chreigiau crychwawr agwedd.

Goludog uwch y gwledydd—oll ydynt,
Lledu maent bwygilydd;
O'u trem, daw i wych dremydd,
Fôr di drai myfyrdod rydd.

Mae haeledd eu delweddion,—ac amledd
Cymhlith eu helyntion;
O'r braidd yn dangos ger bron
Fawredd yr hen arferion.

Mynyddoedd Gwlad fy Nhadau,
Eu bri hwynt a wna barhau,
Heb ddarfod mewn bod am byth,
Ardaloedd erfawr dilyth;
A'u hybarch geinion ebyrth,
Dan gribawg a banawg byrth;
Ar led yn dra mawledig,
Uwchlaw bro uchel ei brig;
Yn gedyrn—yn orhynod,
Mewn bythol henafol nôd;
A thrumau eu breiniau bron
Yn ngolwg bro'r angylion;
Mewn gwydrawg belydrawg lain,
Enwog geurydd yn gywrain;—
Dyna fan ar gàn gynnydd,
Bro y dawn, hi bia'r dydd.

Y llygad nis gall agor—a sylwi
Is haul ar well goror,
Ys teg yw, mae'n llawn ystôr
Dewisawl a dieisor.

Hi yw nerth a chyfnerthiad,
Neu galon lawn glŷn y wlad;
Cain adail i'n cenedl yw,
Mur odiaeth Cymru ydyw;
Gorwychder—balchder y byd,
A nefawl drigfan hefyd;
Lle o dawel neillduedd,
Llawn tlysau rhagora'u gwedd;
Lle am dro yn gwisgo gwên,
A lle i fod yn llawen;

Lle swynol o fywiol faeth,
I chwyddo llyfr Achyddiaeth ;
Brodir weeh lle bu hir drig
Ein hen dadau nodedig,
O swn y byd camsyniol
A hen ffyrdd arferion ffol ;
I gael pob unigoledd
Uwch ein byd mewn hyfryd hedd,
A phob rhad ddylanwadau,
Effeithiol nôd gwrol, nid gau.
Hyny a fu yn y fan,—uwch llenyrch,
A theg gynnyreh cyfoethog anian.

Mwyneiddied ein Mynyddau—wybrenol,
Mor ryfeddol ! eu hamryw foddau ;
A'u banerawg benau oerion—yn fawr,
Yn fwy cryf na'r hinon,
Uchel hwy, nid uwchlaw hawl,—meib enwog,
Cawri hedegog crëadigawl.

Tlws pob carn welir arnynt,
A gwell wedi'r oesau gynt,
Tlysion drumau, parthau pur,
Hynotaf ar faes natur ;
A'u lluniau mewn dull hynod,
Yn lluniau cornelau nôd ;
A'u rhif yn dra afrifed,
A'u grym yn orchest i gred ;
A'u hwyl byth uwch heli bant,—
Yn oesol y teyrnasant :
Tra chyffredin fod rhinwedd
Yn gry' iawn lle bo hagr wedd.

Trem ysgythrog garegog eu creigydd
Banawg a welir o ben bwygilydd,
A'u cyrch hyglodus goruwch y gwledydd,
I lawer maenol—o lŷr a mynydd,
Yn ochrau serthion, geirwon amgaerydd,
Neu uthr ŵg aeliau, anferth rigolydd;
Muriau cyfunawl, môr, ac afonydd,
I'r llu anwyl sy'n gyru llawenydd:
Gwylltion adar hyd eu gelltydd—sy'n bod,
A llyna y milod yn llanw'u moelydd.

Dyry rhai'n brif iawnderau—darfelydd,
Drwy fil o engraffau;
Rho'nt yn rhydd eu clodydd clau,
Er addurn i'r mawreddau.

Hyd garneddau golau gant,
Arwyddion mŷg orweddant
O wir ôl rhyw freiniol fri,
A ddeil i'w dragwyddoli;
A thros lethrau'r creigiau crôg,
Y creigiau ceirn caregog;
Llifddwr cadr sy'n rheiadru,
Yn hydrwyllt, taerwyllt, bob tu!
A'i uchel lais croch, uwch law
Yn agwrdd wyllt ffyrnigaw;
Ni erys—rhed yn hyrwydd
Heibio, seinio yw ei swydd,
O'i serth nen gan syrthio'n ol
I'w rydau anwaredol,—
Mor ddwys yr ymarllwysa!
Is ael nant ryw sisial wna;

Ar seiliau o risialwaith,
Drwy wiw dud—myn'd ar ei daith,
A'i ffrydion yn llon eu lliw,
O'r un eiliad arianliw.

Mae adnewyddiad i wedd—y rheieidr,
Tra'n rhuo cynganedd,
Cu hyfrydwch cyfrodedd,
A gwynfyd uwch byd a bedd.

O Eryri fawr eres,
Ceir mwynder, lleufer, a lles;
Mae'n fangre gu, lle bu'n bod
Lluaws o eirth a llewod,
Lle tyf hesg, dilesg dewlwyn,
A gwellt glâs, neu ryw frâs frwyn;
Goramlder mal sêr y sydd
Yna o bob dywenydd.

Crôg lethrau'r creigle uthrawl.—a'u mil myrdd,
Demlau mawr crebachawl;
Y maent yn rheiadru mawl
O nodwedd cynenidawl.

Fynyddau erch ardderchog,—o eu mewn
Y mae gwerth godidog,
A'u ffiniau'n barthau berthog,—ac yn rhydd
Ochrawg elltydd, a chreigiau holltog.

Am greigydd mae'n ymgrogi,—ogoniant
Cu gwenawl eu tlysni;—
Prif anian—syfrdan mawr sî
Yr Aran a'r Eryri.

Uchel-grog oesog wir wregysau—serth,
Ansyrthiol golofnau,
Uwch nentydd, uwch cymydd cau,
Yw eu llawr llawn allorau.

Ymwyra wrth eu mawredd,—hen hyglod
Binaglau tra rhyfedd:
Ceir yma felusaf wledd,
I athroniaeth a rhinwedd—
A phurder, eglurder glân—
Ymloni yn nheml anian,
Rhwng creigiau ogofau gwyllt,
Creigiau erfawr caerogwyllt.

Eu gwên a'u mawr lawenydd—eu sylfaen
A'u preswylfod llonydd,
Yn denu serch dyn y sydd,
Neu loni y darlunydd.

Mynwesau heirdd eu trumau hynawsion,
Huda'r nifwl o ddoldir a neifion,
I'r uchelderau ar iach hwyl dirion,
Gyda'r peraidd ëolaidd awelon;
Ar ogwydd hwnt o'r eigion,—i drigfa
Tyrau oer eira, cartre eryron;
A throsolfawr uthr sylfon—llawn trysawr,
Neu deyrnau dirfawr cadernyd Arfon.

Nid oes gyfrif ar nifer
Amrywiau y parthau pêr;
Lle tirion, sy'n llon wellâu,
Uwch gelltydd, nentydd hwyntau;

Lle enwog prif ieirll anian—hynodawl,
Lle rhew oer durawl, lle rhua'r daran.

Hyd-ddynt fe fydd—bydd yn bod
Eiry tew,—ail i'r tywod;
Niwl o'u tu, manwlaw tywyll,
Tan nef gant, â'n fwy eu gwyll!
Neu ambell gwmwl dwl yn dô,
Yn ymliwied am wlawio;
Ac wedyn adsain cain, cu,
Tinc ensid nwyd yn canu
Rhyw oian oroian rydd,
O foliant dihefelydd;—
Arwyrain leinw'r oror,
Drwy wythi isder ei thôr.

Acw o aml haenau cymylau hunant,
Eu haur gydunau rywieg adwenant;
Yn eu lliw gwreiddiol, felly gorweddant,
Yna yn odiaeth iawn y newidiant;
Dan eu pwys hwy orphwysant,—ac o'u hol
Y rhed gwahanol wrid o ogoniant.

O! dudwedd ein cyndadau—Eryri
Oreirian a'i Bryniau;
Y maent dan anian wênau,
Ac achles gynhes, aid gau.

Dyry trem eu rhandiredd—fyw ddelw
Ar feddyliol duedd;
Seiniant glod hynod, a hedd
Gref alaw mewn gorfoledd.

Mae'r Wyddfa noddfa neuaddfawr—yn nef
O henafol drysawr,
I'n Mynyddau mwyneiddwawr,
Hi sy fel brenines fawr.

Teg uwchlaw yw'r Wyddfa wèn,
Tragywydd trig ei hawen;
I'n gwlad hardd mae'i golud hi,
Ymerodres mawrhydri;
Fe geir o hon Banon byd,
Awyr iach i roi iechyd;
Eurbawl ydyw o hirbell,
Rhin i wynt a'i haer yn well;
Diodid màn tra dedwydd,
A thrigfa'r cawr *Rhitta* rhwydd.

Hawddamor iddi le gwrdd mawreddog,
Tra'n gref warcheidwad i wlad oludog,
Paenes ein gorawr, pen iesìn gaerog,
Neud i wehelyth, Brython dihalog;
Hardd ei golygfa—mae'i dull bwäog,
Yn rhoi i'm gwydd ryw arwydd eryrog,
O fawr anrhydedd glanwedd bri gleiniog,
Bywyd o alar a byd tawelog:
Hon ydyw'n prif goronog—aerwriaeth,
Hi bery'n benaeth ein bryniau banog.

Wele'r Trwsgwl fel cwmwl uwch cymau,
A'n Bera uchel, enw bair ochau,
Carnedd y Filiast, gast llawn o gastiau,
Carnedd Dafydd, garenydd gu riniau,
A Charnedd Llywelyn, bryn y breiniau,—
Mynydd wrth fynydd, lle mae cuddfanau;—

Y Foel Goch lechweddgam, a'r Foel Famau,
A'r Tryfan iachus, cartref hen achau,—
Moel y Cyngorion, lle bu aml ddoniau
Brwd a llawen uwch ben y cribynau,
Trum y Ddesgil, erch fangre'r enciliau,
Lle a'i nodwedd yn llawn cynlluniadau;
A llym ael y Moelaeliau,—teg ei wawr,
A'r Llwytmor, neu Llwydmawr gawr cryf gaerau;
A Chraig-cwm-dulyn, ferwyn oer furian,
Yn nghyda'r Eifl, y geifl, neu y gaflau;
O Leyn yn dilyn hyd lanau—tlysion
Y Gonwy'n dirion deg anian-dyrau,
A gwelir drwy gu olau—natur-ddrych,
Eu llynoedd llonwych yn cerfio'u lluniau.

Trwy y lleoedd tra llawen,
Gwawr a geir—puredig wên;
Hyd eu maes, a blodeu mêl
Er iechyd i wŷr uchel,
A chryfach swyn—gwell mwyniant,
Na dyn, na thelyn, na thant.

Ceir pur ddwsmel cynhes awelon,
Ar loew gyrau eu haraul goron;
Tra byddo creigiau, muriau mawrion,
Y' mhau Eryri fel mae'r awrhon;
A cheir gwledd i fawreddion,—hardd eu gwedd,
Amryw fonedd welir mor fwynion.

Hyd seddau y tylau teg,
Hwy rodiant lawer adeg;
Pan dremiant canfyddant ferth
Liwgar fangre oleugerth;

Golygfa, dyna a'u dwg,
Tros heli traws; i olwg
Rhyw flodeu rhif o wledydd
Toreithiog, rhywiog, a rhydd;
A'r derfyngylch harddgylch hon,
Cael a wnaiff wrês eu calon;—
Heb ddim cêl hwy gant weled
Yn droell gron daiar holl gred;
Anamlwg olwg welant,
A gwech olygawd a gant.

Tra'r wybr uwchben lèn lonydd,—yn ei glâs,
Yn glir ac ysblenydd;
Rhyw dremiad mawrhad mwy rhydd,
Gwelir i gŵr bwygilydd.

Gwelir bryniau, heirdd ffynonau,
Gloewon rydau, glân a redant;
Ac agweddau prydferth lwybrau,
Yn eu blodau wynebledant;
Moeliog drumau, a phob ffrwythau,
Ar y cangau eurog hongiant.

Malpai palasdai ger Palestin,—hardd
Yw'r gwyrddion goed iesin;
Grym ddwg eu galluog rîn,
O râd wobrwy Ner dibrin.

Ymweliad geir o'r Moelydd,—ar Arfon,
Yn rhyw orfalch dremydd,
Gwawl ogylch i'r golygydd,
O fawr werth yma a fydd.

Mae delwau a grym hudolion,—danynt
Yn denu golygon;
Defaid ac ychain dofion,
Heb rif hyd bob twyn a bron.

Gwelir draw hyd Gantre'r Gwaelod,—y dwr
Wedi'i doi yn ddifrod;
Gorsedd fawr ac Eisteddfod,
Yn y bau fu gynt yn bod.

Aruthr oedd goruthr y gerwin—orllif
Yn arllwys i'w chyffin,
Drwy byrth glew'r de-orllewin:
"Gwae y traha gwedi gwin."

O Sarn Badrig hyd Gricerth
Y caed y rhyferthwy certh,
Drwy'r Dyffryn i'r Tywyn teg
Ewynai y werdd waneg;
A gwelir lle Tre'r Gwaelod,
Oedd bau ferth, heddyw HEB FOD.

Hynod yw rhyfeddodau—hudolus,
Y dalaeth a'i breiniau;
Hyd ei bron ceinion sy'n cau,—
Bythod a mil o bethau.

Y corsydd, gweunydd, a'r bronydd bryniawg,
Ac echrus ochrau gàr creigiau crugawg,
Wnant ddwyn ffrwythau, da ydau godidawg,
Drwy y gwaelodion yn dra goludawg;
Hwy roddant bob mawreddawg—gynnyrchion,
I fyw anneddion Arfon fynyddawg.

Beilch adeilion, glwysion deg lysoedd
O fawr uchtwr, tŵr o bentyroedd,
Prydferthwch, cyd-degwch, coedwigoedd,
Neint syberw, berw aberoedd,
Sydd yn drylon fawrion niferoedd,
A sawr eu diliau dros ardaloedd;
Byw wrês odd eu mynwesoedd—ymreda
Eu bri nofia tan wybren nefoedd.

Ail i benau Lebanon,—mewn addurn,
Yw Mynyddau Arfon;
Ac aeliau teg y wlad hon,
A mawredd Idris Meirion.

Caersallwg, fe'i ceir i syllydd—heb 'storm,
Heb ystŵr o'i geurydd;
Gwir engraifft i'r Aifft a rydd,
O'i chost oll a'i chastellydd.

Gwemp yw'r olwg o gwmpas,
O fron i fron pob lle'n frâs,
Drwy gylchion Arfon erfai,
Neu ogylch Mon y Gwalch Mai;—
Hen Eifion a Meirionydd,
Beunyddiol yn siriol sydd;
Eto gwych:—mewn trefniant cain,
O gŵr i gŵr yn gywrain,
Ceir gweled hyd a lled Lleyn,
Ei moelydd a'i maen melyn;
Ymyl Mon am ael Menai,
Ei drych, ei gwenau di drai;
A Chonwy aerwy eurwedd,
Am ei hawl, sef mwy o hedd.

Ceinion dillynion llonant—y golwg,
A'r galon a foddiant;
A godidog y dodant
Bob lleddf mal y dileddf dant.

Uchel odiaeth yr ymchwiliadau—fu,
O fewn y Mynyddau;
Ar hyd y cyfeiriadau—fe geir ôl,
Y byd odiaethol a'i wybodaethau.

Yma 'n ngwydd haul bu amod,
Byw urdd a chyngrair yn bod;
Odlau mâd fal diliau mêl,
Nodau esmwyth fal dwsmel;
A sain goeth yn swyno gwyr,
Neu bawb o anian bybyr;
A'i thôn yn llawn gwîn a thus,
A nawsol wlith Parnasus;
I foddio meib cyfaddas
Wnae urddol drin barddawl drâs;
A gwasgu'r fraich—gwisgo'r fron,
A glwys addurnau gleision,
Beirdd nid bâs, uwch Horas hên
Foreuol a'i fawr awen,
Llawn ysbryd hyfedr diledryw,
Ysbryd di feth y peth byw,
Wnaent bill nes ynill y sedd,
I forio mewn rhwysgfawredd,
Ger hardd gylch odidog ri,
Ar oror heu Eryri.

Caed yma wledd meib gorseddog,
Drwy eithaf dawn â llawn llôg—

Dysg, a donian disgywen,
A goreu llais y gwŷr llên;
Nid anfri, mawr sî a sôn
Teulu gwrachaidd talgrychion;
Cri aweh arswyd croch oerswn,
O big aderyn y bwn;
Yn canu corn dilorniant,
O gecrus anfelus fant;
Yn waeddgainc ffol ffieiddgerdd,
Neu wehilion cwlion cerdd;
Na dim rhigwm larwm lol,
O siarad annghysurol.

Mwy o fôr eu myfyrion,—a ddelo
Yn ddilesg i'n beirddion;—
Cariad oedd perl eu coron,
Ddiwyd lu, lleirfryd, tra llon;
A gwenau ar eu gwyneb,
Nid erfyn yn erbyn neb;
Dyna 'u bryd—eu hysbryd hwy,
Y'nghyd fydd annhrengadwy;
A saif eu gwaith sywfyg i
Oes tywod heb ddystewi.

Defod dra hynod oedd hon,—hen arfer
Erfai gan y Brython;
Gyda'r tanau—lleisiau llon,
Profi cân—prif acenion.

Gwresog oedd y gwersi gynt,
Delweddau hudol oeddynt;

Heb ysgothach, sothach sur,
O anmharch na dim anmhur,
Neu ffol ansiriol soriant,
O chwydd rhyw faleisus chwant;
Mal doethion gwychion eu gwedd,
I'r Omeraeg;—er mawredd,
Purach a hwy y parch oedd,
Didawl y caniad ydoedd;
A'r prawf a fu o'r prif-feirdd,
Marwol ac anfarwol feirdd;
Tra'n gymaint mewn braint a bri,
Am fawredd yn ymferwi
O waelod calon ddilyth,
A'u cân yn fyw, bydd fyth fyth.

Yn eu deddfau, llithiau llên,
E ruai rhaiadr awen;
Gan ddyrchu, emynu mawl,
A mawredd annghydmarawl,
Y gwŷr hyn, mewn gwirionedd,
Sieryd wrth y byd o'r bedd;
Gwefreiddiant drwy gu froddion,
Hynaws fryd pob cynhes fron;
Nes uno hen oesau'n ol,
A swyn yr oes bresenol.

Oedd yn bod i'w hanfodion,—awdurdod
Yn dwrdio crach-feirddion;
Nid hud na golud gwaelion;—
Bwyell aur, na bu well hon.

Pwys nerth oedd eu campus nôd,—hwy safent
Wrth gysefin ddefod,
Uwchlaw mewn mawredd a chlod,
Eangder o deilyngdod.

Y mae'n addas ein Mynyddau—i gael
Gweled ymchwiliadau,
Meib iawnedd mewn rhinweddau,
Bob tipyn berthyn i'r bau,
Nas gŵyr ond ei hanes gynt,
Neu arwyddion p'le'r oeddynt:—
Ond tra cân a'i thân drwy'i thîr,
Olion a fu a welir:—
Mor drather! ffurf cymeriad
Hen arferion gloewon gwlad;
O'r oesau oedd i'r oes hon,
Sefyll y mae eu safon;
Yn golofn ordlofn urddiad,
O'r hen ddull, a'i ddewrion rhad,
Sydd eto'n dwysaidd ateb,
Yn uwch—yn dalach na neb.

Mawredd bro Wynedd a'i breiniau—oeddynt,
Heb addurn i'w temlau
Agored a digaerau,
Tan fendith gwlith y nef glau.

Mawr oedd amlder arferion—anhyblyg,
Yr hen bobloedd ddewrion;
Gwŷr o alwad—gwrolion,
Ro'i fâd wefreiddiad i'r fron.

Tremia hiraeth tra marwol,
O'r dydd hwn, i'r dyddiau'n ol ;
Wrth sôn am y dynion da—
Teilwng ddynion GWYLLT WALIA ;—
Rhawd eu swyn, a'u hyfryd sî,
Oreurodd grib Eryri.

Camwri nis cymerynt—er undyn,
Pur iawnder a fynynt ;
Yn mhob hwyl ac yn mhob hynt
Am ryddid cyd-ymroddynt ;
I gadw'n braint gyda'n bro
Yn bur, a'n iaith heb wyro,
Er tristwch trwch ;—yn eu tra
Wyneddfawr wiwgu noddfa ;
Ni allai bâr na thwyll byd,
O safle'r gwir eu syflyd ;
Ond hwy a fyddent o hyd,
Yn hyf, yn wylaidd hefyd.

Bryntion rai fu'n dwyn eu breintiau—penigamp,
Yn y gwyllt anneddau ;—
Gwyr anraslon, geirwôn gau,
Mewn awydd i'r Mynyddau.

Gwenau pur a holl ogonedd—eu bri
Boreuol, a'u tlysedd,
Agos fu, trwy eiddigedd
Rhai beilch, a syrthio i'r bedd.

Yma gwelwyd, canfyddwyd cain foddau,
Eithaf ymbwyll ein didwyll hen dadau ;

A chwyl odiaeth eu holl ymchwiliadau
Rwymai yr enaid a grym eu rhiniau,
Yn heirdd Ofyddion, Beirddion, pob urddau,
A glân Dderwyddon gwynion ugeiniau,
Dan râd erchion yn dwyn eu heurdorchau,—
Arian edaf—a phob addurniadau,
Mewn hedd oll yn cael mwynhau—eu hoff drig,
Ac eu hurddedig ddwys gyrhaeddiadau;
Rho'ent ebyrth pêch ar gromlechau,—er dâl
Anian a dial anwn y duwiau.

Traddodiadau o defodau
Arferiadau mawrfri hudol,
A fyfyrient ac a barchent,
Lawn astudient yn wastadol.

Adwaenent gyneddf dynion,
Yn eu pryd a'u gwyneb bron;
Profent, eglurent yn glau,
Lawn, fythol henafiaethau;
A gwyddent bob egwyddor
Fu ar fyd o fôr i fôr,
A chael a wnaethent bob chwedl
O gynhwys côf y genedl;
Neu deithi syml (doeth yw sôn,)
A'r hybarch ddiarebion;
Hanes hen Gymru hynod,
Ei chlwyf, ei gogan, a'i chlod;
Hanes ei dewrion heini,
A sut llawn ei chestyll hi;

Hanes pob rhai a hunodd,
Eu deall mawr—dull eu modd,
Arwydd y meini hirion,—
Y Grwth—rheolau'r Ford Gron—
Gwydion ab Don dywynwawr,
Yr ëorth Fuwch a'r Arth Fawr—
Graddau eu llu goraddien,—
Doethder eu lleufer a'u llên;
Yn enwedig y pigion
O feib yr awen lawen lon,
Beirddion o'ent lüon wnaent les,
Beirddion o fŏn y fynwes.

Mae hanes grym eu henwau—'n gerfiedig
Ar fud gof-golofnau;
Nid fel plant gogoniant gau,—
Mawrion ceryg y muriau.

O! Eryri arwrawl,
Wyt ar dân o fywlan fawl;
Yn fawr gywreinfawr gronfa—henafiaeth
A'i nwyfiant di draha;
Yn haeddfyg amgueddfa—brodorion,
Tra gwiwlon tir Gwalia:
Ond wele'n awr nid oes delw neb—fu,
I lawen wenu ger heuliau'n wyneb.

O'r golwg aethent drigolion—heinïf,
Huno wnaent yn feirwon;
Ond o'u hol gynoesolion,
Mae colled fawr yr awr hon.

Hynodol yw'r cyfnewidiad,—a wnaed
Yn eu holl breswyliad;
Nid mor iawn na llawn mor llad,
Trofa eu hen gartrefiad.

I'r llawr aeth yr allorau,—a defion
Dyfal y cromlechau;
Pob maen gorsedd clirwedd clau,
Anhuddwyd dan garneddau.

Ië, ië, pelrhe pyd,
Drostynt daeth dirfawr dristyd.

Rhyw olion mawrion a muriau—gorerch!
Hen geurydd a themlau;
Ymgrogant uwch llwm greigiau—gan ddweyd rhin,
A mawredd iesin myrdd o oesau.

Dengys yr echrys ochrau,—oes y trin,
A'r estronol lengau;
Ceir i'w llawn, ffyddlawn goffâu,
Ryw olion ar yr aeliau.

Llawer o fawredd yn llwyr a fwriwyd
I annghof lwch, a thegwch waethygwyd,
Uchelion dyrau yma a chwalwyd,
Ac adeiladau yn ddarnau ddyrnwyd:
Rhyw ddinystr caeth a wnaethwyd—gan ddynion,
Bywydau llüon chwaith nid arbedwyd.

O amgylch bu cryn ymgais,
Uthr rwysg rhwng iawnder a thrais ;
Aruthr wŷr yma wrth raid,
Yn trin y brwnt estroniaid ;
Blith draphlith yn ymrithiaw,
Mathru oedd yma a thraw ;
Nes creu storom drom ei drych,
Hyd wynt-rwyll hynod, entrych ;
A'u mŷg arwyddion yn mhob màn,
Byddinoedd, boddai aniun ;
Grymusion llymion yn llu
Calonog yn cilwenu ;
Heb ofn cryfder, hyfder hoedd,
Ymnoddent mewn Mynyddoedd ;
Mewn dewrder, mewn awdurdod,—
Ymladdfeydd am lwydd i fod,
A hawliau iawnderau dyn,
Trwy galed ddistryw gelyn ;
Ac oedd llawryf cleddyf clod,
Yn werth maes wrth ymosod,
Mynu braint, marw mewn bri,—dyrchu bàn
Brig oer arian berwig Eryri.

Y rhuthriadau, a'r uthr athrodion,
Egr a chraslyd griau echryslon,
Rhwng estronwyr, Brithwyr, a Brython,
A dderchasant ryw ddir achosion ;—
Anturient gedyrn dewrion—ryfelwyr,
Llüeddwyr, gwylwyr o un galon ;
A chwalent wrach-wehilion—i fyd cwymp
Asbri odwymp anwfn ysbrydion.

Medd traddodiad ardderchog y tadau,
Yn Nant Ffrancon bu luddon ymladdau,
" Duwsul pryd pulgant," a thyrfiant arfau,
A saethu asgellawg folltawg folltau;
Ac yno llanwodd milwyr gynlluniau,
Yn gawri beilchion gan agor bylchau;
Ac adlefynt, nes crygynt lais creigiau,
A llafar awyr gan eu banllefau:
Daiaren tyngedfenau,—oedd tiredd
Y tudwedd enillanedd ein teidiau.

Dewr a dewr wnae wrthdaraw,
A'u llid fel mellten o'u llaw;
Wrth orfod rho'i cernodion,
I gawri braisg egr eu bron;
A lluchio—hyrddio o'u hawl,
Asgenweilch goresgynawl;
Yn wyllt fel awel o wynt,
A dwrn at-daliad arnynt;—
Trechaf treisied—gwaedded gwân,
Hyny oedd trefn eu hanian;
Mewn ing ac yn mîn angau,
Am euog wŷr yn ymgau
Bu i'w cael rai llawn gwaelod,
Cawri o nerth sicr eu nôd;
A dewr i wrthladd dewrion,
Ond bod gresyndod y sôn;
Drwy gyneddf a greddf ddi gryn,
I gilio y drwg elyn;
Gwedi bod mewn gwŷd a bâr,
Mewn agwedd drom, anhygar:

Rhyfeddol oedd yr olwg—gwel'd pob grâdd,—
Glewion yn ymladd, a'u gâlon yn amlwg.

Syndod, O! orfod yrfa,—gwel'd ar g'oedd
Filoedd ar filoedd yn hyf ryfela,
Y glewion hyllig lüoedd—ni rusent
Namyn trywanent âlon mewn trinoedd,
Dwyn eu gwlâd yn gloedig—nis mynent,
Eithr hwy wylent dan ormes gythreulig.

Mor agwrdd y mawr wgu,
Gan frwydriaid tanbaid bob tu;
Oedd a'u dullwedd mor orwyllt,
Ar flaenau'u traed mewn gwaed gwyllt;
A'u mawr sŵn a'u hamryw sî,
Ar wared o Eryri;
Mynyddoedd llwm yn oddaith,
Sy dystion gwychion o'r gwaith;
Hwy dystiant—tystiant eto;
Trwy brawf a natur eu bro:—
Am groch dwrf hen ymgyrch du,
Eu llif oer mae'n llefaru.

Dyna'r fel y bu helynt
Naws a gwedd hen oesau gynt;
Ond heddwch, heddwch! ha, ha! gwedyn gaid,
Bro y gwroniaid yn ewybr gorona.

Tra byddo craig uwch craig yn crogi,
Clau gynnyrch yn holltau'r clogwyni;

Tra sêr hylym yn tèr sirioli;
A rhinwedd anwyl yn gorhoeni;
Boed gwychder, brasder a bri—mawreddawl,
Ar awyrawl Fryniau Eryri.

Cysgodant ein gwlad â grym eu rhadau,
Ac uchder echrus gorwgus greigiau;
A llyna heddwch drwy 'u holl aneddau,
Yn lle bloedd fel cynt oedd o'u cynteddau;
A lle bu'r pypyr ddifyr gynt ddefau,
Dyeithriaid folant eu huthr adfeiliau;
Mae'n anwyl genym ninau—eu breiniol,
Ac eu rhinweddol wahanol heiniau;
Lle ceidw'r Ior drysorau—a fyddant,
Eto o lesiant i blant oloesau.

Gwneir agor eu cudd ddorau,—er gweled
Dirgelwch eu coffrau;
Trethir drwy anturiaethau,
Oludoedd eu celloedd cau.

Llyma brif wledd i Brifon,—ac hefyd
Cyfuwch i lenorion;
Dengys iaith waith y Brython,
Fo byth ddi-annghof o'u bôn.

O hen ddiffynfa hynod!
Ddyogel le mawr dy glod;
Dy barch ac uchder dy ben
A fagodd drwm genfigen;

A'r byd terfysglyd a fu
Am danat yn ymdynu.

Per arogl pau Eryri,
Yn rhodd eneiniodd i ni
Gerfluniad, darluniad o'n
Dirif lueddwyr dewrion,
Sy tan bwysau llènau llwch,
O gyraedd pob hawddgarwch.

Unrhyw fan ni rydd well anrheg—uniawn
I'w enwi'n ychwaneg ;
Yn lle'r arth y pawr gwartheg,
A'r ŷch tal gyda'r march teg.

Tra tir coeth, tra byddo doethion,—a haul
Yn heulo ar wenfron ;
Tra byw Rhyddid, tra Beirddion,
Hygar le fo'r fangre lon ;
Ac ar ei sedd eistedda,
Ei bri hardd hyd byth barha ;
A'i gwir hanfod hynod hi,
A rhediad ei mawrhydi,
A fu, sydd, a fydd yn fawl,
I'w brodir wech baradawl ;
Cartrefle teg anrhegion
Y gwâr fryd a'r gywir fron ;
Gorseddau a bànau beilch,
Mynyddau y mwyn eiddweilch,

A bri eithaf y Brython,
O'ent fel dur yn bur o'r bôn,
Yn Frython gwychion eu gwedd,
Yn rhodio mewn anrhydedd:
A'u gwir arwydd dan goron—pan o'u cylch
Yn dod o ogylch f'ai—"Duw a Digon."

ARGRAFFWYD GAN ROBERT ISAAC JONES, TREMADOG.

'GOREU ARF, ARF DYSG.'

PRYDDEST.

YR 'OLYGAWD O BEN CAREG YR IMBIL

GER PWLLHELI.

GAN JOHN MYRDDIN JONES
(MYRDDIN FARDD.)

CAERNARFON:
ARGRAFFWYD, GAN J. OWEN.

1858.

RHAGDRAITH.

Fy Nghydwladwyr,—Rhoddwyd yr 'Olygawd o Ben Carreg yr Imbill,' yn destun erbyn '*Cyfarfod Llenyddol Pwllheli*', yr hwn a gynaliwyd *Hydref* 1*af*, 1857, ac anfonwyd y *ganig* ganlynol i'r *gystadleuaeth*; heb ei hystyried yn gysoddiad aruchel, na chwaith yn isel iawn. Ond, ni wnaethwyd fawr sylw o honi, nac un math o feirniadaeth arni. Bà waeth er hyny? Anfonais hi at un o brif lenorion ein gwlad, sef, *Mr. J. Edwards*, (Meiriadog,) i edrych a oedd yn teilyngu beirniadaeth ai nad oedd, a dengys y llythyr dylynol ei farn ef am dani, a phwy yn addasach i farnu ar destun fel hyn?

Trwy ryw fodd na'i gilydd, diangodd rhai gwallau sylw yr argraffydd megys,—

Tudalen. 21, dywedwyd

'Fuoch gynt yn seddau gwych,'

Yn lle.....A fuoch gynt yn seddau gwych,

ac yn lle.....Y brwd Dderwyddon dwfn eu dysg,

dywedwyd.....'Y Derwyddon dwfn eu dysg,'

Od oès ynddi ychwaneg o wallau, bydded i'r craff olwg eu diwygio.

Mae'n debygol, pan ymddangoso o flaen y byd llenyddol, y bydd llawer o ymyrwyr rhodresgar a choegysmala, yn cael mwy o hyfrydwch wrth sylla ar ei

gwallau nag ar ei rhagorion, fel ag y mae yn arferol o fod, yn mhlith y rhai ag sydd yn cyffesu eu bod wedi cyraedd gwybodaeth lled ëang o tarth manylion y Gymraeg, yr hon a bery 'Tra mor, tra Brython!' er, efallai, mai fel arall y dichon fod. Ond,—

'O daw terfysg y mysg mynydd,
A sen am y ganon gerdd,
Dyn llwydgadach bach yw'r bardd,
Nid mwy no dwrn cogwrn cardd.'

er hyny, Mae'n eon ddal i gynal gwg,
Y gelyn câs ei gilwg.

Dymunaf ddiarfogi beirniadaeth lem, herwydd llythyreg y Bryddest. Nis gellir seinio dwy gydsain gyfochrog gyfanryw mewn gair, ond yn gyffelyb i un gydsain; gan hyny, ba raid wrthynt? nid ydynt namyn llanw di-angenrhaid, yn ddim amgen na phe rhoddid asyn mewn croen llew, Dyna fy marn ostyngedig i.

Ydwyf yr eiddoch, ddarllenwyr goleuddawn, gyda gwir barch, ac yn 'Nawdd Duw a'i dangnef.'

J. M. Jones.

Lleyn, Ionawr 7fed, 1858.

LLYTHYR.

Llanfair Rhagfyr 24, 18[illegible].

Syr,—Darth eich Pryddest i law yn ddyogel, a darllenais hi trosti yn ystyrbwyll; a gallaf eich ysbysu ddarfod iddi *dalu* am ei darllen hefyd. Y mae yn wir ei bod yn *faith*; ac os gall *diffyg* fod mewn *meithder*, dyna yw cymeriad hon. Tybiwyf y gallasai fod yn fwy tarawiadol a chryno pe tynasid rhai manyiion allan o honi yma a thraw ar hyd-ddi, er mwyn amlygu yn fwy penigol ei destlusrwydd Pryddestol, ac i'w thân awenyddol fod yn fwy pur a thanbaid yn ei effeithiolrwydd. Ond gan fod manylu yn fater o *chwaeth*, gadawaf yr lluaws ei benderfynu. A'i chymeryd oll i ystyriaeth y mae yn gyfansoddiad lled alluog; yn fwy felly pan ystyrir mai un *ieuanc* yw yr Awdwr. Y mae yn cynwys llawer iawn o dlysni gwir awenyddol a gellir chwanegu *gwreiddiol* hefyd. Y mae y cyfansoddiad hwn yn rhydd oddiwrth y rhodres a welir yn britho gweithiau rhai Awdwyr—amgylchynu tir a môr i wneuthur un proselyt—gwewyr mawr ac esgoriad ar wynt—eu porth yn fwy na'u heglwys. Ond tery y Bryddest hon "yr hoel ar ei phen," fel y dywedir, gan ymaflyd yn y testyn, yn ddiymdroi. "Golygawd o ben Careg yr Imbill" yw y testyn, a dyma yr Awdwr yn myned at y *Gareg* yn uniongyrchol a dirodres, megys,—

"At *Gareg yr Imbill*, sy fangre hyfrydawl,
"Yr ydwyf yn cyrchu, a'm gosgedd fel bardd;
"Dros fronydd, dros fryniau, —afonydd dymunawl,
"Ac iraidd wastadedd nodedig o hardd.
"Dir, arni yn fywiog fy natur a lona,
"Mae'n felus, rhaid addef—i awen mae'n deml;

"Ei hawyr a lenwir â'r cerddi pereiddia';
"Er nad yw ond careg ddaneddog a seml!
"O'i hamgylch mae miloedd o bethau ardderchog,
"Tryloewon, porphoraidd, a swynol eu gwedd,
"Yn addurn arbenig i Gymru fawreddog,
"Ac hefyd yn orchest Creawdwr pob hedd."

Y mae yr Awdwr yn ganmoladwy am gadw mewn terfynau priodol, heb "ormod o glod" na "gormod o annghlod" i wrthddrychau ei Olygawd, fel y dynoda y llinellau hyn:—

"Y Morfa 'n llwyd, sydd yna o fy mlaen,
"Dan dlodaidd wisg yn gorwedd fel ar daen;
"A'i dremyn prudd o'r bron yn guddiawl bau,
"Heb arno gnwd, ond llafrwyn crin yn gwau
"Yn awr, wrth droi at ei nodweddiad llwm,
"Nid teg i mi, ro'i iddo annghlod trwm,
"Na'i ganmol chwaith,—Mae'n cynwys dirfawr waith,
"A hwnw i wynebu'r weilgi llaith.
"Pan byddo gwres, ac wed'yn cawod wlaw,
"Ac yna gwynt, sisialog ar bob llaw;
"Yn gwneyd y gwaith, rwy'n gwel'd mai dynion sydd—
"Gwneyd llongau maent, yn fywiog drwy y dydd;
"Fel dewrion wyr, heb neb yn tynu'n groes,
"Ond pawb un fryd, mewn enwog dawel foes."

Y mae y penill canlynol yn ddigon pert:—

"O Arfon, Arfon! swynol wyt—
"Yr ydwyt mewn mawrhydi;
"Ymddyrcha'th fryniau fry uwch ben
"At lasnen yn eu tlysni;

"I'w huthrawl benau pobloedd ânt—
"Miliynau gânt ymloni."

Y llinellau canlynol, fel enghraifft o laweroedd ereill, ydynt hynod ogleisiol :—

"Yr ŵyn sydd yn chwareu yn ebrwydd eu camrau,
"Mewn hoender rhagorol gan yfed mwynderau ;
"A'r grymus feirch gweddgar sy'n ĕon garlamu,
"A'u llygaid tanbeidiol yn erchyll ymdremu.
"O ! 'r olwg sydd arnynt ar wyrdd-las wastadedd,
"Mor gryfion oll ydynt ! mor brydferth eu gosgedd !
"Ymgedant, ymhyrddiant, a rhwygant y ddaiar,
"Gweryrant a champiant o amgylch yn dreiddgar ;
"Eu gyddfau bwâog yn fwyfwy a blygant,
"Yn llys yr awelon eu myngau ysgydwant :
"Ofnadwy ymchwythant, a thröant eu penau—
"Eu balchder ganfyddaf yn uchder eu ffroenau."

Ofer manylu trwy ddyfynion i brofi yr hyn a ddywedwyd, canys y mae y dyfyniadau yna yn ddigon, nid yn unig i brofi fod y bryddest hon yn awenyddol, ond hefyd fod ei *chorfanau* yn ystwyth a llithrig iawn. Ychydig o Bryddestwyr, mewn cymhariaeth, y sy gwedi tâlu y sylw dyladwy i *gorfaniad priodol* ; a llai nâ hyny o sylw a delir gan Feirniaid pryddestau i'r peth gwir angenrheidiol ac anhebgorol hwn. *Eben Fardd* yw y corfanwr cywiraf ; ac fel Beirniad, *Cynddelw* yw y gonestaf.

"Pryddest" y gelwwch chwi eich cyfansoddiad, fel ag y geilw y cyffredin eu cyfansoddiadau *aml-fesurol* yn y dyddiau presenol. *Pryddest*, yn briodol, yw

dernyn cyd-ddylynol ar ryw hydedd neu fesur neillduol ac unigol, heb ei amrywio â gwahanol fesurau, fel y Bryddest ar "yr Adgyfodiad"gan Eben Fardd ac Ieuan Glan Geirionydd. Darfu i Ieuan Gwynedd gyfansoddi ar yr un testyn, drwy ddefnyddio gwahanol fesurau yn ei gyfansoddiad; ac oblegyd hyny galwodd hi, nid "*Pryddest*," ond "*Pryddest-Awdl*," am y rheswm y cynwysai *aml-fesurau*. Ond gair afreolaidd, wedi'r cwbl, yn ol trefn iaith, yw *Pryddest-Awdl*. Buasai *Pryddestawd* neu *Awdl-bryddest* yn well. Tybiwyf fod tri math o gyfansoddiadau yn perthyn yn briodol i'r tri gair yna. *Pryddest*, yn cynwys *unrhyw fesur rhydd unigol*; PRYDDESTAWD yn cynwys *aml-fesurau rhyddion cymysgedig*; ac AWDL-BRYDDEST yn cynwys *amrywiaeth o fesurau caeth a rhydd yn nghyd yn un cyfanwaith*.

Gyda golwg ar *Orgraff* yr eiddoch chwi, syr, y mae ar y cyfan, yn rhagorol. Anfynych iawn y darllenais gyfansoddiad mor gywir yn hyn o gamp. Ni raid i chwi wrido wrth feddwl meiddio ymgyfartalu yn hyn hyd y nod â Chaledfryn ei hun, os na bydd i'r Argraffydd eich anafu. Daliwch ati a gall y deuwch yn *Galedfryn yr Ail*; er, ysgatfydd, y dichon i'w *bwlpit* ef fod ar eich ffordd chwi i allu cyrhaeddyd pinacl ei enwogrwydd ef,

Dyna i chwi, yn fyr, fy syniadau am eich Pryddest.

Wyf, syr, yr eiddoch,

J. E. MEIRIADOG.

At Mr. J. M. Jones.

PRYDDEST.

—✠—

YR 'OLYGAWD O BEN CAREG YR IMBILL'.

Ar '*Gareg yr imbill*', sy fangre hyfrydawl
Yr ydwyf yn cyrchu, a'm gosgedd fel bardd;
Dros fronydd, dros fryniau,—afonydd dymunawl,
Ac iraidd wastadedd nodedig o hardd.
Dir, arni yn fywiog fy natur a lona,
Mae'n felus, rhaid addef—i awen mae'n deml;
Ei hawyr a lenwir â'r cerddi pereiddia';
Er nad yw ond careg ddaneddog a seml!
O'i hamgylch mae miloedd o bethau ardderchog,
Tryloewon, porphoraidd, a swynol eu gwedd,
Yn addurn arbenig i Gymru fawreddog,
Ac hefyd yn orchest Creawdwr pob hedd,
Yr Hwn a'i rho'es hithau draw acw ar gyhoedd,
I aros yn llonydd wrth gŵr y môr erch,
Rhwng creigiau uchelserth a mawrion fynyddoedd—
Diameu, ei dullwedd a dynodd fy serch;
Nes byddwyf ar droau yn meddwl am esgyn,
Cyn toriad y wawrddydd, a'r awel yn llem,
I fyny yn wrol at uchder ei choryn,
Ac yno yn llawen cael gwiwlwys o drem.
Hawddamor, efelly 'rwy'n sefyll yr awr'on
Ar ben yr hên *Gareg* osgeiddig a chref,
Yn barod i edrych ar hynawd osgorddion,
Heirdd fodau y ddaiar, a bydoedd y nef.

Golygawd ro'f gyntaf ar feithder cylchynol—
Yr asur wybrenol—mae'n odiaeth o gu:
Mynega'n ddigolliant waith dwylaw'r *Anfeidrol*—
O ryfedd! O ryfedd! dirif yw y llu,

Sy drwyddi'n ymddangos i olwg yn firain,
A'u lliwiau'n dysgleirio'n danbeidiol fel tân;
Byth, byth ni wrthgiliant o reol wech gywrain
Y Duwdod ofnadwy, mawreddus a glân.
O'r ddaiar nid ydynt ond megys canwyllau,
I'w canfod yn fychain yn eutrych y nen;
Ychydig i'r llygad yw nerth eu pelydrau,
Pan byddo y nwyfre heb orchudd na llen.
Er hyny rhaid d'wedyd mai bydoedd mawr ydynt,
Pellenig, aruthrawl, lleuerawl a llon;
Ein daiar nid ydyw, wrth amrai o honynt,
Ond megys ysmotyn dirgelaidd o'r bron.
Yn nghanol uchelder y meith eangderau,
Mor gyflym a chywir yw tröau'r holl *Sêr*;
Ac yn yr un llenfwd, mor gain yw'r *Planedau*,
Mor sŷn ynt i olwg! Draw acw mor dêr
Yw'r ddugoch *Fawrth* erfawr â'i breiniol ysgogiad,
Wrth redeg ei chollgylch cadarnwych i gyd,
A hyny'n barâol o amser ei chread,
Heb dori'r cyntefig orchymyn o hyd.
Ac hefyd, mae *Mercher* yn cadw'r un reol—
Ias brysur ddihafal, fawreddog ei rhôd,
Y fwyaf ardderchog o'r dosbarth planedol,
A welwyd gan graffus athronwyr yn bod.
Draw, eilwaith, wrth odreu y Dwyrain canfyddaf
Ddull *Gwener* ysblenydd, oleulan ei lliw,
Y seren foreuol orfflamawg brydferthaf,
Ar hwyrol gyfenwyd gan ddynion! Mor wiw
Yw *Sadwrn* ddiledryw, fodrwyog, gyngreiddig,
Gynenid, orenwog, dywynawl ei phryd;
Hi deithia'n dra chyson drwy'i llwybrau urddedig,
Fel gwrthddrych mewn gwagle goruwch ein hardd fyd
Wi! eto drwy'm sylldrych canfyddaf *Uranus*,
Y *Vesta* a'r *Juno*, sy hynod o goeth:
Ffyrdd *Pallas* a *Ceres*, a'u dulliau coneddus,
Nad ydynt yn amlwg i'r un llygaid noeth.

I fyny, y *Lleuad* ganfyddaf yn geinwen,
Ei gosgedd sydd eglur—mae'n gànaid a thlos;
Atolwg, atolwg, pa le mae'i theyrnwialen,
A hithau'n frenines heddychawl y nos?

Ha! wele groesawus wawr wridog yn tori,
Crechwenaf o'm calon heb wrtheb yn awr;
Yr *Haul* crwn erfawr araulwedd sy'n codi—
I fyny, i fyny, mae'n esgyn mal cawr.
Y *Sêr* a'r *Planedau* o'r golwg sy'n cilio,
Ac yntau yn treiddio i uchder y nen;
O'i eang wynebpryd mae gwrês yn tanbeidio,
Nes llòni y ddaiar oedd dywell fal llen.

Yn nofio drwy'r ffurfafen,
Ar edyn chwim y gwynt,
Canfyddaf lâu gymylau,
Yn hylaw iawn eu hynt;
Hwynt ymaith gan ddoethineb
A yrir oll ar daen,
I weini fel cenadon
O amgylch, ol, a blaen.
Yn ngwyneb yr un cwmwl,
Pwy haera nad oes Duw?
Efe, yn wir, gyhoedda
Ogoniant pur ein Glyw;
Yr Hwn a ro'es y gogledd
Yn nghrôg ar wagle mawr,
A hefyd ar ddiddymdra
Y gadarn ddaiar lawr.
Efe sy'n rhoddi'r cwmwl
Daionus yn y nen,
I deithio megys nifwl
Yn ddestlus uwch ein pen:
A thrwy ei dêg wasanaeth,
Arddengys Duw o hyd

Anrhaithol drugareddau,
I bethau gwerthfawr byd.

Pan byddo poeth belydron,
Yr *Haul*, araul wrês,
Yn difa gwan gynyrchion
Y ddaiar, gan ei dês;
Y *Cwmwl* ŷf yn orlawn
O ddyfroedd y môr glâs,
Ac yna fe'i dyhidla
Hyd wyneb crindir crâs.
Os bydd toreithiog feusydd
Yn methu, heb y gwlaw,
Y *Cwmwl*, i'w hadferu,
A gorddigonedd ddaw;
Fel gynt yn oes Elias
Pan bu y ddaiar lom
Mewn syched anarferol,
Ac arni olwg drom,
A phob creadur arni
Yn ochain yn eu braw
Nes, wrth daer weddi'r Prophwyd,
Canfyddwyd Cwmwl draw,
Yr hwn, er ei fychandra,
Dywalltai felys ddŵr,
I dori syched miloedd,
Oll oeddynt fawr eu stŵr:
Rhyw gwmwl a ganfyddir,
Yn orsedd fawr i'r farn,
A'r Iesu'n sefyll arno,
I sathru'r byd fel sarn;
Disgyna y pryd hyny
Yr eilfed waith o'r Nêf
Gan alw pawb o feirw
I ddyfod o'i flaen *Ef*.

Myfyriaf, golygaf hallt wyneb llydanfawr
Y weilgi ofnadwy, sy'n gorwedd gerllaw;

Ei dònau gleis ydynt a'u gwên yn eirianwawr,
Heb arnynt ddull gwgus, ereulonder na braw:
Mae pob un o honynt yn perlawg ddysgleirio,
Fal beryl tra gwerthfawr, siriolwych, a glân;
Ac oll at y glènydd yn araf ymchwyddo,
Gan guddio gwelyau y tywod llwyd mân.
Draw, arno, eanfyddaf fawr lynges o longau,
Goruwch ei ddyfnderoedd yn llwybro i'w taith;
Rhai'n dyfod, rhai'n myned, yn dawel drwy'r tònau,
Yn gyflym a grymus, yn llesol eu gwaith.
Eu lluaws hwyltrenau sydd imi'n ymddangos,
Fel gwigfa hyfrydawl ar waelod rhyw ddôl,
A hono yn siglo dan awel ddeehreunos,
Gan grymu wrth fyned yn mlaen ac yn ol.
O! olwg foneddig! mae un o'r heirdd longau
Drwy'r cefnfor yn hwylio yn drefnus ei dryeh;
At yma mae'n cyrchu yn gadarn ei moddau,
Mewn agwedd ysblenydd, heb arwydd o nych.
Ei phen blaen fel cleddyf a hollta y dyfnfor,
A'i hwyliau a siant ar lêd yn y gwynt;
Y môr mawr o'i hamgylch wna ufudd ymagor
A'i dònau o tani yn esmwyth eu hynt.
Mae'n nofiaw i'r golwg yn hynod o ddestlus,
Mal castell godidog, yn uchel ei bri;
Neu forfil rhyfygawl, tra enwog a hoenus,
Yn dawnsio'n orchestol, gan wawdio y lli.
Mae'r morwyr sydd arni yn siriol bob wyneb,
Heb feddwl am ffalsder na digter y dòn;
Wrth weled ei lliwiau yn dangos tiriondeb,
A'r haul yn pelydru o'r nefoedd yn llon.

Ond Ah! dacw lawer o dduon gymylau,
Yn tywyll orchuddio y loew-las nen;
Hwy guddiant yr Huan a'i nerthol belydrau,
Oedd iddynt i'w weled yn brydferth uwch ben.
Yr awr'on, er trallod, mae'r llong oedd yn wrol,
Yn methu cael heddwch i gyraedd y làn;
Pwy wyr holl drefn natur? mae'r byd yn newidiol—
Y boreu, tynerwch a dôsi bob màn!

Y môr oedd yn rhywiog,
A phrydferth arddercbog,
A'i liwiau yn emog,
Fri enwog i'r fro;
Ei byag a chwareuynt,
A nwyfus chwim nofiynt,
Edrychynt, hwy dreiddiynt,
Oll drwyddo.

Pob peth ydoedd hardded, a hollol ddiniwed,
Heb drymder na lludded, i'w gweled yn gain;
Y byd oedd heb wyntoedd, na gerwin dymestloedd,
A dyfroedd ei foroedd yn firain.

Yn mhen ryw yehydig, âi pob peth yn ffyrnig,
Y môr yn ferwedig, a hyllig ei hynt;
A'i'r olwg yn ddychryn, chwyrn luchio'n dra sydyn,
Y cawrddyn a'r còryn wnai'r curwynt.

Ah! eto'n fwy sylwaf,
A chraff yr edrychaf—

Caf olwg nes wylaf,
Pan dremiaf fi draw;
Y llong oedd yn hylon
Sydd waelaidd anhirion,
Rhwng lluwchion, heillt neifion
Yn nofaw.

I'r porthladd i lechu, mae'n ceisio ymdynu,
Er hyny, drwy ballu, yn flethu i'r lli;
Mae'n prysur ymdreiglo, mewn nychdod a chyffro,
Bron suddo wrth hwylio mewn heli.

Mae weithiau yn esgyn, dro arall yn disgyn,
Yn egwan gan echryn, ei duryn i'r dôn;
Mewn erchyll anobaith, mae hon yn myn'd ymaith,
Ar afiaith ewyndaith y wendon.

Y morwyr calonog,
Rai ystwyth, galluog,
Sy'n ofni'r môr nerthog
Cyforog ei faint;
Ymwibio maent beunydd,
Bron d'rysu rhwng ceurydd,
A thrabludd lleferydd
Llifeiriaint.

Y famaeth a'i phlentyn, sy'n rhedeg mewn dychryn,
A'r moryn yn dilyn yn ewyn o'u hol,
Gan ddyrchu ei frigau, mal uchel fynyddau,
Yn folltau arfeiddiau rhyfeddol.

Ei lâs wyneb cuchiog, ganfyddaf yn llidiog,
A'i dònau cynddeiriog, rai treisiog eu tro;
O amgylch mae'n dadwrdd ei erchyll flin odwrdd,
Drwy'r awyr yn agwrdd mae'n rhwygo.

Y Llong er dychryndod,
Sy'n suddo i'r gwaelod,
A'r morwyr mewn trallod
Yn hynod yn hon,
Heb iddynt un pleser,
Ond dirfawr orddwysder,
Yn nigter a hyrdd̀der
Y werdddòn.

Maent oll mewn iselwedd, yn gwaeddi, *Trugaredd*;
Mor odrist a rhyfedd eu hagwedd yn gwau!
Yr eigion certh hagar, â'i safnau croch anwar,
Sy'n gwatwar cri llafar eu llefau.

Rhyw forwr ddolefodd, '*Yr Arglwydd ddialodd*;
'*Am beehod agorodd 'stafello'dd ei ŵg:*
Darfyddwn drigolion, mŷn Rhoddydd pob rhoddion
Ddirgelion y galon i'r golwg.'

Mae'r tlawd a'r cyfoethog,
Fu gynt yn galonog,
Yn soddi'n flinderog
A llwythog i'r lli;
Heb feddwl cael dyfod
I'r làn o'u mawr drallod,
Ond meirw yn hynod
Anheini.

O!'r olwg sydd arnynt! Pwy ddyall yr helynt?
Pa galon all ddirnad gorddwysder eu cri?
A holl ymruthriadau ffyrnigwyllt y trymwynt,
Pa feddwl, pa feddwl all gynwys eu rhi'?
Y llongwyr daionus sy'n gwelwi gan ddychryn,
A'r heli chwyddedig, twyllodrus, a mawr,
Yn drachwyrn ddywedai â'i ddolef groch sydyn,
'Chwi fyddwch yn ymborth i'm pysgod yn awr'
Ac yna'n ymhyrddio nes lluchio hwylbrenau,
Y llong yn ysgyrion i uchder y nen;
Ei hwyliau a rwygid—hwy chwythid yn ddrylliau,
Drwy'r nwyfre gaddugawl fal adar uwch ben.
Tan gurlif enbydwyllt disgynai i'r gwaelod—
Ah! gynwrf ofnadwy! ar fôr ni bu fwy!
Y llongwyr yn safnau y tònau mewn hylldod,
Heb iddynt un gobaith am einioes yn hwy.
Y llanciau caruaidd sy'n meirw'n ddifrifol
Yn nylaith erchyllaf mawr drochion y lli;
Ow! derfysg aruthrawl! Och! fôr anfesurol!
Hen aig anhrugarog, cynddeiriog wyt ti!!
Ni noddaist yr henwr, na'r un newydd eni,
Ond llyncaist y cadben, y plentyn, a'r fam!
O!'r waedd druenusol oedd ynot, grych weilgi
Pan oeddynt yn meirw yn nhrochion dy nam!
Ffei, ffei am dy hudedd, a'th ddull dau-wynebog!
Y boreu yr oeddit yn gwenu'n deg iawn,
Ond wed'yn cyfodaist yn erchyll glogyrnog—
Ysbeiliaist laweroedd cyn dyfod prydnawn:
Ac eto'n bresenol yr wyt yn llawenu,
Dy osgedd sy dawel a hynod o glir;

Ond er dy fod felly yn llwyr ymlonyddu,
Ymgiliaf mwy rhagot—*golygaf y tir.*

Heirdd drumau aruchel mynyddau Meirionydd,
Ganfyddaf yn sefyll mewn urddau yaplenydd;
A'u penau mawreddus dan foethus deleidion,
Yn lle gwlanog eira gordroellawg yn blygion.
Eu hochrau addurnir â gwyrddleision lysiau,
Ac hefyd geronir gan deg naturiaethau:
Rhyw ffrydiau grisialaidd ymdreiglant drwy'r dolydd,
Nes peri i'w hegin gyfodi ar gynydd,
Mewn dulliau edmygawl a gwênau adfywiol,
Gan danio eu parthau â mawl adnewyddol
O! Feirion! O! Feirion! yr wyt yn fro iachus,
Hyn oll, a mwy hefyd, yr ydwyt yn drefnus.
Fe wnaethwyd dy lenyrch fel tyner berllanau,
A'u blodau yn lwyswawr a melus eu ffrwythau:
Dy lwybrau arnodir â benditb yr Arglwydd,
Am ymlid gofidiau ac enyn dystawrwydd:
Caed allan o'th fynwes enwogion laweroedd,
Talentog wrth natur, a chryf eu galluoedd.
I beraidd ffynonau gwybodaeth cyd-yfent—
Amrywiol gangenau hwy fanwl ymchwilient;
Rhai ydynt bregethwyr a doeth athronyddion,
Ac ereill mewn urddas ynt feirdd a llenorion.
Ond er dy fod felly, paid, paid ag ymffrostio,
Mae *Eifion* yn agos yn ddigon digyffro;
Ac ynddi mae lluaws o feirddion rhagorawl,
Yn glod ac anrhydedd i Gymru heddychawl:
I'r oesau dyfodol, mewn amser uchelfri,
Eu gweithiau gorchestol a roddant oleuni,

Pe cawn ryw ychydig o'u nwyd a'u hawenydd,
Rho'wn ganiad goethedig i ti hên *Eifionydd*
Yr ydwyt yn haeddu cael canau ardderchog,
Am fagu meib awen mewn dull mor odidog.
Wrth edrych i'th wyneb yr ydwyf mewn syndod—
Wyt goron ardduniant i gread y Duwdod!
Trwy lwytho dy ddaiar â gwrtaith priodol,
Cèid ymborth o honi yn gnydau hynodol.
Mor brydferth a swynol o ffaen fy ngolygon,
Yw'th froydd heidd-deg, a'u dwyfol gysuron:
Gorawch dy wigfaoedd yr adar deliorant,
I'w Peryf santeiddlan eu molawd gyd-roddant.
Clustfeinia'r gwylltfilod i wrando'r beroriaeth,
A'r awel ddystawa yn swyn eu gwasanaeth:
Eu lleisiau arllwysant mewn perffaith lawenydd,
Nes adsain eu byrdwn gan ruad afonydd.
A'r gyngerdd cyd-una y bronydd llysieuog,
Y rhai sydd yn orlawn o fodau gorenwog;
Sef, ychain, a buchod cyfnerthol telediw,
Sydd acw'n wastadol, mewn gwisgoedd amryliw,
Yn gorwedd yn dawel ar wyrddion lanerchi,
Gan gil-gnoi yn ddiwyd heb ddim i'w dirboeni.
Ac yna, 'r ol hyny, yn nghwmni eu gilydd
Ymdeithiant at ddyfroedd tyneraidd ysplenydd,
I yfed eu ffrydiau llithrigaidd, rhedegog,
Nes cael eu digoni o'r elfen ddihalog.
Sy draw yn dysgleirio o'm blaen mewn rhigolydd—
O! olwg ogleisiol! mor hardd wyt Eifionydd!
O'th gymoedd cauedig a'th nentydd tryloewon,
Dy glodydd anfonir ar edyn awelon.

Ar Gwmwd Arfon, sy'n llawn bri
Rhaid imi syllu'n wiwlwys
Ei eang barthau, goleu, rhydd,
I'm golwg sydd yn gulwys ;
Mi gefais deimlo lawer gwaith
Wig obaith uwch eu mawrbwys.

Mynyddau erch sy'n harddu'r fro,
Rhai hyfwyn, O mor rhyfedd !
Ac arnynt fodau'n cymysg wau,
Ugeiniau oll yn geinwedd ;
Damsangu'n wyllt, crychneidio wnant,
Mwyn redant mewn anrhydedd.

Hwynt-hwy y geifr, llu gwibiog ynt,
A'u helynt yn bur hylaw ;
Am ochrau serth y creigiau crog
Yn enwog gwnant ymunaw;
Ac weithiau rhoddant yn dra sŷn,
Dro sydyn, heb arswydaw.

E gura'r naill y llall a'u cyrn,
Yn drachwyrn croes edrychant :
Os â i'w plith ryw ddyn neu gi,
Yn heini pan y mynant,
A hwythau ar wastadedd fydd,
Am elltydd, chwai ymwylltiant.

O Arfon, Arfon ! swynol wyt—
Yr ydwyt mewn mawrhydi ;

Ymddyrcha'th fryniau fry uwch ben
At las-nen yn eu tlysni:
I'w huthrawl benau pobloedd ânt—
Miliynau gânt ymloni.

Y benaf un yw'r *Wyddfa* fawr,
Wech haelfawr sydd uchelfan:
Ah! dacw hi—mae'n sefyll yn
Dda ogylch—yn ddiegwan;
Mae'n gadarn iawn ni syfl tra môr,
O'i goror hardd-deg eirian.

Chwychwi, fynyddau y wlad hon,
A *Meirion*, le amrywiawl;
Fuoch gynt yn seddau gwych,
I'r mawrwych, wŷr *Omerawl*;
I dremio, chwilio'r asur gant
A nwyfiant y cyrph nefawl.

Hen Idris Gawr fu'n syllu'n graff
Mal *Seraph*, gan bleseru;
Cyfartal oedd i Gwyn ab Nudd
Ffug *'arglwydd y wlad obry'*;
Ac hefyd i Gwydion ab Don
Am swynion fu'n ymsynu.

Y *Derwyddon* dwfn eu dysg,
Wyr hyddysg yn eu moddau;
I'w temlau gyrchent gyda bri,
I dywyll foli duwiau:
Rhyw ddeddfau gau fel yna gaid,
Gan ein henafiaid gynau.

Rwy'n gwel'd o'u bro yr adeg hon,
Rân hylon, P'le anwylach ?
Ac am y *banog ychain* mawr
Rwy'n meddwl 'nawr heb ęiriach ;
Yr *Afanc* nerthol dynent *'fel*
Na thôres y llyn mwyach.'

O ! f' awen fad, golygwn eto'n nês
Pa nesaf at ein safle goreu'n llês ;
Cawn weled llu o bethau pur eu lliw
O'n blaen yn awr, mewn rhyw ddelweddiad gwiw,
A rhein'y yn teilyngu gwresawg glod—
Pa'nd addas im' yw edrych ar eu nôd ?
Yr 'Imbill' gaiff flaenoriaeth arnynt oll,
Am iddi fod yn *bwlput* mor ddi-gôll,
I lawer esgyn idd ei phen yn rhwydd,
I syllu ar brydferthion yn eu llwydd;
Mae'i harddull teg i gyd yn swynol iawn,
Yn hudo cân ein beirddion, mawr eu dawn.
Mor fwyn, mor dlos, yw'r olwg arni sydd,
Fa'n gwenu'n ŵyl yn ngwyneb huan dydd !
Mor chwim a hyf, goruwch ei chopa cain,
Yw'r ednod mân, wrth arllwys hoew sain !
Ac O mor llawn yw'r defaid sy gerllaw,
Yn pori mewn tawelwch, heb un braw !
Ryw ambell fyw lysieuyn îr a glâs
Sy'n d'od o'r pridd yn wàn a phêr ei flâs,
Gan ddangos nwyd yr 'Imbill', delaid, lon,
A gwisgo'n goeth ei thyner freiniawl fron :
Pan y mae gwyr yn curo gyda gyrdd,
Ar ei chŵr draw, i dori darnau fyrdd ;

Ac hefyd yn ergydio mewn dull llym,
Nes crynu'r graig, er mor ddi-gryn ei grym,
Wrth geisio am drysoran y byd gwrdd,
Ofnadwy iawn a brochus yw y twrdd
Sy'n dyrchu fry, i'r nwyfre deneu, hardd,
Drwy ffyrdd y gwynt, yr adsain yno chwardd;
Tra gwedi hyn rhyddhâ y graig o'i gwraidd
Fel pe b'ai 'i chroth yn ufuddhau trwy aidd
I roddi'n hael orwerthfawr emau cûn,
Rai brïawl wawr, yn unig er mwyn dyn.

Y Morfa 'n llwyd, sydd yna e fy mlaen,
Dan dlodaidd wisg yn gorwedd fel ar daen;
A'i dremyn prudd o'r bron yn guddiawl bau,
Heb arno gnwd, ond llafrwyn crin yn gwau
Yn awr, wrth droi at ei nodweddiad llwm,
Nid teg i mi, ro'i iddo anghlod trwm,
Na'i ganmol chwaith,—Mae'n cynwys dirfawr waith,
A hwnw i wynebu'r weilgi llaith.
Pan byddo gwres, ac wed'yn cawod wlaw,
Ac yna gwynt, sisialog ar bob llaw;
Yn gwneyd y gwaith, rwy'n gwel'd mai dynion sydd—
Gwneyd llongau maent yn fywiog drwy y dydd;
Fel dewrion wyr, heb neb yn tynu'n groes,
Ond pawb un fryd, mewn enwog dawel, foes
Yn llifio'r coed, canfyddwyf rai'n dd-ball,
I'w trin er gwell, y naill a'u clud i'r llall;
Hwn wrth ei waith sy'n naddu 'n graff ei drem,
A'i neddai ac a'i finiog fwyell lem,
Nes gorphen oll y cywrain waith, a rydd
Lesâd i lu,—rhyw fawr hoenusrwydd fydd

Gerllaw o hyd i'r 'Imbill', eirian wedd,
Sy'n awr i mi yn gysur ac yn sedd.

Mi welaf eto wibiog feilchion blant,
A'u cyrph yn noeth, fel engyl gwynion gant,
Ar fin y dwr yn iachus a chytun,
Mewn ystwyth ddull yn chwareu bob yr un.
Drwy'r elfen deg, dreigliadol lesol lân
Ymnofio maent yn fawrion ac yn fân ;
Heb ofni dim, ymdrochent gyda bri,
Gan waeddi'n gryf, a herio nerth y lli,
Yr hwn sy dlws, yn gadarn, ac yn gerth,
Mor brydferth a'r wech afon loew ferth
Ddolenog, bêr ddihysbydd ynddi 'i hun,
Sy rhwng fy syll a theg wastadedd Llëyn,
Yn ddysglaer iawn, ac arni natur fad,
Mewn swynion fil yn rho'i darluniad mad
O'r coedydd tàl, a'r adar mân uwch ben—
O'r milod mawr, ac hefyd sêr y nen ;
A phobpeth ddaw gyferbyn a'i gwedd hael,
Ei arlun fydd yn gywir ynddi'w gael.

O ! gwelaf yna berthawg dref,
Pwllheli ydyw hi ;
Ei chywrain ddull a'i gorhoff wedd,
Sy'n tynu 'm sylw i
O blith amrywiol bethau ynt
Mewn gostyngeiddrwydd llawn,
A'u greddf gyntefig, wisgi liw
Yn ogoneddus iawn.

Ah! dref oludog, prydferth wyt—
Aruchel yw dy glod;
Wyt ail i *Tyrus* gaerog fàn,
Neu *Sidon* faith ei rhod:
Palasau glwys sy'n lloni'th bryd,
A'u hynod arddull càn;
Nid egwan ynt, ond nerthol oll,
Yn ddilyth furiau bàn.

O'u sythion gyrn canfyddaf fwg,
Yn hir-ymeatyn fry;
Wrth reol natur tawel â
Fel cymyl, loewon lu;
Yn blyg dan blyg dyrchafu wna,
Draw, draw, hyd uchder mawr,
Nes cyraedd eithaf pen ei nod,
O olwg teulu'r llawr.

Rhyw ambell fanor sy mewn rhwysg
Goruwch y ddinas gu,
Yn beunydd chwifio ol a blaen,
Ysgogant o bob tu:
Ar fynwes fwyth yr awel iach,
Ymsïant yn dra mwyn,
Yn ail i ddeiliach irleis wawr,
Deniadol yn y llwyn.

Hawddamor iddi, ynddi'n wir,
Llaweroedd sy'u cael maeth—
Yn prynu, gwerthu, heb un nag,
Ar eu tafodau ffraeth;

Hyd ei heolydd tlysog cain,
Drwy'u gilydd llwybro wnant;
A'u holl feddyliau am y byd—
Fel yna hwy oll ânt.

Mae glân foneddwyr hefyd yn
Brwd deithio'r ddinas hon,
Mewn braith gerbydau campus wedd
Ac arnynt wênau llon;
Rhai ereill welir ar eu traed
Tra goleu, tad y dydd,
Yn bywiog gerdded at eu gwaith—
Mawr, mawr yw'r cynwrf sydd.

Uchelawg swn, ac ambell *Ho!*
A chlecian glywir draw,
Gan serchog laneiau, llumiaidd, éryf,
Rhyfygus a di fraw,
Sydd weithian acw'n d'od i'r drêf
Gyd â chertwyni'r wlâd,
I anfon ŷd, neu geisio glo,
A chalch i wneyd llesâd.

Gwyllt haeru'n awr sydd yn eu mysg
Yn nghylch eu gweddgar feirch;
Fe ddywed un na chafodd o
Ond 'chydig bach o geirch,
Ar hyd y tymor, gauaf trwm,
I'w anifeiliaid da,
A'u bod pryd hyny'n well eu gwedd
Nag ereill ddyddiau'r ha',

O ! na, nid felly, ebai'r llall,
Agoraist gloion certh,
A dygaist feichiau iddynt hwy,
Nosweithiau'n ol dy nerth ;
Ond eto mae'm ceffylau i,
Er iddynt fod dan oed,
Yn well eu drych na rhei'na 'n wir,
Ac heb gael ceirch erioed.

O ferw rhai'n golygu wnaf,
I blith y gerddi syw ;
O honynt hwy hyfrydwch gaf
Rhinweddol lawn ei ryw :
Eu blodau ynt heb ŵg na llen
Ar eu gwynebau têr,
Yn sugno maeth o wlith y nen,
Gan chwai arogli'n bêr.

Mor swynol ydynt, hawddgar hŷ,
Mewn urddasolrwydd gwiw ;
Ail gwisg y goleuadau fry
Yn eu balchiol liw !
Mae amrai'n dangos glesni clan
Yn eu hardderchog lun ;
Ac ereill goch a gwyn yn fan,
Rhagorî maent bob un.

O danynt amrell ddeilen werdd,
Hudolus, brid ei sawr,
Wrth gynal eu gogoniant fferdd,
Mae'n plygu'n ŵyl i lawr ;

O holl agweddau tirfion goed,
A golud gwledydd llon,
Y blodau brithion ieuainc oed,
Yw bri'r *Olygawd* hon.

Eu naturiaethau cywir sydd
Yn gwir addysgu dyn,
Gan nodi'n gyflawn er gwneyd budd
I'w gorph, golygus, cun;
Pan ddaw y boreu, Pwy nas gŵyr?
Agorant mewn brys mawr;
Ond wed'yn cauant, pan ddaw'r hwyr,
Gyd âg amrantau'r wawr.

I fro *Pwllheli* addurn ynt,
Rai anwyl, gleiniog, îr;
Fel tyner flodau Eden gynt,
Uwch ben eu santaidd dir
Adseinia'r adar gynes wawd,
Wrth wel'd 'r olygfa hardd;
O hyd mewn mwyniant ger eu sawd
Y dref sy'n lloni'r bardd.

Yn hynod ogleisiol ceir yn ei chylchynu,
Wlàd *Lleyn* deg hyfrydol, fras frodir anwylgu;
Wi! henffych! Wi, henffych i ti *Leyn* arderchog!
Hawddamor, hawddamor, yr wyt yn orenwog!
Yn llocheu dy fynwes mae lluaws yn llechu,
Ac arnat mae gwyneb y *Duwdod* yn gwenu.
Rhagluniaeth ofalodd am danat er's oesau,
Gan dywallt bendithion i'th dirion ororau;

A chodi o'th feusydd ryw gnydau gorlwythog,
Sef gweiriau ac ydau persawrus, toreithiog:
A llawnder dihafal o bethau amrywiol,
Mewn harddwch a mwyniant a heddwch urddasol.
Tryliwiog yw'th wyneb o rôs a briallu—
Pur emau naturiaeth sydd yn dy foglynu.
Hoff barthau duwioldeb! cartrefle henafiaeth,
A gwlad ogoneddus, am roddi magwraeth.
Ar ffrwythau addfedol a dyfynt o'th ddaiar,
Ymosod o ddifrif mae bywiog feib hawddgar;
A gloewon bladuriau pob un sy'n cyd-dori,
O'r neilldu hwy luchiant y cynyrch yn heini'.
Ac wed'yn cyd-safant i hogi eu harfau,
Mewn dullwedd gysurus uwchben y trysorau.
Draw, eilwaith, heb arswyd, canfyddaf hwy'n myned
Gan ladd y mwyn doraeth o'u blaenau'n ddiarbed.
O'u hol yn brysurawl mae rhes o lancesau,
Ac hefyd llu cefnog o feibion a hogiau,
Yn trin y gwanafau at wneuthur teg borthiant,
I'r milfil gre'duriaid sy'n llawn o urdduniant,
Hyd iraidd gorsleoedd a bryniau uchelfrig,
Yn pori y gwelltglas mewn nodau cyntefig.
Mae rhai yn ymbrancio o flaen fy ngolygon,
Ar lydain ddyffrynoedd hyfrydawl eu swynion.
Yr ŵyn sydd yn chwareu yn ebrwydd eu camrau,
Mewn hoender rhagorol gan yfed mwynderau;
A'r grymus feirch gweddgar sy'n ëon garlamu,
A'u llygaid tanbeidiol yn erchyll ymdremu.
O!'r olwg sydd arnynt ar wyrdd-las wastadedd,
Mor gryfion oll ydynt! mor brydferth eu gosgedd!

ngodant, ymhyrddiant, a rhwygant y ddaiar,
weryrant a champiant o amgylch yn dreiddgar ;
u gyddfau bwäog yn fwyfwy a llygant,
n llys yr awelon eu myngau ysgydwant :
fnadwy ymchwythant, a thröant eu penau—
u balchder ganfyddaf yn uchder eu ffroenau.

ir, eto rwy'n canfod fod *Lleyn* yn gyfoethog
fawrion goedwigoedd cauadfrig godidog.
wych daldra y ffawydd a ffyrfder y derw.
c ereill gan degwch a dynent fy sylw ;
aent oll i'r uchelder fel pe'n dyrchu dwylaw,
c megys pe byddent am deg ymgofleidiaw.
isialant a'r awel, a heriant y'stormydd—
stynant eu brigau hyd gyffwrdd eu gilydd :
wy ddaliant yn gedyrn yn ngwyneb y corwynt—
hyw olwg ddeniadol yw'r olwg sydd arnynt.
w perffaith addurno, i harddu'r *Olygawd*,
wy'n canfod mynyddau clegyrog a hynawd,
arn Fadryn, *Carn Eiddiol*, fal nerthol golofnau,
ydd acw'n dra sythion mewn heirdd ragoriaethau ;
. *Mynydd Llanbedrog* sy 'chydig nês at af,
n wych o gyfluniad—ei lethrau a garaf.
! Fynydd llechweddawg *!* yr ydwyt yn hawddgar—
cheldrum dy gribawg glogwyni sy ddengar ;
'th greigiau crogedig ynt dra gogoneddus,
n sefyll i fyny'n wrthddrychau mawreddus.

'an acw rheiadrau anferthol eu twrw,
y'n erchyll ymdroelli drwy gadarn graig drom
es datod ei phlethol gadwynau wrth fwrw
'u brochwyn lafcerion ysgythrawg a ffrom ;

Ac hefyd nes tynu i'r amlwg gornelion,
Fu'n llechu am oesau o olwg y byd,
Mewn perffaith ddystawrwydd yn grychawg ddirgelion
Uchelfrig, gaerogwyrth, glymedig o hyd.
Fel crochan berwedig hwy wnant gynddeiriogi,
A chrothawg ewynu un ffunud â thôn;
Pan bydde mewn digter yn hydraidd gyfogi,
I wyneb ei gelyn, gorchestol, cryf, fron;
O! 'r cynwrf a barant, tra'n prysur fwrlymu—
Dros ddanedd rhamantllyd llithrigaidd i lawr,
I'r dyfnder grymialog, sy danynt yn crymu,
A'i erwin groch adsain fel taran fawr fawr.

Ha! dacw *Foel* y *Felin*,
A bryniau y *Foel Fawr!*
Ffyrdd acw bum i drôsu,
Yn chwareu lawer awr:
A chyda mi bob amser,
Fy *mrawd* a fyddai'n fad
Yn cadw mewn nawe dyner
Holl ddefaid glân fy nhad.
Ni fyddem weithiau'n siarad
Am drefn yr oesau gynt,
Ac ynom ddwysder teimlad,
Wrth feddwl am ea hynt;
Dro arall yn ymddadlu
O barth i'r oesau ddaw,
Ac wed'yn yn crechwenu,
Heb arnom boen na braw,
Cyd-dynem nythod cigfrain
O gellau yr hen *Dŵr*,

Aeth atynt yn dra chywrain,
Mewn hoender a mawr 'stwr;
Ond Och! y cigfrain fyddent
O'n hamgylch yn bur groch;
O'r nwyfre y disgynent
I'n hymyl, gan wneyd rhoch.
Ar lawer dydd *Nadolig*,
Rhedasom, do, yn iach,
Un ffurf a'n hen gyfeillion,
I hela'r geinach bach;
Ac wedi ei chael allan,
Rho'em wys i'r milgi main;
Yn wir, yn wir rwy'n canfod
Ein llwybrau—maent yn gain.
Pan byddai'r haul yn machlud,
A'r nos yn chwim nesâu,
Ymdeithiem at *Lanbedrog*,
Yn ddifyr iawn ein dau;
Ac yno y datganem,
Yn nghyd a'r côr yn llon,
Rhyw adeg hyfryd hyfryd,
Fu'r oll o'r adeg hon.
Gwir ddysgwyd ni i fydru
Wrth reol deg y gerdd,
Mynasom ei harferu
Mewn dôl a choedwig werdd:
Fel yna 'r oedd ein tuedd,
Pan gaem ni radau rhwydd;
Dawn oedran diniweidrwydd
Oedd yn ein dull a'n llwydd.

Eilwaith, gwelaf lâu forwynion yn ymgyrchu gyda brys,
At y gwartheg i'w godreuo, i'r cae gwyrddlas pell o'u llys,
Arno maent yn gwyro'n araf, wrth y buchod tewion mawr
I wagau eu pyrsau llawnion, gyda'u dwylaw glwys eu gw
Wedi gorphen hyn o orchwyl, hwy gyd-deithiant gwm a n
Tua'r ffermdŷ yn eu holau, gan adseinio cân o'u mant ;
Yno'r swper barotoant i'r gweinyddwyr siriol wedd,
Sydd yn awr yn cadw noswyl, dan adenydd Awdwr hedd.
Gwelaf hwynt i'r ty yn myned at eu hymborth o un fryd
Gan ymadaw a'u holl arfau, a gweithredoedd trwm y byd;
Rwy'n dych'mygu fod yr hwsmon, ar ol bwyta bara'r llawr
Yn ymaflyd yn ei Feibil—llusern bara'r nefoedd fawr ;
Ac yn darllen, penod santaidd oddi ar ei ddalen lawn,
Wedi hyny yn ymostwng i weddïo Duw yn iawn.
Ef sy'n d'wedyd geiriau eglur am faterion bythol bwys,
I gyd foli'r lleill weddïant o'u calonau'n ddystaw ddwys.
Pe bawn acw yn eu cwmni, mŷnwn ran o'r felus wledd,
Gwaeddwn allan am gynorthwy'r Hwn sydd ar ei euraidd se
Er nad ydwyf gyraf weddi fry trwy entrych awyr lâs ;
Bydd yn gyd-sain a'u gweddïau wrth orseddfainc Brenin g
O! mor swynol y gweddïa y Crist'nogion puraidd lef,
Tynant sylw mawr y *Duwdod*, nes rhyfeddu engyl Nef.
Gwerthfawr ydyw teimlo effaith yr hen afon ddaeth o'r nen,
Ei thryloewon ddeifr grisialaidd olchant draed merch Seion

Wele ! wele ! wele eto ! y mae'r gweithwyr bob yr un
At eu teulu hoff anwylaidd, adreu'n myn'd o glun i glun.
Rhaid i minau fyn'd o'r '*Imbill*' cyn dyfodiad tywell nos
Boed y mawl i'r doeth *Jehofa* ces *Olygawd* berffaith dlos.

BETH SY'N BRYDFERTH?

Beth sy'n brydferth? Haul ysplenydd,
Yn goreuro'r ddaiar fawr;
Pan bo'n lluchio mewn llawenydd,
Rhyw belydron têr i lawr:
Ei brydferthwch a'i sirioldeb
Sydd yn puro llysiau'r ardd;
Ymagorant ger ei wyneb,
Arno'r rhosyn brith a chwardd.

Beth sy'n brydferth? Coed dillynaidd,
Yn ymddyrchu tua'r nen;
Adar bywiog, têg a gwylaidd,
Yn telori fry uwch ben:
Hyn sy brydferth; Ond, prydferthach
Baban bychan, tlws,—di-nam
Yn ymsyllu, ac yn gwenu
Ar ei anwyl anwyl fam.

Beth sy'n brydferth? Aur goronau,
Beryl gwerthfawr, gwyrddlas, noeth;
Myrdd o berlau, mandragorau,
Prês toddedig, mirain, coeth:
Hyn sy brydferth;—Ha! prydferthach
Gwallt modrwyog llariaidd ferch;
Llygaid dysglaer amryliwiog,
Yn llewyrchu'n llawn o serch.

Beth sy'n brydferth? Addurniadau,
Gorchest pob celfyddyd gain;
Sidan, eamric, heirdd wisgiadau,
Porphor coch, a 'sgarlad main:
Hyn sy brydferth;—Mil prydferthach
Gweled dyn o berffaith ddawn;
Hwnw'n dadlu dros yr Iesu,
Dyna olwg brydferth iawn.

Beth sy'n brydferth? Enfys geinwedd
(Bwa Seithliw heb un saeth)
Ysgafn gwmwl chwim ei osgedd
Yn ymarllwys cawod faeth:
Hyn sy brydferth;—Myrdd prydferthach
Canfod agwedd, hawddgar foes;
Hên bechadur tlawd yn dïolch,
Am dywalltiad gwaed y groes.

Beth sy'n brydferth? Gwraig rinweddol,
Yn rho'i tawel, dyner, lef;
Ac i fyny'n codi'n raddol,
Ei golygon tua'r Nef:
O! mor brydferth,—ar ei gliniau
Hon yn ceisio'r Iesu mawr;
Dagrau gloewon megys perlau,
Dros ei gruddiau'n llithro'i lawr.

Engyl gwynion pan ei gwelant,
Uwch yr awyr deneu, lâs;
Yn y Nef i gyd chwareuant,
Amgylchynant orsedd grâs:
Braidd na hoffant ymgnawdoli:
Yn gorphorol megys dyn;
I weddïo ac i wylo,
Fel y bu yr Iesu'i hun.

O uchelder Nef y nefoedd,
Mewn tanbeidrwydd, purdeb hynt;
Can' cyflymach nag yw'r bydoedd,
Hedant uwch y pedwar gwynt:
Eu santeiddlan esgyll sïant,
Yn eirianwych oleu'r wawr;
Craff y tremiant—hwy sisialant—
'*Dacw ryw brydferthwch mawr.*'

CAERNARFON:
ARGRAFFWYD, GAN J. OWEN.

CANIADAU

IEUAN LLEYN:

YN NGHYD A

SYLWADAU AR EI FYWYD A'I WAITH,

GAN MYRDDIN FARDD.

PWLLHELI:
ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN RICHARD JONES.

NODIAD.

Casglwyd y llyfryn hwn o Ganiadau Ieuan Lleyn, gan mwyaf drwy ddiwydrwydd Myrddin Fardd, allan o ysgriflyfrau Ieuan Lleyn ac eraill: cafwyd hefyd rai o honynt oddiar gof a thafod hyd y wlad.

Y CYHOEDDWR.

Mehefin 1af, 1878.

CYNWYSIAD.

	TUDAL.
Gwerthfawrogrwydd Ffydd	13
Y Cristion Ffyddiawg	14
Meddyliau ar Grefydd	14
Cerdd i ofyn Bwyall dros G. Thomas, Llangian ...	15
Gwledd Belsassar	17
Ymddiddan rhwng y Cybydd a'r Angau	27
Awdl—Y gyflafan a wnaed i'r Beirdd Cymreig	29
Can i Ofyn Ffon	35
Diolch am y Ffon	38
Rhifyddiaeth	42
Owen Llanddeiniolen...	43
Penill o ddiolchgarwch am Ffon	44
I John Humphreys, Llanddeiniolen	44
Cwyn yr Hiraethus	45
Penillion	48
Gweddi yr Arglwydd	50
Y Gwaredwr	51
Salm 23...	52
Carol	53
Englynion ar alwad y Cenhedloedd	55
Cywydd i R. ab Gwilym	56
Ar enedigaeth ei wyres	59
Gwawdodyn i Dewi Wyn o Eifion...	61
Englynion diolchgarwch i Mr. T. Rice, o Feillionydd ...	62
Englynion i Evan Jones, Tydweiliog	64
Anerch i Dafydd Ddu o Eryri	64
Agoriad i Eisteddfod Penmorfa, 1795	65

	TUDAL
Cyngor i'r Meddwyn...	67
Myfyrdod mewn Mynwent	71
Beddargraphiadau	72
Cerdd—Hanes yr Arian a'r Aur	73
Englynion i Pedr Fardd	79
Cywydd i Enlli	80
Englynion Cariad y Bardd	83
Cywydd er coffadwriaeth am y Parch. Peter Williams...	83
Carol	88
Afiechyd	92
Porthneigwl	92
Awdl coffadwriaeth am Margaret Hughes, Trygarn ...	94
Cywydd—Marwnad John Griffith, Ysw., Cefnamwlch...	97
Englynion—Trais y Gorthrymydd a Grwgnachrwydd y Gorthrymedig	101
Cerdd—Trwstaneiddiwch Sion Pob Celfyddyd	103
Cerdd i Ferch Ifanc	106
Gweddi Gyffredin	108
Marwnad y Parch. T. Charles, A.B., o'r Bala	110
Buddioldeb a Rhagoroldeb yr Ysgrythyr Lân	114
Cân a wnaed ar ddyfodiad Robert Carreg i'w oed ...	120
Awdl ar Dymorau 'r Flwyddyn	123

SYLWADAU AR FYWYD A GWAITH YR AWDWR.

GANWYD Evan Prichard, yn y flwyddyn 1770. Enw ei dad oedd Richard Thomas Evan; a'i fam, Mari Siarl. Nid oedd dim neilldnol yn y manteision addysgiadol a gafodd tra yn ei ardal i ddringo i'r fath uchder ag y gwnaeth—dim ysgolion *enwog*—dim cydymgais llenyddol—na dim cymaint a gair o gefnogaeth i feithrin llafur meddyliol; ond eto yr oedd yno ddigon i *athrylith*. Yr oedd yno amrywiaethau o eiddo natur megys wedi cyd-gwrdd i lunio ei enidfan yn arddangosfa o fwynhad i berchen cymaint a marworyn o dân effeithiol awenyddiaeth. Yma yr oedd yn ymddifyrn cyn dechreu oriau ysgol; ac ar ol eu terfynu, gwelid ef yn crwydro ar hyd y meusydd ac hyd lethrau y bryniau, a'i galon yn gwresogi, a thân awenyddol yn dechreu cyneu yn ei ysbryd. Ond nid hyn oedd y cwbl, yr oedd yr esiampl a gafodd yn tueddu hefyd i ddadblygu ei awen, yn gystal ag i arwain ei feddwl i fod yn orlawn o barch i foesoldeb a chrefydd.

Gellir priodoli i'w anianawd gael esiampl neilldnol, er nad llawer o ddysg, yn y gelfyddyd uchelryw, canys treuliodd ei daid a'i fam edef bywyd yng nghymdeithas ddeniadol yr awen; ac i'w fam y perthyn yr enw o gyfansoddi y Gerdd ddesgrifiadol a chyffrous ar ddinystriad y Plas Neugwl gan dân, yr hon sydd yn dechreu fel hyn :—

> "Plas Neugwl, trwm yw meddwl
> Yn fanwl fel y fu," &c.

Yn 1795, aeth y rhieni i America, ac ar eu cychwyniad, cyfansoddodd Mari Siarl gerdd i geisio denu ei chymydogion i gydymfudo, gan ddywedyd mor naturiol—

> 'Caem forio'n ddiddig for Atlantig—
> 'Does berig yn y byd.'

Fel pe i ddangos ei rhagwybodaeth o ddyogelwch y fordaith, yn gystal ac i ddangos, yn ddiarwybod iddi ei hun, nas gallai wneud dim braidd, ond dan ganu, anfonodd yn ol fel yma:—

> 'Twm ac Ifan deuwch yma,
> Peidiwch gadael Deiniol yna;
> Deuwch yma chwi gewch weled
> Sut a'r modd y mae hi'n myned.

Wrth feddwl am fy ffrins a'm brodyr,
Wylo byddaf lawer deigryn,
Wrth feddwl na chaf byth eu gweled
Tu yma i gaerau tragwyddoldeb.'

Dyma eto benill o'i heiddo:—

'Dyn sy'n hau a Duw sy'n hadu,
Duw sy'n peri i'r gwenith dyfu;
Ac oni bai fod Duw 'n rhoi 'i fendith
Dan y gwys, fe bydrai 'r gwenith.'

Yr oedd i IEUAN gefnder, o'r enw LEWIS SIARL, yr hwn na freintiwyd a "synwyr cyffredin," fel y dywedir, ac a arferai fyned i Gapel Ty Mawr; lle hyfryd ganddo yn ei fywyd fod bob Sabboth, yn aflonyddu 'r addoliad, oni rwystrid ef gan ddrycin neu afiechyd. Un tro, gwedi cael rhyw fath o gerydd gan ei dad, torodd allan yn y lle yn ddifyfyr yn y dull a ganlyn:

'Gruffydd Salmon yn Nhy mawr
Yn pregethu,
Yn peri i'r bobl ar y llawr,
Beidio pechu;
Minau sydd yn cadw nad,
Ar y grisia',
Ac yn achwyn ar fy nhad
Wrth y dyrfa.'

Câr iddo oedd RICHARD SIARL, yr hwn a fu mewn ychydig ymgiprys prydyddol ag EBEN FARDD. Yr oedd ei daid, SIARL MARC, yn brydydd awenber, a naws yr efengyl yn rhedeg drwy bob llinell o'i eiddo, fel yn y pennill canlynol o'i gyfansoddiad :—

'Dysg im' dewi megis Aaron,
Dan holl droion dyfnion Duw;
A dywedyd megis Eli,
'Gwnaed a fyno, f' Arglwydd yw!'
Megis Job yn amyneddgar,
Peidio d'wedyd geiriau mawr,—
Duw sy'n codi dyn i fyny,
Ac yn taflu dyn i lawr.'

Ymddengys mai cadw ysgol ddyddiol y bu IEUAN—dymmor yn Llangian a thymmor yn Llanddeiniolen, o'r adeg y lled-gymerodd gofalon y bywyd hwn afael ynddo, hyd y flwyddyn 1795, pryd y symudodd i Loegr, i ddilyn y swydd o *Excise Officer*, dan y Llywodraeth, ond ni wnaeth ei arosiad yno nemawr les iddo, fel y tystia yn y llinellau hyn :—

'Crwydrais dir Sais, nid da 'r son,
Y mae aeth i mi weithion;
O achos hyn, Och y sydd,
Colledwyd y Cyllidydd;
Gorfod imi 'n ddifriol,
G udo 'n waeth i'm gwlad yn ol.'

O gylch y flwyddyn 1812, ar ei ddychweliad yn ol, ymgartrefodd gyda 'i ewythr, LEWIS SIARL, yn Nhy Mawr, Bryncroes. Wedi hyny, ymgymerodd â chadw ysgol rãd symudol plwyfydd Aberdaron, Bryncroes, a Rhiw, a chafodd enw mawr am ei ddoniau a'i ddiwydrwydd fel athraw; ond swydd sychlyd ac anfarddonol i'r eithaf oedd hon; eto, bu yn ystig i'w dilyn drwy gydol ei oes; ond meddyliodd am leihau tostur y swydd drwy fyned i'r cwlwm priodasol ã'i gyfnither, MARY ROBERT THOMAS, Hen Dŷ, Bryncroes (lle, erbyn hyn, sydd wedi syrthio i adfeilion), ond ni chafodd nemawr drefn ar y byd. Tlawd a fu o'i febyd i'w fedd; er na fu iddo namyn tri o blant. Yr oedd mor ddifeddwl drwg a baban; nid ymdrafferthai ddim gyda 'r *dyfodol*, ond cymerai bobpeth fel y rhedai ei drwyn yn ei erbyn. Ni wnai un ymdrech i wthio ei hunan i sylw, ond yr oedd ei dalent yn gwneyd hyny fel o'i anfodd. Ni wyddai beth oedd rhodres na gweniaith, a buasai tipyn o haerllugrwydd yn lles iddo yn y byd rhyfedd lle 'r oedd yn byw.

Bellach cymerwn olwg arno yn ei lafur gyda gwahanol gangenau llenyddiaeth, yn yr hyn yr oedd ei alluoedd yn fwy amrywiaethol nag odid awdwr cyfagos y gellid meddwl am dano. Medrai ysgrifenu fel ag i addysgu a boddio chwaeth pawb, o'r rhai oeddynt dywysogion yn y byd meddyliol hyd at y parablwyr bychain llesgaf yn eu teulnoedd. Ond tra y mawrheir ei gyfansoddiadau rhyddieithol, diau mai oddiwrth ei GANIADAU y deillia i'w enw y doraeth lawnaf o anrhydedd. Mae y rhai hyn yn adnabyddus, ac yn cael eu hadrodd gyda blas ar aelwydydd ac mewn meusydd yn mhob rhan o'n gwlad. Casgliad ydynt, a ysgrifenwyd ar amrywiol achosion, a than amrywiol amgylchiadau. Rhai o honynt a barotowyd erbyn rhyw uchel ŵyliau ac achosion pennodol yn ei gymydogaeth: eraill a fwriadwyd yn gyffredinol i glodfori gogoneddus berffeithrwydd Duw; ac eraill yn datgan amgylchiadau 'r Bardd ar ryw droion neillduol; ac felly yn cynwys ocheneidiau gofid a thrymder, weithiau lawen hyfrydwch llwyddiant. Oddiwrth hyn y maent yn drylawn o fyfyrdodau ac ystyriaethau crefyddol a gwladwriaethol.

Dangosodd nerth ei athrylith trwy amrywiaeth ei gyfansoddiadau, yn gystal a thrwy eu dylanwad. Nid canu unwaith neu ddwywaith yn hynod, a gweddill ei gyfansoddiadau yn wael a chyffredin, a wnaeth; ond canu ar luaws o destynau, ac yn hynod bron ar bob testyn. Meddai ar awen bur a chyfoethog, ac ni ymddibynai ar ddim y tuallan i'w athrylith ei hun wrth gyfansoddi. Er ei fod ef o ysbryd tawel ac araf, yr oedd ei awen yn fythol hoew, ac yn llawn gwefr. Eto, er fod ei awen yn nwyfus ac hedegog, nid oedd fel asen wyllt, heb ffrwyn na genfa. Yr oedd ei farn glir ac aeddfed yn ei chadw

bob amser heb fyned yn ddilywodraeth. Nid yw ei gynnyrchion yn dwyn llawer o ddelw yr aruchel a'r cyrhaeddbell, ac nid oes ynddynt lawer o ōl ymdrafferthu gyda'r hyn a elwir yn "Athroniaeth y Pwngc," eithr cyfeiriad uniongyrchol at y *teimlad.*

Deallai IEUAN y mesurau caethion yn dda: e.e. Dengys ei hun yn feistr ar y Tawddgyrch Cadwynog, megys rhoi y sill gyntaf yn y linell gyntaf i odli ā'r sill olaf yn yr ail linell, felly yn tawddgyrchu yn gadwynog at y sill olaf yn y llinell olaf o'r mesur, fel hyn :—

' MAITH ochenaid meth a chwynion
Ymgais gweddwon megis goddAITH,' &c.

Medrai efe Orchest y Beirdd, y Gyhydedd Nawban, &c., fel chwibanu. Medrai hefyd ganu yn frathlym a phigog:—

' Diod o win da ydyw i wr—gwan
I gynal ei gryfdwr ;
Ond gwell i ben ymsenwr,
Na gormod, ddiod o ddwr.'

Canodd yn orchestol ar Wledd Belsasar. Gall ei awdl ysgwyd llaw ag eiddo Glan Geirionydd mewn llawer ystyr. Byr iawn y canai yr hen feirdd braidd ar bob testyn—o ddeg i ugain llinell i haul fel i ganwyll ; ond y mae yr awdl odidog hon o eiddo IEUAN LLEYN yn rhifo tua 300 llinell. Engraifft o'i nerth:—

' Ymgwnodd, dirmyg annuw
Ei falchwedd hyd orsedd Duw.'

'————————y brenin a yfai
Ormod o'r ddiod—gwirod a garai—
Mewn dirmyg ei ryfyg ni arafai,
Blas y gwin, awydd a blys gyneuai,
Anian anwn enynai—yn fflamllyd,' &c.

Dengys y blaenorol fod IEUAN LLEYN yn gawr o Fardd mewn cynganedd a meddylddrychau. Fel rheol cynganedda yn ddifeichus:—

' Gwledd fawr i arglwyddi fil.'

' O ynfyd falchder anferth,

O ddirmyg, ffiaidd armerth !
O ryfyg yn niwyg nerth ! '

Y mae *rhyfyg yn niwyg nerth* yn farddoniaeth bur yn gystal a bod yn wirionedd disigl. Gwyn fyd y gwr a lefara fel hyn:—

'Llawn ei lys, llawen ei wledd—yn dechreu
Ond dychryn ei diwedd;
Ar fil yn lle gorfoledd.'

Cydwybod euog yn deffro :—

'Diau cydwybod euawg—effroaidd
Sy' ffrewyll gylymawg,
Egniol arthes gnoawg.'

Daniel wrth y Brenin:—

'Dy roddion, anrhegion, rho
I arall a'u cymero.'

Am Nebucodonosor:—

'Gyrwyd y mawr gawr ar gil,
Y bostfawr megys bwystfil;
Ei drigias, anaddas nod,
Yw geillt, fel y gwylltfilod;
Disgynwyd ei oes geinwych—
Porodd wellt————.'

Daniel wrth Belsassar:—

'Addolaist a molianaist amluniau
Dychymygion gorfudion gerfiadau,
Arian, aur, daear, a enwir duwiau.

Gwych y Beddargraff canlynol i fardd :—

'Gwelwn bawb gyda'n gilydd—yn wastad
Na estyn awenydd,
Nac unrhyw ddawn rhadlawn rhydd
Parodawl, einioes Prydydd.'

Yn ei englyn diolch am syllwydrau i Mr. T. Rice, dywed,—

'Bum loyw iach hoyw uwch haint,— meddwl
Moddus nad oedd gymaint;
Ffoes y bri, ni orphwys braint—
Ei hunan ni ddaw henaint.

'Crinodd, 'e gwympodd y gwallt,—wele dof,
Ail dyfodd yn fanwallt,—
Heddyw gwyn fel haidd gwenallt
Fethiedig, wywedig wallt.'

Nis gallwn feddwl dechreu dyfynu o ganeuon ffyn IEUAN, heb ddifynu y cwbl, gan fod y ceinion mor aml ynddynt.

Mae Cwyn yr Hiraethus yn meddu llawer o deimlad, yn cael ei achosi gan drem o ddwys fyfyriaeth, ac yn cael ei chymeryd, megis o ymyl diwedd oes hyd i'w dechreu. Y penill cyntaf, e.e.—

'Pan gofiwyf am y dyddiau gynt,
Yn nghyd a'u helynt hwy,
Am bob difyrwch hoenus hynt,
Ni welaf mo'nynt mwy;
Am lawer cyfaill ieuanc gwych,
Ei ddŷch mewn bedd a roed,
'Rwy'n mynych wylo dagrau dwr,
Yn Wr tri ugain oed.'

Terfyna bob penill (11 oll) oddieithr dau neu dri ag

'————wylo dagrau dwr,
Yn Wr tri ugain oed.'

Ond dichon nad rhyw gymeradwy iawn yw "dagrau dŵr" mewn geiriau cydgan fel yma, ac mai gwell fuasai dweyd rhywbeth fel

'Rwy'n mynych wylo dagrau 'n lli,
Yn Wr tri ugain oed.

Dengys ei amrywiaeth gyfoeth ei awen, ond weithiau mae ganddo eiriau annealladwy i'r cyffredin: ond ar y cyffredin y bydd y bai oni ddeallant hwy. Codi y safon ac nid ei thynu i lawr, ddylid. Coded y bardd chwaeth y werin at ei fesurbrawf ef ei hun, ac nid ymddarostwng na phlygu ei chwaeth at yr eiddynt hwy.

Cymaint oedd meddwl cydoeswyr IEUAN LLEYN o hono fel ag y byddai ddywenydd ganddynt eu dynu allan i brydyddu: Meddai un—

'Ha! Ifan Brydydd gwiwlan,
Ai ti yw bardd Llangian?'

Meddai IEUAN:—

'A glywch chwi, bobol, Robin Ffrainc
Yn canu cainc ei hunan?'

Y mae swn y gynganedd yng nghaneuon rhyddion IEUAN LLEYN braidd oll, ac nid oes ond ambell un yn y wlad mor ddieithriol iddynt a bod mewn angen hysbysrwydd yn eu cylch. e.e. Dyna ei gân i ofyn Ffon, nid rhyfedd iddo gael ffon; fe haeddodd ffon (ond nid ar ei gefn, fel yr haedda llawer un a fyn gael ei alw yn fardd). Os yw y ffon yn deilwng o'r gân, dylai y teulu ei chadw yn ofalus, yn barchus byth.

Y mae y cyfan o ganiadau pêr Ganiedydd Llŷn, yn goglais teimlad y darllenydd gymmaint, fel nas gall yn aml lai na cholli dagrau; ac wedi eu darllen drosodd drachefn a thrachefn, nid yw eu swyn yn darfod; ond y maent yn dal fyth a hefyd yn eu blas cynenid. Wrth edrych arno yn ei wahanol dueddiadau yr ydym yn gweled ynddo yr ysgolor da, y bardd trylen

ac awenyddol, yr hynafiaethydd dwfn a manwl, a'r gwladgarwr gwresog a diffuant; ac ond tafiu mantell cariad dros un gwendid ynddo, sef ei duedd i yfed i ormodedd, yr ym yn cael ynddo nodau hyfryd a boddhaol.

Yr oedd yn meddu y serch gwresocaf, a'r cymmeriad mwyaf i'w wlad a'i henafiaeth, ac yn eiddigus dros burdeb hen ddefodau barddas, a pharhad y Gymraeg. Yr oedd ei frwdfrydedd yn eiriasog; ei deimlad yn dyner; ei ffyddlondeb yn ail i'r eiddo Jonathan; ac yr oedd

'Ei fron yn galon i gyd.'

Yn ei dymher a'i foesau yr oedd yn llawen ac yn hoff, awyddus i enill, ac yn barod i gyfranu gwybodaeth, yn enwedig y pethau a berthynent i henafiaeth hanes ei wlad, ac nid oedd yn ymfoddloni wrth y wybodaeth a feddai hyd ag y byddai gwell yn aros i'w gyrhaedd. Yr oedd yn awdwr amryw erthyglau a gyhoeddwyd yn y *Gwyliedydd* am 1835, 1836, mewn ffurf o lythyrau at Dafydd Ddu Eryri a'r Parch. Peter Bayley Williams, A.B., Person Llanrug a Llanberis. Llythyrau cyfrinachol ydynt yn cynwys lluaws o hanesion a henafiaethau yn Lleyn, llythyrau ydynt ag sydd yn parhau i enyn cymmaint o ddyddordeb a'r cyfansoddiadau mwyaf llafurfawr, yn gymaint a'u bod yn adlewyrchiad ffyddlawn a dihoced o wir nodwedd yr ysgrifenydd. Hefyd, gellir gweled yn yr *Haul* am Mai 1869, gyfleithiad o'i eiddo ar fesur Cywydd Deuair Hirion o'r *Bard*, gan y bardd Seisonig Gray. Bu yn olygydd y *Greal, neu Eurgrawn: sef Trysorfa Gwybodaeth*, wedi ei ddosbarthu yn bedair rhan, a ddaeth allan yn Nghaernarfon yn y flwyddyn 1800. Ysgrifenodd ei ragarweiniad ym Mryncroes, Awst 29, 1779, a'i enw yn *Ieuan ab Rhisiart* yn danysgrifedig wrtho. Ceir ei enw yn yr un wedd wrth amryw o'i gyfansoddiadau, a cheir wrth amryw eraill y llên-enwau *Ifan Lleyn*, *Ifan Brydydd*, *Ieuan Lleyn*, a *Bardd Bryncroes*. Yr oedd efe yn fardd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Brydain, fel y dengys a ganlyn allan o'r *Piser Hir* (1) — ysgrifiyfr Dafydd Ddu Eryri:—

"TESTYNAU CADAIR DINORWEG.

D. Dd. E: Adferiad a chof am ddefodau yr Hen Gymry.
G. Peris. Hir hoedl a llwyddiant i'r Brenhin (Sior III).
I. Llevn. Golwg ar falchder a gorthrymder.
Iolo Mor: Llesoldeb gwybodaeth.

(1) Gellir gweled yr Ysgrifiyfr hwn yn llyfrgell gyfoethog Morfa Lodge, Porthmadog, yn meddiant y boneddwr gwladgarol, E. Breese, Ysw. F.S.A.

Pan raddiwyd Dafydd Ddu Eryri, Ieuan Lleyn, a Gutyn Peris, yn feirdd trwyddedog, yn ol braint a defod Beirdd Ynys Brydain: ac y galwyd hwy, Beirdd Cadair Dinorweg, gan Iolo Morganwg, y rhoddwyd y Testynau uchod allan, yn Nghadair Dinorweg, oed Crist, 1797."

Claddwyd Ieuan ym mynwent Bryncroes, ei blwyf genedigol, a dodwyd yr argraff hon ar domawd ei fedd:—

ER COFFADWRIAETH

AM

IEUAN AB RHISIARD,

BARDD BRYNCROES;

A fu farw Awst 14eg, 1832.

OED, 62.

Rhag awr ein dirfawr derfyn—er y byd
Ni arbedir undyn:
Gwely Bardd yw gwael briddyn,
O fewn llwch mae Ifan Lleyn.—Owain Lleyn.

Tra b'o Leyn a dyn adwaeno—fedrus
Iawn fydrwaith y Cymro;
Y ceir Ieuan Fardd mewn co',
A mawl addas mil iddo.—Ellis Owen.

CANIADAU

IEUAN LLEYN.

GWERTHFAWROGRWYDD FFYDD.

Y CYSUR i gyd,
Sy 'n llanw fy mryd,
Fod genyf drysorau
  Uwch gwybod y byd;
Ac er eu bod hwy 'nghudd,
Nas gwel neb ond ffydd,
  Ceir eglur ddatguddiad
O honynt ryw ddydd.

'Rwy'n gweled bob dydd,
Mai gwerthfawr yw ffydd,
  Pan elwy' i borth angau,
Fy angor a fydd;
Mwy gwerthfawr im' yw
Na chyfoeth Peru,
  Ei gwrthddrych a'm cynal
Dydd dial ein Duw.

O ! ddaear, O ! ddaear, O ! ystyr a gwel !
Daw daear i ddaear i orphwys dan gel !
A daear mewn daear, ychydig a fydd,
Ond daear o ddaear a gyfyd ryw ddydd.

Cyf

Y CRISTION FFYDDIAWG.

Crist fy arweinydd doeth,
Ei Air fy rheol yw;
Daw f' enaid drwy bob tymestl boeth,
Fy Arglwydd sy' wrth y llyw.

Ymddiried bellach wnaf
Yn ei ffyddlondeb Ef,
Can's yn ei allu lanio caf,
Yn nhawel borthladd nef.

Er bod peryglon fyrdd,
Cuddiedig yn dŵr,
Tra adnabyddus o'm holl ffyrdd,
Yw Iesu 'r canol ŵr.

Er imi suddo bron,
Yr hwn a wnaeth y môr,
A ddeil fy enaid uwch y dòn,
Mae Ef yn gadarn lŏr.

MEDDYLIAU AR GREFYDD.

Mae rhyw dosturi mawr,
At lwch y llawr yn bod,
Pan gymerth Duw achubiaeth dyn,
A'i g'lymu yn un a'i glod.

Bydd Iesu 'n fawr ei fri,
A'i fawl yn llenwi 'r nef,
A holl hyfrydwch pur y plant
Fydd ei ogoniant Ef.

CERDD

I ofyn Bwyall gan Robert, Gof, Llanystumdwy, i Gruffydd Thomas, Saer, Llangian; yn y flwyddyn 1797.

Gwr odiaeth caredig,
A didwyll nodedig,
  Arbenig, hwyl unig, haelionus,—
Clyw gyson, clau genad,
Arferol wir fwriad
  Yw 'm caniad, anfoniad cwynfanus;
Gof teg, ufudd, coelfaith, celfydd,
Rhed dy glod ar hyd y gwledydd,
Dy fod yn fuddiol weithiwr ethol,
Un digymar, iawn dy ganmol,
Rhagorol yw rhoi geiriau,
A thidog wir bleth̨iadau,
Da ganu it' a genau
  Ganiadau, moddau maith.
Gof wyt ti, ffraeth a ffri
Undyn ail nid adwaen i;
Medri bur gymysgu dûr
Am ben haiarn, cadarn cûr;
A mesur a chymhwyso
Y ţanwydd i'w cytuno—
Llaw morthwyl yn llym wrtho—
  I'w gwyro at y gwaith.

Finau wyf weithiwr
Y coed, arwa' cydiwr;
  Dyfethwr, a naddwr anweddol;
Dyfetha coed weithiau,
Ddig oerfodd, ag arfau,
  Damweiniau, rhyw foddau rhyfeddol.
Bwyall newydd, ddinam ddeunydd,
Gefais genyt, gofus gynydd;
A hon oedd hynod, burion barod,
Lan a chynil iawn i'w chanod;

Ond syndod gefais undydd,
Fe aeth y fwyall newydd,
Er cystal oedd ei defnydd,
  Yn hen o gynydd gwan.
Wrth fod yn ddiwyd mewn celfyddyd,
Ai 'r fwyall fwyn yn anfwyn ynfyd:
Ni fedrai 'rwan, Och! o druan,
Pall yw f'och, ond bwyall fechan;
Anniddan ydyw naddu
A bwyall wedi ffaelu,
Ei min sy' wedi pylu,
  A methu yn mhob man.

Gwnewch im' Robert
Bér fwyall, bur finiog,
  Odidog, a duriog ddidoriad,
Yn ol eich gwybodol
A'ch mwynaidd waith manol,
  Rhagorol arferol wir fwriad;
Rho'wch waith cynil, crau di eiddil,
A dûr gwiwgoeth ar ei gwegil;
A bydded gymwys fwyall bum'pwys
Dda wych anwyl, hawdd ei chynwys,
A gwiwlwys yn y golau;
Am hyn canmolir chwithau,
Un manol iawn, a minau
  Mewn geiriau yma 'n gall.
Gwnaethoch imi dda fwyelli,
Ugain mlynedd, gan ymloni,
Ac ni ddaeth eto, hawdd yw tystio,
I Lŷn eu tebyg yr wy 'n tybio:
Gobeithio eto atoch,
Y gwnewch chwi, gynta' galloch,
Im' fwyall, oreu medroch,
  Da byddoch a di ball.

GWLEDD BELSASSAR.

Yr arweiniad i mewn—Am Babilon—Y Babiloniaid—Eu heilunaddoliaeth—Eu Gwyl flynyddawl, a'u gwleddoedd—Belsassar yn gwneyd Gwledd—Dull ei neuadd—Y canwyllbren—Y brenin wrth fâs y gwîn yn anfon am lestri temi Dduw—Eu dwyn ger ei fron; yntau a'i wahoddedigion yn yfed o honynt, ac yn molianu eu gau-dduwiau—Bysedd llaw dyn yn ysgrifenu ar galchiad y pared—Belsassar a'i dywysogion yn dychrynu—Gyru am y doethion—Hwythau yn methu darllen yr ysgrifen—Y brenin yn cyffroi yn fwy—Y frenhines yn clywed am y cyffro, yn dyfod i'r neuadd, ac yn dywedyd i'r brenin am Daniel—Galw Daniel, ac yn adrodd iddo yr hanes—Daniel, wedi dannod i'r brenin ei ddi-dduwiaeth, yn darllen yr ysgrifen, ac yn ei dehongli—Y canlyniad.

Ehed awen i Galdëa—lydan,
Deyrnas eirian, darn o Assyria,
Lle bu llys hysbys, a—Gwledd Belsassar
I'w bobl anwar, gwyr Babilonia.

Babilon, y bobl anwar,—neud ydoedd
Nodedig drwy 'r ddaear;
Llawn prif ddinas Belsassar,
Hynod o bechod a bâr.

Mae'r tyrau, caerau cerig—ac urddas
Y gerddi crogedig,
A'u lle 'n gaeth mewn llyn a gwig
Neu 'n anedd seirff gwenwynig.

Yr hanes a olrheiniwyd—yn ddinam
Gan Ddaniel y proffwyd,
Y modd bu gwîn, medd a bwyd
I anobaith yn abwyd.

Y Babiloniaid, bawb a eilunient
Eu gau-dduwiau, ac hwy a weddïent;

Gan ddewis megis y dych'mygent.
Aur, arian, efydd, hefelydd folent,
Cerf-breniau ddelwau addolent,—meini,
Gwaith seiri, oferwegi—fawrygent.

Y dauog giwdawd i'w duwiau cadwent
Ddu wyl flynyddol aflan, ni wyddent
Am Naf y nefoedd, mewn nwyf y nofient;
Drygionus gywilyddus y gwleddent;
Aml ancwyn ffrwm a lyncent—ac o wîn,
Duedd gynefin, dau ddigon yfent.

Gwnai y brenin dirinwedd
Belsassar, ddilạchar wledd,
Cwynos, nid ciniaw cynil,
Gwledd fawr i arglwyddi fil;
Gwahadd i'w neuadd a wnai
O'i weision, a ddewisai;
Yn eu gwydd, yn wageddus,
Yfai wîn—brenin heb rus.

Hon ydoedd neuadd o radd rieddawg,
Y dwyr eangle, yn bedair onglawg;
Llawr dan ei nenawr o'r mynawr manawg,
Cywraint golofnau ac ochrau gwychrawg;
Rhodfäon i'r rhawd fywiawg—i weled
Y mawr gain gylched, a mur gwyn galchawg.

Hardd ganwyllbren serenawl—anfonai,
Gloëw taenai ei osglau tywynawl
Trwy 'r neuadd wiwradd ei wawl—hyd a lled
Mwd a phared y gylched galchawl.

Seddion i fil sydd yn fawr—i bawb teg
O bob tu 'r bwrdd erfawr;
Gorseddfaingc y gwr swyddfawr
Oedd benaf, gwychaf ei gwawr.

Seigiau i'r tywysogion,—i'r tyaid
Parotai ddigon;
Hael oedd hail y lwth wledd hon,
Ofer edliw, afradlon.

Seddai 'r brenin edlin urdd,
Yn ei bau, ar ben y bwrdd,
Yn ei wisg, frenhinwisg hardd,
Gwych ei gwaith, o goch a gwyrdd.

Yn ei afwch, y brenin a yfai
Ormod o ddiod—gwirod a garai—
Mewn dirmyg ei ryfyg ni arafai
Blâs y gwîn, awydd a blys gyneuai,
Anian anwn enynai—yn fflamllyd
A drewllyd, erch hefyd, y dyrchafai.

Y brenin barai unwaith—(ond odid
Nad ydoedd raid ddwywaith),
Gyrchu, rhyfyg ei archiaith,
Llestri Iôn, llais tra ei iaith.

Eu dwyn a archai
Fel yr yfai
Ef a'i fintai fwyaf antur,
Wîn, er'mawredd
Delwau dylwedd,
Wng eu maswedd, anghymesur.

Efe a'i wragedd, ei fawrogion,
A'i orwych hudawl ordderchadon;
Gwîn a yfasant, gau anfoesion,
Lu astrus, o bur lestri Seïon.

Cyrchwyd a dygwyd i'w wydd—eur lestri
Gorlwysdrefn yr Arglwydd;
A rhai arian, seirian swydd,
Cysegr Ion rhag ei oswydd.

Gwin yfasant,
Molianasant,
Addolasant, eddyl ysig,
Dduwiau gau di ged,
Meirw diymwared,
Iẽ, dinodded, a Duw 'n eiddig.

O! ynfyd falchder anferth,
O angenfil, cynfil certh!
O ddirmig, ffiaidd armerth!
O ryfyg yn niwyg nerth!

Yr awr hono, bu ryw orhynod
Arwydd o ofwy oer i ddyfod,
Arwydd barn, oherwydd bod—Belsassar
Yn esgar dïachar, Duw uchod.

Llawn ei lys, llawen ei wledd—yn dechreu,
Ond dychryn ei diwedd;
Ar fil yn lle gorfoledd,
Y deuai gnif, diogan wedd.

Daeth achreth, adwyth echrys—arnaddynt
Darn neddair anhysbys
Wnaeth eiriau mewn iaith ddyrys,
Ar gyfer lleuer y llys.

Bysedd llidiawgwedd, llaw dyn,
Ar y pared ter purwyn,
Wnaent bedwar-gair, erfai rif,
Ber ysgrif barai osgryn.

Goleu y brenin gwelodd—addurn llun
Y ddarn llaw 'sgrifenodd;
Ei liw nodawl newidiodd,
A'i brydlon ffïon a ffŏdd.

Ei feddyliau fo ddaliwyd,—â dirfawr
Derfysg y cyffrowyd;

Ei lwynau, nerth ei lawn nwyd,
A'u tidau a ddatodwyd.

Ei obaith aeth ar aball,—drylliedig
Drallodwyd ei ddeall;
Curodd un glin ac arall,
Y naill yn erbyn y llall.

Diau cydwybod euawg—effröaidd
Sy' ffrewyll gylymawg,
Egniawl arthes gnöawg,
Didaw ei rhuaw y rhawg.

Crochwaeddodd, a gwysiodd ei geisiaid,
I gyrchu yno y Gorcheiniaid
Uchel eu dyall, a Chaldeaid,
Seryddwyr, a'u brodyr y Brudiaid;
Aflan dorf—o flaen ei dad—fu 'n crynu
Rhag ei gawdd allu, rhy goeg ddeilliaid.

Llefarodd â llef irad—araith aeth,
Wrth ddoethion ei dreftad:—
"A rydd i'r llin rwydd ddarlleniad,
Hy' diynglais, a deongliad,
Ga' wisg hirlaes dêg o 'sgarlad,
Eurdorch wiwfyg, gawr derchafiad;
Bydd drydydd lywydd y wlad,
Arbenig, urddedig arddodiad."

Daethant yno, y doethion,—dysgawdwyr
Dysgedig Babilon;
Deddyw y gwybodyddion,
Gwyr o fri, oll ger ei fron.

Er eu dysg, arawd asgen—ynfydrwydd
Ni fedrent hwy ddarllen
Na deongl rhif y 'sgrifen
Oedd ar fur y neuadd wen.

Mawr gyffrodd a brwynodd y brenin
Belsassar, yn ei balas iesin;
Ei wedd newidiodd ynddo 'n edwin,
A'i holl enaid âi 'n drist allwynin;
Syndod! Och! gawod uwch gwin—cwpanaid
I'w freyriaid, o chwerw fraw erwin.

Geiriau y brenin gorwyllt
A'i brifwyr, a'u gwewyr gwyllt;
Trwst edlym eu trist adlef
Aeth heb aros dros y dref.
Y fanon benaf yno,
A glybu ffrwst trwst y tro;
Hi a ddaeth i mewn yn ddoethwedd,
Ar ddyfrys, i lys y wledd.

"O frenin, clyw, a byw bydd—
Draw a gwae yn dragywydd;
Gyr, a bydd fywiog arab,
Gythryfwl o'th feddwl, fab.
Y mae gwr, myg ei eiriau,
Caethwas, yn y deyrnas dau,
Ac ynddo fryd, ysbryd aidd,
Oes wynt y duwiau santaidd.

"Yn nyddiau dy dad noddawl—cu difefl,
Caed ef a rhagorawl
Mewn doethineb gwiwdeb gwawl,
Deall da, a dull duwiawl.

"Caed hwn is dy dad Nebucod'nosor
Yn ddyn nodawl dewisawl dieisor;
Iawn ei agweddiad, un a'i egwyddor,
Dy dad ar ddoethion, mygion ei 'mogor,
A'i gwnaeth yn benaeth neu bôr—heb gymell,
A lle yn ei gangell, un o'i gyngor.

"Galw Daniel, uchel achen—yn dynged,
Hwn dengys y 'sgrifen;

Deongl ei barod awen
Y geiriau ar y gaer wèn."

Daniel a ddycpwyd yno,—a di oed
D'wedai 'r brenin wrtho,—
"Ai ti, Daniel, agel o
Waethygawl dylwyth Iago?"

Un dyb wag, mae 'n debygol
Na adwaenai hwn Daniel;
Ni b'ai da i neb duwiol,
Mawrygai a barchai Bel.

"Clywais wir sôn clau er's enyd—fad enw,
Fod ynot ti ysbryd
Y duwiau, a'u dy hewyd,
Dawn iawn ben dewinion byd.

"Dygwyd y dysgedigion—i fy ngwydd
Efo 'ngweis y doethion;
Ni fedrent, fintai fadron,
Ddeongl y 'sgrif, hellgrif hon.

"Clywais sôn, clau y seiniaw—am danat
Mae doniawl wyt, hylaw
Allüawg i ddarlleaw
Ydd uthr len, a'r ddyeithr law.

"I'r llinell os rhoi ddarlleniad,
Da eanglais, a deongliad,
Cymeriad cai, a mawreddd,
Gwisg o 'sgarlad, a chadwen
Aur am dy wddw, wr mad addien,
Cywrain ben, coron bonedd,
Ac yn drydydd y byddi—ar urddas
Yr holl deyrnas, er lladau arni.

"Hael werth!" eb'r Daniel wrtho, "O—frenin
Afrinwedd dy wolo;
Dy roddion, anrhegion, rho
I arall a'u cymero.

"Ac er hyny, y gwir honaf,
Ydd ysgrifen a ddarllenaf;
Ydd eanglaw a ddenoglaf,
Y cais pwysig hy' hyspysaf.

"Dy dad a gafas swrn o deyrnasoedd
Gan y Duw goruchaf, Naf y nefoedd;
Llywiai o Babilon yr holl bobloedd,
Llethai gaethion, y llwythau, ac ieithoedd;
Rhag ei ofn, tra sarug oedd—y crynai,
Pan cynadlai, penau y cenhedloedd.

"A fynai a laddai 'n aflwyddawl,
A fynai a gadwai 'n gedawl,
A fynai gyfodai 'n fydawl,
A fynai a fwriai 'n farwawl;
Ymgodai 'n ffrom a gwydiawl—Balchiai,
I lawr cwympai o'i le, wr campawl.

"Balchder, anober ei nawdd,
Erch a hyf, a'i dyrchafawdd;
Ymgwnodd, dirmyg annuw
Ei falchwedd hyd orsedd Duw.
Ei feddwl bygwl y bu
Deyrn oll, y cadarn allu;
O'i le ef a wnaed yn wlydd,
O'i urddas,—mab y wawrddydd;
Gyrwyd y mawr gawr ar gil,
Y bostfawr megis bwystfil;
Ei drigias, anaddas nod,
Y geillt, fel y gwylltfilod;
Dysgynwyd ei oes geinwych—
Porodd wellt fel y prudd ych.

"Dyna 'i wobr, hyd oni wybu—mai Naf
Mewn nerth sydd yn trefnu
Pob llywodraeth, caeth ai cu,
Daear oll, drwy ei allu.

"Gwelaist dithau,
Ei fab, diau,
Ei holl wydiau a'i drallodion;
Er y gwelaist
Ni ostyngaist,
Ni ochelaist ben na chalon.

"Am dy falchder,
Hunan uchder,
A'i wag hyder acw adyn.
Wele 'n barod
Arlwy pechod,
Saig o'i ddarbod sy' gwydderbyn.

"Ymddyrchefaist yn llym ddewr chwyfiawg
Beiddiaist, ni pheidiaist, ddyn anffodawg,
Orallu llaw yr Hollalluawg:
O lestri glân, ei lys tra gleiniawg
Yfaist wîn, hailwîn halawg—dy wragedd,
Ordderchedd, a'th bonedd, lwyth bànawg
Addolaist a molianaist amluniau,
Dychmygion gorfudion gerfiadau
Arian, aur, daear, a enwir duwiau;
Ni anrhydeddaist yn rhi' y dydddiau
Awr, Dad yr awdurdodau,—sy 'n hyfryd
Roddi bywyd,—dy holl ffyrdd a biau.

"Y darn llaw, derwyn llywiwyd—o ger bron
Y gwir,—braw 'sgrifenwyd;
Y geiriau i ti gyrwyd,
Tostion erch, eu testyn wyd.

"Y maent acw, MENE, MENE, TECEL,
UPHARSIN, O! frenin y fawr anel,

Hon oddiuchod sy 'n ddiochel;
Hi a'th gorddiwes, boeth agwrdd awel,
Ei damchwa hi a'th dymchwel—mal gwyntyll
Deryll, ti a phebyll dy hoff *Fabel.*

"Dyma 'r ysgrif—MENE, Duw rifodd
Dy deyrnas, ei gwanas disgynodd
I lawr, a llwyr faluriodd—ei chaerau
Ger ei ffiniau, ac a'i gorphenodd.

"TECEL, ti bwyswyd, prin wyd, praw' nodawl
Yn y clorianau, encil arwynawl;
PERES, dy fawrfras deyrnas gadarnawl
A ranwyd, a rhoddwyd i rai haeddawl,
Y Mediaid, Persiaid, amodawl,—eu rhuthur
Wng yw yr aruthur, lu cyngreiriawl."

Ar arch Belsassar, hybarchwyd—Daniel
A dain borffor gwisgwyd;
Aur gadwen—hen addien nwyd—
Am ei wddw ni omeddwyd.

A'i addef drwy gyhoeddiad—yn drydydd,
Llywodraethydd ar ei holl drethiad;
Yn nesaf mewn dyrchafiad—onid un
Iddo ei hun—oedd dda ei haniad.

Yn nhy 'r Gwîn, frenin y fro,—Belsassar,
Bu loes ysawl iddo,
A laddwyd, dyfethwyd fo,
Yn ei sân y nos hono.

Fel hyn i derfyn y daeth—ei fywyd
A'i feius lywodraeth;
A Darius hewydys aeth,
Er yn hên, a'r frenhiniaeth.

Tyfodd, addfedodd i farn,
Mewn balchder, gwaghyder, ac orn;
Cafai mewn braw deimlaw, dwrn
Dwyfol lid,—och! ofid chwyrn.

YMDDIDDAN RHWNG Y CYBYDD A'R ANGAU.

Yr oedd gynt, mewn arwydd gwan,
Hen gybydd yn ei gaban;
Chwanog oedd (drych unig wael),
I gyfoeth a mwy gafael.
Lladrattai ei hun, lleidr ytoedd,
A'i gymydog euog oedd;
Rhynai 'r dyn (briddyn heb wres),
Ynghanol aur anghynes.
Ac er cael yn deg aur coeth
Gydag ef, gôd o gyfoeth;
Mewn rhandir yn min rhyndawd
Gwnaeth ei hun di lun, yn d'lawd.
Dyna 'r un di lun, dwl ef,
A sal, a ganfu Selef.

Er ei fri, ei aur, a'i fraint,
Di hoenus y dae henaint;
Dae 'r angau, dioer ingwedd,
Gydag ef gwywedig wedd.

Angau:
Gyrwyd fi, heb hawddgarwch,
I'th droi 'n awr i'r llawr a'r llwch;
Dy enaid â i anedd,
Antur i boen, hwnt i'r bedd.

Cybydd:
Y dydd yr elwyf i'r daith,
Am wybod gad im' obaith

A oes doeth gyfoeth yn gwau
Draw, oes aur neu drysorau?
Onid oes aur yno, da,
Gwiw Fammon, trigaf yma,—
O'r lleiaf, dygaf i'r daith
Aur gwiber, oreu gobaith;
Wyf gadarn—cariaf godau,
Deall hyn im' da wellhau.

Angau:

Yma, yn hen, ddim yn hwy,
Ni chai nerth na chynorthwy,
Hen gybydd, di ffydd, a ffōl,
Daw it' fraw, di wyt freuol;
Buan derfydd dydd y daith,
A'i damwain a hed ymaith.
Ni chaiff y gôd (sorod syn)
Addolaist mwy dy ddilyn;
Yn noeth mewn byd—enbyd ŵg,
Y gwelaist gynta' golwg,
Dyma'r pryd o'r byrfyd bach
I ryw nŷth yr ai 'n noethach;
Ni chai ar led weled aur
Hynod, nag enill henaur.
Dy aur glān fydd derrig lid,
Dy gyfoeth fydd dig ofid;
Y diawl uffernawl ei ffọrdd,
Hyll esgud a'i holl osgordd,
Gwedi'r daith, oh! gwae di'r dydd,
Fe 'th boena di 'n faith beunydd.

Cybydd:

Sicr ydwyf (eisiau credu
Nid oes yn f'oes, ac ni fu)
Na wna'r diawl un awr doliant
I mi, gwn caf emau gànt;
Gyr i mi gōd, ac aur mān,
Gwedi gyr gōd ac arian;

Cyfan a rhwydd caf fo 'n rhaid
O fwyniant yno 'i f'enaid.
Eithr os af, gwiriaf i gànt,
I dir nad oes gwneud ariant,
Tragyfyth y trig gofid—
Yn y lle yn dān a llid.

AWDL

Y GYFLAFAN A WNAED I'R BEIRDD CYMREIG GAN IORWERTH Y CYNTAF.

Wel bydd Awenydd o wiwnerth—bellach
Heb ballu at armerth;
A gad i'r cŵn eu swn serth,
I'r ynfyd gad air anferth.

A chwyl-ddawn trwy uchel-ddoeth—aur berlau
Wir burlwys Nef-gyfoeth;
Pob gras Ffydd o gynnydd goeth,
Yna ni byddi anoeth.

Dy armerth ydyw yma—wylofain
O lafar y lladdfa,
A wnaed i'r heirdd a'r doeth feirdd da
Ag eirf Iorwerth gyrf arwa.

Och! Iorwerth, mewn awch eirias,
Aeth yn hyf a'i gleddyf glas;
Gyru nodded gwyr iawn addas—dan gel
Di arddel da urddas.

Rhoes urddas eu gras a'u grym
Yn nychlyd (Feirddion awchlym);
Afrywiog, llidiog, a llym—ei weithred,
Och! egred! ich awgrym.

O ! caf lef eu cyflafan
Dros dir *Gwent*—Och ! drist oer gān ;
Trwm oer benyd, tra mawr boenau—ar hyd
Twrf ergyd tir Forgan.

Och ! ran Deheubarth a'i chri,
O ! trist aeth Powys trosti ;
Llem saeth i Wynedd, llwm son,
Dirym Môn Dwr a meini.

Nid oedd trai y' Menai Mōn
Gan laith gri oerfaith Arfon ;
Gwaed redodd, llanwodd y llyr,
Dorf ebyr (diar feibion).

Ar eu braw o draw a'u drych,
Trwm adrodd, tra mwy edrych ;
Trymach fuasai tramwy
Gyda hwy, tan glwy' tyn glych.

Clywch y sain, eu clych, a'u sī,
Du oer fōr aeth dirfawr *O !*
Daeth i'w terfyn (gresyn gri)
Archoll draws ac erchyll dro.

Cwynog hen afon Conwy—waith arfau
Ei thwrf dychrynadwy ;
Mawr ac anferth ryferthwy,
Lludded hon o'u lladdiad hwy.

Dalied distryw a du lid ystrin
A diliw frwynog dy law frenin ;
Boed terfysg rwysg erwin—esgarant,
A du i'th feddiant di a'th fyddin.

Melldith ddigyrith ddygai erwin
Drist euog athrist, īe, ysgethrin,

Yn ffrydoedd anghyffredin—dinystriol
Nerthol fygythiol ofwy gethin.

Dug weithred enwin, do gaeth rwyd anial
Du fraw ag oer waed afrywiog arial;
Ni bu o'r cynfyd hefyd eu hafal
Yn nyddiau Cain mor anodd eu cynal;
Mae cur a dolur yn dal—hyd yma
O gwyro geirda goreuog ardal.

Wnaeth dur, na'th brysur noeth bres—na'th gloyw ddig
Noeth gleddyf anghynes,
Na 'th rinwedd—noeth yw 'r hanes,
Am eu lladd i ti ddim lles.

Oer yw d' ofnau oriau dyfnion
Am wall deithiau a melldithion;
Camrau dewrwych Cymru dirion,
Dewr du gilwg dyr dy galon.

Clywn gur du latur dolefau—Cymru
Rhag camrwyg laddiadau;
Yn rhagor clywn eu rhegau
Mewn tyn wedd y maent hwy 'n wau.

Gilbert, Mortimer hymmig—eu gweithred
Ac uthr orddyfnedig;
Gelynion duon eu dig,
Dewr oeddynt a hydr eiddig.

Trist a llym dy orchymyn—di Iorwerth
Du arwdd dy gynllwyn;
Trist ae gwenlloer trosti ganllyn
Oer faith dyrfa i'r fath derfyn;
Oian ddolur, huan ddilyn,
A'i faith olwg y fath elyn.

I gledd o glai,
I fedd o fai,
Oer wedd i rai
Tan fyd tyn faith
I gyd a'u gwaith
O hyd a'u hiaith, had eu hoes.

Cnawd alanastr, cnwd elynion,
Oeri beirddion arab urddas;
Cawri diras—curo dewrion,
Iawn aneddion, yn anaddas.

Er galanas oer galonau,
Iawn rhoi geiriau yn rhagorol;
Dae o gwmpas wiw dêg impiau
Ar eu gwreiddiau o ryw graddol.

Er cās doddiad awr cystuddiau,
A'r gofidiau oer gafodol,
Y mae rhediad a mwy rhadau
Yn rhoi dyddiau anrhydeddol.
Mae i ninau awen, ddiau
Ddaeth o'u beddau, ddoeth a buddiol;
Eorth ddoniau—esgud olau
Dwys iawn eiriau da synhwyrol.

Clywn oer gri y deri dig,
Y goedfron sydd gaeadfrig;
A phob man anghyfanedd,
Y byd—pob ogof a bedd,
'N wylo 'n hidl gyda 'r ffrydlif,
Sŷn eu llais eu sŵn a'u llif.
Lluosog arfog oerfaith
Anial hwy yn ol eu hiaith,
Pob rhyw yn gwaeddi dīal
Yn gyson a digllon dal.

P' le mae Hywel a'i delyn—ai plwm yw?
Pa le mae Llywelyn?
Noeth iawn gur a'u gwnaeth yn syn!
Trwst a thwrf trist, a therfyn.

Aeth tafod call Cadwallo—yn oeraidd,
Urïen sydd yn huno;
Yn y gwys maent yn gorphwyso,
Aeth eu grym i wythi gro.

Aeth mawl esgud iaith, a meluseau,
Mydrau da ollol Modred allan;
Trwy 'r awyr mae 'r eryr a'r aran
A'u dolef, neu goegfref y gigfran,
Yn ol eu greddf—nelu gruddfan.

Ehud fu gweithred Ahab,
Rhwyg a fu i'w wraig a'i fab;
Rhoes syber lawer lab—lladd proffwydi,
Garw oeri gwyr arab.

Ni fu gwell, y nef a'i gŵyr,
Weithred Iorwerth—gerth ac oer;
Melan oedd a milain air,
Tynnai lid Duw Ion i lawr.

I'w arab wirfab o Arfon,—Iorwerth,
Fe yrodd cigyddion,
Boeth saeth—tra erchyll byth sôn,
Erchyllach ei archollion.

Ei wyr adawes, oera diwedd,
Gan ei dylwyth, gwyw nod dialedd;
Ac ar ei loesion gwyr lysedd
Aethant a'i olud, noeth hynt waeledd.

Mae 'n boen hoen henwi, a gwaith maith imi,
Agwedd hyd oerlli gadd ei dorllwyth;

Blin gaeth blaen ac ol—lenwi dilynol
A dig arswydol, du gwrs adwyth.

Pob goror i'r môr mirain—mewn arfel,
A'i wiw ddawn uchel oedd yn ochain;
Rhyfeddodd, synodd ei sain—y Dehau,
Y pyrth a'r dorau, parthau 'r Dwyrain.

Fynyddoedd, fanau addien—hyfrydwy,
Hoyw frodir îs wybren;
Cwmmwl oer pwl ar eu pen,
Llais oeraidd yn lle seren.

Oer yw 'r yrfa Eryri Arfon,
Caed ei mawredd gri Cadair Meirion;
Gruddfanau, blaen-lamau, blin-lymion,
Ochneidiau, dagrau, dafnau dyfnion,
Ac erfawr tramawr trymion—mynyddoedd,
Am y brâd oedd yma i Brydyddion.

Heolydd, trefydd, a'u derydd dyrrau;
Afonydd, glenydd, a gwiwdeg lynnau;
Cynnydd y maesydd, cain wedd a'u moesau,
Ffrwythydd y dolydd, a'r bronnydd brenau,
Ddien hîl, oll oedd yn hau—galarnad,
Oernad, naws a bwriad, nos a borau.

Afon Hafren wiw fwyn hyfryd,
I'r fan hafaidd Aerfen hefyd;
Gerwin achles, gyrru 'n nychlyd,
Gwae ran anial *Gwy* 'r un enyd.

O'u cyflafan bu cof wylofus,
Nŷch ochain fynych a chwynfanus—
Troi dîal erwin tra dolurus;
Du guro ydoedd, dig arswydus;
Hel llon hoff Feirddion hyfforddus—ar gil
Yn eiddil wan hepil anhapus.

O! anhapus, O! boenus wayw beunydd,
Archoll a danwyd, erchyll ei deunydd,
Afar gydiog alar gyda 'u gilydd;
Erfawr blin dramawr y blaen-dremydd,
Poethwyllt fal gorwyllt gerydd—wnaeth nadu,
Neu dyn alaru, o dan elorydd.

Y gwyrdd eurawg gerddorion,
Dda wâr oesawg ddewr weision,
Dda fawrddysg, ddiau Feirddion,
Iawn addas awenyddion,
Gwiw fu ollawl gyfeillion,
Ddoeth hylwydd wiw ddetholion,
Gwŷr iawn awchus—egr nychwyd
A faeddwyd—wiw ufuddion.

Uchel gawri îs Eryri, iâs oer erwin;
Gwel'd dan gwmmwl, archoll feddwl, erchyll [fyddin.

Gwel'd hyfäog lu tarianog,
Traws a bradog tros eu brodir,
Barodd adfyd tra dychrynllyd
'N oes ing hefyd nis anghofir.

CAN

I OFYN FFON.

Tŏn—"Dydd Llun y boreu."

Dos anerch di sèn, yn llawen mewn llewyrch a chyn-
yrch gwych hardd,
I Lanfair dros Ifan, fab egwan y bardd;
O odre Pen llech, heb orthrech, heb warthrudd, yn
ufydd dan nen;
Dros fynydd Cefnamwlch sy' a bwlch yn ei ben;

Tydweiliog ffordd dilyn, trwy Edeyrn a Nefyn,
Bydd sàd a bydd sydyn, nid undyn a'th deifl,
Rho wynt yn dy esgyll, ehed uwch y Pistyll,
Dros Nant Gwrtheyrn dywyll, a'r erchyll oer Eifl;
Nac ofna ar lawr 'Lernion na dynion na dieifl;
Dwys ganfod disgynfa, a wnai 'n y Tŷ isa'
Wrth Glynog barth glana', lle sobra o'r holl sir,
Ond yno nac aros rhag ofn i'r tywyll-nos,
Dy ddal, dos i ddiddos, cyn nos acw 'n wir;
Gwell bod rhag pendrymdod heb ormod o'r Bîr.

Cei ffordd wastad deg gywreindeg, ar randir per frodir pur fras,
Nes dod i Lynllifon hap loewlon i'r Plas,
Pan ddelych i'r coed, na foed i ti 'n fudan bendwmpian bo 'n deg,
Dy ddidor gerddediad heb rwystriad na breg:
Nac ofna, bydd gefnog, ehed uwch Llandwrog,
Llanwnda gad goedwig meillionog y lle:
Bydd dros y Bontnewydd yn gynar prydnawn-ddydd,
Tra haul uwch ei geurydd cyfarwydd cei fe;
Na sylwa 'n Nhgaernarfon ar droion y dre:
Y'mlaen cei ffordd union, y'ngolwg yr afon,
Palasau gwyr mawrion gwlad Môn golud maith.
Cyn pen pedair milldir Plas Llanfair canfyddir,
Yn hawdd yr adwaenir da gywir deg waith,
Yno gwnei ddisgyn ar derfyn hir daith.

Na ddos yn rhy hy', i'r tŷ, bydded tawel ac isel dy gân;
Trwy ofyn cei wely, clyd lety, clod lân,
Pan ddelych ger bron, yn union, yn onest, heb orchest heb ball,
Bydded d' ymddygiad, iawn genad, yn gall.
Dymuna hir lwyddiant hoff enwog a ffyniant,
I'r gwr sy' mewn meddiant hir fwyniant o'r fan;
Bydd iddo 'n ddiolchus am roddion haelionus,
A gefais rwy'n gofus, o'i rymus wiw ran,
Bron ydoedd Brynodol, ragorol i'r gwan;

Ond cyfod ar lasddydd beth bynag fo 'r tywydd,
I'r ardd dos at Gruffydd ab Dafydd heb dwrdd,
Cei ef yn mysg prenau yn casglu afalau,
Bur ffraethion ber ffrwythau, aur berlau i'r bwrdd,
Bydd da gan ei galon deg union dy gwrdd.

Tra buddiol trwy barch, yw cyfarch, ond cofia, na tharia chwaith hir,
Fe ymlid haul 'splenydd y glasddydd yn glir,
A nesu wna nos, nac aros, rhag oerni, daw dylni i dy
Byr adrodd heb rodres dy neges yn iawn, [ddawn
A dywed yn ddifri bod Ifan yn dofi,
Fu gynt yn llanc heinyf yn lloni pen Llŷn :
Ei wallt sydd yn llwydo, ei lygaid sy 'n ffaelio,
Y gwàr sydd yn gwyro o hono ei hun :
Mae'n ofni musgrellni, neu gloffni'n ei glun.
Bu enyd o amser hyll agwedd yn Lloegr,
A'i nwyfiant yn ofer, ansyber ei saig,
Nes myned yn wanwr, a socyn di swcwr,
Ni ddeil i oferwr, fawr gryfdwr y graig,
Ond adre' dychwelodd, ymgredodd a gwraig.

Tan lafur tyn lwyth, neu adwyth niweidiol, anwrol ei nerth,
Hawdd iawn ganddo lithro, neu syrthio ar le serth.
Pe byddech morfwyn, un addfwyn gynneddfau, hoff eiriau, roi ffon ;
Chwi wnaech yn ddyn newydd, wär Brydydd o'r bron :
Ffon gron, o lin onen, wedd iraidd neu dderwen,
Da 'i asbri dewisbren, neu gollen deg wiw,
A baglan lān luniaidd rhisgl clirwych disgleiriaidd,
Neu gywraint ragoraidd bur loywaidd ber liw,
Heb arni groes naddiad, na brathiad, na briw.
Ffon odiaeth ffynedig, fo gadarn o'r goedwig,
Nid gwyden bygedig, ddolenig, ddeil im:
Ond bydded ei moddau yn drwyadl ddi-droiau,
Heb geinciau, holltiadau, neu dolciau na dim
Gwrthuni, na chroesni, na chamni, ffon chwim.

Wrth osod ger bron fy nghwynion anghenus, bo trefnus y tro,
Da ími, di anmharch yw cyfarch y Go',
Anfwyn yw ffon fer, trwy daerder rhaid durdorch a fforch yn ei phen,
Byrhau wrth ei dreulio, nid prifio wna pren,
Ni chwynaf ychwaneg os Gruffudd ryw adeg,
Aiff at y Gof mwyndeg, a'r redeg o'r ardd,
Os na wna gorchwylion ei deg gymydogion,
Neu graswaith gwyr croesion, a hyfion wahardd :
Gwna hyn o gymwynas o bwrpas i'r Bardd,
Pan gaffwyf i'm dwylo y ffon a orpheno,
Yn weddus rwy 'n addo (nid cwyno) wneud Cân,
A diolch heb dewi i bawb roes law wrthi,
Os bydd iw'ch eu henwi rai heinyf ar wahan,
Peth diddan yw canu mewn teulu y ' mîn tân.

DIOLCH AM Y FFON.

Ton, " Breuddwyd."

Mae 'n bryd i ti ymdrwsio, iawn ddeffro hen ddyn,
A myned heb gellwair i Lanfair o Lŷn
Mae 'n rhaid iti 'n fuan drwy ffwdan draw ffoi,
Ni thâl i ddyn egwan, fo druan, ymdroi.
I'r sawl a fo 'n euog, dyledog, dwl iawn
Yw eistedd yn llonydd, di ddeunydd di ddawn ;
Yn llawen fe all ef,
Rodio lle myno neu drigo 'n ei dref.
Myfi sydd ddyledus esgeulus was gwael,
Ac nid yn ddiolchgar wr cerddgar er cael,
Yr hael ni fawrheis,
Ystyriais ddistawrwydd, i w'radwydd, yr eis.

Gynt clywais ddiharheb, callineb cu llwyr,
Mai gwell—defnyddiolach na hwyrach yw hwyr :

Am hyny fy niolch ymolch yn y man,
Dy drwsiad fo daclus, iaith rymus i'th ran,
Na sylwa ar gynwrdd na dadwrdd un dyn,
Ond dos yn ddilestair i Lanfair o Lŷn,
A dilyn hyd ol
Heirdd ddilys fforddolion yn rhadlon mewn rhol:
Yn Llanfair mae llonfyd, ac iechyd, a gwîn,
I ddiolch, maddeuant, cryf lesiant i flin,
A chegin a chig,
Ni welir neb yno dan ddannod yn ddig.

Rhoi 'n gyntaf ddiolchus air parchus i'r Pen,
Etifedd Brynodol da siriol di sen,
Hael graffus hil Gruffydd, meddianydd modd dwys,
Llanfair, mae Taltryddyn i'w canlyn bob cwys
Ei deulu, gwaedoliaeth o helaeth fawrhad,
Gynt oeddynt lywiawdwyr ymg'leddwyr eu gwlad
Da'u bwriad di ball,
Gweinyddent y lanwaith iawn gyfraith yn gall;
John Gruffydd sy' riddyn ei wreiddyn o Rys,
Ab Tewdwr odidog hael enwog ei lys,
Dewr dilys dwr doeth,
Fu gynt yn teyrnasu ar Gymru aur goeth.

Diolchaf yn bwyllus i drefnus wiw dri,
O'i weision dewisol llon, brawdol, llawn bri,
Sef, Gruffydd ab Dafydd, un ufudd ei nod,
A Sion-Shon, a Rhaser, eglurber fo 'r glod,
Gyrasant, derbymiais, mi gefais am Gân,
Ffon nerthol o dderwen, disgleirbren dwys glân,
Hoff faglan a phig
I'w blaen yn safadwy, er tramwy hir trig,
O fanwl waith Owen wiw gywrain y Go',
Mab Daniel ab Gruffydd, da beunydd y bo;
Oes iddo, lleshad,
Nes myn'd yn gywreiniach a doethach na 'i dad.

Gofynaf yn dawel, yn isel eu nawdd,
Ond imi wneud felly, ca 'i hyny 'n go hawdd,

A dywed bod Ifan fu dṛuan ei dranc,
A'r Ffon rhwng ei ddwylo yn llywio fel llanc,
Un nerthol anwrthun i estyn ei oes,
Mae 'n diolch o'i galon i'r haelion a'i rhoes:
O Fryncroes ei fro,
Cyrhaeddyd hyd Lanfair heb anair y bo,
Ar ol iddynt glywed a gweled y gŵyn,
Y ffon pan orphenwyd anfonwyd yn fwyn,
Heb achwyn o bell,
Ni fedd un trafaeliwr na gwanwr ei gwell.

Fy awen fo fywiog alluog a llefn,
A diolch heb dewi 'n myn'd drosti mewn trefn;
I osod yn eglur o brysur ger bron,
Gain wyrthiau go nerthol effeithiol y Ffon;
Heb Ffon yn fy ngafael y drafael oedd drwm,
Hawdd llithrwn ar lethredd crin lechwedd croen llwm;
Rhyw godwm rhy gas
Ces unwaith, ca'i 'r coesau, do liwiau du las;
Ond rhoddaf y'rwan, was buan, ysbonc;
Yn ysgafn fy nghalon tros afon tra sionc,
I'r bonc af o'r baw,
Pan byddo 'r Ffon dderwen yn llywbren i'm llaw.

Does heddyw fusgrellni na chlọffni na chlais,
Ni ddaw ar fy nghyfer orthrymder na thrais,
Na tharw llym hwyliog, ci llidiog, na llew,
Na baedd danneddog, certh daeog arth dew,
Trywanaf y lleidr,—y neidr o'i nŷth
A dynaf fi chwipyn ei cholyn a'i chwyth,
Yn hirsyth gwna 'i hon,
Pe ba 'i mwy ei dichell, ā phicell y Ffon.
'Wnaeth cnwpa hen Herc'lus arswydus gawr serth
Prin cymaint, gwas-gwychder, yn uchder ei nerth;
Dwl anferth di lun,
O'm blaen fyddai 'r grymus hen Herc'lus ei hun.

Yn gadarn y dringaf a rhodiaf y Rhiw,
Caiff genyf y llwynog afrywiog ei friw,
At greigiau Carnfadryn yn sydyn os af,
Chwyrn ymlid gwylltfilod o'u nythod a wnaf.
O ddanedd Pencilan mur syfrdan mawr 'serth,
Yr adar a wylltiaf, anafaf eu nerth,
A phig certh y Ffon.
A cherddaf Sarn Badrig o diddig y don,
Ni bu Ffon mor hwylus noeth rymus na 'i threch,
Hyd Fryncroes ffordd goleu, na llwybrau Penllech,
Mewn gorthrech myn gael
Y maes ar ffyn meinion plwy' Daron, plaid wael.

I chwi yr hael ddynion tro tirion fyd teg,
Llonyddwch, dedwyddwch, hyfrydwch di freg,
Chwi gewch yr uchelfraint mewn henaint mi wn hyn,
Yn Llanfair bwyd ddigon, hoff weision, a ffyn:
I rodio 'n mysg mangoed is deilgoed o'i stwr,
A digon o degwch, hawddgarwch, i'r gwr,
Heb gynwr heb gas.
Rhoddi awchlymder wna 'ch blinder i'ch blas;
Wrth fyn'd drwy 'r gwyddeli, llwyni, drain, dawn llon.
Am danaf meddyliwch, na phasiwch un Ffon;
O foddion di feth,
I mi gwnewch ei hanfon, os union a seth.

RHIFYDDIAETH.

Rhyw Wraig yn Aberdaron,
Yn amser William Llŷn,
A ranai fil o bunnau
Rhwng William a rhyw ddyn
A elwid Siôn Eifionydd,
Nid yn eu haner chwaith
O achos na wnai felly,
Bu dd'ryswch lawer gwaith,

Un bummed ran o'r arian
Gai William ber ei dôn,
Oedd fwy o ddeg punt union
Nag un bedwaredd Siôn.
Mae Brenin penwyn Enlli
Bron myn'd o'i hwyl ei hun;
Dywedwch i'w dawelu
Pa faint a gai bob un?

William ..... £577 15s. 6½d. ½
Siôn ..... £422 4s. 5½d. ½

O'r Defaid trâ breision, eu haner oedd wynion,
Eu chwârter yn dduon, gan Simon ge's i,
Eu chweched yn gochion, a phedair yn frithion,
'Sawl un a roes Simon Rhys imi?

At. 48.

Rhoe Dafydd i Tomas o Bunnau gryn ri'
Naw deg-punt a phedair o'r rhain gefais i,
Haner y gweddill gai Forgan yn llog,
A'r bumed ran prynwyd i Gweno hardd glog,
Mae 'r ddegfed ran etto ynghadw gan Twm,
O'r Punau roes Dafydd, pa faint oedd eu Swm?

At. 141

Gwelais i Bysgodyn rhyfedd,
Hyd ei ben oedd ddeunaw modfedd,
Hyd ei ben, a haner union
Hyd ei gorph, oedd hyd ei gynffon;
Ond ni fedrais fod yn foddlon,
Nes im' fesur hyd ei gynffon,
Hon a'i ben, ond eu cysylltu,
Oedd hyd ei gorph, pa faint oedd hyny?

At. Ei ben 18m.; Cynffon 54m.; Corph 72m.; neu 12 troedfedd hyd y Pysgodyn.

WRITTEN FOR OWEN LLANDDEINIOLEN.[1]

I HOPE, kind Sir, you will excuse,
The freedom of the *Awen*,
Who begs your leave to introduce,
Poor Owen Llanddeiniolen:
He always lov'd a wand'ring life,
As Pilgrim up and down, Sir,
He bows, he scrapes, he knows no strife,
Is harmless, though a Clown, Sir.

He has no property to sell,
No riches to sustain him,
No home, nor house wherein to dwell,
No friends that can maintain him;
From place to place, from door to door,
His habit is to wander,
What e'er he gets he keeps in store,
Does not in riot squander.

His coat is thin, his shirt is gone,
His body much neglected;
The winter cold is coming on,
Hard frost and snow expected;—
You have to give, and heart withal,
O hear his mournful ditty,
He summons up his power all,
To rise your bounteous pity.

When young, his journeys did extend,
Through England, even to Dover;
But now his tours are at an end,
His days are almost over;
Ere long shall have a peaceful bed,
A grave in Llanddeiniolen,
With this Inscription at his head:—
"Here lies poor rambling Owen."

(1) "Creadur tlawd, diniwaid, a gonest, o'r enw Owen Williams, o blwyf Llanddeiniolen, oedd hwn, ac yn teithio Mon ac Arfon tua 60 mlynedd yn ol, o ddrws i ddrws am ei damaid, ac yn cludo llythyrau beirdd a llenorion at eu gilydd. Byddai y beirdd yn canu iddo, er anog y ffermwyr a'r boneddigion i fod yn dyner o hono a diwallu ei angen."

PENILL

O ddiolchgarwch i Morgan Dafydd, o Nannau, am ffon a roesai i Owen Llanddeiniolen, 1820.

I'w ganu ar "Bellisle March."

Y mae Owen Llanddeiniolen,
Elusen yw ei lais,
Ar ei liniau y' nhir haelioni,
Mewn gweddi mwyn ei gais;
Am eglurdeg fwyndeg fendith,
Fel gwlith, heb ragrith bron,
Ar Forgan Dafydd, barodol Brydydd,
Hoff eilydd am ei ffon;
Ffon faglog, enwog yw,
Brith gollen saethwen syw,
Na cha'i 'n un fan ei bath,
Er cwynfan am arian yn y myw.
Mae iddi amgarn a phig gadarn,
Gan haiarn gwn na hyllt
O dan Owen, rhag dwyn niwed,
Wrth gerdded gwaered gwyllt,
Pob garw darw dig,
A'i rymus frochus frig,
Pob ci gwardew, crylew, creulon,
A ffo'n' o flaen ei phig;
Fe ga Owen fyw gu awydd,
A llwydd oherwydd hon;
Ac wedi teithio, nes ei flino,
Orphwyso ar ei ffon.

I JOHN HUMPHREYS TY MAWR LLANDDEINIOLEN.

John Humphreys Llanddeiniolen,
Chwi wyddoch les elusen,
A rowch chwi glos i guddio t—n,
Yr hen bererin Owen.

Mae 'n d'weud mae chwi yw 'r gorau,
O fewn y plwyf ers dyddiau,
Rhydd weddi drosoch ddydd a nos,
Nes elo 'r clos yn garpiau.

Daw dydd y derfydd Owen,
Grugleisio am elusen,
Chwi gewch ei hebrwng yn y man,
I fynwent Llanddeiniolen

CWYN YR HIRAETHUS.

Pan gofiwyf am y dyddiau gynt,
Ynghyd a'u helynt hwy,
Am bob difyrwch hoenus hynt,
Ni welaf m'onynt mwy,
Am lawer cyfaill ieuanc gwych,
Ei ddrych mewn bedd a roed,
'Rwy 'n mynych wylo dagrau dŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Bu i'm gyfoedion gwychion gynt,
Aml oeddynt yn fy mhlwy';
Ni chaf wrth rodio ar fy hynt,
Prin ddau o honynt hwy:
Ac er mor drefnus oedd eu drych,
Mewn isel rych hwy roed;
Wrth feddwl hyn rwy 'n wylo dŵr
Yn Wr tri ugain oed.

Bu im' Rieni heini hynt,
Dau hoywon oeddynt hwy;
Hwyliasant yrfa gyda 'r gwynt,
Ni welaf m'onynt mwy,
Hyd i bellfaoedd diroedd da,
America i'r coed,
O'u hol rwy 'n wylo dagrau dŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Bu i mi ddifyr frodyr gynt,
Aeth un ohonynt hwy,
I waelod bedd o'i hoewedd hynt,
Ni welaf monynt mwy,
Maent wedi myn'd er's llawer ha
I'r 'Merica a'r coed;
O'u hol rwy 'n wylo dagrau dŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Bu imi gu chwiorydd gynt,
Ni welaf monynt mwy,
Aeth un i'w harch a thyna hynt,
Pob un o honynt hwy.
A muriau coed America
Yn drigfa iddynt roed,
O'u hol rwy 'n wylo dagrau dŵr,
Yn Wr trí ugain oed.

Bu farw Nhad, mae yn y bedd,
Dyn gloewedd dan ei glwy;
Mae Mam yn fyw, mae 'n hen, boed hedd,
Amynedd iddi mwy;
Ac os oes dramgwydd ddedwydd dda,
O'r 'Merica a'r coed,
Boed im' eu cwrdd heb wylo dŵr
Yn Wr tri ugain oed.

Fe ddarfu mebyd ie 'ngctyd oes,
Nid oes i'm heinioes mwy
Ddiddanwch per, cadd lawer loes,
Mor groes eu hanfoes hwy,
Aeth canol oes o'u hol drachefn,
Tu cefn y drefn a droed,
Am hyn 'rwy 'n wylo dagrau dŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Os aeth perth'nasau goreu gynt,
Na welaf monynt mwy,

Aeth dros y cefnfor gyda 'r gwynt,
Rhwydd hynt i'w helynt hwy.
'Rwyf fi yn ngwlad trugaredd rad,
Mae 'r alwad im' erioed,
Fod bara nefol, bywiol ddŵr,
I Wr tri ugain oed.

Ce 's wên y byd deg enyd gynt,
Ei glod a'i hynt di glwy',
Ei glod a'i wên a gludai wynt,
Oferedd oeddynt hwy.
Ei wên a'i ŵg, mewn amlwg nod,
Ei glod, i drallod droed,
A'm gado 'n druan dan y dŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Nid wyf yn beio 'r dyddiau gynt,
Na welaf m'onynt mwy,
Na hel un gwawd ar haul na gwynt,
Pe cynt eu helynt hwy;
Maent hwy 'n eu lle yn cadw eu deddf,
Yn ol y reddf a roed,
Nid felly fi, er maint fy stŵr,
Yn Wr tri ugain oed.

Gan fyned heibio 'r dyddiau gynt,
Na welaf m'onynt mwy,
Mae 'n bryd im' chwilio ar fy hynt,
Am helynt bery 'n hwy.
At orsedd gras, mae eto 'n rhydd,
Drwy ffydd fy enaid ffoed,
I Seion deg, bydd Iesu 'n dŵr,
I Wr tri ugain oed.

PENILLION AR AMRYW DESTYNAU A MESURAU.

Aed llewyrch haul efengyl grās,
A'i wres o gwmpas daear lawr,
Fel gwelo'r tywyll a'r digred,
Hawddgared ei oleuni mawr.

Aed son am werth—hael aberth Crist ar led
Fel cleddyf llym, mewn grym, at rai di gred,
Efengyl hedd—trugaredd, rhinwedd rhad
A dyno'r byd at wynfyd pur y Tad.

Na b'o ar goll, o'r Indiaid oll yr un,
Pob bryn a bro adwaeno Fab y Dyn,
Fel b'o 'mhob man un gorlan dan un nod,
Ar sior sail—un Bugail iddi'n bod.

Arglwydd, llwydda dy genhadon,
Yma, ar, a thros y mōr,
Dysg i'r Iuddew dy adnabod,
Yn berffaith Ddyn, yn berffaith Iôr.
Gwna i'r Pagan tywyll gredu,
Mai Ti yw Prynwr dynol ryw,
A'th tod yn gwa'dd holl gyrau'r ddaear
I ddyfod atat, a chael byw.

Dring rhagot Efengyles Sīon,
Cyhoedda i ddynion hedd o Dduw,
A bod y gwr ar groesbren garw
A fu farw, etto'n fyw;
At blant y Gogledd, ac at fyddin
Y Gorllewin gyr y llef,
Holl drigolion De a Dwyrain,
Tirion arwain tua'r nef.

Ar rai y'mro a chysgod angau,
Llewyrchied haul efengyl grās,
Ffrydied heddwch drwy'r anialwch,
Trugaredd hyd y crindir crâs;
Doed Iuddewon a Phaganiaid,
Fuont grwydriaid, fewn at Grist,
Parhad o'i gariad rhad i ninau,
Tra bo'm yn nyffryn trallod trist.

Addewid o blaid ffydd
I gaethion Seion sydd,
Y do'nt heb goll o'u rhwymau oll yn rhydd;
Iesu a'u carodd hwynt yn rhad,
Pwrcasodd iddynt nefol wlad,
Fe 'u dwg mewn gwisgoedd gwynion,
Ger bron ei dirion Dad.

Gwyn fyd,
Ar Iesu Brynwr roes ei bryd,
Oen addfwyn, glan, a noddfa glyd;
'Nol gado'r byd, yn hyfryd hwy
A ga'nt, mewn purdeb gyda'u Pen,
Yn Salem wen, breswylio mwy.

Nesāu mae'r dydd, O ddedwydd awr!
Bydd holl amgylchoedd daear lawr
Yn gyflawn o wybodaeth Iōr,
Fel y mae'r dyfroedd yn toi'r mōr.

Goleuni 'nghysgod angau fydd,
Gwna ganol nos fel canol dydd;
A'r holl genhedloedd dan y nef
A rodiant wrth ei lewyrch Ef.

ESAIAH XXVI.

Mae dinas gadarn iawn i ni,
Duw esyd iddi'n brysur
Ei iechydwriaeth i barhau,
Yn gaerau ac yn rhagfur.

Y pyrth agorwch fel y dêl
I mewn y genedl gyfiawn,
Yr hon a geidw (hardd ei gwedd),
Wirionedd cywir uniawn.

Mewn perffaith heddwch cedwi'n glyd
Sydd a'i feddylfryd arnad,
Am ddarfod iddo a'i holl gred,
Ymddiried yn dy gariad.

Rho'wch eich ymddiried, cewch fawr lwydd
Ar allu 'r Arglwydd bythol;
Duw Iôn sy' nawdd anfeidrol werth,
Jehofa 'n nerth tra'gwyddol.

ESAIAH XXV., 6.

Arglwydd Dduw y lluoedd wna
I'r holl bobloedd,
Yn mynydd Seion wledd barhâ
Yn oes oesoedd;
Gwledd ddanteithiol, freiniol, fras,
Nefol fara;
A gloyw win puredig flas,
Haleluia.

GWEDDI 'R ARGLWYDD.

Ein Tad yr Hwn wyt yn y nefoedd
Yn llywio'r greadigaeth faith;

Sancteiddier d' enw gogoneddus,
Gan bob cenedl—yn mhob iaith ;
Dy deyrnas deued yn ei phurdeb,
Yngolau grym efengyl grâs,
Fel mae dy 'wyllys yn y nefoedd,
Boed felly ar y ddaear lâs.

Beunyddiol fara dyro heddyw,
Diwalla ein angenion ni,
Fel y maddeuwn i 'n dyledwyr,
Ein holl ddyledion maddeu Di ;
Nac arwain ni i brofedigaeth,
Ond gwared ni rhag drwg, is nen :
Canys eiddot Ti yw 'r deyrnas,
Y nerth, a'r mawl, dros byth. Amen.

Y GWAREDWR.

Er mai dirmygedig oedd,
Diystyr ydoedd ef ;
Heb bryd na thegwch yn ei wedd ;
Hwn oedd Etifedd nef.

Gofidus oedd er maint ei ddawn,
Cynnefin iawn â nych ;
Blaguryn oedd—cyfrifai dyn
E' n wreiddyn o dir sych.

Cymerodd ef ein natur wan,
Gorchfygodd Satan serth ;
Ac ynddo'n wyneb angau dîg,
Yn unig y mae nerth.

Agorai ffordd i'r nefol wlad,
Cymodai' Dad â dyn ;
Ei gariad mewn anfeidrol fodd
A hanodd ynddo 'i hun.

Cyfiawnder pur, a'i eglur waith,
A grym ei gyfraith gref;
Melldithion pechod rif y gro,
Fu 'n pwyso arno ef.

Rhoed cosp ein pechod arno 'n llawn,
Oen difai iawn, a da;
Dioddefodd ef y Dwyfol lid
O'n plegid ni, a'n pla.

I fynu o Edom daeth yn wir,
Fe 'i molir am ei waith;
Mewn gwaed o Bosra gyd a'r dydd,
O ddedwydd, ddedwydd daith.

Trwy nerth ei fraich, anfeidrol rïn,
A gloew fîn ei gledd;
Achubodd Ef, 'does mwyach fraw,
Ei bobl o law y bedd.

SALM XXIII.,

Wedi ei chyfansoddi ar fesur Cywydd 2air hirion.

Yr Arglwydd (mewn sicrwydd sail,
Ef a'm māg), yw fy mugail,
Ni bydd (mewn cynydd mi wn caf
Ddwys eurnerth), eisieu arnaf.

Gorwedd wna im', mewn gwiw ras,
Pur fyw fraint mewn porfa fras;
Gerllaw dwfr aelaw di frys,
Tawel, Efe a'm tywys.

I deg fan y dwg f' enaid,
Arwain y blin, er iawn blaid,

Ar hyd llwybrau (gorau gwaith),
Cyfiawnder, lle caf fwyndaith ;
A hyn er mwyn (addfwyn Iōn),
Ei anwyl, dda enw, union.

Er rhodio glyn (cyndyn cau,
Cas gyd ing), cysgod angau,
Nid ofnaf friw na niwaid,
Damwain blin, wyd imi 'n blaid ;
Dy wïalen lon, a ffon, ni phall,
Deubeth rydd gysur diball.

Y man y gwêl fy ngelyn,
Fy mwrdd wnai di heini hyn,
Fy mhen i eneini 'n wir
Ag olew, iawn y gwelir ;
Fy phïol, ufuddol fodd,
Rad trwsiad, a red trosodd.

Da iawn hwyl, daioni hedd,
Athraw gwir, a thrugaredd,
Yn hydyn a'm canlyn cy'd,
Heb wae a dyddiau'm bywyd ;
Daliaf yn nhŷ Iŏr, dilyth,
Trwy guf barch, lle trigaf byth.

CAROL

Ar y don a gyfenwir "Difyrwch Gwyr y Gogledd."

Cydeiliwn, fawr a man, wir glod i'r Arglwydd glan,
Cysonol sain y plygain, gywrain gân,
Angylion llon eu llef, gweiniasant ei gân Ef,
Ar doriad dydd, sain ufudd is y nef ;
Boed gwir ogoniant, moliant mâd,
Drwy'r goruchafion, dirion Dad, [rhad
Trwy'r ddaear, hygar agwedd, tangnefedd, rhinwedd

Clywch, clywch newyddion rhadlon, rhydd—
Ganwyd heddyw, y'mîn y dydd,
Iôn Cadarn, Enwog, Ceidwad, dwys alwad ato sydd.

Hwn ydyw'r dydd y daeth Iôr cu, rhyddhawr y caeth,
Yn wael ei lun, at ddyn i 'mofyn maeth ;
Dydd daeth y Meichiau mawr ar frys o'i lys i lawr,
Yn faban mud, i'w eni gyd ā'r wawr;
Dydd daeth tragwyddol, Freiniol Frawd,
Fel gwas gwag noeth, mewn gwisg o gnawd,
I gym'ryd ein caledi, ein gwegi ni, a'n gwawd,
Creawdwr a chynhaliwr byd,
A'r holl ddefnyddiau gorau i gyd ;
Duw cadarn ! O rhyfeddol, Iôn grasol yn ei gryd,

Er meddu o Iesu mawr, bob cyfoeth wiwgoeth wawr,
Ni cha'dd na thŷ na llety ar y llawr ;
Y preseb yr un pryd, Dduw grasol, oedd ei gryd,
Ei ferch ro'es faeth i Benaeth nef a byd;
Rhyfedd gariad, rhyfedd ras,
Bod Brenin hedd mewn gwedd fel gwas,
Rhyfeddach oedd y cariad—rhoi ceidwad i'r rhai cas;
Llawenychwn, gwelwn gael
Yn ein isel anian wael, [hael.
Wych odiaeth fwyn Iachawdwr, derbyniwr, rhoddwr

Ystyriwn ; Hwn yw'r Had, addawyd gan y Tad,
Ar awel dydd, dawn cynnydd di nacâd ;
Hwn ydyw Had y wraig, a ddrygodd siol y ddraig :
Hwn yw sail ffydd gwir grefydd, gywir graig ;
Hwn yw'r hwrdd, er cyffwrdd cam,
Wobrwyai hedd i Abraham :
I Isaac rhoes ymwared, diniwed Oen dinam,
A hwn ei hun wir lun ar lawr,
Ymdrechodd 'Iacob hyd y wawr,
Nes cafodd yn ddi gyrith o wlith y fendith fawr.

Dyma'r un y bu, duwiolion llon yn llu,
Yn ei wel'd o bell, eu cell, a'u castell cu,

Addewid oedd eu nerth bob dydd, a ffydd hoff werth
A'u dug i'r lan, er amcan Sátan serth ; [had
Dyma ddiwedd ryfedd rad, er dwyn hedd, pob ordin-
A sylwedd pob rhyw aberth, a chyfnerth ein iachad ;
I hwn yn helaeth iawn o hyd,
Bu'r gwir broffwydi'n gweini'i gyd,
Proffwydo gwaredigaeth, gwybodaeth ffraeth ei phryd.

Cenhedlwyd ef mewn tair, deg wyryf da eu gair,
Yr Arfaeth fyw, Addewid Duw, a Mair;
Daeth tymp yr arfaeth fawr, addewid deg ei gwawr,
A Mair 'r un pryd, O hyfryd enyd awr, [Fair
Er ei genhedlu yn y tair, ynghroth yr addfwyn Forwyn
Y gwisgodd ef ein natur, mwy cysur yma cair ;
Ni chym'rodd ef yn nef un waith
Naturiaeth angel, uchel iaith,
Ond natur dyn syrthiedig, Oen diddig iawn ei daith.

Doluriau Seion d'lawd, a gymerth Ef a'i gwawd,
Boed iddo glod, mae'n Briod mwyn a Brawd;
Dros hon, er maint ei 'stād, ei einioes rhoes yn rhad,
I lawr o'i fodd, dyhuddodd Duw ei Dad ;
Am iddo grymu ar y groes, damnedigaeth dwym nid oes
I neb o deulu Seion, yn rhyddion Ef a'u rhoes ;
Bydd mawr prydferthwch, harddwch hon,
Drwy gywir fraint, draw ger ei fron,
Pan ddelo'r teulu adref, i'r nef, a'u llef yn llon.

ENGLYNION AR ALWAD Y CENEDLOEDD.

Moliant fydd byth am alwad—Cenedloedd,
Cain odlau am gariad ;
Am drysor—am agoriad,
Temyl yr efengyl fad.

Buost, Brydain, gain gynydd—ufuddawl
Foddion yn llaw'r celfydd,

Trwy gasglu i daenu dydd
Goleu, o gwr bwygilydd.

Argreffaist, gyraist deg araith—y Bibl
I bobloedd anghyfiaith;
Cenhadon cu hynodwaith,
Dros for draw, i Asia faith.

Amerig, Affrig, effro—iawn ydynt
Hynodawl, yn gwawrio
Mae'r dydd; gwir ffydd gyr ar ffo
Baganiaeth—neb i gwyno.

Ynys ni fydd nac annedd—y'mharthau
Y Deau na'i duedd;
Na gwagle yn y Gogledd,
Heb sain llon, cenhadon hedd.

Chwi ddynion, haelion, a hylaw,—beunydd
B'o Iôn yn eich llwyddaw;
Byd yn gytun ddymunaw,
Bid gwlith Iôr, bendith ar bawb.

Y doethiawn hoff iawn eu ffydd—lewyrchant
Oleu orchwyl 'sblenydd;
Hwy mal nen ffurfafen fydd
Heirddion, ddiddarfod hirddydd.

A droant, oleuant lawer—i ffordd
Hoff urddas cyfiawnder;
Byddant fel gwawl siriawl ser,
Yn nef, dragywydd nifer.

CYWYDD I R. AB GWILYM.

Y BARDD glan, ebrwydd ei glod,
Rhobert, bu'm ddieithr hebot,

O ddechreu f'oes, groes ei gwraidd,
I'r awr hon, wăr ŵr henaidd;
Byd ddaw'n well, mi gaf bellach
O'th farddoniaeth wiwfaeth iach.

Cyfoedion, cofia, ydym,
Yn yr oes, dau henŵr ŷm:
Fy oed yn gyfrifadwy,
Deugain mlwydd dengmlwydd a dwy;
Nid yw bell o fewn dy bau,
Dethol dy oedran dithau.

Myfi o Lŷn, crwydryn croes,
Fu'm trwstan, ran o'r einioes;
Crwydrais dir Sais, nid da 'r son,
Y mae aeth i mi weithion,
Wrth feddwl mor ddwl, mor ddall,
Yn ieuanc fu fy nyall,
Ba'nd, esgud, buan dysgwn
Bob gwagedd (tuedd cnawd twn);
Difraw fu' mywyd efrydd
At dda, ni cha'i redfa rydd,
Brwysgais ansyber osgedd
Ar fragod, a mwyglod medd;
Aeth fy mhen, gan hufen haidd,
Yn fadron ac anfydraidd.
Cawn weniaith (rhyw draith rhy drist,)
Wael hun găn, gan hîl Hengist:
You are rich, Master Prichard,
Deckt gay—your conduct you guard:
Tra rhoddwn win yn ddinag,
Dyna eu hiaith, gweniaith gwag:
Oni thalwn (etholwas),
Eu cyfri, cawn goegni gas,
Prichard is a niggard now,
A fool—shame on the fellow;
O achos hyn, Och y sydd,
Colledwyd y Cyllidydd;

Gorfod imi 'n ddifrïol,
Gludo 'n waeth i'm gwlad yn ol.
Didrefn wrth ddyfod adref
Fu'm wedi brwydr y grwydr gref:

Dywedais mai da odiaeth
Yw Llŷn, ca' oferddyn faeth;
Ac mai mangre, trigle trais,
Yw Lloegr, yno y llygrais.
Mi af i'm gwlad, fad, i fyw,
Da fro, di ofer, ydyw;
Yno caf enwog gyfarch,
A bod mewn digon o barch;
Os ammarch, a fy siomi,
Gan ffeilsion Saeson, ge's i,
Ce's rymial a myngial mall,
Wneuthurol, mewn iaith arall,
Yn Llŷn, ni bu gronyn llai,
Y dynion a'm hadwaenai
Yn awyddus, pan oeddwn,
Gain gynt—holynt, Pwy yw hwn?
Craffwch, adwaenwch y dyn,
Ieuan fardd, hen oferddyn;
Gynau meddyliai ganoedd,
Wrth ei rym mai Arthur oedd;
Wele yn awr, ar y llawr llwm,
Gwedi cael anferth godwm.

Pan glywais, synais enyd,
Uwch ben anwadalwch byd:
Chwiliais, tro'is fynych olwg,
(O radd drist), P'le 'r oedd y drwg
Chwiliais, ac ystyriais daith,
A damwain aml gydymaith,
Dydd eu braint, diwedd eu bri,
Tra annoeth oedd trueni;
Mewn ffrwst aeth rhai yn drwstan,
O ormod diod i dān.

Annoeth eu ffordd, gosgordd gau,
Annoeth fy niwedd innau.

Gadewais, a gadawaf
Y ffordd gerth, yn nerth ein Naf;
Na foed mwy i'm yfed medd,
Na bragawd er mwyn bregedd.
Fy mywyd a f'o mwyach
Gwastad, per rodiad, pur iach.
Canu, nes terfynu f' oes,
Mawl Iôr am olau eirioes;
Am ddangos i'm ddiengyd,
Cil ddannedd gwagedd a gwŷd,
A'm gosod yn nod iawn wedd
I gariad ei drugaredd;
Ac nid yn nod hynod haint,
I gafod ei ddigofaint,
Rhodiwyf ffordd, loyw-ffordd Ei lān
Ewyllys, o hyn allan,
Iaith rheol hylithr awen,
Fo gair Nēr, mwynber, Amen,

AR ENEDIGAETH EI WYRES.

'Does yma ond dechreu dychryn,
O'r sawdl hyd y coryn;
Wrth glywed rhywbeth yn ddi baid
Yn gwaeddi "Nhaid," anhydyn.

I'r eneth fwyn gofynwch,
"Pwy sydd yn Deida, d'wedwch?
Ai f'ewythr Madog, gorphyn gwan,
Sy'n gwyro at anhawddgarwch?

"Neu ynte f'ewythr Gronw'
Annilys, mae hi 'n alw?

Ai fewythr Sion, sy'n un a chant?
Ai Rolant, Nant yr Elw?

Debyga 'i bod hi 'n bugad,
Am ryw hen Nain anynad;
Nid oes fath un o fewn y byd,
Ond Ernol, hyd 'r wy 'n dirnad.

"Ai Dorti Ddu, ddanneddog?
Neu yr hen Forfydd farfog?
Ai Gaenor grech, neu Nón'ch Rhys?
Neu Wladys anoludog?"

"Nid un o'r rhai'n," medd hitha,
'R wy 'n dd'wedyd sydd yn Deida,
Na neb a enwyd yn fy nghlyw,
Anianol, yw fy Neina.

"Chychwi (nid gwiw mor gwingo),
Sy'n Daid, 'rwy'n d'wedyd etto,
Y bwbach henaint ddaeth i'ch tŷ,
'R wy'n dyst o hyny heno."

"Na son am henaint poenus,
'R wy'n ifanc ac yn nwyfus;
Yn siriol iawn, a chrwn fy nhro,
Yn ddynyn go ddyddanus."

"Ni thâl mo'r dal i fynu,
Mae'r llygaid pwl yn pylu;
Ac fe fydd arnoch ambell dro
Ryw sachaid o besychu."

"Ti wneist dy waetha weithian,
I'm galw dros y geulan;
Llawer gwaith y d'wedwyd im',
'Ddaw henaint ddim ei hunan.'

Nis gwiw mo'r taeru ă thydi,
Yn lan ni waeth boddloni,

A gadael iti waeddi 'Nhaid,'
O'r diwedd rhaid im' dewi."

Boed llwyddiant i'r wyres, fwyn gynes ei gwedd,
Sy'n gyru'r holl deulu i bydru mewn bedd;
Boed gras yn gynhysgaeth i Elizabeth lan,
Maddeuwch fy 'smaldod, y'ngheudod fy Nghân.

GWAWDODYN

I Dafydd Owain, o'r Gaerwen, neu Dewi Wyn o Eifion

Dafydd o Eifionydd, a fyni
Wan Wawdodyn, o Lŷn, y leni?
Hyn o orchwyl, er na erchi,—gyraf,
Diau y rhoddaf, da yr haeddi.

Maith, anwych araith, gwn na cheri,
Gweniaith a'i nod diffaith, nid hoffi;
Yn dawel nis gwrandewi—ar daeog
Hen was celwyddog, nis coleddi.

Bu'm yn darllen ar bapur-leni,
Mydrwaith addien, dy awen, Dewi,
Troellawg, hyawdlawg odli—sy'n dangos
A hwylus annos Eluseni.

Gwna'r Haelion gywreinion goroni
Dy gain awdl wiwdeg, felly gwna d'lodi
Y beirniaid, lle bu wyrni,—cyfarthant
Hwy, neu chwyrnant yn fynych arni.

Llyncai pob beirniad gorniad gwyrni
O win byw, gwych, nes wyneb-gochi,
A bwrw ac yfed ebargofi
Eu gwaith, diwyno iaith, dynoethi

5. Os dygi'r groes o'th wirfodd, hi a'th ddug ac a'th dywys di i ddiwedd dymunol, lle bydd terfyn byth ar bob dioddef; ond os wyt yn ei dwyn o'th anfodd, yr wyt yn gosod baich arnat dy hun, ac yn blino dy hun yn fwyfwy; ac etto bydd yn rhaid i ti ei dwyn yn barhaus. Os tefli ymaith un groes, bydd yn rhaid i ti yn ddiau i ddwyn un arall, a hono hwyraeh yn drymaeh.

6. A wyt ti yn credu y gelli ddiane rhag yr hyn ni ddiangodd neb oddiwrtho o'r blaen? Pa un o'r saint erioed a fu byw yn y byd heb groesau a gofidau? Ac ni fu Iesu Grist ein Harglwydd, un awr o'i fywyd yn rhydd oddiwrth ddioddefiadau. "Yr oedd yn rhaid," meddai, "i Grist ddioddef, a chyfodi oddiwrth y meirw, a myned i mewn i'w ogoniant." A pha fodd yr wyt ti yn ceisio ffordd arall, yn hytrach na'r ffordd frenhinol, yr hon yw ffordd y groes?

7. Yr oedd holl fywyd Crist yn groes a merthyrdod; ac a wyt ti yn ceisio esmwythdra a llawenydd? Yr wyt yn cyfeiliorni yn ddirfawr, os wyt yn dysgwyl dim amgen na dioddef gorthrymderau; canys y mae y bywyd marwol hwn yn gyflawn o ofidiau ac yn amgylchynedig gan groesau. A pha uchaf y byddo y dyn duwiol yn esgyn yn ei brofiad, amlaf oll fydd y croesau a gyferfydd, oblegid mai i'r graddau y byddo yn teimlo gofid oherwydd ei bellder oddiwrth Dduw, y bydd ei gynydd mewn cariad.

8. Er hyny, nid yw y gwr sydd fel hyn yn gystuddiedig yn amddifad o gysur; canys y mae yn teimlo fod dioddefiadau ei groes yn dwyn y ffrwyth mwyaf hyfryd. A thra mae o wir ewyllys ei galon yn ymddarostwng, y mae pob baich o drallod yn cael ei droi yn hyder am ddiddanwch dwyfol. Os ydyw y cnawd yn cael ei dreulio gan gystuddiau, mae yr ysbryd yn cael ei nerthu fwyfwy gan ras mewnol. A chymaint ydyw ei gysur, ar brydiau, mewn gorthrymderau a thrallodau, oddiar ei awydd am gydymffurfiad a chroes Crist, fel na ewyllysiai fyw heb gystudd a blinder, canys y mae yn credu mai pa amlaf a thrymaf y byddo ei ddioddefiadau dros achos Duw, mai mwyaf oll y mae yn rhyngu ei fodd ef. Nid unrhyw rhinwedd yn y dyn sydd yn gwneuthur hyn, ond gras Crist, yr hwn a ddichon weithredu mor nerthol er holl wendid y cnawd, nes peri i'r enaid garu ac ymgeisio at yr hyn y mae wrth natur yn ei ffieiddio a'i ochelyd.

9. Nid yw yn unol a natur dyn i garu a dwyn y groes, i gospi a darostwng y cnawd, i wrthod parch ac anrhydedd, i ddioddef gwawd a dirmyg yn ewyllysgar, i ddibrisio ei hun a bod yn foddlon i gael ei ddibrisio gan ereill, i ymdaweln yn ngwyneb gwrthwynebiadau a cholledion, ac i ymwrthod a phob dymuniad am lwyddiant bydol. Nis gelli byth wneud hyn o honot dy hun; eithr ymddiried yn yr Arglwydd, ac efe a rydd i ti nerth oddiuchod, ac a ddarostwng y byd a'r cnawd o dan dy lywodraeth. Ië, ni raid i ti ofni y gelyn diafol ei hun, os byddi wedi dy arfogi a ffydd, ac yn dwyn nodau croes Crist.

Crinodd, 'e gwympodd y gwallt,—wele dôf
Ail-dyfodd yn fanwallt,—
Heddyw gwyn fel haidd gwenallt,
Fethiedig, wywedig wallt.

Fy llygaid yn ganaid gynt,
A golau iawn y gwelynt,
Agos, pell, fel gweis pwyllig—
Blinedig bylion ydynt.

Dithau fel call ymdeithydd—craffadwy,
Gwr hoff ydwyt beunydd ;
Gweli rhyw ffordd neu gilydd,
Y ca' waith da redfa rydd.

Mi a gwynais mai gweinion—llafurus,
Lleuferau 'ngolygon ;
Darperaist di wr purion,
Ffordd drwy dyrch i'r llewyrch llon.

Rhoi goseb, rhiawg gysur,—cynorthwy,
Cain nerthawl ddrych eglur ;
I'w gwarchod rhoddi gwerchur,
Balchaidd iawn, sef blwch o ddur.

Syllwydrau golau, gwiwlan,—a chryfblaid
I'm llygaid mall egwan ;
Byw ganfod wnaf, heb gwynfan,
O brysur mwy, y bras a'r mân.

Medraf, efo'm tremwydrau,—ddad-ddrysu
Pwdr oesawg ysgrifau ;
Lleu a thrin pob llyth'renau
Yn yr heniaith, fwyniaith fau.

Bid iechyd, gwynfyd, a gwēn—Rhagluniaeth
Rywiog lon elusen
I'th dy, at hyny oes hen,
Llewyrch, a diwedd llawen.

I EVAN JONES, CRYDD, TYDWEILIOG.

Ni bu fan i neb anfwynach—na'r dref,
Yn wir drwg gyfeillach;
Anian yw—myn'd yno 'n iach,
Wan Ifan adre 'n afiach.

Diod o win, da ydyw i ŵr—gwan,
I gynal ei gryfdwr;
Ond gwell i ben ymsènwr,
Na gormod—ddiod o ddŵr.

ANERCH I DAFYDD DDU O ERYRI.

Mesur, "Bellisle March."

Atat Dafydd, y brawdol Brydydd,
Pur gelfydd per ei gan;
Ystig wastad yw'th gynhes ganiad,
A'th blethiad g'lymiad glan,
Mae genyt ddiddan enwog anian
Dy hunan fwynlan fardd,
O roddiad radol ein Naf, Iôn nefol,
Dda haeddol ddiwahardd:
Neillduol ddwyfol ddawn,
Dysgeidiaeth odiaeth iawn;
Yn ddwys ganiad a ddisgynodd
I'th rodd oleufodd iawn:
Da ddwfn dy ddefnydd, hynafiaethydd,
A rhydd awenydd waith;
Trefnu nodau heirddion flodau
Ein hoesau ni, a'n hiaith:
Difinydd rhydd a rhad,
Areithydd sydd leshad;
I bob sophydd, naturiaethydd,
Ti sydd fel dedwydd dad;

Côf a deall cuf a diwyd,
Sydd genyd, hyfryd hawl;
I'r Iôn haeledd, rhanwr rhinwedd,
Dad mwynaidd, dod y mawl.

Anfad ydoedd, ynfyd, d'weder,
Hel gwiwber dyner dôn,
I'r aberoedd, hwyr a borau,
Draw i ymylau Môn;
Ei droi a'i ymlid o dre' Amlwch
I drwch o'r llwch a'r llaid;
A lle ofer, blysig bleser,
Ysgeler, blinder blaid:
Lle hynod drallod drwg,
Is mynydd, gwres a mwg,
Lle agenog, hyll a gwynias,
Llyn eirias llawn o ŵg,
Tyred Dafydd, gelfydd, goelfawr,
Lan wawr yń awr yn ol;
A gad yna giwed annwn
Hell nasiwn, ffasiwn ffol;
Gad fŵg y drwg a'i dro,
Ei frad, ei wlad a'i lo;
A dyro yrfa i dir Arfon,
Dy hen hyfrydlon fro:
Lle cai iechyd, a dedwyddyd,
Mewn bywyd, a mwyn barch;
Nes yr elych, o'r eurwych oror,
Ar elor, yn yr arch.

AGORIAD I EISTEDDFOD PENMORFA, 1795.

Distawed pob dwys duedd—eisteddwch
Weis diddig, yn gydwedd;

Rhoddwch, mewn harddwch, mwyn hedd,
Wych osteg, i'n o'ch eistedd.

Ini dorf, y'Mhenmorfa,—b'o rhyddid,
Bâr addas fwyneidd-dra;
Bid i bob bardd, doeth-fardd da,
Hawddamor, hoywaidd yma.

Cyhoeddaf, bid co' heddyw,—Brydyddion,
Bwriad addas amryw;
Dal ein iaith, iawn faith, yn fyw,
Neud odiaeth hynod ydyw.

Yr awen wiw oreurawg,—baidd yma
Bydd amor blodeuawg;
Cyflym rhed, coflamu rhawg,
Ddwys edlin dduwies odlawg.

Gwynedd eglurwedd a glan—ber ddynion,
Barddoni rhowch allan,
Gywirdeb, gwyneb y gân,
Dysgleiried mewn dwys glorian.

Bid heddwch, bywyd diddan—i'n beirniaid,
Heb ornest na thuchan,
I farnu pwy yn fuan,
Yw'r gŵr gwych, a'r goreu 'i gân.

Heb lid awen, blaid ëorth—sain hyffordd
Sy 'n hoffi pob cymmorth;
Y gwawdydd, ni bydd yn borth,
O'i dommen y cwyd amorth.

Aed ymaith, i'w faw dommen,—yn ol
I anialwch cynnen;
Na ddoed o'i nyth byth ei ben,
I lywio 'r geinwawl awen.

CYNGOR I'R MEDDWYN.

I'w chanu ar y don a gyfenwir "Difyrwch y Lleynyddion."

FEL yr oeddwn, fel ymdeithydd,
Ar ryw ddydd, haf-ddydd hir,
Rhwng maenol deg a mynydd,
Dedwydd dir ;
Daeth gwr, o henwr hynod,
Gwael ei nod—gwla nych,
A'i yrfa, i'm cyfarfod,
Drallod drych.
Pan welais, pena' gwaelwr,
Gofynais am ei gyflwr,
A'i gynes hanes, henwr;
Wrth atteb yn ddi gynwr'
Wylai'r dŵr, alar dost:
Caru a wnais i 'r cwrw,
Gan ddilyn egwan ddelw,
Afradlon, moddion meddŵ,
Fy sylwedd aeth yn salw,
Meddan' nhw, garw gōst.

Gwrando fy nghynghorion,
Yma 'n llon, mwyna lles
A geisiaf roddi 'n gyson,
Rwyddlon res :
Yn foddus, gwylia feddwi,
Gochel di difri daith,
A gwylia fyw 'n afradlon,
Moddion maith :
Ti wyddost hyn dy hunan,
Fod meddwdod yn beth aflan,
Nid rhaid i undyn ddadgan,
Ti gefaist synwyr gyfan,
Yn dy ran, fwynlan fodd ;
Ond dirmyg hynod ormes
A ddaw i dy or-ddiwes,

A'th ddiwedd, clyw di'r hanes,
A fydd uffernol ffwrnes,
Anfad wrēs, ynfyd rodd.

Mae'r meddwon, hyllion haid,
Erchyll blaid, archoll blin,
Wrth ddechreu yn dda eu tro,
Hawdd eu trin;
Mae synwyr llwyr yn llawn,
Goreu dawn, geiriau doeth,
Gwnant fargen lawen, lon,
Gyson goeth;
Ond yna swn eu clustiau,
A fawdd eu holl synhwyrau,
Tyf adwyth i'w tafodau,
A gorwyllt fydd eu geiriau,
Gan fawrhau chwedlau chwant;
Y rhodiad fydd wŷredig,
A'r llygaid wêl yn chwithig,
A lol uffernol, ffyrnig,
Fydd atgas, ddiflas, ddieflig,
Araith ddig, oer ei thant.

Ni cheir y'mysg y meddwon,
Ond rhyw dŏn greulon, groes,
A chadw anferth dwrw,
Yn arw 'u moes;
Rhai'n wylo, rhai yn chwerthin,
Dyrfa flĭn, gethin, găs:
Rhai'n cysgu mewn lle enbyd,
Crinllyd crâs;
Mae amryw o glefydon
Yn perthyn i'r rhai meddwon,
Na's gŵyr ond ofer ddynion,
Fo 'n meddwi am eu moddion,
Braw i'w bron, briw, a brad;
Ac weithiau bydd yn dygwydd
Ryw gethin o flin aflwydd,

Fel, tori braich, neu ysgwydd,
Rhyw euog, wridog, w'radwydd,
Ddeil eu swydd ddi leshad.

Wrth arfer ofer yfed,
'E ddaw ar led dduoer lun,
Ffy ymaith holl hyfrydwch
Heddwch hŭn;
Fe dderfydd chwant i fwyta,
Byddi gla', tryma' trefn,
A syched wella 'i gafael,
Drych wael drachefn;
Daw golliant i dy gylla
I attal chwant i fwyta,
A gofid a ddaw 'n gyfa
I'th ga'lyn, adwyth gwla,
Heb awr dda, hyber ddwys;
Ac yna fe ddaw cenad
I'th gyrchu, chwithig archiad,
I farw, garw fwriad,
Rhaid myned gyda'r alwad,
Heb nagäad, dan gauad gŵyn.

Tra bydd genyt gyfoeth,
Yn ŵr doeth, enwir di,
Ac ni chaiff undyn gymaint
Braint a bri;
Dywedir mai da odiaeth,
A gwr ffraeth, hygar, ffri,
Na welwyd dyn o liw ton,
Ail i ti;
Ond pan yr elo 'n lanwaith,
Fel damwain, olud ymaith,
Ac yna fe ffy gweniaith,
Fel llyffant o fall effaith,
I ryw daith arw, dost;
Ni chai di barch na'th goelio
Ar ol i'r golud gilio,

Ac wed'yn pawb yn gwawdio,
'N gwaeddi Oh! wrth gowntio'r gost.

Pan fo'ch di 'n llwm dy boced,
Ni chai ged, syched sai',
A thithau heb ddim arian,
Drwstan drai;
Ni chai di yn y dafarn,
Pawb a'i barn, pe bai bwyll,
Un llymaid, ffei wall amur,
Dostur dwyll;
Pan waeddoch di am succan,
Ymęlriant hwythau am arian,
Ac oni bydd y cyfan,
Dos, ellyll, drwy'r drws allan,
I ryw fan oer i fyw:
Dy alw wnant yn lleuog,
A llipryn, cerpyn carpiog,
Un drewllyd, hen, a drylliog,
Ni feddi di un geiniog,
Yma rog, amur ryw.

Anfoddio Duw a'i feddwl,
Adyn dwl, ond yw'n dost?
Dihoeni'th gorph dy hunan,
Gyfan gost:
Gwaethygu wnaiff dy iechyd,
Yn y byd, enw bach,
Ni chai di yn dy fywyd
Enyd iach;
Difuddio wnai dy foddion,
A digo holl gym'dogion,
Wrth ddilyn ofer ddynion,
A maeddu gyda 'r meddwon,
Syndod son, troion traws;
Camdreulio'th werthfawr amser,
Wrth yfed, oerwaith ofer,
A llywio gyda llawer,

A hedeg ar gau hyder,
Digio Ner, dygyn naws.

Atolwg, cymer rybydd,
Nid oes budd, ond dwys ball,
Na gras i'r gwas a geisio
Foddio'r fall?
Ti weli fod anhunedd,
Y'mîn bedd, yma 'n bod,
A llid a gwrid gwaradwydd,
Anedwydd nod;
Gwel gystudd, gwarthrudd, gorthrwm
A lludded galed, gwlwm,
Y meddw, garw, gwrwm,
Ergydiol ddy-hir godwm,
Erchyll trwm, archoll trist.
Gan hyny, gwell it' beunydd
Roi 'th grêd yn dy Greawdydd,
Ymddiried felly beunydd,
A bod fel gwas i'r Arglwydd,
A throi yn ol, at Iesu Grist.

MYFYRDOD MEWN MYNWENT.

Dyma fan, diamau fod—niferoedd
Yn farwol mewn gwaelod;
Eu teiau oll yw tywod,
Llaid y Glyn ni's lleda glod.

Y gwr lleyg, mewn gair a llên—tan gwfer
Tyn geufedd daiarlen;
Torchwyd islaw tywarchen,
I fan caeth, ifanc a hen.

Rhodresweilch, a beilch y byd,—gormeswyr
A grymusion, hefyd;

Gorwedd islaw y gweryd,
Mewn tai gwael y maent i gyd.

Y bedd yw 'r anedd i'r union,—gonest,
Ac yno mae 'r trawsion ;
Y beddau fo 'n rhiybuddion,
I ddewr hîl y ddaear hon.

Gwewyr marw brodyr mawr eu bri,—a chwaer,
Och! hiraeth am dani ;
Diwedd trwm—da oedd y tri,
Rhai anwyl i'w rhieni.

BEDDARGRAFF.

Dr gyngor y dwg angau—bob oedran
I bydru, fel finnau ;
Ystyr hyn, o briddyn brau,
Gwêl dy daith, gwael doi dithau.

ARALL.

Angau, i gaerau gweryd—a'm gyrodd
O'm gerwin afiechyd ;
Cofiwch, llais Crist a'm cyfyd,
Ddydd barn, ar ddiwedd byd.

ENGLYN I'W RODDI AR FEDD PLENTYN.

Aeth adref i'r nef yn ifanc—yno
Mae llawenydd didranc ;
Gadawodd fyd, enbyd wanc,
I dorf dda darfu ddianc.

CERDD:

Hanes yr Arian a'r Aur, gyda dangosiad pa fodd y maent mor anhawdd eu cael.

I'w chanu ar "Susan Lygaid Ddu."

Pob Cymro llon, o wiwlon wedd,
Sy'n caru 'n faith eu hiaith a'u hedd,
Doed yma 'n nes, caiff gynes gân;
Wir loyw, lan, arlwya 'i wledd.
Doed yma'r Ffarmwr, rhodiwr rhydd,
A Gōf, a Saer, i'w gofio sydd,
A'r Melinydd celfydd, call,
Na welodd wall, heb wall y bydd;
Doed Cariwr, doed Bragwr,
Tafarnwr, a'r yfwr oer wangc,
A'r Calchiwr, wr cu,
Y Llongwyr yn llu,
Cyn llwgu, oer drengu ar drangc;
Yr Esgob, aur wisgiad,
Offeiriad teg wastad, da 'i go',
Doed Clochydd, dad clych,
Ysgolydd, was gwych,
Gan edrych yn drefnwych ei dro.

Doed yma'r Gwehydd, ufudd wr,
Iach raddau sàd, a Chrydd yn siwr,
Doed pob rhyw Deiliwr, lluniwr llawn,
Rai dewra 'u dawn ar dir a dŵr;
Doed yma'r Siopwr, gwerthwr gwiw,
A Hettiwr du, heb lysu ei lyw,
Barcer, Glwfer, Cwrier caf,
Wyr moddog, braf, a'r Meddyg briw,
Doed Sadler, Ysglater,
A Thincer, a Choblerwych yr;
Dowch yma da'ch hedd,
Arlwyaf fi 'r wledd,

Er rhyfedd wir fawredd ar fyr,
Cybyddion, Swyddogion,
A mawrion, a beilchion y byd,
Tylodion di lwydd,
Prydyddion i'm gwydd,
Sy'n gelwydd ac aflwydd i gyd.

Os dowch i'r tŷ, distewch a'r twrdd,
Gan eiste'n llu o bobtu 'r bwrdd,
O bydd i'm dryll o'm bodd ymdroi,
Gwyliwch ffoi fel gweilch i ffwrdd;
A hyn, gwrandewch, a gewch i gyd,
Yw hanes arian, freulan fryd,
Sef duw 'r Cybyddion, purion parch,
O'u cryd i'w harch a'u cred o hyd,
Cewch glywed cur caled,
Mawr ludded a dwned ei daith,
Gwan adyn, gwn yw,
Byr oed o Beriw,
Prin heddyw iawn ydyw'n ei waith,
Tra sydyn yw'r dychryn
Sy'n dilyn aur melyn i'r *mint*,
Mewn tân rhaid ei drin,
Ei flaened sydd flin,
Cyn derbyn ein brenin yn *brint*.

Oddiyno'n deg ddiana' daw,
O le i le, o law i law,
Ar hyd y deyrnas addas hon,
Cyn oeri 'i fron, cawn arw fraw,
A phawb y sydd er rhydd fawrhad,
Yn caru 'i liw 'mhob cwr i'r wlad,
Gan ei berchi, heini' hynt,
A diwall ydynt o'i wellhad;
Daw Porthmon a'r mwynion
Felynion aur gwychion o Gent,
Rhydd daliad rhwydd deg,
I'r Ffarmwr rhag breg,

Am wartheg ar adeg ei *rent*,
Rhyw drafferth amrhydferth,
Ac anferth i'r dinerth ei dâl,
Ni chănt yn wych hŷ,
Yn deg yn ei dŷ,
Na lletty, na gwely, na gwăl.

Mae 'n rhaid i'r Ffarwwr, mwynwr maith,
Dalu i'r cyfan wiwlan waith,
Rhent a threth di feth, da fodd,
Degymau 'n rhodd, ni chuddiodd chwaith,
Ofer iddo borthi buwch,
Na magu llô mewn mwg a lluwch,
Ni fedd mo 'r moddion wiwlon wawr,
I mendio 'n awr, na myn'd yn uwch :
Dowch attaf, mynegaf,
Os medraf adroddaf y drael,
Hyll ormes a llid,
A gw'radwydd a gwrid,
O'u plegid mewn gofid mae 'n gael,
Aed atto ddyn difraw,
Anhylaw neu ddistaw yn ei ddydd,
Am fenthyg rhyw swm,
Fy llogell sy 'n llwm,
Gan orthrwm, ei reswm a rydd.

Talu wneis, nid dwl yn wir,
Rhag mwstwr tost, i'm meistr tir,
Ac i'r Person llon er lles,
A threthi res, mae 'n hanes hir ;
Y gweision, hwythau, a'u geiriau 'n goedd,
Yn gwaeddi am gyflog enwog oedd ;
A'r morwynion, loywon lin,
Gan ferw blin, yn fawr eu bloedd,
Y Malwr, a'r Craswr,
Y Cariwr, Tafarnwr tew fodd ;
Y Siopwr, was hyll,
Oedd erwin ei ddull,

I'm herbyn yn drythyll a drodd,
Y Barcer, y Sadler,
Y Cwrier, a'r Tincer wr tost,
Saer Maen sy' wr mwyn,
Saer Coed, sura cwyn,
Gôf anfwyn wnae gychwyn y gost.

A'i dith yn gas y daeth y Gwŷdd,
A geiriau croesion gyrai 'r Crydd,
Gini i'r rhai 'n, ond gwan yw 'r hynt,
I'r Teiliwr bunt, nid dwl yw 'r budd;
A gwnaeth y Cobler syber siâs,
Yr Hettiwr bler ar Glwfer glas,
I geisio arian, drwstan dro,
Nid eiff o'm co' eu cwyno cas,
Rho'is rhyngddyn' bob gronyn,
O'r melyn aur dichlyn, wr doeth,
Ae'r Cybydd, hen rôg,
A llawer yn llŏg,
Heb geiniog anenwog, 'rwy'n noeth;
Gwell itti mewn difri,
Ymholi a'r rheini, wyr hael,
Mae ganddynt hwy beth
Da foddion di feth,
O'm toreth a chywerth i'w chael

Y dyn heb oedi dan ei ball,
Un gwan ei wedd, gan gwyno 'i wall,
Aed at y rhain o un i un,
A henwi 'r llun i hwn a'r llall;
Aed at y Meistr syber sail,
Aed at y Person union ail,
A gawsai 'r arian, wiwlan wedd,
Araf 'i deuwedd rif y dail,
Ni feddant a roddant,
Treusiasant a gawsant i gyd,
Ni chaiff y dyn gwan,
Na 'i ryddid, na 'i ran,

Ond egwan heb arian yw 'r byd ;
Gan Ffarmwr, Cyfreithiwr,
Na Chrefftwr, na Swyddwr, ni sai'
Dim arian gan chwant,
A balchder eu plant,
Mae 'u ffyniant a'u llwyddiant yn llai.

Rhoes un ei arian, mwynlan maith,
Am ffrwyth y bregyn, llibyn llaith,
A'i biso mae ar bwys y mur,
Ond dirfawr gūr pan darfō 'r gwaith ;
Un am dobacco, rhoes yn rhwydd,
A snisin drewllyd, lychlyd lwydd :
A'r llall am bleser, mwynder merch,
Mewn aflan serch, mae 'n oflin swydd ;
Pleserau, chwareuau,
Teganau, rhyw ffeiriau rhy ffôl,
Erlidiodd o'r wlad
Yr arian di rad,
Heb dyniad, iawn alwad yn ol ;
Er cymaint sy' o'u ca'mol,
A'u 'morol gan bobol y byd,
Prin noswaith neu ddwy
O groeso gant hwy,
Treigladwy eu harlwy o hyd.

D'wed un mai rhyfel, drafael drom,
Ei ferw syn ei fàr a'i siom,
Ei erchyll liw, a'i friw, a'i frad,
A wnaeth y wlad yn anoeth lom ;
Digon gwir, nid egwan gost,
'Roes rhyfel llidus, farus fost,
Ond beth yw'r achos, aros hyn,
O'r rhyfel tyn rhyw afael tost,
Drwg, balchder, gorthrymder,
A thrawster ysgeler, oes gau,
Sy 'n achos, syn yw,
O ryfel a'i ryw,

Bod distryw, câd ystryw 'n cyd wau,
Mae dyfais, swydd ymgais,
Mewn malais am fantais i fyw;
Mae cynen, mae cas,
Cenfigen, cwyn fas,
A'u hanras, anaddas in' yw.

Mae gan y Cybydd, beunydd, bwrs,
Er rhent, na threth, o gyweth gwrs,
Ac am ei arian llydan llôg,
A bodd wâsgarog, bydd ei sgwrs,
Dyma 'r fan i'r gwanwr, gwn,
Er lles a budd gael llaesu 'i bwn,
Am swllt o lŏg caiff fenthyg punt,
A dyna helynt doniau hwn;
Ond caeth yw rheolaeth
Usuriaeth rhyw driniaeth rhy drom,
A chyfraith, och! yw,
Sydd groes i Air Duw,
Clywch heddyw, dryll ydyw, dra llom,
Ae'r Cybydd, wr cobog,
Yn chwanog a'r geiniog i'r gôd;
Aeth treisiwr y gwan,
A rhyfel ei rhan,
O'r arian, anyddan yw 'r nod.

Ymâd ă rhai 'n, mewn amod rhwydd,
A gwir waith addas, gyr o'th wŷdd,
Ti a gai heddwch, harddwch hir,
A deall wir, a Duw a'i llwydd,
Bydd fyw mewn gonest ddirwest, dda
Gan weini clyw i'r gwan a'r cla',
Yna 'r arian, hoywlan hynt,
O hir bur helynt, hwyr barha;
Gad falchder, gorthrymder ysgeler,
Eu trawster, a'u trefn,
Fflwch heddwch o hyd,
Gwawr foddlon gwir fyd,

Ddawn 'n hyfryd, drwch wynfyd, drachefn,
Trwy ffydd, edifeirwch, mae heddwch,
O choeliwch, i'w chael,
Ei llwyddiant a'i lles,
A'i grasol deg wres,
Ddwg gynes (i'r fynwes) aur fael.

ENGLYNION

I Peter Jones, neu Pedr Fardd, Llynlleifiad; ac i'w lyfr, *Mêl Awen.*

Llyfr yw hwn, lleufer huanawl,—llawn gwres,
Oll yn gryf a bywiawl,
Ei wraidd a'i dŵf mawreddawl,
Sy' o'r nef—llys seirian wawl.

Mydrwaith Pedr, hyfedr, a hardd,—*Mêl Awen,*
Mawl ewybr cadeirfardd;
Maeth byw, pêr—mwyth i bob bardd,
A llawn-faeth i'r Lleŷn-fardd.

Hyawdl fardd, hoyw-fardd dihafal,—yw Pedr,
Pa oedran? Pwy cystal?
Y'mhlaid iaith, delaid ddoeth dál,
Bêr Gomer, heb air gwamal.

Iaith, a rheol athrawiaeth,—a seiniau
Synwyr, a gwybodaeth;
Sylwadau ar sail odiaeth,
Gwirionedd a'i phrestledd ffraeth.

Ein Pedr, pan fyddi 'n pydru,—aml leuïr
Mêl Awen yn Nghymru;
A bron na chawn ei brynu,
Gan ẖen angen, dalcen du.

CYWYDD I ENLLI.

Bu'm ar daith, heb ammau'r dydd,
Gwyllt-daith, ar hyd y gelltydd;
Taith oer a maith arw i mi,
A serth dihoenais wrthi.

Myn'd yn fardd, os hardd yw son,
Diried hyd Aberdaron,
Hyd uchel dir Angelog,
Uwch mynydd a'u creigydd crog;
Creigydd gerwin mîn y mor,
Crochfaith oedd tonau crychfor;
Llithrigle, a llaith raglawr,
Enbyd byw benyd bob awr,
Nes gorfod (trallod y tro),
Gwawdd awen, a gweddïo;
Gweddi rhag tori gwddwg,
Poeni traed mewn penyd drwg;
Holi, ymofyn helynt
Gyda phawb, a gaid hoff hynt,
Meddynt, teg oeddynt eu gair,
Llonfyd wrth furiau Llanfair,
Rhodio y'mlaen, rhad ymlynu
Yn yr anwar ddaear ddu,
Nes cyraedd, mewn naws cywraint,
Llanfair fro yn Llŷn, fawr fraint;
Gorphwysfa, noddfa, a nerth,
Hoff rodfa hoyw a phrydferth.

Edrychais, synais enyd,
Ar fin môr, oer fan y' myd;
Gwelwn lun, nid un na dau,
Hoen ddidawl o'm hen dadau;
Mynegaf iwch mewn agwedd,
Di weniaith eu gwaith a'u gwedd.

Ar hynt, y gwrthddrych cyntaf,
I chwi ei nodi a wnaf:
Maen melyn, paun Llŷn, pen lles,
Perydd hen—pwy rydd hanes
Rhyw Faen, os adwaen ei swm,
Teg auraidd y tau gwrwm?
Ei lys ef a welais i,
Ar aelgerth tramawr weilgi;
Mawr rwygiad y mŏr eigion,
Gwŷn ffyrnig, a dig y dòn,
Oedd o'i flaen hir raen, oer Och!
Anweddaidd oni wyddoch,
Os yn ol y trŷ olwg,
A rhoi trem o'r rhuad drwg,
Cynnyg holl wennyg y llu
I gyd am ei godymu;
Calon sorth, cael yno sedd
I ddiddig ystig eistedd,
Neu ddyrchafiad, rhodiad rhydd,
Ar drum a hir odremmydd,

Gwelwn Ynys, hysbys hon,
Eur agwedd yn yr eigion;
Ynys Enlli, bri, a braint,
Os cofiwn hanes Cwfaint;
Ugain mil o'r hîl wăr hon
A ffoisant, wyr hoffusion;
Madiain, o Borth y Meudwy,
A don oer, rhai cloer rhag clwy'—
O Fangor, adail fwyngu,
Cain īs coed, y cyn-weis cu;
Hwy ffoisant rhag chwant, rhwyg chwith
Tew falldod plant y felldith,
Enllif deg, yn llef y dòn,
Cael anadl rhag gelynion;
Heddwch ar ffiwch orhoff lawr,
A'u gorfu o'r rhwyg erfawr;

Buant fyw eu rhyw y'rhawg,
Hunasant oll yn oesawg;
Y llu saint, eur-fraint i'r fro,
Doniawg a gladdwyd yno;
Y'mysg ereill, mwys gorwedd.
Merddin Wyllt, a myrdd un wedd,
Llònir fyth, can's llyma 'r fan
Y cydfod y Sant Cadfan;
Cadwallon (mwyn son mewn sedd,
Gonest) ap Owain Gwynedd,
Hywyn ap Gwynde hauach,
Sy'n gorwedd mewn bedd main, bach;
Deiniol Sant, neud anwyl sydd,
Gyda 'r llên, gydwyr llonydd:
Rhyfaith i araith yru
Eu hanes, iach les, wych lu;
Ond eu bod trwy glod, tra glwys,
Llawn gwirffydd, oll yn gorphwys
Gerllaw twrdd, a gorlli tòn,
A mawr agwrdd môr eigion;
A'r Ynys hon, eirian sydd,
Fal mynwent ar fol mynydd.

Draw, gwelwn, hwyliwn helynt,
Er gloes, garn yr eglwys gynt,
Tŵr uchel, arfel eurfaint,
Cuf im' son, er cof am saint;
Codesynt, meddynt, y mur,
Nawdd werthiawg, yn nydd Arthur,
Sef Arthur Fawr—y cawr cain,
A brawdwr brodir Brydain:
Dyfrig arbenig ŵr bu,
Sêl fwynaidd, i'w sylfaenu;
A Rhodri, nid yn rhydraws,
Allai 'n hir ei wella 'n haws;
Abadty hardd mewn Bettws,
Ar fin mor, ymogor mws;

Bu yn hwn yn buan hau
Gwybodaeth deg Abadau.

ENGLYNION CARIAD Y BARDD.

Ryw ddunos oeraidd enyd—y teithiais
At ethol wynebpryd;
Mi a gurais am agoryd,
Ar ei ffenestr, gloyw-restr glyd.

Am agoryd mi a gurais—y drws,
O draserch, nes blinais;
Och! lewyg im', ni chlywais,
'Rwy 'n addef, na llef na llais.

Rho'is greg waedd, osteg, ddystaw—heb [lwyddiant,
A bloedd i'w dihunaw,—
Agor y drws—'e geir o draw
Dy gusan, ond ei geisiaw.

Diffrwyth wyt, meinir, deffro—Ow! cyfod,
Cofia, mae 'n oer heno;
Agor y drws—hygar dro—
Mewn cariad, a mi 'n curo.

Er galw, heb ateb eto—'r ydwyf,
Oer adwyth im' gofio,
Ni chlywn ond llais, trais y tro,
Hort Colwyn, hurt a'i celo.

ER COFFADWRIAETH AM Y

PARCHEDIG PETER WILLIAMS,

Gweinidog yr Efengyl, yr hwn a fu farw yr 8fed dydd o Awst, 1796, wedi bod yn y weinidogaeth 53 o flynyddoedd.

O! mor wàn yw mur einioes,
O! mor wael yma yw 'r oes;

Selyf ddoeth, gynt, a sylwodd,
Einioes fèr mewn hynaws fodd
Chwiliodd, a chafodd uwch hon
Olwg ar dorf o waelion;
Dywedodd air, da ydyw,
Gair o reddf y gwir air yw:
Damwain yw 'r bywyd yma,
I'r drwg a'r diddrwg ŵr da,
Yr un wedd yw diwedd dyn,
Ffel odiaeth a ffôl adyn.

Nid doniau nod diweniaith,
Na drud wych olud y chwaith,
Nag unrhyw les, cynes cain,
Na mawraidd enwau mirain,
Nag un dim, diddim hyd oes,—
Terfynawl yw twrf einioes—
A geidw dyn, wael briddyn brau,
Rhag ingwedd a rhwyg angau;
Er mor llawn o ddawn neu ddysg,
Egwyddor iach ac addysg,
A f'o dyn, ei fywyd ef
Diweddir, mae 'n rhaid addef.

Rhag angau oes rhyw gyngor?
Ai gwiw ei dynn gau a dôr?
A wna arian burlan borth?
Neu ddianc i nawdd ëorth?
A wna ffoi mewn hoff awydd
Yn gynt ein helynt na hydd?
Myn'd ar lēd i ryw wledydd,
A ŵyr ef pa nod a rydd?
A oes rhinwedd ryfedd rad,
Anrheg wir, unrhyw gariad?
A ddeil draw ei ddial drom—
A'i ddyrnod? (bid radd arnom);
Nid oes fodd, rhodd, na mawrhad,
Cywraint, na rhinwedd cariad,

All atal, er dal ar dòn,
Angau glas, ing, a gloesion,
Pe 'n rhywfodd, wiw fodd, a fai
Eisoes yn wir buasai,
Ni chawsai dyn iachusawl
Mal Pedr, mwyn hyfedr mewn hawl:
Pedr oedd hwn (pwy edrydd hyd
Fawr rinwedd ei fèr enyd),
Ab Gwilym, heb ei gelu,
Un o'i fath ni wn a fu:
Ond os bu un dwys heb ball,
Da siriol, nid oes arall,
Un o'i ðl, hyfrydol frawd,
Mwy nid oes y' myd isawd.

Awen, gochel, gwel y gwall,
O 'myryd a dim arall,
A f'o gwagedd, goegedd gau,
Ond y gwir yn dy gaerau.
Dyn oedd ef, er dïen ddysg,
Da gwyddir, a'i deg addysg,
Nid haeddol neb o folawd,
Ond un nefol, freiniol frawd.
Gwir mai dyn, gwyfyn mewn gwall,
A dirym, fel cnawd arall,
Oedd Pedr; ond os gwnawn edrych
Ar ryw dro i gwr y drych,
Cawn weled acen olau,
Cymaint yw ei glodfraint glau;
Y *Bibl* a wna i bobloedd,
Wrgwych, ei goffâu ar g'oedd;
Gwnaeth *Sylwadau* golau, gànt
A mil, am hyn y molant;
Gwir ydynt agoriadau,
Teg lwyr hynt, i'w eglurhau.

Trwy *Nod'au* (tra iawn ydynt,
Nad oedd gan y dyddiau gynt

Eu tebyg, yr wy 'n tybio,
Er iawn fraint, yn yr un fro);
Hawdd i'r gwan gyhoeddi 'r gwerth,
A dyben y Prid Aberth;
O! mor deg, ei *Fynegair*,
Ei fawr les a gynes gair;
Heb boen, mae 'n dangos beunydd
Bob adnod o'r bennod bydd;
Fel b'o i'r truan gwan, er gwerth,
Rhag ofnau, gael rhyw gyfnerth;
Codi 'r lan—rhoi diddanwch
I'r enaid, o'r llaid a'r llwch.
A chael arf llym i darfu
Gelyn dros ei derfyn du.

Nodawl ei 'sgrifeniadau,
Hynod fydd ei glod fodd glau
Pery 'n hir i'w purion hau,
Perarogl pur ei eiriau,
Nes byddo 'r haul—hydrauł hon,
Ar ygu yn yr eigion;
Nes y syrth—mae 'n iasau sŏn—
Y sĕr fel ffigys irion;
Ac i bob defnydd, sydd leshad,
Doddi, a chael diweddiad;
Ac i amser—wiwber waith—
A damwain, fyned ymaith.

Nid yw 'r priddyn terfynawl
Heddyw mwy yn haeddu mawl;
Mawl i'r Iôn, am oleu ran
I Bedr, fydd mawl pob oedran,
Am ei iawn alw, o farw fyd,
Er ei fai, i wir fywyd;
Ac am y ddawn—radlawn rodd,
Gyfiawn gan Ner a gafodd;
A'i ddyfal gynal, er gau
Oer astrus ddyhir rwystrau;

Pan oedd priod, hyglod, hael
Odiaeth, a phlant i'w adael,
Ei Dad ni wnaeth ei adu,
Ei Dduw doeth oedd dda o'i du.
Ef i Bedr, a fu wiw bau,
A nawdd e' ng yn nydd angau.
Llefarodd—er llifeiriant
Llais y dwfr—cai bwyllus dant,
Fod y gref, safadwy Graig,
Iŏr anwyl, di arynaig,
O tanaf—byddaf heb ball
Yn dawel mewn man diwall;
Gorphenwyd, gwir hoff union,
Iachawdwriaeth—helaeth hon,
'R wyf ar ben gorphen y gwaith,
Hed amau a'i hâd ymaith;
A dirym fyd daearol
Darfŭm—mae ei dwrf o'm hol;
I fy Iôr—fy angor yw—
Y credais, ba'nd cry' ydyw;
Mae 'n ffyddlon (Iōr llon, er llid),
I'w ddiau wir addewid.

Dyna ddyn, dichlyn a dwys,
Cywir ffydd, pan cai orphwys,
Y mae uwch gwae, Och, a gwŷn,
O olwg pob rhyw elyn;
Teganau byd digynydd—
Torai rhai 'n, a rhedai 'n rhydd;
Nid gwiw, traws ymliw, trwy son
I Bedr, ei ddillad budron;
Yn wawl mae, er niwl a mwg,
Ffodd niwl—aeth ffydd yn olwg;
Tra syber, troes ei obaith
Yn fwynhad o wiwrad waith;
Gwir deilwng gariad dilyth
Yn nef fry a bery byth;
Gweled ei Dad, ceinfad cu,
Oll yn oll, a llawn allu;

Ei fwynhau o fewn ei hedd,
Ei garu byth mewn gwiredd ;
Seinio 'i fawl—Hosana fydd
Ei Gân—anrhaethol gynydd ;
A'r llu glan mae 'i fwyngān fo,
A'i *Amen* sy 'n ymuno.

CAROL.

Ar y mesur a elwir "Gwyr Gwynedd."

CYDUNWN dan y rhŏd,
I ganu, c'lymu clod,
Ar greigydd serth,
I'n anwyl nerth a'n nod ;
Bawb cydeiliwn lafar dôn,
I gadw gwyl i'n gwiwdeg Iôn,
I'n uchel nerth a'n iechyd,
Lles hyfryd allu son.

Gwahoddiad ini gaed,
I Seion bawb nesaed,
Yn Nuw ein nerth ;
Dadleuwn werth ei waed,
A down yn unfryd, fawr a măn,
Cydeiliwn glod i 'n Iesu glan ;
Yn bur, a byddwn barod,
A hynod ddiwahan.

I Ddafydd, llawen iawn,
Oedd clywed d'wedyd, Awn
I dŷ Dduw nef ;
Gwledd gydag Ef a gawn ;
Sain traed o fewn Caersalem byrth,
Can's llaw alluog, enwog wyrth,
Sydd dan y gwaredigion,
O Seion un ni syrth.

Mor hardd, mor hawddgar yw,
Dy bebyll di, O Dduw,
  Nid oes yn bod
O dan y rhod eu rhyw;
  Mawr ydyw'r awydd dan fy mron,
  A'm syched am gael gweled hon,
Gan mor dra thirion ydoedd
  Cynteddoedd lluoedd llon.

Myn'd salach, waelach wedd,
Mae 'r byd tu yma i'r bedd;
  Ond mwy fwy 'stor,
Ein hyfryd Iôr a'n hedd;
  Pan ffero 'r gwaed, pan ballo'r chwyth,
  Mae fry ddysgleiriol nefol nŷth
I ffyddlon weision Iesu,
  Mewn tŷ a bery byth.

Mae gwylwyr Seion dref
Yn cyd-ddyrchafu llef,
  Blant Adda trowch,
Yn addas dowch i'r nef;
  Bydd Iesu 'n noddfa er eich lles
  Yn nydd y dymestl, dowch yn nes,
Yn babell glyd a chysgod
  Rhag gwlaw a gormod gwrês.

Teg wawriodd arnom ddydd,
A welwyd gynt drwy ffydd,
  Gan rai sy 'n awr
O'r cystudd mawr yn rhydd;
  Ac os oedd dyled arnynt hwy
  Folianu 'r Oen, a'i ddwyfol glwy',
Mae'n dyled ni, genhedloedd,
  Fil miloedd foli mwy.

Bugeiliaid Bethl'em dref,
Y boreu ganwyd ef,
  A glywsant floedd,

Angylaidd oedd y llef;—
'Rym ni 'n mynegu i chwi 'n awr
Newyddion da, llawenydd mawr,
Heddyw ganwyd Arglwydd
Naf, llywydd nef a llawr.

Hwn ydyw 'r Un a ddaeth
I fyny o Edom gaeth,
O Bosra dir;
Gorchfygu 'n wir a wnaeth;
Yn hardd ei wedd, o'i ben i'w draed,
Ei wisg oedd wedi 'i lliwio â gwaed,
Brawd cadarn yn y frwydr,
Yn gysur in' a gaed.

Crist Iesu, Brenin Nen,
Fu farw ar y pren,
Gofidus awr,
Pan rwygai i'r llawr y llen;
Y Gyfraith bur a gadwodd Ef,
Mae 'n awr yn eiriol yn y nef,
Cyflawniad Prynedigaeth
Yw grym Eiriolaeth gref.

Brawd ffyddlon, rhadlon, rh'odd
Ei fywyd pur o'i fodd,
Dros lwch y llawr;
Pyrth uffern fawr a gl'odd,
Cyflawnodd y Cyfamod rhad,
A holl ofynion pur y Tad,
Am hyn mae 'r Iachawdwriaeth
Mor helaeth ei mawrhad.

Gorchfygodd Brenin Hedd
Fyd, uffern, angau 'r bedd;
Priodi wnaeth
Yr hon oedd gaeth ei gwedd;
Am hyn crechwena Seion wan
A thyred fenyw lesg i'r lan,

Tywysog y Tangnefedd,
Da 'i rinwedd, yw dy ran.

Bydd Seion fel y wawr,
Yn d'od o'r cystudd mawr,
A'i grym yn gref,
Yn llenwi nef a llawr ;
Wedi ei gwisgo, nid â dail,
Ond yn Nghyfiawnder Adda 'r Ail ;
Gorphenwyd Iachawdwriaeth,
Dwys helaeth yw ei sail.

Er uffern gadarn, gerth,
Er hunan Satan serth,
Na byddwn drist,
Yn nwylaw Crist mae nerth ;
Rhyw anorchfygol, freiniol fraint,
Er diluw sydd yn dal y saint,
Sef nerth y fraich dragwyddol,
Anfeidrol yw ei maint.

'D'eill Pharo, er ei frad,
Niweidio 'r un o'r had,
Sy' a'u tynfa fry,
At dawel dŷ eu Tad ;
Nid all yr anial, tywyll, du,
Byth ddrygu neb o'r dedwydd lu,
Yn dawel sydd dan aden
Eu Capten Iesu cu.

Crist Alpha oedd cyn byd,
Omega i bara o hyd,
Y Canol ŵr,
Ein Brawd a'n tŵr bob pryd ;
Y Llew o Judah, cadarn Graig,
Gwreiddyn Dafydd—Had y Wraig ;
Colyn angau tynodd
Fe 'sigodd siol y ddraig.

Molianed pob rhyw gnawd,
Grist Iesu, 'n hynaf frawd,
Ein grym a'n gwres,
Am hynod les i d'lawd;
Am iddo, wrth farw ar y pren,
Agoryd ffordd i'r nefoedd wèn,
Fe gaiff yr holl ogoniant
A'r moliant byth. AMEN.

AFIECHYD.

Y MAE 'r gwr mewn cyflwr caeth,
Ni chafodd iawn iach hyfaeth,
Mae pob peth yn rhy fethiant—
Afiach un, i ddofi ei chwant;
Y boreu, bydd heb aros,
Was gwael nych, yn dysgwyl nos,
A'r nos hefyd, gan benyd bydd,
Aele waedd am oleuddydd.
Beth dal clyd olud, a'i waith,
A'i gynwrf—beth dal gweniaith?
Os iechyd—dduwies wychol,
O fodd Ner, a fydd yn ol.

PORTHNEIGWL.

PORTH NEIGWL, parth anhygar,—fan affwys,
Safn uffern ystrywgar;
Hwrdd twrdd ton beisdon y bâr,
Niwliog erch, anial garchar.

Lle gerwin, hylla' goror,—terwynllais,
Taranllyd ddygyfor;
Ni rydd dryghin y' mîn mor,
Nawdd i long—ni ddeil angor.

Ei safn nodawl sy' ofnadwy,—a chroch,
Ei chrychaidd ryferthwy;
O gwna 'i thwrdd gwrdd, a'i gorddwy
Lid les mawr, gwneled lais mwy.

Bloeddied, ystormied ei 'sturmant—glau fawr
Glafoeried ewyngant;
Llafared ei llifeiriant,
Rhüed y mor hyd ei mant.

Cyhoedded ar led oer li'—a'i hudgorn,
Ei hadgas draethelli;
Eled sain ei hadsain hi,
A'i bonllef heibio 'i Enlli.

Ein llongwyr ni ollyngant—eu llestri,
Ei llais drwg pan glywant,
Eu cedyrn longau cadwant
Ar y dwr, i'r *Road* hwy ânt.

Goleu ar y Rhiw neu Gilan—fyddai
Foddus, fuddiol amcan;
Tŵr eglur, tŷ rhywioglan,
Aelwyd teg, i gyfleu tân.

Neifion f'o ar dywyll nifwl—geidwad
Gyda'i dridaint swmwl;
Bob nos a dydd, dywydd dwl,
Yn agos i Borth Neigwl.

Safed ar dòn, was ufudd—a bloeddied,
B'o llwyddiant i'w rybudd;—
Cedwch draw, rhag braw, rhwyg brudd,
Gythryblus, gwae a thrabludd.

Ei chynllun, le trochionllyd,—ni fedraf
Adrodd yn fy mywyd;
Iddi ceir, mal y deiryd,
Anair gan bedair ban y byd.

Goffrom yw Ewrop ac Affrig,—wrthi
Erthwch mae Amerig ;
O geill hudo 'n golledig,
Tyn Assia i ddalfa ddig.

Mae darpar, llachar wawl llon—ar Enlli,
Eirianllawr uwch eigion ;
Gyr olau, ar brydiau bron,
Er oerddu nos, i'r 'Werddon.

Unlliw fo'th lewyrch Enllif,—ar wen haul
Arwain hynt y morllif ;
Dy olau uwch y dylif,
Gyfenwer "Lleuer y llif."

Lluserndwr, bentwr di bwl—anfon wawr
Yn fwyn ac yn fanwl ;
Felly 'r hir gedwir o gwl
Safn agos ŏofn Neigwl.

Er iddo wrychio o'r achos,—dwrdio,
A'i daerder aniddos ;
Pryd tymestlog, niwliog nos,
Prudd ing, parha i ddangos.

AWDL COFFADWRIAETH

Am Margaret Hughes, diweddar wraig Owen Hughes, o Drygarn, yr hon a fu farw Chwefror 6ed, 1821.

ENGLYNION UNODL UNION.

Hawddfyd i dristyd a droes,—tra oer hĭn
Trwy y Rhiw a Bryncroes ;
Terfynwyd—darfu einioes,
Y fwynaf, harddaf ei hoes.

Yr harddaf, fwynaf fenyw—sy 'n y bedd,
Son ei bod sy' heddyw;
Cofrestr o les y cyfryw
Yn hir, arbedir i'r byw.

CYWYDD LLOSGYRNOG A THODDAID YNGHYD.

Y mae mawrgri trwm am Marg'red
Huws, a chyllaeth—loes a cholled,
O'i myned i lom anedd,
Lle sy' heb waith—llys y bedd,—pau pydron,
Tŷ oer y meirwon—nid tŵr y mawredd.

CYHYDEDD HIR.

Ffol ddaw 'n gyffelyb,
I'r doeth gywir dyb,
I ing o ethryb, angau athrist;
Gyr was gwar isel,
Yr iach, a'r uchel,
I lawr y ddirgel oer ddaeargist.

ENGLYN PROEST CADWYNOG.

Ei chymdeithas addas oedd,
Arab enwog i'r bonedd,
Cyfeilles gynes ar goedd,
I'r werin o fawr rinwedd.

HYPPUNT HIR.

Oedd ar gariad
Cydymdeimlad,
Iawn gu fwriad, yn gyfarwydd;
Pan y gwelai
Eisiau, wylai,
Mwyn dosturiai mewn dystawrwydd.

GWAWDODYN BYR.

Y tlodion gweinion, hwy a gwynant,
Oes ar ei hol, o'i heisiau 'r wylant;

Cyfyd prudd-der pan cofiant—am dani,
Ond ei henwi, yna dihoenant.

CYWYDD DEUAIR HIRION.

Nid rhoddi coegni cignoeth,
Dewr, a wnai Margared i'r noeth,
Diwallai rai, llonai 'r lleill,
A thirion borthai ereill;
Ac os hwyr diŵyr ' deuant
Am lety—gwely a gănt,
Maent hwy a mintai o'u hil,
Am ei nawdd, yma 'n eiddil,
Neuadd lawn, nawdd ei loned,
Oedd y' Nhrygarn, gadarn ged,
Cyn ei hamser hoyw-ber hi,
O'i hol un fo 'r haelioni.

HIR A THODDAID.

Greddf ei thad, byw arogliad, beriglor
Y Rhiw a Dudwen, wr hoyw a didor;
A'i mam daclus, gyweddus egwyddor,
Bryd eirioes fwyngu, ei brawd Rice, o Fangor;
Iawn drasau oedd ynddi 'n drysor—purach,
Ië, mwyn trymach, na meini tramor.

GWAWDODYN BYR, AWDL GYWYDD, CYWYDD DEUAIR FYRION, A THODDAID YNGHYD.

Y mae hiraeth, trom yw ei harwain,
Effro duedd, i'w phriod Owain,
Wele afar, wylofain—i'w phlantos,
Oh! nid heb achos, weiniaid bychain;
Ymddiried, rhodded y rhai 'n,
Ar y Modur, Ior madain,
Hoffaidd ddwysgain ffydd esgud,
Oglud eglur,
Dan gaeth dyn gur,
Gwel eu llafur, 'fe glyw eu llefain.

HIR A THODDAID.

Mae i'w thri difyr frodyr ddyfrydedd,
'Roi eu chwaer hynaf, araf i orwedd,
I'w dwy chwaer, y mae gofid a chwerwedd,
Braw a'i symudaw—nid oes mwy adwedd
Hyd y farn—ehed o fedd—ar alwad,
Bywiog y ganiad, i bau gogonedd.

TAWDDGYRCH CADWYNOG.

Gogoneddus
Gu gain nodded,
Idr ei lloned yw 'r oll yno;
Iach le llawddus,
Uwch law lludded,
A di godded i'w deg eiddo.

Satan syned,
Anngrhist rhyned,
Ein Iôn tyned hunan tâno;
Amddiffyned,
Iawn enyned,
Y Gair ffyned a'i gorpheno.

ENGLYN UNODL UNION.

Cyn dydd clau angau ingaf,—er cysur,
Ceisiwn y peth rheitiaf;
Sef teyrnas, iawn urddas Nâf,
Duw a ddeil y dydd olaf.

C Y W Y D D

Marwnad John Griffith, Ysw., o Gefnamwlch, yr hwn a fu farw y 4ydd o Ragfyr, 1794, yn 52 oed.

Och! alar diochelyd,
Trwst oer boen, ba'nd trist yw'r byd;

5. Yr ydym yn barod i ofyn faint y mae hwn a hwn wedi ei wneud; ond nid ydym mor barod i chwilio oddiar ba egwyddor y mae yn gweithredu. Gofynir pa un a yw hwn neu arall yn gryf, yn gyfoethog, yn hardd, neu yn ysgrifenydd da, yn gantwr da, yn weithiwr da; ond y mae y rhan fwyaf yn ddistaw yn nghylch pa mor dylawd yn yr ysbryd ydyw, pa mor amyneddgar a llariaidd, pa mor ddefosiynol ac ysbrydol ydyw. Mae natur yn edrych ar y dyn oddiallan; ond y mae gras yn ymwneud a'r dyn oddimewn. Mae natur yn aml yn camsynied; ond y mae gras yn ymddiried yn Nuw, ac nid ydyw un amser yn cael ei siomi.

PENNOD XXXII.

AR HUNAN-YMWADIAD AC YMWRTHOD A PHOB CHWANT.

1. "Fy mab, nid oes modd i ti gyrhaedd perffaith ryddid, heb i ti ymwadu yn llwyr a thi dy hun. Mae'r holl hunan-geiswyr a'r hunan-garwyr yn y cadwynau, yn llawn trachwant a gofal yn crwydro mewn cylch, yn ceisio yn barhaus eu hyfrydwch eu hunain, ac nid pethau Iesu Grist, er ei bod yn aml yn rhagrithiol yn cymeryd arnynt wneud hyny, gan godi adeilad yr hwn ni saif; oblegid yr hyn oll nid yw o Dduw a ddinystrir. Dal mewn cof y gair byr cynhwysfawr hwn, 'ymad a phob peth a thi a gai bob peth; ymwrthod a thrachwant a thi a gai esmwythdra.' Dwys ystyria y gwirionedd hwn, a phan fyddot wedi dy lenwi ag ef, ti a ddealli bob peth."

2. Nid yw hwn Arglwydd, yn waith un diwrnod, nac yn orchwyl i rai bach; yn wir y mae y gair byr hwn yn cynwys ynddo ei hun holl berffeithrwydd y rhai cyfiawn.

3. "Fy mab, ni ddylit droi ymaith na gwangaloni yn union-gyrchol, wrth glywed am ffordd y rhai perffaith, ond yn hytrach ymanog at bethau uwch, ac o leiaf hiraethu mewn dymuniad am danynt. Mi a fynwn pe bait wedi cyrhaedd mor bell, a pheidio gosod dy serch arnat dy hun, ond parhau mewn ufydd-dod pur i mi, gan fod yn foddlawn i'm trefniadau. Yna y rhyngit fodd yn fy ngholwg, a'th holl oes a ai heibio mewn llawenydd a thangnefedd. Hyd yn hyn y mae genyt lawer o bethau i'w gadael, ac oddieithr i ti ymwrthod a hwynt o'r galon, nis gelli gyrhaedd dy ddymuniad. 'Yr wyf yn dy gynghori i brynu genyf fi aur wedi ei buro trwy dan, fel y'th gyfoethoger;" hyny yw doethineb nefol, yn sathru pob peth daearol o dan draed. Ymwrthod a doethineb ddaearol, a phob hyfrydwch ynot dy hun ac mewn dynion.

4. "Dywedais fod pethau gwael i gael eu prynu, o flaen yr hyn sydd yn werthfawr ac uchel yng ngholwg y byd. Oblegid y mae gwir ddoethineb nefol yn ymddangos yn wael a dibwys i'r byd, ac ym mron cael ei anghofio ganddo; nid yw yn ymffrostio nac

Ei riddyn ef er Adda,
Oeddynt ddynion doethion da,
Tywysogion haelionus,
Hïl Sion da 'i roddion di rŭs;
Hïl Rhŷs, mae 'n hysbys mewn hedd,
Ab Tewdwr, tra b'o tudwedd;
Gruffydd ab Rhŷs, garaï effaith,
A'i fab Rhŷs, dilys ei daith;
Dyna 'r boncyff, sef Gruffydd
Ab Rhŷs, oedd ddilys i'w ddydd,
A Gruffydd oedd fygr hoffaidd dda,
Blaid Amwlch, abl hyd yma.

Ow! daeth awr, adwyth ddyrus,
Diluw roed ar deulu Rŷs,
Pan ddarfu iselu Sion,
O gu ryw y goreuon.
Ow! Llŷn gain, lle enwog iach,
Yn bwyllawg, Beth wnai bellach?
Di gollaist, er dy gyllaeth,
Dy ddrych, Sion geinwych sy 'n gaeth;
Llŷnyddion gallwn waeddi,
Nychwyd a dynoethwyd ni;
Torwyd ein penaeth tirion,
Gwall a saif am golli Sion.

Mad un, saif am dano son
Deiroes, yn Aberdaron;
Galarloes i Fryncroes fro,
Ac afar wrth ei gofio;
Nefyn, tithau anafwyd,
Wael oer Och! ba'nd wylo 'r wyd.

Hithau, Dinbych, glodwych gled,
Ddigellwair, gafodd golled;
Colli Yswain mirainwedd,
Ustus, mwyn hwylus mewn hedd,

Cadr iddi, mal cedrwydden
Deiliog, glas brigog, lwys bren;
Dyfalaf fod y Foelas
Yn dyhidlaw y gwlaw glas.

Mawr brudd-der i'w holl geraint,
Oedd colli eu bri a'u braint
Ffynadwy gref ffon ydoedd,
Ac un da i'n gweiniaid oedd;
Rhy diddwl, mae 'n rhaid addef,
I'r blaid amddifaid oedd ef;
Y gweddwon sydd yn gwaeddi:—
Torai nerth ein tarian ni.
I'r henaint a geir hanes,
Fintai lwyd, Pa faint ei les?

Hardd-deg, gywir-deg gardawd,
Rhodd dlos yn rhwydd i dlawd:
Un hoyw-goeth, mwyn, a hygar,
Wrth radlon, gwirion, a gwâr;
Gorwyllt a ffromwyllt ei ffriw,
Aruthr un, wrth yr anwiw;
Rhoe 'n ddilesg gymorth esgud
I'r byddar, dall, mall, a mud;
I'r efrydd, nid er afraid,
Rhoe 'n gynes, hoff les, a phlaid.

Bid twf i'w attwf eto
Yn Llŷn, eur frigyn i'r fro;
Bydded borth a chynorthwy,
Mal Sion, wiw foddion, neu fwy.

Oedran Crist, pan ddaeth tristyd
Di hoen, traws boen, tros y byd;
Mil, saith-gant—gwiriant y gair—
Hoff oed—naw deg a phedair;
Pedwerydd—neud dydd nid da—
O Ragfyr, bu ei rwygfa.

Ei oedran ef, addefir,
Un teg, gan uriaid ein tir,
Pum' deg—bu wiwdeg ei wedd,
Da flaenor—a dwy flynedd.

Er i angau, oer ringyll,
Ar un teg roi dyrnod hyll;
Gyru Sion, dirion a dôf,
Dewr ingwaith, i dir angof;
Nis gyrodd mewn naws gerwin
Ei glod, fawl gyfnod, fel gwin.
Sion ydoedd les hynodawl,
I Sion 'e fydd sain o fawl,
Tra b'o haul difrychaulyd,
Ffurfafen uwch ben y byd,
Daear, nef, dwr yn afon,
Cuf yma saif, cof am Sion.

TRAIS Y GORTHRYMYDD A GRWGNACHRWYDD Y GORTHRYMEDIG.

Dau efell, o bell, heb allu—gan gas,
Iawn addas aneddu;
Nes gwneyd, ar y ddaear ddu,
Aelwyd Och! i wladychu.

Eu henwau sydd wahanol—eu llysoedd
A'u lleisiau 'n amrywiol;
Eu gwŷniau 'n annigonol,
A'u maith anhoffwaith yn ffol.

Yr hynaf, trechaf, yw Trais,
Wrth rym dal ei orthrwm dwys;
A'r ieuaf, gwanaf, wag oes
Yw Grwgnachrwydd, trosglwydd traws.

Trais trwm, a gorthrwm y gwr—bydolawg,
Goludawg gau wladwr;
Ei fywyd tost ef yw tŵr,
Uthr amhwyll, y Gorthrymwr.

Grwgnach, du fwbach yw fo—a llesgyn
Ewyllysgar yn gwingo;
Islaw trais ei osle tro
Dig caniad ydyw cwyno.

Anhynaws, gair traws, gwr trwm—warth olwg,
Wrth weled y noethlwm;
Gwarthrudd yw meddai gorthrwm
Adael y llesg, dwl, a llwm.

Mae 'r ddau hyn mor anhynaws—a'u gilydd
I'w gweled yn wyrdraws;
Ond grwgnach sydd o achaws
Gorthrwm, a bod trwm byd traws.

Yntau 'r llwm, antur y llesg,
Yru mall, ffol air, i'w mysg;
Trom arw gul, tramawr eu gwasg,
Trwyth, fal llwyth, o ufel llosg.

Pwy o fath y Lefiathan—o phesgir,
A physg y môr llydan?
Eto i gyd, er hyd y rhan,
I'w fachau, mae 'n rhy fychan.

Pry' genwair, praw' y gwana'—was uthr,
Os sethrir, a winga;
Felly 'r gwan—cwynfan y ca',
Rhag crafanc hir y cryfa'.

Pwy ŵyr pa synwyr, pa sain,—pa ddeall,
Pwy ddywed yn gywrain
Iawn a rhydd, pa un o'r rhai 'n
Yw 'r achos o'r mawr ochain?

TRWSTANEIDDIWCH SION POB CELFYDDYD.[1]

Pob addas Gymro gweddol,
Ragorol ddoniol ddyn,
Rwyf yma, 'r glan gwmpeini,
Ar feddwl lloni Llŷn ;
O'ch eistedd rhoddwch osteg,
Mewn adeg loyw-deg lan,
Cewch barod hynod hanes,
Fawr gynes efo 'r găn ;
Am Ifan Robert Gruffydd,
A'i gelfydd ddeunydd ddawn,
Fu ddechreu 'i oes yn ffarmwr,
A naddwr gwladwr iawn ;
Ac wed'yn troes yn ffidler,
Mae purder y' mhob part,
Digrifwch byd ei grefydd,
A'i chynydd yw y chwart.

Ar brydiau bydd yn brydydd,
Sain gelfydd sy 'n ei gān ;
Bryd arall yn areithiwr,
Da 'i stwr, Eglwyswr glan ;
Ei fuchedd sy' ail i fochyn,
Fae 'n dilyn byw 'n y dom,
I'w sylwedd nid oes waelod,
Mae 'n dyfod drallod drom ;
Dihareb wir odidog
Ddwys oediog heddyw sydd,
Tybia 'n gyfatebol,
Deg weddol a di gudd;
Mai diwedd yr henuriaid,
F'o gweiniaid blaid heb les,
Fydd cadw defaid beunydd,
Ar dywydd oer neu dĕs.

(1) Ychydig grynodeb gwirioneddol o lawer iawn o helyntion hynod yn mywyd Ifan Robert Gruffydd, yw y Gerdd hon, ac nid ffug a weithiwyd allan oddiwrth yr hen ddywediad "Jack of all trade."

Efe, 'r hen Bant y Mochyn,
Fu 'n sydyn fwyn-was hardd,
Hyf ganlyn gwŷdd, pan fynai,
A neddai byddai 'r bardd;
Fe ganai benill weithiau,
Difyrai fawr a mân;
Bryd arall byddai 'n ffidler,
Mwyn tyner, y' mîn tân;
Ond hynod yn ei henaint,
Er maint ei fraint a'i frî,
Fe 'i troed yn fugail pottes
Ei hanes ydyw hi;
Ni chaiff e' mwy o'r hamdden
Fyw 'n gymen efo 'i gân,
Y pottes fydd yn chwanog,
Dewr tònog fyn'd i'r tan.

Nos Sadwrn, cyn ei gysgu,
Dywedodd wrth ei wraig,—
Mi af i'r Llan y foru
Dan ganu—i ddrygu 'r Ddraig;
Ond af y boreu cyntaf,
Os gallaf, yn was gwych,
I rwystro 'r pottes allan
I'r tân, o'r crochan crych:
Y boreu 'r aeth i'r dafarn,
Yn gadarn enwog wr,
Eisteddodd yn y gongol
Ar stôl, yn fawr ei stŵr;
Dywedai 'r forwyn wrtho,
Mi af i odro 'r fuwch,
Gwnewch chwithau rwystro 'r pottes,
Er lles, i'r tân, a'r lluwch.

Y'nglyn a'i waith e 'n cadw 'n
Bur salw 'r bore Sul,
Daeth achos gwaeddi chwitris
Ar Lewis, megis mul;

Y pottes oedd yn berwi,
Yn tori am ben y tân,
A'r prydydd heb ystyrio,
'Rwy 'n coelio, yn c'weirio cân ;
Er cymaint oedd ei gynwr',
A'i ffwndwr garw ffol,
Rhaid oedd cael pethau oerion
Draw 'n union, i'w droi 'n ol ;
Mewn godard, ar y pentan,
'Roedd bwyd y perchyll mân,
I'r crochan taflai hwnw,
Mewn twrw, i'w rwystro i'r tân.

Pan welodd Pant y Mochyn
Yr eisin—fyddin fawr,
Dechreuodd sydyn ddiawlio,
A llidio hyd y llawr ;
Cosi ei ben—a mwstro,
A dwrdio—curo 'r cŵn,
A gwr y ty o'i ddeutu
Yn synu at ei sŵn ;
Hwnw ofynai 'n dyner
I'r ffidler yn ei ffau :
"Paham y mae 'th ddychryndod,
Pur hynod, yn parhau?"
"Ffei, rhoddais yn y crochan,
Do, 'n aflan fwyd y moch,
'Rwy 'n ofni yn fy nghalon
'R aiff sôn dros afon Sŏch."

Bu yno fwstwr gerwin,
Tra blin, a dryghin draws,
'Roedd rhai yn gwaeddi am fenyn,
Rhai 'n gofyn am gael caws ;
Rhai yn gwaeddi am gael grual,
A rhai am sucan gwyn,—
Ni fynai neb mo 'r pottes,
Ei hanes sydd fel hyn.

Dyma hanes trwstan,
Tra thruan egwan oedd;
Sionyn pob celfyddyd
A'i ffinfyd ef a'i floedd;
A thyna ddull anghelfydd,
Gwag brydydd y geg boeth,
Nid oes wrth găn aniddos
Ddim achos bod annoeth.

CERDD I FERCH IFANC.

Anwylyd hyfryd hardd,
Fwyn y bardd, o fewn y byd;
Sy' drefnus, liwys lon,
Bron a bryd;
Fel impyn hedyn haf,
Wych a braf, iach ei bri;
A gwĕn, fel lili gardd,
Hardd yw hi;
A siriol, ail i seren,
Un ebrwydd yn y wybren;
A chynyrch, llewyrch llawen,
Fferf fwy-fwy drwy 'r ffurfafen,
Feinir wen, fwyn o ryw;
Fy nghoffa, a fy nghyffes,
Fodd hynod fydd ei hanes,
Mewn c'lymiad, caniad cynes,
Ragorol ddoniol ddynes,
Iawn a lles, enill yw.

Odiaethol foddol ferch,
Caiff fy serch, cyffes hir;
Bun heini, wisgi wawr,
Glodfawr glir;
Nid oes o fewn y byd,
Oleu-bryd, ail i'w bron;

Tra mwyngu c'lymu clod,
Hynod hon.
Mae 'n hynaws gyngaws gangen,
Gain addas, fel gwinwydden,
Wasgarog, lân, ac irwen,
Gysgodol, wisgi aden,
Is y nen, oes un ail?
Nid oes o fewn yr hollfyd,
Mor lăn ymorol enyd,
Mor waraidd, hafaidd hefyd,
Mor uchel im' er iechyd,
Gywir sydd, goreu sail.

Hoff addas yw ei phen
Ddynes wèn, ddawnus, wych;
Gwallt euraidd, llygaid llòn,
Droion drych;
Ei gwedd, a'i dwy-rudd gain
Dwy ael fain, dawel ferch,
Sy' heibio, byd a'i gwyr,
I synwyr serch;
Ei danedd, mewn nod union,
A'u hagwedd fel planhigion,
A'i thafod, gosod gyson
Odiaethol eiriau doethion,
Gwir a llon, goreu llais;
Nid afraid henwi 'i dwyfron
Liw gánaid, berlau gwynion,
Iach oleu, fwyn ei chalon,
Am dani, amod union,
Amryw son y' mro y Sais.

Clyw groyw-ber dyner dôn,
Gair o son, goreu serch;
A gwrando, fachgen ffol,
Ufuddol ferch;
Na ad i'th gariad gwiw
Wneuthur briw, noeth er brad,

Gwna, seren glaerwen, glir,
Lwys wir leshad ;—
Dyn ydwyf fi dan nodau
Dy gariad, a'th deg eiriau,
Rhoes Ciwpid im' frathiadau,
A'i lymion, sythion saethau,
Fenyw glau, fynwes glyd ;
Ow ! gwel fi, adyn gwaeledd,
Dan chwerw salw sylwedd,
O ! cyfod fi o'r ceufedd,
Iawn feinir, dyro 'n fwynedd,
Yma hedd, imi o hyd.

GWEDDI GYFFREDIN.

Ar ddull Alexander Pope.

Tad wyt i bawb, ac i bob oed,
Y'mhob rhyw ran o'r byd erioed
Addolir di ; er ar wahan,
Yn Iŏr, yn Iau, yn Arglwydd glân.

Yr achos cyntaf mawr, Tydi
Oleuaist fy synwyrau i,
I wybod hyn, mai da di ball
Wyt Ti, a'm bod fy hun yn ddall.

Tydi ddangosaist yn ddi ŵg
Im' ragor rhwng y da a'r drwg ;
O dysg fy nghalon, tyn fy mhla,
I ewyllysio 'r hyn sydd dda.

Na âd fi, Arglwydd, wneuthur dim,
Yn groes i'r rheol roddaist im';
Ond d' ofni 'n fwy nag uffern ddu,
Dy garu 'n well na'r nefoedd fry.

I daflu ymaith, fi na ăd,
Un o'th fendithion, rhoddion rhad ;

Boddheir Duw pan dderbyn dyn ;
Ufudd-dod a mwynhad sy' 'nghlyn.

Na b'o im' rwymo'th roddion di,
I'n daear fechan, egwan ni ;
Na bod yr Hwn sy'n dal y ser,
I ddyn yn unig, yn Dduw Nĕr.

Na âd i'm llaw anhwylus i,
Ryfygu taflu'th folltau di,
Na damnio 'r hwn, yn ol fy marn
F'o 'n elyn it',—na'i wneyd yn sarn.

Os cywir wyf, dy rad im' dod,
I rodio 'n uniawn er dy glod ;
Ac os nad wyf, fy nghalon gwna
I fod yn gall mewn deall da.

Cadw fi, Nêr, rhag balchder bas,
Rhag anfoddloni 'n gyndyn gas,
At ddim a roes dy ddoeth drefn di,
Neu at na roes dy rad i mi.

Dysg fi gydymdeimlo â'm brawd ;
Na b'o ei wendid imi 'n wawd :
Rho di faddeuant im' o'r nef,
Fel y maddeuwyf iddo ef.

Os isel wyf, nid hollawl wael,
Tra b'o dy gymorth im' i'w gael ;
Arwain fi yn dy ddeheu law,
Trwy 'r bywyd hwn i'r byd a ddaw.

Rho fwyd im' heddyw ar dy draul,
A phob peth arall is yr haul ;
Gwyddost beth sydd oreu i mi,
Dad, gwneler dy ewyllys di.

I ti, Greawdwr tir a mŏr,
Rhoed dynion ac angylaidd gŏr,
Trwy'r ddaear, a thrwy'r nefoedd wen,
Gyd aberth moliant byth. AMEN.

MARWNAD

Am y diweddar Barch. T. Charles, A.B., o'r Bala, yr hwn a fu farw Hydref 5ed, 1814, yn 59 oed.

GYMRU deffro, mae 'n bryd wylo,
Och'neidio, a gweddio 'n ddwys;
Wele rhoed dy dadmaeth hawddgar,
Mewn tyn garchar tan y gwŷs;
Sef Charles odidog, enwog, uniawn,
A fu 'n ffyddlawn fwyn hoff was,
Yn athrawiaethu, yn pregethu,
Yn mawrygu 'r Iesu a'i ras.

Duw a'i tynodd ef ā'i gariad
Yma o'i rad y' more 'i oes,
Ac a roddodd iddo awchlym
Ddawn a grym i ddwyn ei groes.
Ef a'i daliodd yn ei winllan,
Yn ddi ogan, yn ddi ŵyr,
At Dduw (ei lafur pan orphenodd),
Yr ehedodd yn yr hwyr.

Duw a hauodd yn ei galon,
Wiw deg wreichion hadau gras;
Gwreiddiasant ar lan afon groyw,
Dawel, hoyw, loyw las;
Eginasant, a thyfasant,
Blodeuasant drwy blaid Ior,
A dygasant ffrwythau aeddfed,
Ei ymwared oedd y mŏr.

Naturiaethydd, a hanesydd
Oedd, ac ieithydd celfydd, call ;
Dwys ddifeinydd, doeth arweinydd,
Ac addysgydd gwiw i ddall;
Gwyddai am droiau 'r olau haulwen,
Holl lu 'r wybren, gallu 'r Ion,
Ysgogiadau 'r ddaear isod,
Gwaith Naf, rhyfeddod syndod son.

Er hyn ni phwysodd ar ei ddoniau,
Na 'i rinweddau goreu 'i gyd ;
Ond ar Iesu yr hwn a'i prynodd,
Priododd, hoffodd ef o hyd ;
Cyfiawnder Crist a ffydd yn hwnw
(Wiw dda elw) oedd ei wisg,
Nid yw cyfiawnder meibion dynion
Ond bratiau budron, blinion blisg.

Wedi derbyn y fath ddoniau,
Cymwysiadau golau i'r gwaith ;
Ni bu segur yn ei fywyd,
Dioglyd, swrth, na chysglyd ehwaith ;
Ond effro a llafurus ydoedd,
Eiddo y nefoedd oedd ei nod;
Caiff ei enw barch y' Nghymru,
Tra b'o Gymru i'w barchu 'n bod.

Ef i'r hen a'r ieuainc tlodion,
A fu ffyddlon, dirion dad ;
Ei ddaioni sydd yn amlwg,
I bob golwg, pwy a'i gwad ?
Os amheuir, wele dystion,
O'r Ysgolion, doethion dysg,
Rhai 'n wythnosol, rhai 'n Sabbathol,
Uniawn, maethol yn ein mysg.

Wele ei ddidwyll hyfforddiadau
Agoriadau 'r geiriau gwir,

Wele adnodau a thestynau,
Oedd dan gloiau, heddyw 'n glir.
Yn mhynciau crefydd ymhyfrydai,
Ni arbedai fyddai er budd ;
I blanu deall yn yr angall,
I alw 'r dall i oleu 'r dydd.

I chwi y rhai sydd yn llafurio,
Ac yn gwylio yn y gwaith,
Y cyhoeddodd ef *Eiriadur*,
Yn iach, eglur, yn eich iaith;
Hyfforddi 'r ieuainc yw ei ddyben,
I gedyrn hen mae 'n gadarnhad ;
Y nesa' i'r Bibl, mae yn rhagori,
Ar un goleuni yn ein gwlad.

Tad oedd ef i'r Feibl Gymdeithas,
Fawr ei hurddas, ddifyr hardd,
Nid all neb, a Duw yn llwyddo,
Ei gohirio na 'i gwahardd.
Iōn a folir byth gan filoedd
O bobl ac ieithoedd, Beibl a gaed,
I ddangos pechod yn beth anferth,
I ddangos nerth a gwerth y gwaed.

Pan dueddai 'r Arglwydd galon,
Meibion Seion wiwlon wawr:
Yru efengyl Duw y lluoedd,
Dros y moroedd drysor mawr.
Er mor farbaraidd pobl pob ynys
Anhysbys, pell, a dyrys daith ;
Pwy ond ef oedd gyd a'r blaenaf,
Bron yn gyntaf yn y gwaith.

I'r Gymdeithasfa Fethodistiaidd,
Ef oedd hwylusaidd, lariaidd lyw,
Pwyllog, treiddgar, a chyrhaeddgar,
Pybyr, hawddgar wrth bob rhyw

Ac a rodiai yn ol rheol,
Y Gair sancteiddiol, Dwyfol doeth;
Y sawl droseddai a geryddai,
Wrth a bechai, byddai boeth.

Ei rybuddion a'i gynghorion,
Oedd i'r gweinion, megys gwin;
Wedi ā ffydd eu cyd dymeru,
Yn dyferu hyd ei fin;
Ei geryddon oedd lawn cariad,
Per arogliad pur ei ryw;
Ar ol bygythion, ei gysuron
Ro'i obaith llon i feirwon fyw.

Clywodd Lerpwl, Caer, a Llundain,
Fi felus sain ofalus ef,
Yn d'weyd mai meddyg y briwedig
Yw Iesu 'n unig is y nef;
Clywodd Cymru e'n deisyfu,
"Dowch at Iesu i'w garu i gyd,
Nid oes iachawdwriaeth ddiball
Yn neb arall yn y byd"

Ni theithia Ddinbych, Fflint, nac Arfon,
Trefaldwyn, Môn, na Meirion mwy,
Ni chlyw Deheudir ei hyfrydlais,
Er eu hymgais oreu hwy;
Dianc wnaeth i Gymdeithasfa,
Y Sanctaidd dyrfa, i noddfa nef,
Sy 'n canu i'r Iesu Haleluia,
Ac yn gwledda gydag Ef.

Os yw Elias wedi myned
O'i ludded fawr i nodded ne';
Dau parth o'i ysbryd a ddisgyno
Ar rywun eto lanwo 'i le;
Fel y d'wedo 'r *Assossation*,
Wele i Seion Eliseus!

A rhodder iddo o'r uchelder,
Gof, dawn, a thymer Timotheus.

Pum' deg a naw mlwydd oedd ei oedran;
O'r rhai 'n bu ddeg ar hugain hir,
Yn efengylu, yn hyfforddi,
Ac yn gweini dros y gwir;
Hydre 'r pumed darfu ymadaw
I le na ddaw na braw na briw,—
Un mil wythgant deg a phedair,
Oed Iesu a gair, Dywysog gwiw.

Os bu farw Charles anwylgu,
A'i roi i bydru yn y bedd;
Wele o'i ol Efengyl dirion,
A chyda hon genhadon hedd;
Duw rho lwyddiant ar eu llafur,
Doed geiriau 'r 'sgrythyr bur i ben,
Na foed mwy dywyllwch anial
Mewn un ardal dan y nen.

BUDDIOLDEB A RHAGOROLDEB YR YSGRYTHYR LAN.

Ti, Dduw, a roddaist im' dy Air,
Sydd werthfawr, pur air parod;
Melus a sanctaidd, sicr yw Ef
I'm dwyn i'r nefoedd uchod. (1)

Y' mhob rhyw wall ac angenrhaid,
Dy Air i'm plaid sydd drysor;
Cyfoethog yw, mae 'n rhoddi 'n rhwydd
Helaethrwydd fel y cefnfor. (2)

Deniadau, dychryn, braw, neu ofn,
Gyr d' Air hwy 'n ëofn ymaith;

1. Salm xviii. 30; cxix. 140, 160.
2. Michah ii. 7.

Y fagddu, o dywyllwch gau,
Sy' o'm blaen, wna 'n olau perffaith. (3)

'D yw Satan na 'i bicellau ddim,
Dy Air sydd im', O Arglwydd,
Yn darian, cleddyf, nerth i droi;
Gwna 'r gelyn ffoi yn ebrwydd. (4)

Y byd sy 'n dangos imi gau
Wrthddrychau, 'd 'ynt ond annoeth;
Dy Air sy 'n dangos imi iach,
A gwerthfawroccach gyfoeth. (5)

Y cnawd a'm gwahodd i fel hyn—
"Tyr'd, dilyn fy mhleserau;"
Af at dy Air, mae 'n fwy ei bwys,
Mae 'n cynwys gwell mesurau. (6)

Os cyfeiliornad ataf ddaw,
Dy Air gerllaw sydd nerthol;
"Hon ydyw 'r ffordd, cyf'rwyddaf di,
Os rhodi yn fy rheol." (7)

Os pechod yn fy nenu gair,
Agos yw d' Air—nid ofnaf;
Ni ăd i'm calon fyn'd ar ŵyr,
Y frwydr a lwyr enillaf. (8)

Ac er i bechod cas fel hyn,
Wneyd f' enaid yn afluniaidd;
Chwâl d' Air ei ddrodrefn—gylch yn lân
Ei ffauau aflan ffiaidd, (9)

3. Matthew iv. 3, 4, &c. Salm cxix. 92.
4. Salm xviii. 30. Eph. vi. 17.
5. Salm cxix. 14, 72, 96. Phil. iii. 7, 8.
6. Salm cxix. 47, 70. Heb. xi. 25.
7. 2 Pedr iii. 18. Salm cxix. 30, 120, 104, 118, 128.
8. Salm xix. 11; cxix. 11.
9. Salm xix. 9. Ioan xv. 3. Eph. v. 26.

Os calon angrhediniol gas
Sydd genyf—atgas ffiaidd;
Dy Air sy 'n gweithio ffydd mewn pryd,
Drwy nerth dy Ysbryd Sanctaidd. (10)

Os caled ydyw 'r galon hon,
Dy Air sydd, dirion Arglwydd,
I'w thori, yna 'n ei hiachau,
A llwyr lanhau 'r euogrwydd. (11)

Os oes im' galon rewlyd sych,
Dy Air a'i gwlych—a'th Gyfraith,
Gan doddi 'r rhew, a newid hon
Am lygaid gwlybion eilwaith. (12)

Pan godo 'n uchel feddwl drwg,
Dy Air a'i dwg yn isaf;
Y gelyn balch, a'r eyndyn wnai,
O Dduw, yn llai na'r lleiaf. (13)

Grwgnachrwydd cas, os cwyd ei ben,
Dy Air a'th wialen dirion
Ddysgant amynedd im' yn glau,
Erlidiant gau ofalon. (14)

Pan ballo gweddi godi ei llef
Daw 'th Air â'r nef i'm hysbryd;
Detyd y clo, dysg im' heb feth,
Yn ddidwyll beth i'w dd'wedyd. (15)

Pan gollwyf lwybrau 'th Gyfraith di,
Dy Air fydd imi 'n hyffordd;
Goleua 'm llygaid, geilw o'm hol,—
Clyw, tyr'd yn ol i'r brif-ffordd. (16)

10. Rhuf. x. 17.
11. Ezeciel xxxvi. 26.
12. Ezeciel xvi. 30, 60, 63; xxxvi. 26, 31.
13. Actau xxiv. 25. Rhuf. xii. 3, 16. Phil. iii. 4, 13.
14. Salm xxxviii. 13, 14; xxxix. 9. Iago v. 10, 11.
15. Hosea xiv. 2. Matthew vi. 9—13. Rhuf. viii. 26.
16. Salm cxix. 105. Esaiah l. 10.

Wyf anghyfarwydd, ffol, a dall,
Ond d' Air sy' ddiball reol ;
Dysgawdwr yw—gwna bawb yn gall
A ddêl i'w ddiwall ysgol. (17)

'Rwy 'n gwel'd fy hun yn dlawd a noeth,
Ond d' Air gwir ddoeth sy 'n agor
Mwngloddiau aur a pherlau drud,
Na fedd y byd fath drysor. (18)

Pan f'o oddiallan drallod blin,
Ac o'm mewn erwin ofid,
Daw 'th Air a chysur im' wrth raid,
A rhydd i'm henaid ryddid. (19)

Fy natur oddiwrth Dduw sy 'n ffoi,
Dy Air sy 'n troi fy enaid,
A'i ddwyn o rwydau Satan ddu
I'th wasanaethu 'n ddibaid. (20)

Os d'rysu mewn amheuaeth gau
A wnaf mewn ofnau anmhur,
Gyr gair dy ras hwy ffwrdd bob darn,
Gwna 'm barn yn oleu eglur. (21)

Os meddwl anobeithiol, trist,
A'm dwg i athrist gyflwr ;
Daw 'th Air a gobaith y caf fyw
Drwy Grist fy Nuw a'm Prynwr. (22)

Os meddwl drwg a'm gwasg mewn pair,
I'm cof dy Air a alwaf ;
Bywhâ fy enaid, dwg i'm bron,
Gysuron o'r melusaf. (23)

17. Salm xix. 7, 8; cxix. 104, 130. Gal. iii. 24.
18. Salm xix. 10. Diar. viii. 10, 11.
19. Salm cxix. 18, 50, 143, 165.
20. Salm xix. 8. Iago i. 18.
21. Actau xvi. 29—32.
22. Salm cxix. 18.
23. Salm xciv. 10; cxix. 8.

Nid allaf, am nad ydwyf gryf,
Mo 'r rhodio wrthyf f' hunan ;
I'm gliniau gweinion d' Air sy' borth,
A ffon ; rhydd gymorth buan. (24)

Mewn syched, newyn, gwendid, nŷch,
'Rwy 'n fynych ar fy ngyrfa ;
Ond yn dy Air caf gyflawn faeth,
Mae 'n win a llaeth a bara. (25)

Wyf dlawd, diystyr, tan fawr ddig,
Mewn gwrthodedig anedd ;
Mae d' Air yn iechyd, cyfoeth glăn,
Cyfeillion ac anrhydedd. (26)

Er bod fy enaid bach yn glaf,
Tan friw, a thrymaf nychdod ;
A'm pla 'n cynyddu mwy na mwy
(Ofnadwy ydyw pechod): (27)

Dy Air, pan fyddwyf fwyaf trist,
Sy 'n dangos Crist yn Geidwad ;
O'i ystlys Ef mae 'n llifo er 's talm
Y gwiwlawn falm o Gilead. (28)

Pan na b'o anadl ynof fi,
Dy gryf Air Di a'm cyfyd ;
Mae 'n allu bywiol, maeth, a threfn,
I'm dwyn drachefn i fywyd. (29)

O ! feirwon, clywch ! i brynu dewch,
Heb arian cewch ddwfr bywiol ;
A ŷf o'r ffrydiau dysglaer, da,
Ni threnga yn dragywyddol. (30)

24. Salm cxix. 28.
25. Matthew iv. 4. 1 Pedr ii 2. Esaiah lv. 1.
26. Salm cxix. 51, 141. Diar. iv. 20, 22.
27. 1 Ioan i. 1, 2.
28. Ioan v. 39. Jeremiah viii. 22.
29. 1 Pedr i. 23. Salm cxix. 93, 116. Phil. ii. 16. Iago i. 18.
30. Salm xxxvi. 9. Ioan iv. 10, 14.

Molianer Iôn, wiw dirion Dad,
Am fwynder rhad ei fendith ;
Mae'n llenwi'r gwag, mae'n nerthu'r gwael,
O'i gariad hael di gyrith. (31)

Bendithier Duw, sy 'n rhoi heb werth
Oleuni, nerth, arweinydd ;
I ddwyn pererin blîn o bla
Y byd, i drigfa lonydd. (32)

Pob adnod o'r Llyfr hwn, pob llin,
Pob gair sydd fel gwin imi ;
Can' mil mwy gwell na pherlau 'r byd
Na 'i aur i gyd, na 'i feini. (33)

Gwir eglurhad o'r nefoedd yw,
Gogoniant Duw 'sgrifenwyd ;
Rhodd o'i wirionedd dedwydd, da,
I ddynion a ddanfonwyd. (34)

Y nef a'r ddaear heibio 'r ânt,—
Gair dyn sydd fethiant wagedd ;
Ond Gair ein Duw a bery byth
Tragyfyth, heb un diwedd. (35)

Rhyfedda 'r drefn, fy enaid gwan,
'Ddug allan i bechadur ;
Dragywyddol feddwl Duw o'i lŷs,
A'i 'wyllys da mor eglur. (36)

Mawryga 'r Awdwr yn mhob dull,
Pan fyddych sefyll, canmol ;
Ymgryma i lawr, a d'wed Amen,
Amen, Amen, Rhyfeddol ! (37)

31. Salm xxiii. Esaiah lv. 2. 1 Pedr i. 23—25.
32. Salm cxix. 32, 105. Iago i. 21.
33. Salm xix. 10; cxix. 72, 162. Diar. viii. 10, 11.
34. Ioan xvii. 17.
35. Salm cxix. 89, 142, 151, 152, 162. Marc xiii. 31.
36. Salm cxix. 18, 127. 1 Cor. ii. 7, 9, 10.
37. Salm cxix. 164, 171

CAN

A wnaed ar ddyfodiad Robert Carreg i'w oedran, 1798. (1)

Mesur,—"Duw gadwo 'r brenhin."

Brwd addas Brydyddion, glew dyrfa gwlad Arfon,
Cerddorion da doethion di dwyll,
Mae genym ni destyn, i'w ddal ac i'w ddilyn,
Ei ganlyn mwyn perthyn mewn pwyll;
Am hyny ymunwn, cysonol cu seiniwn,
Cydeiliwn, anrhegwn yn rhwydd,
Wir ganiad o'r genau, twf wiwdeg tafodau,
Plethiadau, dwys eiriau, da swydd;
Mae 'n dyfod i'w oedran, ddyn goleu, ddawn gwiwlan,
Sy' ddiddan, wiw fwynlan, o'i fodd;
Y glan Robert Carreg, gobeithio cawn 'chwaneg,
Bĕr fwyndeg, wir adeg, o'i rodd.

Ei lan etifeddiaeth fu 'n hir dan olygiaeth
Llywodraeth, gwyr odiaeth, gwār iawn;
Wych hylaw ddychwelodd—modd union meddianodd,
Fe 'i cafodd mewn llwyrfodd mwyn llawn;
Y rhai'n ofalasant, dewisol gadwasant,
Ni fynent lle teithient lliw twyll;

(1) ACHAU CARREG, YN LLEYN:

Rhys ab Tewdwr Mawr, Tywysog Deheudir Cymru.
Gruffydd ab Rhys, ei fab, yr hwn oedd yn Dywysog.
Yr Arglwydd Rhys a fu farw 1197.
Rhys Gloff,—a briododd Gwerfyl, merch i Maelgwyn ab Cadwallon.
Madog ab Rhys,—a briododd Tanglwst, ach Grono ab Einion ab Jestyn, ab Gwrgant, Arglwydd Morganwg.
Trahaiarn Goch, Arglwydd Commitmaen, a briododd Gwerfyl, ach Madog ab Meredyth ab Maelgwyn ab Cadwallon ab Cadwgan ab Elystan Glodrydd.
Dafydd Goch.
John Carreg Bach.
Ifan,—a briododd Gwenllian, ach Ifan ab Howel Coetmor.
Gruffydd.
Rhobert a fu farw 1579: Catrin ach Richard ab Twm ap Madog, o Bodwrda.

Ifan,—	Gruffydd,	John,	William,	Robert,	Ellis,
	Lowry		Annes		Catrin

Gruffydd Carreg.

Ond pob peth yn onest, da lwyddiant, di loddest,
Drwy ddirwest, heb orchest, hy bwyll;
I'r Aer rho'ent ddysg hefyd, coel foddus celfyddyd,
Er hyfryd iawn enyd i'w nŏd;
Tra cyfan y cofir, eu hanes a honir,
Modd cywir y cludir eu clod.

Yr Aer, sydd yrwan, yn un-mlwydd-ar-hugain,
Boed mwynlan a diddan ei daith;
Efe yw 'r etifedd, hael benaeth hîl bonedd,
Anrhydedd er mawredd ŵr maith;
Fe ga'dd etifeddiaeth o deulu a gwaedoliaeth,
Tra odiaeth yw 'r helaeth wir hawl;
Iach hepil, wych hapus, dra enwog oedranus,
Rai gweddus a moddus eu mawl;
O flaenion ein teyrnas y tarddodd at urddas,
Cymwynas, da bwrpas, di ball;
Rhys Tewdwr yw 'r hynaf o honynt a henwaf,
Y penaf a'r cyntaf ŵr call.

Hwn ydoedd Dywysog Deheubarth, da hebog,
Galluog, wych enwog, âch hoff;
A'i graffus fab Gruffydd, a'r Arglwydd Rhys gelfydd,
Pen llywydd, rhwysg gwledydd—Rhys Gloff;
O'r tylwyth ardderchog, amodol da'i Madog,
Gledd duriog, darianog, di roch;
A'i fab oedd Trahaiarn, ddewisol ddiwasarn,
Uniawn-farn, wedd gadarn, oedd Goch
Trahaiarn, dda 'i amcan, oedd benaeth Commitma'n,
Wlad lydan, wir hoywlan ei hynt;
Yna daeth Dafydd Goch hylaw, ac uchelydd,
Pen llywydd, llon gelfydd, Llŷn gynt.

Sion Carreg Bach, wed'yn, osodwyd yn sydyn,
I'w canlyn er hydyn fawrhad;
Doeth hefyd daeth Ifan, a'i briod Gwenllian,
Wawr ddiddan, dda wiwlan, ddi wad;
A Gruffydd gry effaith a gai 'r etifeddiaeth,

Er helaeth ragoriaeth, aer gwych,
A Rhobert ganlynodd, ac Ifan a gafodd,
Taclusodd, iawn drefnodd ei drych ;
Yna daeth Gruffydd, aer gonest, ar gynydd,
Yn llywydd, was dedwydd, i'w 'stad ;
A'r Rhobert presenol sydd un diwahanol,
Perthynol, aer haeddol, o'r hâd.

Wel dyna ychydig o'i achau parchedig,
Nodedig, arbenig, i'r byd ;
Prin neb wŷr am danynt, na hanes o honynt,
Pwy oeddynt, na 'u helynt o hyd ;
I hwn, bellach, yn bwyllog, b'o rinwedd bur enwog,
Odidog, ddi halog, dda hynt ;
Mae'nt hwy wedi myned, 'd oes neb all eu gweled,
Na 'mgyffred eu gweithred hwy gynt ;
Boed iddo fo 'n wastad gain addas gynyddiad,
Cymeriad, a chariad, iach wedd ;
A nerthol iawn wrthod pob buchedd o bechod,
Er canfod, gwawr hynod, gwir hedd.

Drwy iawn lywodraethiad y deiliaid a'i deulu,
A'u dysgu i garu y gwir,
Cyff anwyl, caiff fwyniant, llaw heddwch a llwyddiant,
Yn bendant, a ffyniant hoff hir ;
Boed iddo gael priod, lon heini, lān hynod,
Heb ormod o sorod i'w sias ;
Ei blant a f'o rhadlon, ac isel deg weision,
Morwynion, mwyn gryfion, mewn gras ;
Doed dyddiau dedwyddol i'w ran yn gywreiniol,
Oes dduwiol, dda siriol, ddi sen ;
Arogled o'r Eglwys, buredig baradwys,
Caiff orphwys yn y wiwlwys ne' wèn.

AWDL AR DYMORAU'R FLWYDDYN.

WELE oddau, gwawl addien—a thestyn
Iaith ddwysdeg ddisgywen;
Dwyre bwnc, dyro i ben,
Dy gymorth, ëorth awen.

Nâf luniodd y nef lenau—yr wybren,
A'r ebrwydd blanedau;
Daear wŷch, liwgar a chlau,
Ei thw' mawr, a'i Thymorau.

Pe lwar tymor rhagorawl—a phedwar
Hoff ydynt, blynyddawl;
A phedwar hygar eu hawl,
A henwir yn wahanawl.

Gwanwyn iach, hirwyn gwych *Haf*—ysberthid
Esborthawl *Gynhauaf*;
Eilliwr gwyw oll yw y *Gauaf*—
Blaidd gwancus, ei gus a gaf.

AR Y GWANWYN.

Wele ddaearawd wiwlon—rieddawg
Ryw addas gynyrchion;
Bendith fâd, o rad yr Iōn,
Ddir wawl, i ddaearolion.

Hyfrydawl neud emawl, wiw dymor,
Disgywen ac addien egwyddor;
Trefnus ddir iachus, dda rychor—i'r Haf,
Ei glod a ganaf, lònaf flaenor.

Tawel yw ei awelon, a'i olud,
A'i wiwlwys anrhegion;
Gwneyd pob mangre 'n ffraethle ffrwythlon,
A'i gynyrchawl deg anerchion;
Lluosog irddail, llysiau gwyrddion,
Gwych hynt eurawg a chantorion;

Melys yw moli, a son—am lewyrch
Y llonwych ddillynion.

Mwynaidd lu, yn c'lymu clod,
Eur bib edn ar bob adnod,
Heb ofeg ar deg wir daith,
Dim unwaith y daw manod.

Mae 'r egin yn mawrygu—gwir noddwr,
Gan addas ymdaenu;
Pob plaid wawl euraid, wiw lu
Y Gwanwyn yn ymgynu.

Pur yw tarddiad parod hirdddydd,
Hwnt a'r oerddydd—hynt i'r urddas,
Mawl a chaniad, mêl a chynydd,
A lleuferydd y llafurwas.

Tymor addwyn wyt, a mawr roddiad
Iach gain addwyn dy wych gynyddiad,
Y puror eglur peraroglaidd,
Trwy ras Dofydd tra eirioes dyfiad.

Aeth ymaith, fal ymdeithydd,
Dduoer rew, cawn ddaear rydd;
Pa ben, gan wych ysblenydd—eill ganfod
Oer fanod ar fynydd?

Wele natur, îr eglur arogliad,
Yn hoff euraid iesin a pharadwysaidd,
Ei hirddwys gynyrch, a'i hardd wisg gànaidd,
Yn iach fâd rasol, iawnwych fedrusaidd,
Yn debyg, eurfyg arfaidd—i ènyd,
A borau mebyd, syberw, a mabaidd.

YR HAF.

Wele wiwlan, hüan Haf,
Hinon, da roddion di rif;

Gwres a nawdd goris y nef,
Daear deg a dioer dŵf.

Wele i luoedd olau lewyrch,
Ar y ddaear liwgar oleugyrch;
Rhyfedd ei hagwedd hygyrch—a mirain,
Di feth, a chain da faeth, ei chynyrch.

Llafurwyr, garddwyr, a gerddant—bellach
Heb ball yr edrychant,
Ar led, a gweled a ga'nt
Y cynyrch, mwynaidd canant.

Cynar y darpar y doeth,
Ei gain hwyl a'i gynhaliaeth;
Cwsg diog, yn euog noeth,
Trwm yw 'r gwall, trem argyllaeth.

Cyflym grym a gwres
Haul, araul eres,
Ei fudd a'i gynes feddyginiaeth;
Llewyrch, entyrch hynt,
Draw, hylaw helynt,
Ei ofwy gerynt a'i fagwraeth.

Tirion a rhadlon rhedli—afonydd
Hyfwynaidd y weilgi;
Llongau rhull eang eu rhi',
Môr rhodiant er mawrhydi.

Maethu llysiau,
A holl ffrwythau,
Yr elfenau, eur wawl fwyniant;
Eu cynyddu,
A'u haddfedu,
A dosbarthu, neud esborthiant.

Tra poethlosg, hylosg, helynt—Haf amser,
Rhof ymswyn i'w gerynt;

Llawer twrdd, er hwrdd, oer hynt,
Tan lachar tyn y llechynt.

Diledtyb cyffelybaf,
Faswedd hoen, i fisoedd Haf;
I ddyddiau a llwybrau llanc,
I'r lawen araul ieuanc.

Y CYNHAUAF.

Wele wawr, dymawr teg,
Iach adeg hoenwych ydyw;
Mawr fendith, O mor fwyndeg,
Cair anrheg gu o'r unrhyw.

O feg esgud, hyf a gwisgi,
Dring war araul dreng Eryri,
Er sylwi ar iselion;
Gwel ddaear, hygar eigion—f'o danad,
Mwysaidd genad, a'i meusydd gwynion.

Gwlaw daeth, a gwlith i'w maethu—îs y nen
Yn neud oed wybren i'w dadebru,
Hylaf fodd, yr haul a fu—yn firain,
A hoywaidd fadain i'w haddfedu.

Pob gronyn hedyn hoywdeg—a'r afrwysg
Oer efrau anfwyndeg;
Gwellt, ŷd, ûs, heb rus na breg
Hyd yma mewn adameg.

Dyffrynoedd, ŷd, a phrenau,
Yn ffraethion iawn eu ffrwythau;
Ond dirfawr yw hynt arfau,
Egr ă miniog grymanau,
Rhull gywain yr holl gaeau,
Rhad lonwaith, i'r ŷdlanau,
Caiff y dawn, coffa dinerth,
Gain gyfnerth o'r gwin gafnau.

Clyw gerddi clau ac urddawl,
Leisiau myrdd, heb lysu mawl,
Am rwyddeg a mawr roddion
I ddynion anhaeddianawl.

Ond edrych, cyn terfynu—y sarllach
Is erllen oleugu;
Wele ddeifiawg, lidiawg lu,
Wedd ornest, yn ei ddyrnu.

Gwel ermyg digwl armerth,
Teryll sain gwyntyll sy'n gerth,
Puro 'r ŷd—yn poeri 'r ŭs
Draw i anedd druenus.

Tyred, yn drwydded raddawl—i wared
Cyn eira echrysawl;
Collodd coed eu hoed a'u hawl,
A llysiau eu tŵf llesawl.

Wele arwyddion aelaf—mwy egwan
Mai agos yw 'r Gauaf;
Darfu ar hynt dyrfau 'r Haf,
Cān hoywaidd y Cynhauaf.

Y GAUAF.

Och! elyn, ymlyn amlwg—Och! anfad
A chwynfan, oer olwg;
Ciliodd draw, rhag coledd drwg,
Desawg haul, dwys y cilwg.

Gan rheibflaidd, llymaidd pob lle—rhew eiry,
A rhyw aruthr belrhe;
Cloi pob ffrŵd, gŵn gnŵd, gwyn gne,
Fal meingrys ar fol mangre'.

Pla mawr ydyw—p'le mae 'r adar,
A'u hacenion? diau cynar,

Gwylltaidd dduodd gwellt y ddaear,
A'i llu cyrchwyd oll i'w carchar.

Oni ofala yr anifeiliaid,
Hyder a phrawf i adar a phryfaid,
Pob anwydog—chwanog ei ochenaid
Rhag oerfel anhydyn, newyn, niwaid;
Dedwyddwch, hoyw fflwch, a phlaid—cael
Heb ludd, o allu y blaidd a'i wylliaid. [llechu,

Garw fy nghwynfan, rhag oerfel anghenfil,
Gwyw fy nghanu y Gauaf anghynil,
Traws ei bwyll, llyncodd—troes i bell oncil,
Auaf du, gipiad Haf a'i deg epil,
Trwy ŵg, o'r golwg, ar gil—yr aethant
Duoer ein noddiant, daear yn eiddil.

Wele bellach, hwyl a ballodd,
Tyn arosodd tàn âr isel,
Enyd afiach, anwiw dyfodd,
Awen rewodd gan yr awel.

Ei nerth ciliodd,
Cyflym hedodd
Ei phib eurfodd, a phob arfel;
Dawn a wywodd,
Synwyr pylodd
Iaith wemp, duodd ei thymp dawel.

Mal Gauáf, honaf, yw henaint,
Hylliawg, oeraidd, a'i holl geraint,
Darfu hoen, poen pâs, cryd rhewllyd rhullias
Afanus nwyf enaint.

ARGRAPHWYD GAN RICHARD JONES, PWLLHELI.

Y FFYNIDWYDDEN:

SEF

Darnau Barddonol,

AR

WAHANOL DESTYNAU,

GAN

PEDR DULAS,

LLANDDULAS.

BALA:
ARGRAFFWYD DROS YR AWDWR GAN H. EVANS.
1878.

Rhagymadrodd.

Anwyl Ddarllenydd,—Wele fi etto yn anturio dyfod a'r wythfed lyfr o'm oynnyrchion allan, gan hyderu y rhoddir i mi yr un gefnogaeth yn awr a'r troion o'r blaen. A ganlyn yw y rhestr o'm llyfrau oyhoeddedig:—1. Dwy Bryddest; 2. Gardd Dulas; 3. Y Balmwydden; 4. Y Winwydden; 5. Y Rhosyn; 6. Y Gedrwydden; 7. Y Deigryn.

Y mae y ffaith fod yr oll o'r llyfrau uchod wedi eu gwerthu yn fuan wedi eu cyhoeddiad, yn gymhelliad cryf i mi gyhoeddi Y Ffynidwydden, a gobeithiaf y ca iff pawb a'i pryno lawer o bleser wrth ei ddarllen.

Yr eiddoch yn rhwymau cariad,

PEDR DULAS.

Llanddulas,
Ionawr, 1878.

Y FFYNIDWYDDEN.

Rhan 1.--Cywyddau.

Y GWLAW.

Disgyna'r cawodydd o'r cwmwl i lawr,
Er cynnydd y coedydd yn faeh ac yn fawr;
A llesol i'r llysiau yw'r gloyw ddafn gwlaw,
Ireiddiol yr olwg, ar gynnydd y daw;
Nis gallai'r gwyrddlysiau ddim tyfu mewn tir,
A'r coedydd mawr cadarn a wywent cyn hir;
Yn ddiau y ddaear fe wywai'i hardd wedd,
Ai'n llednoeth a llwydaidd mal marw mewn bedd.
Y gwenith, heb gynnydd, a wywai cyn hir;
Grawn eraill ddarfyddent, ni thyfent mewn tir.
Rhyw olwg wywedig ar fynydd a dôl,
Dyffrynoedd a glynoedd llwydruddiol yn ol;
Eithionog fynyddau a lwydai bob un,
A'r mefus a'r mafon, ni welid yr un.

Ni thyfai un llysieuyn
O dan yr awyr las;
Y blodau a'r rhosynau
A wywent ar y maes;
Ni welid un planhigyn
Mewn cynnydd yn y coed,
A'r 'falau mawrion filoedd
Ddarfyddent yn ddioed.

Y ffrwythau hardd danteithiol
A llesol y'nt i ddyn,
Sydd yn yr ardd a'r berllan
Ddarfyddent bob rhyw un;
Ni welid un friallen,
Na chwaith un llygad dydd,
A gwair nac ŷd ni thyfai,
Na chloron byth na gwlydd.

Y ddaear sy'n agenu
Mewn hiraeth am y gwlaw,
A'i chroen sydd yn melynu,
A gwywder ar bob llâw:
Y nentydd mân yn sychu,
Ni chai'r anifail ddŵr,
A'r felin ni wnai falu,
Ni chlywid dim o'i stŵr.

Fe wywai pob glaswelltyn
O eisieu'r gawod wlaw,
Ac felly pob anifail
A drengai yn ei fraw;
Ydlanau gweigion fyddai,
Dim gwellt na gwair i neb,
D'ai newyn trwy'r eyfanfyd,
A myrdd mewn dagrau'n wleb.

Dyfrgistiau awyrawl ddarparodd Duw'r nefoedd,
Uwchben y ddaearen yn filoedd ar filoedd;
Costrelau nofiadwy yw'r duon gymylau
Ddarparodd y nefoedd i arllwys cawodau;
Ant weithiau ar ymdaith uwchben y mawr neifion
Gan dynu i'w crombil y dyfroedd o'r eigion;
Trwmlwythog dychwelant yn ufudd genhadon,
Gan nofio trwy'r nwyfre er arllwys bendithion.

Ein Ior o'i ras sy'n dwfrhau
Y bryniau o'i 'stafelloedd,
Rhyw fendith werthfawr ydyw'r gwlaw,
I'r ddaear ddaw'n oludoedd.

Hardd uchel grib fynyddau
A sugnant gwmwl glân,
Nes daw ei holl gynnwysiad
I lawr yn ddafnau mân;
Holl ucheldiroedd daear
Sy'n cael eu dwfrhau,
A'r praidd sydd ar eu llethrau
Dda borfa gânt fwynhau.

Y bryniau a'r dyffrynoedd
A gânt feunyddiol wlaw,
Nes tyfu a gwyrddlasu
Yn ffrwythlawn ar bob llaw;
Y glaswellt mân a welir
A dagrau ar eu grudd,
Yn wyrddlas mal y Werddon,
'Rol cawod faethlon bydd.

Yn tarddu ac yn tyfu
Mae pob amrywiol had,
Mewn meusydd ac mewn gerddi,
A glynoedd yn ein gwlad:
Y bryniau hardd a'r bronydd
A'n wyrddlas ar ol gwlaw,
A'r ŵyn yn chwareu'n nwyfus
Yn prancio welir draw.

Awelon sydd yn chwareu
Oddeutu'r d'wysen fach,
I'w thrin a'i throi o gwmpas,
Er in' gael bara iach,

Er mwyn i'r haul gael mantais
I'w ei haddfedu'n llawn,
Ar ol i'r gwlaw ei meithrin
O foreu hyd brydnawn.

Duw tirion sydd yn rhoddi
Cawodydd oddi fry,
I ymgeleddu'r ddaear
A'i holl aneirif lu;
Fe welir y glaswelltyn
A deigryn ar ei rudd,
Ar flaen ei droed yn diolch
I Dduw ar doriad dydd.

Y gwlith a'r tarth a gyfyd
I'r awyr deneu las,
A halltaidd ddwfr y moroedd
A groywir yn ei flas:
Ymgasgla'r tarth a'r gwlithoedd
Yn gwmwl mawr uwchben,
Ac yna daw y gawod
Yn ddafnau mân o'r nen.

Mor werthfawr yw'r cymylau,
Trysorau'r nefoedd fry,
I gadw'n lân y dyfroedd
Maent yn aneirif lu;
Doethineb a thrugaredd,
A ffrwyth yr arfaeth fawr
Yw holl fendithion natur
O'r nefoedd ddaw i lawr.

Mae'r dail trwy'r byd yn dawnsio
Wrth sain yr awel fwyn,
A'r adar mân yn canu
Yn beraidd yn y llwyn:

Y coed yn curo dwylaw,
A'r môr yn canu bass,
Wrth roddi o'i drysorau
I fwydo'r ddaear las.

Cydganu mae'r mynyddoedd,
A'r ddaear oll yn nghyd,
Am y cawodydd graslawn,
Sy'n ei dyfrhau o hyd;
Pob pren a phob glaswelltyn
Sydd yn adseinio cân
I'w Crëwr am eu cofio,
Am roi y dafnau mân.

Disgyna y cawodydd
Ar ddannedd serth y graig,
Ac ar yr anialdiroedd
Ac ymchwydd tònau'r aig;
Ca yr asynod gwylltion
Y ddiod dda o ddw'r,
Ac hefyd ca 'r cawrfilod
Eu disychedu'n llwyr.

Trwy weddi Elias
Y lluddiwyd y dyfroedd,
A chiliodd o'r golwg
Gostrelau y nefoedd;
Aeth golwg wywedig
Ar wyneb daearen,
Ni welwyd un blod'yn
A gwywai pob deilen.

I weddi ai 'r proffwyd
Ar ben mynydd Carmel,
Gwraudawodd Duw'r nefoedd
Ca'dd wlaw cyn ymadael;

Pe heb y cawodydd
D'ai newyn yn eon,
A dyn ac anifail
A drengai yn union.

Darfyddai'r llawenydd
Ar ddiwedd cynhaua',
'Pob mwyniant daearol
Yn gyflym ddiflana;
Fe drefnodd Creawdwr
Ddigonedd o ddyfroedd,
I ddyn ac anifail
A hyny trwy'r oesoedd.

Cymylau a'u cludant
Er mwyn ei ddosranu,
I wlawio ar feusydd
Er mwyn iddynt dyfu;
Y llwythog ddu gwmwl
A farchog y nwyfre,
Ar neges sydd bwysig
Mae'n myned i rywle.

Gweithredu mae'n wastad
Yn ol y gorchymyn,
Ni lithra un amser
Dros linell ei derfyn.
Mae'r rhosyn bach yn tyfu'n hardd
Ar ol y gawod wlaw,
Y meillion welir ar y ddol,
Ar gynnydd gwych y daw.

Fe welir coed mewn mentyll gwyrdd
Yn harddu ochrau'r glyn,
'Rol yfed gwlaw yn fuan daw
Hardd wedd ar ben y bryn;

Ar ol y gwlaw ceir porfa dda
I'r eidion ar y ddol,
A'r meirch a chweru'n nwyfus iawn
Ag anhawdd fydd eu nhol.

Yr ŵyn a lamant dros eu mam
Ar wyrddlas ddolydd bras,
Y pysg a fechir ar ol gwlaw
Mewn dyfroedd llwydion bas;
Y gwybed mân ddont tua'r llawr
O flaen y gawod wlaw,
Ac ar eu hol daw'r wenol bert,
Mewn gwanc yn gyflym ddaw.

Ior sy'n darpar y cawodydd
Er mwyn cynnydd egin grawn,
Ac er maethu y planhigion
Yn y gerddi yma gawn;
Un o ddoniau ei ragluniaeth
Ydyw'r dyner gawod wlaw,
Er cynnyddu a maethloni
Yn ei thymhor rheidiol daw.

Rhoddion Ior yw'r gwlaw a'r eira
A'u rhinweddau ffrwythlawn iawn
Yn eneinio gwyneb anian,
Ac yn maethu'r gwellt a'r grawn;
Gwlaw sy'n gynnydd i afonydd,
Rhai a fudant gyda hwy
Holl fudreddi sydd yn llechu
Ac yn magu afiach glwy'.

Ior all wneud i'r hyn sy'n fendith,
Weithiau'n felldith ar y byd;
Gwnaeth y dwfr yn genad ufudd
I ddinystrio'r annuw'n ngbyd.

CYWYDD YR ARDD.

Lle enwog i bwyllog ddyn,
Os yn fardd, yw gardd flod'yn;
Yma mae rhosynau gant,
Hardd wedd ac iraidd tyfant;
A gardd lysiau sydd lesol,
Pwysïau res mewn cynhes gôl,
A blodau rhosynau sydd,
Ar ganted addfed gynnydd,
Lle tyfa y ffrwythau'n îr,
Y 'falau mawrion folir,
A'r gerllig mawreddig fydd
Ar ganfed mewn gwir gynnydd.
A bresych yn fawrwych geir,
Hardd gloron yma gleddir,
Ac eirin mai, difai ar goed,
A moron yn eu mer-oed.
Eirin cochion mawrion sydd,
A duon ar haf dywydd.
A'r winwyn, wiwlun iach,
Yn llwyni yn y llanerch,
A llysiau moethus llesol,
Hyd lan dy fedd, lon'd dy fol,
Ac aeron amrywion sydd
Ar gangen o fawr gynnydd.
Berw Ffrengig a gerllig geir,
A *reddish* yn eu rhydair,
Y *currants* cochion a duon da,
Gwir heb ludd geir i wledda.
Danteithion amrywion sydd,
Yn gynnar geir ar gynnydd,
A maethlon ydyw'r moethau,
Aeron myrdd yn yr ardd mae.
Amrywiaeth yma roddwyd,
O nawdd Ion i ddynion fwyd.

Casglfa uwchraddfa oreuon,
Geir i'r byw gan Dduw yn hon.
Tair gardd yn hardd o hyd,
Llu yn gwenu, llawn gwynfyd.
Gardd rhosynau, blodeu blydd,
Pur llawn, a gardd perllanydd;
Gardd ffrwythau, moethau i fin,
Glwys gynar, glas eginyn.
Yn yr ardd yn hardd ar gainc,
Mal gemau, flodau ieuainc,
Yn gannoedd mewn gogoniant,
O aeron fyrdd mewn urdd maent.
Pob amrywiaeth prydferth sydd
Yn gannoedd yn ei gynnydd.
Melusion a chwerwon geir,
O lethrau hon a lwythir.
I farchnadoedd llwythoedd llawn,
I'n gafael ddaw yn gyflawn;
A dynion gânt eu denu
I'r man a'r lle, mawr yma'r llu.
Ei ffrwythau yn ddiau ddaw,
Yn gynnar geir i giniaw,
Ac yn y boreu diau bydd,
Faeth im', beth o'i ffrwythydd.
I ran dyn o'r hon daw
Ddigonedd idd ei giniaw.
O erddi bras i ddinasoedd
Gynnyrch hon ger bron yn g'oedd,
Trwy foddion tra r'feddu,
Yn elw ddaw rhag aelwyd ddu,
Odiaeth ydoedd Gardd Eden,
A chadarn oedd ei chedrwydd hen,
Ac afalau yn filoedd
Yno yn rhan i'r dyn 'roedd.
Pur odiaeth oedd Paradwys,
Yno'n glau euron glwys,
Amrywiaeth helaeth o hyd
Ar ganfed yn y cynfyd.

Llafurio 'roedd mewn boddlonrwydd
Mewn mirain le a mawr lwydd;
O'i ddewis fe ga'i ddyfod
At ffrwythau pur a difyr fod;
Pren y bywyd hefyd oedd
Weledig ei oludoedd,
Ddiguro mewn hawddgarwch,
Yn firain droi yn fawr ei drwch;
A phren gwybodaeth, prydferth oedd
A gafwyd mewn man gyhoedd.
Ni fu un ardd mor hardd a hon,
Ei golud lonai'r galon;
Gardd yn ben gerddi'r byd,
Hen Eden a hynodwyd.

GALLU DUW.

Gall Duw gyfnewid holl natur yn gyfan,
A pheri'r graig gallestr wylo'r dwfr allan;
Gall wneud y dyferyn yn foroedd nofiadwy,
A dwyn i ddiddymdra bob sylwedd gweladwy.
Ei air a orch'mynodd aneirif o heuliau,
Ymlidiant dywyllwch tu draw i'w gororau.
Gall ddwyn i fodolaeth aneirif o fodau
Mwy dysglaer dalentau na'r cerub mewn graddau,
A'u hedyn mwy cyflym i fyn'd mewn ymchwiliad,
I weled rhyfeddod dirgelwch y cread.
Y fflamawg ser gwibiog sy'n hedfan trwy'r entrych,
Mor faith yw eu hymdaith hyd lwybrau anhygyrch,
A heuliau uwch heuliau nas gwyddis pa gymaint,
A'r oll o'r gyfundraeth yn dangos gogoniant.
Fe wlawiodd o'r nefoedd, do fara angylion,
A chreodd fawr ddychryn yn mhyrth y gelynion.
Bu'n gyru byddinoedd estroniaid i gilio.
berth oedd yn llosgi ond heb ei anrheithio.

Gall greu, trwy fawr allu, aneirif amrywiaeth,
Mae'r gallu tragwyddol tu hwnt i ddirnadaeth.
Bu'n attal mawr angerdd y tân i ddyfetha;
Fe ddywed wrth gwmwl, a'r nefoedd ni wlawia:
Mae'n rhifo y bydoedd—mae'n gwybod eu henwau;
Iachau y briwedig o galon mae'n ddiau;
Costrelu mae ddagrau ei blant cystuddiedig,
Gan ddwyn ar ei ysgwydd y ddafad grwydredig.
Arch Noah fu'n nofio ar wyneb rhyferthwy;
O'i mewn yr ymguddiai heb deimlo'r un gofwy.
Fe losgodd yn ulw ddinasoedd Gomorah,
A fflammau difäol—ofnadwy'r olygfa!
Bu Daniel yn gorwedd yn ffau y llew rheibus,
O achos ei grefydd, ar Dduw 'roedd yn gorphwys;
Ar fron y llew creulawn y cafodd orphwysfa,
A'u safnau mor gauad a llyffant Gorphena'.
Ni raid i'r credadyn byth ofni'r un niwed,
Pe deuai ail ddylif yn genllif i waered;
Pe neidiai'r mynyddoedd i ganol y cefnfor,
Pe'r ddaear droi'n gymysg i'w chyflwr dechreuol;
Pe deuai gwibseren mwy cyflym na'r wawrddydd,
Wrth air y Jehofah y gweision sydd ufudd;
Gan ddod yn eu hymdaith a fflamio yn ulw,
A gwneuthur pob sylwedd yn bentwr o ludw.
Trwy bob cyfnewidiad sai'r Cristion heb gyffro,
Ar ludw'r gre'digaeth mor llawen mae'n bloeddio.
Haul dysglaer dywylla, a'r ser ni oleua,
Mae diwrnod yn dyfod holl anian noswylia,
Fe dafla'r holl gylchoedd, a'r deddfau ddatodir,
Y meirw gyfodant, a'r ddaear a losgir,
Gall Duw wneuthur eilwaith y cread o newydd,
Yn gartref cyfiawnder a cholofn santeiddrwydd.

CYDNABYDDIAETH O DDIOLCHGARWCH I . SUSANNAH DAVIES, CAERSALEM HOUSE, LLANDDULAS.

Susannah sydd yn swnio
Yn esmwyth ar fy nghlust;
Mae'n fenyw dyner fynwes,
Mae iddi lawer tyst;
Ei siriol wedd fel seren,
Hawddgarol yw i gyd,
Yn gyfiawn yn ei masnach—
Un lawen a di-lid.

Dyma fenyw lawn o rinwedd,
Un grefyddol iawn ei thuedd;
Mae yn gyfiawn a charedig,
Ac yn caru bod yn ddiddig.

Tynu i mewn, nid bwrw allan,
Llawn o ffrwyth yw yn y winllan.
Fel pren afalau yn ei flodau,
Mae'n rhosynaidd iawn ei gruddiau.

Fel mam rinweddol yn ei theulu,
A chadw'n lân mae bawb o'i deutu;
Ei phrif-nod yw gwneud pawb yn hapus,
Yn ei thŷ, mae hyn yn hysbys.

Bendith Ior fo ar Susannah;
Tad 'r amddifad iddi'n noddfa:
Byw yn hir mewn defnyddioldeb,
A nefoedd wen am dragwyddoldeb.

CYWYDD Y CYFAMOD.

Tri yn Un, diderfyn Fôd,
Cyfuno mewn cyfamod.
Hen fwriad i'n hadferu,
Cyn bod âr na daear ddu.
Cyn sylfaenu, cyn lledu llawr
Hen ddaearen, hoen ddirfawr,
Cyn mynyddau, cyn bryniau'r oedd,
Cyn myrddiwn graian moroedd,
Cyn bod haul ar ael y nen,
Cyn siriol wyneb seren;
Cyn cadarnhau cymylau mawr,
Cyn canfod dw'r y cenfawr:
Cyn dyddhau un boreu byd,
Cyn lloer a'i lliw arianbryd,
Cyn cread, cyn toriad gwawr,
Cyn olwyno haul enfawr.
Cyn rhoi gwregys i fawreddus fôr
Rhag ddigofus ddygyfor.
Cyn gogledd ar y gwagle,
Cyn harddwen dwyren, de,
Cyn ffynhonau dyfnderau bu,
Cyn wybren fry nac obry,
Meddyliau o hedd, O! ryfedd ras,
I'n harddu â nef urddas.
Fe barotodd nefoedd i ni,
Fe luniodd bob haelioni.
Gogoniant a moliant fydd,—
Trugaredd sy'n dragywydd.
Gwir ydyw fod Gwaredwr,
O'i fynwes anfones ŵr,
I farw dros niferoedd,
Yn barod un mewn bwriad oedd.

CYFANSODDWYD AR OL CLYWED AM FARWOLAETH RISIART DDU O WYNEDD YN AMERICA.

A Risiart Ddu ni fu yn faith
Hyd amdo ar ei ymdaith,
Addurnodd ei fyr ddiwrnod
Ag awdlau claer er ennill clod,
Ei awen gre' a dreiddie drwy,
A'i nerth oedd yn gynnorthwy.
Ennillodd trwy fawr allu,
Y gwr llon, goronau'n llu.
Ei awdlau a'i gywyddau gaed,
Digyffelyb gaffaeliad.
Ar gynnydd bob dydd yn do'd,
Mor eglur yn wr hyglod.
Yn mlodeu'i ddydd ufudd au,
A'i lafur hwyr ar lyfrau;
Ond angau yn ddiau a ddaeth,
Disymwth, du wasanaeth.

CRAIG YR OESOEDD.

O dyma'r fan cadarna'n bod,
A chraig yr oesoedd dan fy nhroed;
Er rhuthro y corwyntoedd oll,
Ei allu ef sydd oll yn oll.
Y ddraig a'i grym sy'n gadarn iawn,
Mewn brad a llid y bore a'r nawn;
Aneiryf yw'r gelynion sydd,
Ond mwy ni allant gario'r dydd.

Mi safaf ar y Graig,
Heb ofni tònau'r aig,

Mae hon yn uwch na'r stormydd blin
Yn fan dyogel ar bob hin;
A chanu ar y graig a wnaf
Yn nghanol gauaf du a haf.
Iôr, hwylia fy ngherddediad i,
Na syrth fy nhraed i lawr i'r lli'.

A creigiau'r byd yn chwilfriw mân—
A'r ddaear a'i thrysorau'n dân:
Ac ar y graig yn angeu du
Ac yn y farn caf fod yn hy';
Ni chyraedd tân yr olaf ddydd,—
Uwchlaw y fflammau canu fydd.
Fe drenga anian dan ein traed,
Ond saint a ganant am y gwaed.

AFON GELE.

Rhyw afon fach ar ymdaith sydd
Ger Abergele dre',
Ac yn yr haf bron sychu'n llwyr,
Er colled fawr i'r lle.

O ffynon fach ger Moelfre mae
Ffynhonell tarddiad hon,
A chwery llu o bysgod mân
Ar daen hyd ranau hon.

Ond er mor fechan, buddiol yw
Pan ddaw y gauaf du;
Ei dwfr sydd beraidd iawn ei flas,
A hawdd ei gael i'r tŷ.

Hon gynt a droi hen felin ddw'r,
Yn fawr ei stwr oedd gynt

Ond darfod wnawd a'r afon fach—
Dewiswyd melin wynt.

Y meirch a ddaw i lanau hon,
A'u disychedu gânt;
Y fuwch a'r llo yn hardd eu llun
Ar ymdaith yma'r ânt.

Er nad yw hon ond ber ei thaith,
Na fawr o waith i'w wneud;
'Run ffactri wlan na melin chwaith,
Pan ar ei thaith, rhaid dweyd.

Mor dlawd fuasai'r ardal hon
Heb feddu'r afon fach;
Pwy bynag ddaw i lanau hon
Ca' yfed dyfroedd iach.

Cerbydau ddaw i lanau hon
I gael eu llwyr lanhau;
Anmhuredd red yn ddyfroedd clir,
Ei hadnewyddu mae.

Menywod ddaw a'u llestri'n llu,
Rhai gwylaidd, yma gwel,
Y gauaf oer ni siomir neb,
Doed yma pan y del.

Mae meddu dwfr ar auaf dn
Yn fantais fawr i'r dre',
I ddisychedu a glanhau—
Peth rheidiol yn mhob lle.

Manteisiol iawn i dref a gwlad,
Mae hon yn rhad a rhydd:

Pob gradd a ddaw i 'mofyn dw'r,
Mae'n rhaid ei gael bob dydd.

Er mor ddi-nod yw'r afon hon,
Mae'n werthfawr yn ei lle,
Pe heb wneud dim ond llwyr lanhau,
A disychedu'r dre'.

Mor ddystaw ydyw hon yr haf,
Prin clywir dim o'i swn;
Ond ar ystormydd gauaf du
Mal gwyntoedd yn y llwyn.

Fe drystia'n gerth a charia goed
A mân-wydd efo'i min,
A brigau coed a gluda'n chwyrn,
Mewn stwr hi floeddia'n flin.

Hi deithia'n mlaen trwy'r Morfa'n
A'i thynfa tua'r môr: [rhydd,
Ond nid heb wneud ei phenod-waith,
Fel cenadyddes Ior.

Beth wne'st ti yr afonig fach?
"Mi wne's fy rhan yn rhwydd,
Sef rhoi fy nyfroedd gloywon rhad
I dref a gwlad mewn llwydd."

Ni chorddais laeth, ni chariais gwch,
'Run rhod ni thro'ist a'th ddw'r,
"Mi wne's fwy peth o lawer iawn,
Sef disychedu gwr."

Cyffeithydd sydd yn cael ei ran
O afon Gele fach,

I drin ei grwyn yn hardd eu graen,
I'w gosod ar ei fach.

Afonydd bach a mawrion sydd,
Wrth drefniad Ior y maent,
Heb wŷl erioed, na blinder chwaith,
I wneud eu gwaith yr ânt.

CYWYDD I DDYFFRYN CLWYD.

Yn Ngwalia un ni welwyd
Mor hardd ei lun a Dyffryn Clwyd.
Dyfradwy, dirfawr ydyw,
A dyma'r fan i'r dyn fyw.
O feusydd hylwydd helaeth,
Mor wych yn awr a mawr ei werth;
Dir gwenith, dewr ei gynnydd,
O gnydol rawn yn gyflawn bydd.
Glas ddolydd yn glwys ddeilio,
A blodau fyrdd, mewn urdd mae o.
Perllanau afalau fydd
Yn foethau i amaethydd;
Da corniog, mawreddog nerth,
Yn y brodir yn brydferth;
Minteioedd praidd heb flaidd dd'oed,
A'i wedd ni ddaw i'w wyddfod.
Ar Ddyffryn Clwyd mawr gnwd fydd
I'w fesur ar ei faesydd;
Mènau, mewn llwythau llawn,
O'i erwau îr, orau rawn.
Gwastadedd, pwy fedd fwy
O fonedd ddaw i fyny?
Trwyddo yn olwyno bydd
Y gludres yn fawr glodydd,
Cenhedloedd luoedd yn lân
Gyrhaedd drwyddo i Gorwen.

Ei ddolydd sydd yn ddeiliog,
A dyma'r lle mae talu'r llôg.
Trwy hwn, heb bwn, o'u bodd,
O Feirion daw niferoedd.
Yn ddyddiol trwy ei ddolydd
Yn myn'd yn chwai cerbydau bydd.
Ei wastad-dir yn ddifyr daith,
I'r iach rydd wych amrywiaeth.
Bras olud i'w breswylwyr,
Fe all roi gwledd i'w fonedd wyr.

I GERDDOR IEUANC.

Gwr moesol, da, fe reol ei ran,
A gwylaidd, o duedd gwiwlan;
A da beunydd, ufudd ei nod,
A heini' yw ef—hoyw hynod.
Gwr yw ef o duedd gair addfwyn,
A gair da gan bob dyn.
Darllenwr yw, a dysgwr da,
Ac areithiwr i'r eitha';
Trwy wyddoneg hoywdeg hed,
A gwiwlan mae yn gweled.
Yn hwyrnos yn aros bydd,
Nid diffrwyth boreu deffrydd.
Ni chwsg ar bly' heb ddysgu'n dda,
Am ei ael ymwrola.
Yn gerddor, a'i *denor* yn dân,
A mwyn yw ar *Harmonium;*
Ac ar *Organ* rhydd drydan â'i droed,
Was anwyl, â'i wers hynod.

MYFYRDOD AR GADAIR IDRIS.

Pen Idris uwch ris yr ia,
Mynydd uchel, annedd iacha';

Ar oerwynt ieir nid erys,
I lawr i bant hedant ar frys;
Nythant, deorant mewn grug,
Morfa eidden mawr eiddig,
Yn ngodreu iach hen Idris,
Walia hen, O loywen lys;
Cyn oesau cawn hanesion,
Fynydd hen ar y fan hon,
Yn dyrchu ei phen i'r wybrenydd,
Bro'r cymylau diau bydd,
A'i chap gwyn, harddfryn tàl,
Etto hyrddwynt hi attal.

RHAGOROLDEB Y BEIBL.

Y Beibl ddaw a'r bobloedd
I iawn drefn yr enaid drodd;
Ei drysorau'n ddiau ddwg
I'r ymyl foroedd amlwg.
Uwch rhadau na llyfrau'r llawr,
A'i feddu sydd yn fuddfawr.
Mwy cyfoeth i'r doeth a'i dŷ,
I filoedd haul i'w feddu.
Dyma fara ddiwalla ddyn—
Bara enaid sydd burwyn;
Melusach, hawddgarach i fyd,
Ac elw erbyn eilfyd;
Datguddiad goleuad i ddyn,
A deffry feirwon dyffryn.
Goleu fyneg ac anrheg Ior,
A dyr eisieu â'i drysor.
Ceir hanes cywir hynod
Yn rhan i ddyn o'r hyn sy' i dd'od;
Ei oraclau yn ddiau a ddwg
Y dirgelion i'r golwg.
Nef a'r ddae'r a ddarfyddant—
Pur eiriau'r nef para wnant.

CYDNABYDDIAETH O DDIOLCHGARWCH

I Mrs. Elizabeth Pritchard, Llwyn on, ger Rhydywernen.

Llon yw enwi Llwyn on annedd—a'r wraig
Rywogaidd ei thuedd;
Calon fawr yn awr fedd;
I roddi hon sydd rwyddedd.

Rhoi triswllt im' o draserch,
O galon bur, gywir ferch,
Dangosiad o gariad cywir
I hen fardd yn hardd er;
Nerthu'r gwan yn gymhorth bu,
Yn eglur i'w galonogi.
Nid llawer a geir mor llwyred,
Yn hyn o fyd hon etto a fed;
Mewn eilfyd hon ga fawr elw,
Yn gynnar daw gan ei Duw,
Duw cyfiawn nid anghofia
Y rhïan do fu'n rhanu o'i da.
Tad i'r amddifad yw Ef,
A diliau rydd pan y dolef.
Y gweddwon, pan y gwaeddant,
I fyny i'r nef eu llef ânt.
Parod wrth enau'r peiriau—
Gwir y mŷn—eu gwared mae.

DEDWYDDWCH SEFYLLFA BRIODASOL.

Cartref clyd mewn byd oer—
Gwell menyw gall na mynor.
Rhodd nef yw gwraig rinweddol,
Y fenyw lân, fwyn ddi-lol.

Pedair ysgwydd fydd i ddyn—
Ni letha dan ei lwythyn.
Cymerwyd ei gymhares
O gorff dyn gwnaed mun i'w les,
Yn asgwrn o'i asgwrn ef,
Hardd fenyw, rhodd o'r wiw-nef—
I ddyn i'w ei ddyddanu,
Ac yn ymgeledd hyd fedd mae.

I GOEDEN FASARN,

A dyfodd yn fy muarth, heb ei phlanu, drwy fod hedyn wedi dyfod o rywle.

Daeth rhyw hedyn bach o rywle,
O dan gerrig gwnai'i orweddle;
Lle cuddiedig bu yn llechu,
Anfanteisiol iawn i dyfu.

Ond rhyw ddiwrnod daeth i'r amlwg,
Yn blanhigyn main yr olwg;
Rhwng y cerrig, O mor ryfedd!
O ran golwg 'roedd mewn gwaeledd.

Ger y mur sydd yn fy muarth
Tyfu mae'n fasarnen anferth;
Mwyn o hyd yn ymddyrchafu,
A'i changhenau yn cynnyddu.

Ond daw gwyntoedd oerion gaua'
A'r dail gleision hardd a wywa;
Bywyd gilia'n ol i'r gwreiddyn,
Nis gall rhew nac eira'i ddilyn.

Anian newydd yn yr enaid,
Mal rhyw hedyn gwan yn wastad;

Halen gras yn nghanol llygredd,
Yn anfarwol yn ei duedd.

Ar ddydd blin mae e'n blaguro;
Ffrwythau'r Ysbryd welir arno;
Tyfu wna, er anfanteision,
Yn bren hardd, a'i ddail yn wyrddion

Rhan 2.--Englynion, &c.

I FWRDD NEWYDD TEILIWR BRYNHER, LLANDDULAS.

Bwrdd isel, bwrdd am oesau—o goeden
Gadarn yn ddiau:
Bwrdd i deiliwr, nid gwr gau,
I bwytho arno ei bethau.

Bwrdd gloew, glan, o gyfan goed—i eistedd
Yn astud hyd henoed,
A'i draed yn groes di-loes led,
Mewn goleu pwytho'n galed.

Y MEDDWYN.

Tra byddech yn trybaeddu—yn y llaid,
Yn llwydaidd mae'th deulu;
Y cefn yn llwm—trwm y try,
Wr tylawd, i'r tyloty.

Gwag ei fol, rhyfeddol fu—o'r neilldu,
Yn alltud i'th deulu;
Lluniaeth gwen y fan a fu
Yn achos i dy nychu.

Yn achos mil o ochain—yn ddiau
Hen ddiod bair ruddfan;
Yn wael a dry ar wely drain,
Modd uchel byddi'n ochain.

Pur wastad yw dirwestwr—mewn iechyd,
Mae'n uchel ei gyfiwr;
Ca fyd da ag yfed dwr',
Fan oreu'n wir foneddwr.

Ni lithra ar serth lethrau—fe basia,
Mewn busnes, dafarnau;
Nid tripio i'w hen drapiau,
Gwel y man, a gwylio mae.

O deued, llwydded er lles—ddirwestiaeth
Ddarostwng yr afles;
Ar y llawr yn awr boed gwres
Yn enyn yn ein mynwes.

RHAGLUNIAETH.

Cerddorion mwyn y llwynau—llu 'sgellog,
Llawn gallu mewn odlau;
Lefiathan a'r môr lwythau
Yn foreu a hwyr yn ei fawrhau.

Cawrfilod a llewod y llwyn,—peryglus,
Pur eglur yn cynllwyn,
A'r estrys, anghofus un,
Mawr odiaeth a'i fŷr edyn.

Yn rhifo'r ser Ner bob un—a gwel
Y gwaelaf drychfilyn;
Ni rodia ceiliog rhedyn
Heb fanna Duw, yn fwy na dyn.

Rhoi porthiant a nwyfiant mae Ef--Duw da
Bob dydd dan y wiw-nef;
Iach a llon, gwych eu llef,
Heb benllwyd yn rhoi bonllef.

Aneirif bysg fawr neifion—diwallu
Da 'wyllys mae'n ffyddlon;
I bob peth byw mae'n llyw llon,—
Da cofio y Duw cyfion.

Y CYSAWD HEULOG.

Yr haul yn awr ar ael y nen—a'r lloer,
A'r lluoedd fry'n ddilen,
Aneirif lu yn awyr len
Urdd fydoedd fel Gardd Eden.

Gwyllt ymdroi, heb ffoi o'u lle—yn deilwng
Yn dal yn eu cylchle;
A diau fod eu deddfle
Fry yn un gan Frenhin Ne'.

Dedwyddwch yn dod iddynt—yno'n llu,
Yn y llaw sydd o danynt;
Ni phalla un o'i phell wynt,
Addurnau Ior sydd arnynt.

Faes eirian anfesurol—yw'r nwyfre,
Fan hyfryd dda hollol;
Lle'r bydoedd, llu arbedol,
Mewn goreu ran heb un ar ol.

Gosodwyd hardd gysawdau—mewn trefn
Maent yn troi yn eu cylchau,
A dyfod wnaeth eu deddfau,
Llaw gadarn Ior wnai'r nef barhau.

Doethineb, undeb, a hedd—heb ballu
Er pelled eu hannedd;
Y tywod mân ei anian fedd—
Môr a'i ru mawr a rhyfedd.

Yn eu canol Duw'n cynnal—a'i allu
Yn hollol heb ddial;
Ef a lŷn, un di ail,
Fur ydyw i'r fawr adail.

Ei frenhiniaeth helaeth sydd—diderfyn
Yw'r cyrfa Ior lywydd:
Er ei glod rhoi bod i fydoedd
Ef mewn hawl i'w fawl fydd.

Ei enw Ef trwy'r nef yn un—a daear
A dery yn gytun;
Dirfawr yw y dorf yn un
Yn tystio ar y testyn.

Aneirif bysg mawr neifion—diwallu
Da 'wyllys mae'n ffyddlon,
I bob peth mae'n llyw llon,—
Da cofio y Duw cyfion.

AR DESTYNAU YSGRYTHYROL.

"*Y doethion a ystoriant wybodaeth.*"—Sol.

A dethol wna y doethion—y gemau
O gymysg wehilion;
Nid gwrthod gras addas Ion,
A spio ar ryw sparion.

"*Gwyn ei fyd yr hwn a ymddiriedo'ynddo ef.*"—Y SALMYDD.

Gwyn ei fyd y gwan a f'o—a'i oglud
Yn eglur yn pwyso
Ar Had y Wraig, tal graig mewn gro;
Ffei annuw na ffy yno.

"*Un drwg a lygra gant.*"—Hen ddiareb.

Os bydd un drwg, amlwg yw—o fuchedd,
Afiachus mae'r cyfryw;
Llygra gant i bant yn wyw,
Di-rinwedd ydyw'r annuw.

"*A'm hymddiried fydd dan orchudd dy adenydd.*"—SALM.

Dyma'r fan, dan adenydd—diogel,
Digon yn dragywydd;
Ar arw dòn, hon a fydd
Yn dew len, dawel lonydd.

"*Gwell yw pryd o ddail/le byddo cariad, nac ych pasgedig a chas gydag ef.*"—SOLOMON.

Pryd o ddail, diail yw,—cariad
A gura bob ystryw;
Mewn annedd os bydd hwnw,
Penaf gras, mor addas yw.

ENGLYNION A GYFANSODDAIS PAN LOSGWYD FY NHROED A CHOFFI BERW.

Cefn fy nhroed yn ddioedi—a losgwyd,
Rwy'n llusgo mewn cloffni;
I gyffwrdd daeth poeth goffi,
Yn bynau mawr o boenau i mi.

Cwympodd a huliwyd fy aelwyd—i ddechreu
Gwnaeth ddychryn trwy'm cronglwyd,
A dull y fâr wnaeth dywyll fyd,
Dyn ydwyf o dan adfyd.

Beth yw dyn? Gwyfyn yw—i hylif
Hylosg yn ddiluw:
Gwnaed fy nhroed yn ddioed wyw,
A bàr y coffi berw.

Y CWCH GWENYN.

Cell eurog, oludog lân—yw'r cŵch,
Lle ceir y mel hwyfan;
Yn y crwybr yn bur pan
Fwys unwyd o faes anian.

"NI THAWDD DYLED WRTH AROS."

Hen air.

Nid hawdd y tawdd dyled—a oedo
Ei adeg, ceiff weled;
O gwna frys, yn nwyfus rhed,
I 'morol am ymwared.

I'R LLYFNWR.

Llafn o ddyn yn llyfnu'r ddol—mewn gobaith
Am egin dyfodol:
Mae'n dryllio'r gŵys yn ddwys o'i ôl,
A'i ogau yn egniol.

'Rol cuddio'r had mewn ceufedd—a marw
Yn mru daear annedd;
Heb farw mae'n ofieredd
Gwel'd egin maes a'i wiwlas wedd.

RHAGLUNIAETH DUW.

Aneirif ser y nefoedd—a'r asur
Hir oesau yn filoedd
Trwy law Iôn cryfion y bydd
Ei deddfau gan ei Dofydd.

Rhagluniaeth helaeth ei hyd—diwallu,
Da 'wyllys gyfanfyd;
Rhoi i bob un, bryfyn bryd,
Er elw o'i fawr olud.

Cre' darian creaduriaid—aml rywiau,
Mawl roddant yn ddibaid;
Ac iddo Ef eu llef o'r llaid
Aml osgo ymlusgiaid.

Agor ei law a daw bob dydd—i'r môr
Ymwared Creawdydd,
I rywogaethau dyfnderau bydd
Yn y lle yno'n llywydd.

Adar mân a gân yn gu—a'u tannau
Yn tiwnio trwy'r nenfry;
Cyw y fran, cyfyd i fry,
Yn fonedd â i fyny.

Yr ëos fwyn a roes fawl—yn y llwyn,
I'n lloni'n feunyddiawl;
Côr 'deiniog cywir denawl,
Trwy'r awyr fry yn mynu hawl.

Y TRI PHRYFYN; SEF, Y WENYNEN, Y PRYF COPYN, A'R MORGRUGYN.

Edrych ddyn, ar bryfyn brau,—cei addysg
O'i eiddo yn ddiau;
Yn yr haf, cyn gauaf mae
Cad ferw, cwyd yn foreu.

Disegur, difyr, yn d'od—i faesydd
Haf fisoedd i'w canfod;
I sugno mêl dihafal d'od,
Heb gefnu heibio'i gyfnod.

Yn ei gwch dilwch, lan—y mel
Yn ofalus ddodan;
Ac yn ei grwybr yn bur pan
O eurliw mae yn orlan.

Diliau'r mel, O! mor felus—i'r genau,
Oer gwyno ni byddus,
Da yw'r mafon a'r mefus,
Gwell mel hen wenynen lus.

Yn feddyginiaeth ddifeth fydd—rhag an-
Enynaidd ddrwg beunydd; [wyd
Mel a llaeth o gywaeth gudd
Wych ydyw yn iach edydd.

Tri phryfyn i ddyn ddaw—i roi gwers
I'r gwarsyth digyffraw;
Morgrugyn, a'r copyn heb fraw,
A'r gwenyn heb oer gwynaw.

Unedig yn ei nwydau—diddiogi
Da ddigon yn ddiau;
Ar haf fydd bob dydd mae
Yn poeni dan ei bynau.

Penderfynol, rhyfeddol un—yw'r copyn,
I'w gwpwrdd a'n sydyn,
Wybodaeth am wybedyn
A'i ddenu i'w gell, y dichell un.

Fel Satan mae yn setio—a'u dena
A'i dôn pan yn pasio:
Mor egr mae'n eu rhwygo
Yn ulw man o dan ei do.

Diameu yn ei dymhor—y copyn
Sy'n cipio ei drysor,
Sidanaidd, edafaidd, o'i dor
Hed allan hyd ei allor.

Ei rwydwaith yn berffaith bydd—mewn
Mae'n llechu bob tywydd; [llychle
Ei dramwyfa i'w helfa sydd
Res luniau dros y lonydd.

Yn y nos yn dlos dipian—fel oriawr
Fol eirian ei yngan;
Yn mhen y tŷ ei weithdy-fan,
Lle llychlyd fydd y llochfan.

PROFEDIAETH DEULUAIDD.

Aeth dirfawr orthrymderau—droswyf,
Yn dristwch ac aethau:
Gofid a'm tôdd yn gafod bob tu—tonau
mawrion o drallodion;
Ior a ddyry yr hyn sydd oreu.

I'R LLEIDR.

Y lleidr tywyllodrus—gyda'r gwyll,
Gwyd allan yn nwyfus,
A hela wna yn hwylus
Bynau mawr cyn gwawr mewn brys.

ECHRYSLONRWYDD RHYFEL.

Tad y dydd, O bydd yn blaid—yn dŵr,
Yn darian amddifaid;
'Rwy'n credu fod y crwydriaid,
Foreu a hwyr, yn fawr eu rhaid.

Mawr luoedd ar welyau—dan gystudd
Yn gostwng eu penau;
Gwael ydyw yr aelodau,
'Rol llafur hoen yn llwfrhau.

Yn eu gwlad y cawsant glwy'—ar y maes,
Gan ormesiaid ofnadwy;
Y Ffrancod mor hynod hwy,
Yn gafod daeth eu gofwy.

Direswm arth o Rwssia—heb oslef
Yn estyn ei phalfau;
Llarpio Lloegr egr â
A'i 'winedd mawr a wana.

Ond ciliai'n ol er cael nawdd—i gysgod
Ei osgordd fyddinawdd;
Mawr enw, er mor anhawdd,
Mal drws heb glo aeth dros y clawdd.

I'R ADAR.

Awyr dannau gòr-dynion—yn y llwyn
I'n lloni yn brydlon,
Haf loyw lu a'u halafon
Wefreiddiant, brydiant ein bron.

Trydar rhyw gynnar ogoniant—y lluoedd
Yn llawen a eiliant;
Amrywiol ymwrolant,
Uriel dôn, awyrol dant.

Seraphaidd uwch sawr ethin—yr hedant
Yn hoew-deg a diflin;
Er culed yw eu culfin,
Fil i'n bro rho'nt fawl di brin.

A mwynion alawon lu—a ddyrchant
Yn ardderchog deulu;
Ar orsedd ddail diail mau,
Or-dynion eu haur dannau.

Yn frodyr hardd unfrydawl—y llwyni
Yw eu llanau dymunawl,
A'u seiniau sydd yn swynawl;
Yn hardd eu modd yn rhoddi'r mawl.

Gwir ryddid o hyd fwynhau—yn awyr
Peroriaeth yn ddiau;
Uwch ceuant gwych y canau,
Mewn teml ddail a gwiail mau.

O lafar gân ar lyfrau o goed—dail adail
Dybidlant eu gwiwglod;
Maith eglur anthem hyglod,
Fel engyl fydd yn ngwawl i fod.

Nid seigiau o fyrddau dyn—na gwinoedd
Am ganu eu telyn;
Na sidan glas na phalas un,
Na phorth o aur ni pherthyn.

I y coed yn ddioedi—yn gynnar,
'Rol canu, i gysgu;
A gwiail fydd y gwely,
Heb gwpbwrdd na dwr yn tŷ.

Ond hepiant ar goed yn hapus—yn foreu
Ymferwant yn nwyfus;
A chyda'r wawr mewn mawr frys,
Ar aden trwy Baradwys.

'BOD YR ENAID HEB WYBODAETH NID YW DDA."

Mae yr enaid heb wybodaeth
Fel eiddilyn bryfyn gwan,

Chwythir ymaith gan awelon,
  Crwydryn ydyw yn mhob man:
Fel y dwr yn ansafadwy,
  Tònau'r môr yn bwrw llaid,
Pren heb ffrwyth, a'i ddail yn gwywo,
  'Dori lawr rhyw ddydd fydd raid.

GWYBODAETH MEWN MEDDIANT.

Os gwybodaeth fydd mewn meddiant,
  Dryllio wnawn yn chwilfryw mân,
Hen allorau Baal a Bacchus,
  Gan eu llosgi yn y tân,
Tynwn wrychoedd gardd y gelyn,
  Fel hardd filwyr byddwn un,
'Nol ein llafur fe'n gwobrwyir,
  Yn nyfodiad Mab y Dyn.

DIOLCHGARWCH I MODRYB MARGED AM WNEUD I MI GRYS GWLANEN.

Crys gwlanen wiwlen wewlas—yn ddiau
  O ddefnydd cyfadas;
Un hardd yw nid yw'n fras,
I'm noddi mae yn addas.

A Marged, mwyndeg yw hi—yn fenyw
  Wir fwynaidd ei theithi;
Hon wnaeth grys ar frys i mi,
Lan eneth lawn o yni.

DARLITH YN CAERSALEM LLANDDULAS.

Darlith yn dewfrith o dân—athrylith
A thrylwyr draith wiwlan;
Gwir cafwyd ar y cyfan
Rhyw wleddoedd pur a difyr gân.

Cor siriol yn Caersalem—a ganen'
'N ogonedd mewn gwiwdrem;
Diferion a'n difyrem,
A'r galon drist ga'dd oleu drem.

Cor anwyl, cywir enw—hardd flodau
Ymledant yn hwnw;
A Tomos Huws mor fywus yw,
Yn darian ŵr didwrw.

Y DDANODD.

Fy mhen sy'n siglo'n fysoglyd—a gwaew
Yn gwywo fy iechyd;
Dyn ydwyf o dan adfyd,
Mewn treial mawr yn treulio 'myd.

Tynu'm dant er fy mantais—diflanodd
Du aflan ellylles;
Darfu'm poen, a hoen yr ês
O lân yr hen elynes.

TARDDIAD Y FFYNHONAU.

O ddirfawr orddyfnderau—naturiol
Y tardda'r ffynhonau;
A miloedd o gymylau,
Naf a'u rhydd i ddwfrhau.

GOGONIANT Y NEF.

Mawr ydyw ymerodraeth—Ior luniodd
Olwynion mor helaeth;
A delw Duw ar y dalaeth,
Iach fawr lu uwch awyr laith.

A miloedd ar gyhoedd a gân—mewn hwyl,
Man heulog, dorf wiwlan;
Naf unant mewn nef anian
'R ol llosgi'r byd i gyd yn lan.

O'r cystudd mawr yn awr yn rhydd—mewn iechyd,
Man uchel a dedwydd;
Ac i'r Oen a'i boen y bydd,
Cu yn un, eu cân newydd.

Angylaidd lu ar ëang lawr—a'r seintiau
Yn santaidd dorf ddirfawr,
Yn hardd o lun fel addurn wawr,
Wyr union yn dorf enfawr.

A dirfawr sain y dorf hon sy'—swn moroedd,
Sain myrddiwn yn canu;
Yn awr yn lân, aneirif lu,
Tra isod trwy waed Iesu.

ENGLYNION I GRAIG Y WENALLT, YN MEIRION.

Llechweddog greigiog grugau—daneddog,
Di-nawdd yw yn ddiau;
Noddfa'r llwynog, wylltog ffau,
A llithrig yw ei llethrau.

Ol diluw, ael dialedd—a gelltydd
Gwylltion diffaethedd
Yw Craig y Wenallt hallt di-hedd,
Noeth lymun ei nyth lomwedd.

Ei hesgyrn sydd ar wasgar—ar led,
Oerlwydaidd a hagar,
A cheryg mawrion llymion ar,
Fel bryniau uwch y branar.

Y LLWYNOG.

Y cydnerth anferth gadno—o'i ffau
I ffwrdd mae'n prysuro;
Herw gi, hwyr o'i go,
Fol-ruthrwr 'rol anrheithio.

O'i gudd gell dywell yn d'od—y lleidr
Llwyd-goch yr ednod;
Fe welir hwn a'i bwn òd
O wyddau, nid rhyw waddod.

Y PEIRIANT DYRNU.

Dyfais wedi dyfod—yn fuddiol
Mae'n foddion tra hynod;
Mawr ei rym a chyflym rôd,
A dyrnwr mawr mewn diwrnod.

Offeryn wedi ei ffurfio—i ddyrnu
'N addurnol a nithio;
Daw gwellt ac ŷd, gwyllt o'i gô—
Post allan yn pistyllio.

Chwyrnwr a dyrnwr da—o'i ffroen du
Yn ffri daw erch grynfa;
O dano tân dywyna,
Yn ei wres yn eirias ä.

CYFARCHIAD I'R CYFARFOD NADOLIG YN ABERGELE.

Tre' 'Gele a'r trigolion—'nawr heno
'Rwy'n anerch yn brydlon,
Lle nodded yllenyddion,
A phawb mewn hwyl yn yr wyl hon.

YMGYRHAEDD AT WYBODAETH.

Hoen gyrhaedd fel hen gewri—y byddom
O'n bodd yn gwneud egni;
O rhodiwn i fawrhydi,
Cyst lafur a myfyr i ni.

BLODAU YN FY NGARDD AR NADOLIG.

Yn y Gwyliau y gwelaf—flodeu
Ymledant y gauaf;
Nid Cristion mewn hinon haf—dal mewn adfyd,
Oerwynt hefyd ydyw'r harddaf.

Blodeu hardd yn fy ngardd y maent—melynwedd,
Ymloni a thyfant;
Nid haul a gwres yw eu llesiant—gauaf ddydd,
A blin dywydd hwy flodeuant.

I ROBERT GRIFFITH, YSW., MEDDYG, ABERGELE.

Y meddyg, mawreddig un—yw Griffith,
Wr craffus a dillyn,
A ffurfiwyd yn offeryn
I wneud yn iach yr afiach ddyn.

Y TWRCH.

Hen 'sgythrwr, malwr milen,—mewn t'wllwch
Mae'n tyllu'r ddaearen;
Ar lwybr hy, y labrwr hen,
A bywiog ei ddwy bawen.

MYFYRDOD Y BARDD AR Y TRAETH.

Byddinant mewn bodd enfawr—i'r traeth
Y troant yn rhwysgfawr;
A rhüo'n dost, a'u bôst yn awr
Yn dyrfa mewn swn dirfawr.

Y tywod mân, heb yngan gair—a'u drylliant
Ar draethell y wanair;
Rhyferthwyawg, berwawg bair,
Ni luchia ei dòn lachair.

Y tywod mân yn lân lu—cyduno,
Cadwynant i'w darfu;
Noeth wyliant nerth ei wely,
Er rhüo draw, ni ddaw o'i dŷ.

Swatio, a gwylio, er gweled—wna'r tywod,
Tawel y llechant,
Y mân wŷr mŵyn orweddant,
Ar daen lu wna'r dôn ar led.

Ni ofnant ei donau enfawr—ond safant
Yn suful ddirwysgfawr;
Pob un fel un gŵr,
Mor sicred fe rydd swcwr.

CRIST YN GEIDWAD PECHADUR.

Cadw rhyw lu a'u codi i'r lan—o fin annwn
I fyny ei hunan,
I faes enwog foes anian,
Berlau fyrdd i'r nefoedd lân.

"MAL DYN BYDD EI LWDN."

Hen Ddiareb.

Yr un wedd, yr un duedd a'i dad—yr un sain,
Yr un synwyr yn siarad;
Ail enw mewn olyniad
Yw'r plentyn o'r dyn ei dad.

Y MORFIL A LYNCODD JONAH.

Un hynod yn ei hanes—yw'r morfil
Mawreddawg Ior lunies,
Ddarparwyd i'r proffwyd er lles,
Cudd o'i fewn ca'dd ei fynwes.

Yn ei fol ail Jonah ni fu—am dridiau
Yn drydar mewn gweddi:
A'i barlwr mewn dyfnddwr du
A'i gap o hesg yn hepian gysgu.

Trwy'r môr aeth fel saeth yn siwr—gan fwrw
Yn foreu'r cenhadwr,
Ar y draethell bell y gwr
Yn gyflawn ran ei gyflwr.

Yn burlan, mal o barlwr—nid yn grwm
O ddu grombil daeth arwr;
A'i gamrau'n fân, a buan wr,
Cu heddyw fel cyhoeddwr.

Fe ddyry ei waedd ddirfawr—yn hwyliog
Trwy heolydd enfawr;
Deugain niwrnod, hynod awr,
Du erwin, daw dy orawr.

DYMUNIAD AM WELED ADFYWIAD Y MODDION GRAS.

Tyr'd heno, tyr'd dy hunan—i'r canol
Er cynnal y truan;
Doed dynion yn rhyddion o dân,
Rhag cawod ffoed y cyfan.

I fywyd a gwynfyd gannoedd—a miloedd
Fo'n moli ar gyhoedd;
Anadla ar genhedloedd,
Ein Naf ar lu rho nefol floedd.

Yn y glyn, syn yw sôn—mae'r esgyrn
Yn osgordd tra sychion;
A thrwy y wlad rho alwad Iôn,
Wir fywyd i farwolion.

Deffro lu y dyffryn yn lân—rhai cadarn
O coder yn fuan;
O bydded ôl y dwyfol dân
Yn treiddio trwy betryfan.

ENGLYNION A GYFANSODDWYD YN AMSER RHYFEL FFRAINC A PRWSSIA.

Balchder mewn poethder y pau—annwn
Ennynodd yn ddiau,
Ryw filoedd trwy ryfelau—
Egin gwyw i eigion gwau.

A prysur mae y Prwssiaid—a'u hoffder
Yn effro a thanbaid;
O gallant, gwna y gwylliaid,
Paris a'i llu, eu bwrw i'r llaid.

A'r Ffrancod fel llewod y llwyn—yn wancus
Ar winc ânt i gynllwyn;
Yn ddiau hwy ar ddihûn
Lwydd galwant ladd y gelyn.

A miloedd ar ymylau—o ddynion
I ddannedd hyll angeu;
O! erchyll gledd, mor rhyfedd mau
Cafodydd dy ofidiau!

Pa hyd bellach heb ballu—daw heddwch
Fel haf-ddydd i fyny?
Pob brenin anhydrin hy,
Yn y llwch, dyn yn llechu.

CADAIR EISTEDDFOD Y WYDDGRUG, 1873.

Mewn cadair hardd y Bardd o Fon—a eistedd
Mewn astud fyfyrion;
Hwfa yw, mae'n wiw yn hon,
A'i dànnau fydd yn dynion.

ANOGAETH I FYNED I WRANDO ARAETH AR DDIRWEST.

Hen yfwyr a charwyr y gwin—ewch heno
O'ch annedd yn gytun;
Eich lloches heb achles un
Diammheu fydd yn dwymyn.

Hen nythod i annoethion—yw tafarn,
Lle tyfant yn feddwon:
Wele frodyr afradlon
Yn gewri hy' a geir yn hon.

FFYNNON MINFFORDD, LLANDDULAS.

Yn firain af yn foreu—i'r ffynnon
Hoff anwyl yn ddiau;
Ger Minffordd yn drysor mae
Yn rhadol i ein rheidiau.

UFUDD-DOD ABRAHAM.

Abraham a aeth yn ebrwydd—mor gywir
Mae'n caru Creawdydd,
O'i fodd ai ar foreu ddydd
I Foriah o'i fawr awydd.

I'R ENLLIBIWR.

Un heb rym ymresymu—a diau
Yn dywyll fynegu.
O dymher gas anaddas bu,
Hen Frython am fy mrathu.

Ow! druan, ef yw'r draenog,—ei nodau
Annedwydd yn bigog;
Wrth hela aeth yn hwyliog,
Yn aeth er gur i nyth gôg.

Heibio i'r gwenith ar dith'un,—am faw
Ymofyn y chwilyn;
Mal y gêl pan ddel ar ddyn,
A brofa'n arw bryfyn.

Crowcian mal brân y bryniau—rhyw redyn
Dan radell yw yntau,
Neu *salmon* yn y simddau,
Mewn hiddyg' yn ddiddyg mae.

I warth wedi ei wrthod,
A'i fôst fawr ar lawr i fod;
Ail oedd ei dôn i elyn du
Yn y niwl yn anelu.
Gwybedyn mewn gwybodaeth,
A'i fwa sydd ni fedd saeth.
Minnau ar goedd dorodd ei ben,
I fraenar, fel y frwynen.
Bu'n dwrdio, bu'n lluchio llaid,
Yn llygoer ŵr i'm llygaid;
Gwr yr huddyg', anniddyg un,—
Dwl arfod, er dal erfyn.

DWY FELIN GERYG, LLANDDULAS.

Dwy felin, diau a falant—y creigiau—
Yn gregyn ni safant;
A malu bydd moelydd i bant
Tra paro' twrw'r peiriant.

Cryg furiau Craig y Forwyn—a fala
Y felin yn ddiflin;
A'u hysgwyd gânt wrth esgyn,
A hylaw daw i law dyn.

I 'geiniau o wageni—yn llwythog
Bron llethu ddaw iddi,
Graig galed hon yn union i
Didwrw mae'n dy dori.

Beunydd 'roedd benywod—â morthwyl
Yn mharthau'r graig hynod,
Yn leinio hen eulunod
Drwy y dydd, Ow! druain'n dod!

A'u plant a dd'ai yn fintai—i'w dilyn
Yn dalog yn ddiau,
'Rhai'n trwy'r dydd yn ufuddhau—
Cydfwriad codi'n forau.

Esgeulus heb ysgolion,—a pigog
Mal pagan yn union;
Ond, wele wawr yr awrhon
I ro'i goleu i'r galon.

DYFODIAD YR HAF.

Wele'r berth mal yn chwerthin—a'r bywyd
O'r bedd yn ei dilyn,
A'r dafl mawr, dél eu min,
Yn glasu o faeth gwlithyn.

Daw o *bureau* yn bur eidden—urdd-wisg
Er harddwch i'r goeden;
A gwerdd glôg, deiliog len,
A ddyry Ior i'r dderwen.

Ar goedydd a maesydd daeth—gwyrdd fentyll,
Yn fintai mor helaeth;
Y gauaf du cefnu wnaeth,
Mal Eden moelydd odiaeth.

A bywyd o fyd marwoldeb—yn ddiau
Ddaw a hardd wyneb,
O ddwfwn âr y ddaear wleb,
Gnwd y ddol ddigonoldeb.

GALLU DUW.

O ddim yn ddiammheu—i fod
Fydoedd a wybrenau,
Rhoi'r gogledd ar y gwaglau
Wnai llaw ein Ior, nid llwfrhau.

A dwyn i fod ddirif fydoedd—â'i air
Mewn urddas a'i cylchodd;
A'r dirfawr eangderoedd
A llaw yr Un yn eu lle ro'dd.

Y ser hen yn y nenfyd—a'u cynnal,
Y cannoedd di-nychlyd;
Ryw oleu rydd o eil-fyd,
Ior ddifa'r llen uwch ben byd.

Y llathraidd lwybr llaethog—myrdd o ser
Mawr sydd yn gyfochrog;
Ef alwodd y nef heulog,
Y llen gre', llawn yn grog.

Haul uwch haul yn wych oleu—y bydoedd
A'r bodau'n fawr fintai,
Yno fyrdd yn awyr fau,
O duedd i eu deddfau.

"PRYN Y GWIR, AC NA WERTH."

Pryn y gwir, gwelir ei werth—a'i feddu
Rydd foddion o gyfnerth,
Os aur coeth, cyfoeth a nerth,
Mewn brwydrau mae yn brydferth.

TRI ENGLYN I'R GATH.

Cethin ydyw cathod—hwy laddant
Rhyw luoedd o lygod:
Eu gwinedd a'u danedd dod
Yn angau i wningod.

Pryfyn yw a brofwyd—yn gyflym
Yn gafael mewn abwyd:
I gegin daw am gigfwyd,
A dewr i ladd yw y dâr lwyd.

Mewn t'w'llwch erch y tyllau—mae'n gwylio,
A gwel hon yn ddiau,
Gloew un yn glanhau,
Digoneddd dwfr ei genau.

ENGLYNION O DDIOLCHGARWCH

I Mr. David Jones, Gof, Llanddulas, am drwchlymio a charnio erfyn.

Dyn hylaw o dan heulwen—yw Dafydd,
Wr dyfal ei elfen;
Fe ŵyr y byd c'yd yw ei ben,
Mae'n siriol fel y seren.

Y gof da, cywir yw'r dyn—a'i forthwyl
Anferthol a ddisgyn;
Pan ddaw o'r graig gaib neu gûn,
Ei arfer yw trin erfyn.

ANERCHIAD
I DEWI HAFESP, LLANDDERFEL.

Teiliwr, a gwr rhagorol,—pwythwr
Pethau sy'n fuddiol;
Mal seren mae yn siriol,
Nid rhyw fôd am wirod i'w fol.

Dewr astud a dirwestwr,—gwna Hafesp
Gain hufen feddyliwr;
Yn ei wedd yn foneddwr,
Cry' ddarfelydd, ufudd wr.

Y gloyw ddw'r y gwr garai,—a'i yfed
Yn ufudd wna yntau;
A'i grebwyll mewn gwyll yn gwau,
Ar aden gre' yr 'hedai.

Tarfu'r gwyll wna pill o'i ben--try niwloedd
Yn oleu a'i awen;
Daw meddylddrych gwych o'i ben,
Yn oleu danllyd elfen.

BEDDARGRAFF CRISTION.

A huno wnaf trwy auaf hir—yn dawel,
Nes delo dydd bernir;
Deffry fy llwch 'rol heddwch hir;
Yn y bedd mwy ni byddir.

Y DDIOD FEDDWOL.

Hudoles, aeres, erwin—yn denu
Dynion i'w dilyn;
O feddwon gwelaf fyddin,
O lanciau gwiw wrth lyncu gwin.

A gweniaeth ar ei gwyneb,—mae'n llithro
I lethrau trychineb;
O'i ffau ddu ni ffy neb,
Yf frandy heb wiriondeb.

Yn pwyntio at hanner peintyn,—go 'smala
Mae'n *smellio* y gwydryn;
Yn dechreu mae yn dychryn,
I lane o'i fath lyncu un.

Yn wir, myn'd ar i waered—i flysio
'N aflesol y gwydred;
Aç i'w thŷ yn hy' y rhed—
I'w gylla fe wna golled.

I'R CRWYDRYN.

Trwy ei oes yn llawn loesau—yn aflan
Mewn aflwydd a charpiau;
Yn ei ddydd beunydd yn hau,
Cafodydd o ofidiau.

"ENW DA SYDD WELL NAG ENAINT GWERTHFAWR."

Enw da a ddyrcha ddyn—i barch,
Gan berchen nef fyddin;
'Mhen heb fraw, minnau ar fryn—anrhydedd
Ddaw, ac yn ei ddwylaw fendith i'w ddilyn.

I'R YSGRIFBIN.

(O waith yr arch-englyniwr "T. o Eifion.")

Hyawdlym waith cenhedloedd--wnai y pin,
Mewn parch trwy'r hen oesoedd;
O flaen y wasg un diflin oedd,
At wir hanesion teyrnasoedd.

Clafeiddiai pob celfyddyd—pe heb bin
Pob peth ai'n ddyryslyd,
A safai dyfais, hefyd,
Nychai ben masnach y byd.

Y BLODEUYN.

CYWYDD Y MAB AFRADLON.

Dau fachgen uwch angen a fu
Wych fonedd iach ddau fynu,
O wych dras ac urddas byd
Llon alwad llawn o olud,
A llawnder heb brinder oedd
Gweledig eu goludoedd,
Danteithion gwiwlon a hedd
Yn hynod yn eu hanedd,
A'r tad o wedd gwr bonheddig
A'i euraidd fron hardd ei frig;
Y ddau fab yn ddiau o fodd
Yn glau a gai y gwleddoedd,
Ond er llawnder gwychder byd,
Er galwad mawr a golud,
Och! ie'ngaf hyf rwgnachai
A rhuo ei gorn a'r hyn a gai:
Un rhodd ni wnai mo'i foddio,
Ac o'r ffordd dde i ffwrdd ai o.
Wrth ei dad gwerth yma'r dydd
Yn deg o'r hyn sy'n dygwydd,
Yn heini cyn daw henoed,
I wlad bell gwell i mi
Dim pynau yno im poeni,
A'i bwrs yn llawn cyn y nawnddydd
O'i oror gaeth fe aeth yn rhydd,
Yn llefnyn hardd llyfuweddys,
Heb aethau bron aeth mewn brys

Ei god drom a gadwai draw
Dylodi rhag ei lwydaw,
Ât gwmni drwg amlwg aeth,
A'i eiddo ai i oddiaeth,
Ac am wirod a sorod sal,
A phuteiniaid phet anal,
Gyda'r meddwon a'r glythion bu,
Hen fodau yn ynfydu,
Pôb dmaau goch heb roch aeth
I'r dylun yn oer dalaeth,
Ond newyn dychryn yn dod
Yn erwin i'w gyfarfod,
A'i gefn llwm trwm y try
I wan obaith wynebu,
Yn grwydryn anhydyn aeth
Ar rolio i for alaeth,
O ddinas i ddinas y bu
Tra filain yn trafaelu,
Rhag marw mewn garw gur,
Oer lifai ar ei lafur,
Er taro nid ar y teirant,
A'i enw'n goedd yn un o gant;
Cytunai yn ddiau i ddod,
Brys alwai i'w breswylfod,
I borthi moch y groch phau,
I gaban at hen gibau,
O bryfyn gwan i brofi,
Yn awr a gryn yn oer ei gri,
Ni chafodd ni roddodd neb,
Nawdd o wen idd ei wyneb,
Ni chai mo gibau y moch,
Oer deulu er rhoi diolch,
A chwithdod hynod oedd,
Cwn odlau y cenhedloedd,
Man hyddod mae'n anheddu
Yn swn moch, Och! y bu,

Newynog, carpiog y gwr,
Mewn galar mae ei gyfliwr,
Yn droednoeth a chefn noeth ddyn,
Llyn annedd llawn o newyn,
O dŷ ei dad mewn gwlad bell,
Yn nghosbau gwlad anghysbell,
A chwenych mae gibau gwael,
Mewn gofid un mewn gafael,
A chofio ei dad a'i wlad 'roedd,
A'i weledig oludoedd,
A mirain un yn moreu oes
Aur annedd hardd yr einioes,
A chofiai sain brain ar frig
Yn tyrfu ar goed tewfrig,
A'r praidd ddai i'r pawr ddol
Yn difa gwair yn dyfol,
Am delyn fwyn am deulu fu
A'i da fwriad difyru,
Am weision, morwynion mad,
Yn fawrion ei niferiad,
Y bwrdd yn llawn hyd y nawnddydd
A phawb yn llon, heb fron brudd,
Dieithriaid a gweiniaid ga
Heb gilwg bawb eu gwala,
A minnau gibau y moch,
Bur anwedd laru arnoch,
A'm cyllau mewn colled,
Mewn poen a gwae fy nagrau red,
Heb ddyn i ymddyddanu,
Dim ond moch, croch eu rhu;
Mi godaf af i'm gwlad,
A da ydyw dioediad,
At fy nhad, yn ddiwad af
Bro seirian y prysuraf;
Pwy a ddwed er hwyred yw
I odlyn na wna edlyw,

Fy ngharpiau ar fy nghorpws
Na thrydd fi draw oddiwrth ei ddrws,
Caf wenau ar ei wyneb,
A chalon tad yn anad neb,
Mynegaf cyffesaf fy nrwg,
Oer galon ddaw i'r golwg,
A'm llaw fy hun yn erbyn nef
A dy eiddo rhaid addef,
Rwy'n cofio am mawr gyfoeth,
A chofio nhad a'm cefn yn noeth;
Ac ar ddau droed yn ddioedi,
Cyn fy ngwadd yr af fi,
Rwy'n dyfod trwy drallod sy
Yn wan obaith wynebu,
Ac i'm hen fro teithio yn goedd
A byr fy ngham, oer fy nghymoedd.
Bob dydd mewn awydd ai'r tad,
Oes galon mewn dysgwyliad;
Yn foreu yn myfyrio
Ar iach fryn uwch y fro,
O'i wylfa fe gai weled
Pe bai'r llwydd pawb ar led,
A gwelai ddyn gwael ar ddod
Gyfeiriai i'w gyfarfod,
Yn ara' bach, Och! arw boen
Mewn golwg mae'n ddigalon,
Yn ei wedd heb ymgeledd
Un llwydaidd yw, a gwyw ei wedd;
Y tad aeth fel saeth yn siwr,
Er gofwy i'w ei gyfwr,
Diatreg mewn adegau,
Cu i'w son y cusanau,
Afradlon arylon lwyd
Mewn goleu yma gwelwyd,
Mor gywir mae'n ei garu,
A'i wedd a'i dôn i'w wadd i'w dŷ,

Cofleidio a wylo bob 'nail
Tan ofwy mewn tyn afail.
Gwna fi yn was nid addas fod
Y swydd isa sydd osod,
O maddeu'r tad, 'rwyn maddeu i ti
O galon fel y gweli.
Y llo pasgedig, i'r unig un
Yn awr 'rwy' yn ei erfyn,
Fe ddaeth y gwyw yn fyw o'i fedd
A'r unig 'nawr i'r anedd,
Llawenydd mwy fydd i mi
Olynol o'i ail eni,
A diwyg lan gyfan i gyd
O'i ysgwydd hyd wedd esgid,
Ac aur fodrwy yn bur fedrus
Yn oreu fan, un ar ei fys,
A hardd esgidiau goreu sydd
Yn gadarn yw egwydydd,
Yn ddrwg ei wedd gan ofer frad
Adwythig ar ymdeithiad,
Traha anwyl mwy trwy ei einioes,
A da ei lun a diloes,
Ein lle ni yw llawenhau
Unedig ein caniadau,
Y delyn yn ein dwylaw,
A mis o wledd fydd maes o law,
Gorfoledd a gwledd i filwr
O hyd y gerdd rydd tad y gwr,
Llawenydd mwy hwy ei hyd
O farw 'rol adferyd,
Llawenydd na dderfydd o
Dorf wiwlon darfu'r wylo.
Rhyw ddarlun chweg, yw'r dddameg
O frwydrau yr afradlon, [hon
Fel mae dyn yn gadael Duw
Dewr iniou i dir anuw,

Hynotaf gyflwr natur
Ei lwynau geir lawn o gur,
Pob dyn yr un yr aeth,
Wynebodd wlad anobaith;
Gwael y lluniaeth anfaeth sydd,
Y costau mawr a'r cystudd,
Pob dyn yn aflun aeth
Fel deilen lawr 'run dalaeth,
Ond cenad diwad cynddrwg,
Y golwg gwael a'i ael wg
Ddanfonodd i'w ddiddyfnu,
Ac ar ei ol i'w nol i'w dŷ,
O dir Nod, oer hynod un,
A'r galw o dir y gelyn,
Y Duw Ion, tirion wyt ti,
Diau yn hedd dyro i'n noddi.
Daeth Duw er hyn i mofyn dyn,
Mil adreu mal ar edyn,
Plant y codwm llwm eu lle
Yn edrych tuag adre'
I dŷ eu tad ar alwad nef
Yn benllu i roi bonllef,
Mewn gwledd fras addas fydd
Yn llunio pob llawenydd.

CYWYDD AR FAWREDD Y DDAEAR.

Y ddaear gron hon sydd hynod
Mewn mawredd yn rhyfedd erioed,
A dirfawr eang diroedd
Eithinog fynyddog fodd,
Ac anialwch od tywodlyd,
A'r môr hen, mawr ei hyd,
A'r dirfawr gyfandiroedd
O dan yr haul i'r dyn rhydd,

Ac anhawsaidd di draidd drwch,
Y niwliog anialwch,
Di-rodfa dirfawr ydyw,
Arabia lwch, anialwch yw,
Ynysoedd a moroedd mawrion
O ddirfawr hyd mae'r ddaear hon,
Hinsoddau pellderau byd,
Cuf enw y cyfanfyd,
Cadwynau mynyddau mawr
Yw ei hesgyrn heb ysgawr,
A chryfion ydyw eu crafang
Yn gadwyn dro, yn cydio heb drang,
Ac yn ngwregys anhysbys ei hyd
Guf uniawn am gyfanfyd,
Ar ei hechel drafel dry
I'r dwyrain heb daranu,
Ddydd a nos di os yr a
Yn rheidiol i'w ei rhedfa,
Er mawredd rhyfedd y rhed,
Yn dda lwydd, a'n ddiludded,
Mewn un awr dirfawr y daith
Mor hylaw daear helaeth,
Dros ddeg cant ar ei fantol,
Draw yn hy didroi yn ol.
A dyry daith i'r dwyrain
Yn wir heb ludd ar hyd hir lain,
Diorphwys ar ei phwysau
Ddydd a nos yn ddi os ai,
Ni letha er mor lwythog,
Dirwyn yn gre' daear yn grog,
Ar ei gwyneb y gwena
Haul y ne a'i oleu wna,
Ei at-dyniad yn denu
Ar ei ôl ryfeddol au,
Ei thrysor di dor ddaw
O'i mynwes, haul y mwnau,

Cyfoethoga, a rhodda'n rhad,
O elw mawr ei alwad,
O fynwes da'r daw aur melyn,
A glo a ddaw yn glau i ddyn,
Ac o'i choffrau diau mae'n dod
Aur i ni, drysor hynod,
Ac anifeiliaid hediad sydd
Yn darwaun rhwng eu dwyrudd,
Dorf hynod y milod mân
Yn hynod yn eu hanian,
A physg y môr, yn or-hoenus
O'u hynod le, a'u hanian lys,
Ac o'r dyn hyd bryfyn y llwch,
Mân ddeilie mewn eiddilwch,
Fe welir o fywiolion,
Dorfeydd gre ar ddaear gron,
Ac o'i mynwes gynes y ceir
Gynefin fwyd gynhifair,
Hon o'i bron sydd yn ein lloni,
O'i choffrau llawn y cawn ni.
Gwiberod a llewod y llwyn
Yn ganllu ddaw i gynllwyn,
Mewn anial fel dialydd
O'i le y daw i ladd y dydd,
A thôn ei lais sydd yn aethus,
Fe dania fraw yn dònau ar frys,
A chamelod a hyddod haid,
A difir eifr a defaid,
Epaod hynod heini,
Y filen gath a'r ffyddlawn gi,
A'r teigr egr agwedd,
A'r llewpart a'i warant wedd,
Ysgyfarnogod cwnhingod y graig,
A'r llwynog cyfrwys llonaig,
Y carlwm a'r llwm ystlymod,
A'r deryn du heb dwrw'n dod

Dalluan afian, y gigfran a'r gog,
A'r ddrengardd bigog ddraenog,
Y wiwar anwar un
A'r hydraidd geiliog rhedyn,
Y llysart yn ei gartrew,
A poeth yw'r tŷ y pathew tew,
A'r lygadog lygoden,
A'r llyffant du a'r wenci wen,
A'r heini farch hwn a fydd
Yn glodfawr trwy y gwledydd,
Diamau mae defnyddiol
Oreu ran heb un ar ol,
Ymenyn llaeth i'n maethu
Yr hwn a ddaw o'r anner ddu,
Gan y fuwch wen ceir ymenyn
A chosyn bras addas un,
Un ddifai ydyw'r ddafad
Rhag y rhew i'n gwisgo'n rhad,
Ac o'i chnu mor gu y caf
Rhag gofid ddillad gauaf,
Hon a fydd i mi yn fwyd,
I'r doethion yn ddanteithfwyd.
Y ddaear ydyw'r cartref
A doniau'n un o dan y nef,
Rhagluniaeth yn ddifeth ddaw
O'i helynt daw yn hylaw,
Diwallai a da ewyllys
Bob rhyw fro, bawb ar frys,
O law Ion, brydlon daw
I'r llesgyn sydd yn llusgaw,
O gynhaliaeth helaeth i
Ei lluniaeth er ei lloni,
O gyfoeth a doethineb
Sydd yn Nuw yn anad neb,
Amrywiaeth difeth fwyd
Yn helaeth ar eu haelwyd,

Clyw ef eu llef o'r llwch,
A drystio yn ei dristwch,
A chyw y fran, llefain y bydd,
A chenaw'r llew gan eich llywydd,
Aderyn to ar ben y tŷ,
A difeth y ca ei faethu.
Ein da Ion mor ffyddlon ynt
Yn hilio yn ddi helynt,
Dy fwrdd yn llawn y nawn sydd
Bur eiddo bob boreuddydd.

Y DDWY FENYW O FLAEN SOLOMON.

Gan Ap Iorwerth.

Dwy fenyw aeth i fynu
O flaen y doethaf ddyn,
Yn mlodau ei frenhiniaeth
Pan oedd mewn glanwedd lun;
Yr achos o'r cwerylon
Oedd amwyll twyll a brad,
Hwn ddaeth fel dydd yn oleu,
Di gel trwy Israel wlad.

Arwyddion o ddoethineb
Oedd yn ei wyneb ef,
Wrth ddechreu ei frenhiniaeth
Er na wnaî ddyrchu ei lef;
Ond daeth ei fawr ddoethineb
Yn amlwg y pryd hwn,
Hwn esyd bron holl Israel
I roddi arno eu pwn.

Dwy ddynes hynod ddoniol
Ymdaerai ger ei fron

Am feddu'r mebyn bywiol
  Hardd wedd a'i raddiau'n llon;
Ni fynai 'run mo'r marw,
  Mwy buddiol yn y bedd,
Ond am y byw y gwaeddent
  Mewn dyrchafedig lef.

Bu yr amgylchiad hwnw
  Yn dywyll iawn yn hir,
Rhwng dwy oedd yn ymddadlu
  Pa un a ddwedai'r gwir;
Y brenin doeth ei hunan
  Rhyw ddyfais addas oedd,
I wneud i ffwrdd ammheuon
  I gannoedd yno ar goedd.

O moeswch imi gleddyf,
  Na oedwch ddim yn hwy;
A'r maban byw a dorwch
  Yn ddau ddarn rhwng y ddwy;
Pan glywodd mam y plentyn
  Y mebyn oedd yn fyw—
Na leddwch fy anwylyd
  Rhag pechu'n erbyn Duw.

A'r brenin trwy y ddyfais
  Gadd allan yn ddinam,
Mewn goleu ddigon eglur
  Pwy oedd y gyfiawn fam;
'Roedd yr amgylchiad hynod
  I ddyn ei fôd yn ddoeth,
Fel y mae'r ffwrn wrth ruo
  Yn puro yr aur coeth.

ENGLYNION I'R EULUN-DDUW

Gan Ap Iorwerth.

Ar ei sedd mal bonedd y bu—ar alwad
I'r eulun yn plygu,
Ond gwagedd oferedd fu
'Run dydd ei anrhydeddu.

Ni welodd ni chlywodd ei glust—ni ystyr
Wrth estron sydd athrist,
Ni wared neb y gwyneb trist
Er ingoedd gan dduw anghrist.

O! mor ddiwerth dinerth un—heb anadl,
Heb einioes mae'r eulun;
Och enbyd! ni achub un,
Tir ofer i'w taer erfyn.

Er deled traed a dwylo—hir drwyn
Oer druenus sydd ganddo,
A'i safn yn fud o hyd moe o
Mwy na phren ni wna ffroenio.

Ni rodia i waredu—y truan
Fo'n troi ato i lechu,
Ond dal yn fud o hyd y mae
Wael roddwr welw ruddiau.

"DILES YW MYFYRIO AR WAGEDD."

Myfyrio mewn oferedd—a diles
Hudoliaeth yw gwagedd;
A halogi wna i lygredd,
A dwyn i wae, dyn ei wedd.

I JINI TOMOS, FY NGHYFNITHER, PAN AR WELY CYSTUDD.

Am dymhor Jini Tomos,—croes wyntoedd
Anfantais yn d'aros;
A dyma'r cri yw'r tywydd croes,
Trueni trwy dy einioes.

Daw heulwen ar ol wylo— i d'w'nu
Yn dân i'th gysuro;
'Rol marw ti gei forio
I nef y saint a braint y fro.

RHAGLUNIAETH.

Pur eglur peraroglau—amrywiol
Yn mronau rhosynau,
A'r lili wen yn ben y mae,
Yn ganiad iawn ei gynau.

Amrywiaeth o brydferthwch—yn y rhai'n
Hwn roddes hawddgarwch;
Da i'r dyn, bryfyn y llwch,
A'i duedd i ddedwyddwch.

Cydroddwyd y gedrwydden—a'r *Banyan*
Yn benaeth ar dderwen;
Hiliogaeth fain helygen,
A'i gwiail bleth, difeth is nen.

Ior roddai fawr amrywiaeth—i'r llysiau,
Er llesiant dynoliaeth;
Cry' darian creadwriaeth,
Yn creu oll heb gell fe'i gwnaeth.

Mae'n deilwng rhoddi diolch—i Dduw,
Yn ddiau na flinoch;
Addurnau Ior sydd arnoch,
Hardd berlau'i dy fry y b'och.

CWYMP DYN A'I ADFERIAD.

Gwir olwg ar fawr alaeth—y llwyth
Fu'n llethu'r ddynoliaeth;
Ac i ddyfnderoedd moroedd aeth,
I wban mewn anobaith.

Yn adwyth aeth yn Eden—hen waeau
A wywodd hardd ddeilen;
Yn sorod aeth y seren,
Diau i ni duodd y nen.

Ond eilwaith wele oleu—a d'wynodd
Yn danbaid yn ddiau,
Am Iesu yn mhen oesau,
Rhoddai ei hun i'n rhyddhau.

I fan dyn afon daeth—i'w olchi
Ef eilchwyl yn lanwaith;
A goleu dydd i'w galon daeth:
Och! ammheu, chwi ffowch ymaith.

NID GWAETH Y GONEST ER EI CHWILIO.

Hen Ddiareb.

Nid gwaeth ddwywaith i ddyn—ei chwilio,
A'i chwalu gan elyn;
Deil heb fraw, daw yn un,
O'r peiriau yn wr purwyn.

LLYTHYR-GLUDYDD LLYSFAEN.

Mab o Lysfaen 'rwan red,—a'i lythyrau
Lwyth erwin i'w weled;
Un o rym, cyflym ei gêd,
Gwr uniawn, goreu aned.

PRY'R GANWYLL.

Gwybedyn sydd yn gwibio—o gwmpas,
Mewn campau'n prysuro;
Mewn goleu nid yw'n gwylio;
Yr hen ffwl nad ä ar ffo.

EDIFEIRWCH Y NINIFEAID.

Effeithiol ryfeddol fu—i ddenu
Drwg ddynion i blygu;
Y brenin anhydrin hy
Yn y llwch bu yn llechu.

Gorchmynodd, cyhoeddodd ar frys—holl ddynion
Y ddinas heb betrus,
Ro'i llian sach mal afiach grys,
A gwaedd a fydd fwy gweddus.

Gweddïo ar Dduw byw heb oed—pob gradd
Fo'n gruddfan i'w canfod;
Rhïeni a rhïanod,
Ufudd-dod glan 'rwan i fod.

Diferion edifeiriol—ga'dd sylw
Yn Caersalem nefol;
Iôr er lles yn gynes gôl
I ddyliaid bu'n faddeuol.

I'R TRYDAN.

Y trydan, er yn droednoeth—ar raddfa
Rydd-eiriau yn chwilboeth;
Trwy ddwfwn ddw'r yn siwr heb aeth
A'i newydd tân yn oddaeth.

Dan dor morfil, neu ganmil cynt—na deryn
Didwrw ei helynt;
A hylaw d'wed mewn addfed hynt
Y geiriau wrth ei gerynt.

CYDNABYDDIAETH O DDIOLCHGARWCH

I fy mrawd Ebenezer, am hen Rolbren fy Nain.

Rholbren fy nain, un gain, gu—o dderwen
Ddurol, dda'i meddu;
Difai hon, dywed a fu,
Hynod helynt hen deulu.

Araeth hir, ddifyr, a dd'wêd—o hanes
Hynod, heb arbed;
I'r amser gynt ar hynt rhed,
I goffrau hen amgyffred.

Gan fy mrawd, gwyn fy mri,—y cefais
Er cofio am dani,
Yn nhŷ a thân Shân Ifan i
Hen babell nain i bobi.

Hen ddynes hynod ddoniol—garedig,
Gwir ydoedd, gwraig fuddiol;
Gweu sane, gwiw a swynol,
Un weithiai'n hen, a gwnaeth ei hol.

Gwneud bara cerch y ferch a fu—yn fuddiol
Yn foddus i'w theulu;
I'w nodded gweu a nyddu
A'i thŷ yn lân, Shân Ifan gu.

Naw deg pedwar, y peidiodd,—i huno
Mewn hen-oed gorphwysodd;
Daearol dŷ daearen dôdd,
Llandderfel, lle mae torfoedd.

Dyma'r fan mae Evan hefyd—a mam
Heb fymryn gwell gweryd
A'm tad 'run wedd, o ryfedd fyd!
Nawr huno am hir enyd.

AMYNEDD DUW AT DDYN.

Amynedd, briodoledd Duw—i'n cadw
Rhag codwm i ddystryw;
Gan arbed dyn, bwyfyn gwyw,
Trwy einioes tra yn annuw.

Ynfydu a d'rysu mewn drain—yn ffin,
Yn aflonydd yn llefain;
Ymguro a rhuo mae rhai'n,
Hyd y sedd fydd eu hadsain.

Ond etto Iôr ddaw atynt—gwir ydyw,
Gwaredwr yw iddynt;
Fel eira'n wyn, er aflan y'nt,
Ireiddiol fydd yr eiddynt.

Trwy y dyn y trydanodd—bywyd
Buan ddilynodd,
A rhad ras mor addas oedd,
Ar ddyffryn hwn a ddeffrodd.

Pen mynyddau'n ddiau ddaeth—i'r golwg
I'r galon d'au gobaith,
A diluw o ei dalaeth,
I orfoledd rhyfedd yr aeth.

AR OL GWRANDO "MYNYDDOG" ER'S AMSER YN OL YN NGHAERSALEM, LLANDDULAS.

"Mynyddog" sydd enwog ŵr—heno
Oedd hynod ddifyrwr;
Yn Nghaersalem gem yn siwr,
Ar gynnydd yn fawr ganwr.

Dyna'r lle mae'r 'Dyn o'r lleuad'—fe gana
'N ogonedd yn wastad;
I ninnau yn eneiniad,
Elw i mi ei alaw mad.

ENGLYNION I ANGAU.

Yn foreu diau y daeth—hen elyn
I alw dynololiaeth;
Dwyn Abel heb gêl yn gaeth,
Der agwedd i'w diriogaeth.

Mal llew du yn llaw ei dad—yn dechreu
Mewn dychryn yn wastad,
Yn foreu bu ei fwriad,
Am ddifa hedd ei wledd ddi-wad.

Boreuwr, bradwr mewn brys—ymladdwr
Am lwyddiant hyderus,
Y deneu law yn dod o'i lys
Gen afryw yn gynhyrfus.

Yn ara' bach, Och! hir y bu—yn gloywi
Ei gleddyf i wanu,
Cyn diluw cawn hen deulu
Ganrifoedd maith ar daith fu.

A'r diluw awr dialedd—a gododd
Yn gadarn ei agwedd,
Dynoliaeth a ddifethodd
A'r annuw'n nghyd i'r dyfrllyd fedd.

Deffroai'n awr mal cawr 'rol gwin—a lladdai
Y lluoedd wŷr cedyrn,
Dim ond wyth o dylwyth dyn
A gadwyd yno gwedyn.

Ar gelanedd y bedd bu—yn gwledda
Mewn gloddest ddifyru,
Ond wed'yn un am waedu
Bob rhyw fodd bawb a'r afu.

Hen gewri yno'n gorwedd—yn braenu
Ar bob bryn a gwastadedd,
Rhai di-ras er eu dewredd,
Mal llaid a gaed yn llwyd eu gwedd.

Weis dewrion anystyriol—a blygwyd
Mal blagur yn hollol,
Hen elyn yr annuwiol
Y truain un eu troi yn ol.

Wainio'r cledd wna'r arwr clau—arafai
Yn rhyfedd yn ddiau,
A'i rysedd am hir oesau
Nid mor hy' y ffy o'i ffau.

Hil Noah 'rol aneddu—a hilio
Dorf helaeth gynnyddu,
Daeth gwinedd adwyth gwanu
I ing yn dod gan angau du.

Ac amlhau yn ddiau wnaeth—'rol diluw
Ardaloedd mwy helaeth,
Dan hilio o'i dynoliaeth
Er ei gwyn a'i awyr gaeth.

Mor gyflym a grym goflad—yn ysu
Yn anesmwyth ei deimlad,
Mae'r gelyn mawr mewn galwad
Trwy ddw'r a thân yn mlaen a i'r gad.

Trwy'r oesau diau yn do'd—mewn llafur
Mae'r llofrudd i'w ganfod,
Nos a dydd dialydd sy'n bod
Hwn ddarnia ddyn a'i ddyrnod.

Ac Abram ddinam ei ddydd—ar Isaac
'Mosodai'r dialydd,
A Jacob fwyn i'w derfyn fydd
Ddwys dery i ddystawrwydd.

Hen arwr rhyfelwr a fu—trwy'r ocsau
Teyrnasoedd a orfu,
Fu'n wr i ladd aneiryf lu
Tra'i wenwyn wnai trywanu.

Duwiolion diau welwyd—a'r annuw
Yr unwedd a glwyfwyd,
Pob dynol fod a ddodwyd
Gan rym ei gledd i fedd lwyd.

A'i weision duon y daw—yn fawrton
Niferoedd mae'n daraw,
Oer ei bryd yn beryd braw
Ddynoliaeth tan ei ddwylaw.

Och frenin! uwch cedyrn mae—a'i arfau
A orfydd filiynau,
Ei fawredd er yn forau
Yn llusgo i'r bedd nid yw'n llesgâu.

At fabanod a'i ddyrnod ddaw—a'u cuddio
Yn y caddug dystaw,
Oreuon lu a'i oer law
Ffun adwyth mae'n ffonodiaw.

Mae galar mawr ac wylo—y dyrfa
Tra'n ddirfin och'neidio,
A thori lawr yn awr mae o
Mor gadarn mae'n ergydio.

Y Tyrciaid a'r Rwsiaid a rydd—a miloedd
Dros ymylau beunydd
O ddynion dewrion eu dydd
Dir boenau daear beunydd.

Un luchia dyn o'i loches—ergydio
Mor gadarn yn eirias,
O'i ddu gell a'i gastell pres,
A'i wenwyn ddaw yn wynias.

Pa enw, pwy mor hynod,—pa elyn
Sydd ail iddo i'w ganfod?
Hyd y farn yn gadarn bod
Fydd bwrw rhai i'r beddrod.

Ysbeilir darnir ei deyrnas—o'i garchar
Hwy gyrchant mewn urddas,
Rhag ingoedd glwy angau glas
Y dwthwn o'i gymdeithas.

Duwiolion diau welir—uwch y bedd
Iach byddant a difyr,
O fru daearen hen yn hir
Lu union a ail enir.

Clau iawn rheda cloion rhydlyd—hen feddau
Orfyddant mewn mynyd,
A llef Ion ar feirwon byd
A'u geilw at eu gilydd.

Uwch y bedd heb och boen—yn fywiol
I foli mewn elfen,
A nofio fydd mewn nefoedd wen
Iach ebrwydd uwch y wybren.

'Dall pechod mo canfod y wynfa—rhy bwl
Yw'r belen olygfa,
Dim bedd na'i anwedd yma,
Ni wyla 'run yn ngwlad yr ha'.

Llyncu angau diau a fydd—a'r bywyd
I'r beddau fereuddydd,
Tywyllwch a'i drwch drydd
Y ddinas yn ddyddanydd.

Crist a'i lef gref a gryn—y ddaear
Ddirfawr yn sydyn,
Rhwygir bolltau cloiau'r glyn
A deffry meirwon dyffryn.

Ysprydol ryfeddol a fydd—yr olwg
A welir foreuddydd,
I'r holl saint mawrfraint sydd
Lu union i lawenydd.

ENGLYN I'R DYSGYBLWR.

"Rhag wrth dynu'r efrau i chwi ddadwreiddio y gwenith hefyd."

Gochelwch pan chwalwch y chwyn—rhag gwanu
Y gwenith penfelyn;
Y trwm ei law anhylaw un
Diwreiddio wna'r da wreiddyn.

GOGONIANT Y NEF.

"Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych."

Goleuach harddach o herwydd—fod yno
Fyd anian ar gynnydd,
Heb oriau yn bod na darfod dydd,
A llunio pob llawenydd.

Un bur yw'r hen baradwys—di gwmwl,
Digamwedd a erys,
A thŷ i fawl yw'r nefawl lys
I filoedd fydd yn felus.

Angylion a dynion fydd—mewn hwyl
Mwyn hwyliant lawenydd,
Neb dan y dòn a'u bron yn brudd
Na marw yn ymyrydd.

Ei wyneb ef wna'r nef yn un—o foliant
Gan filoedd yn sydyn,
A'u dwylo ar aur delyn
Pawb yn ddiau a'u tànnau'n dŷn.

Gyda hardd fodau myn'd heibio i fydoedd
Fai wych eangderau mewn iechyd dyrfaoedd;
A gweled heolydd gwiwlan uwch heuliau,
A gwleddoedd i'r lluoedd mewn euraidd ororau;
Pob gradd o angylion yn canu ar orielau,
Yn llu mawr o gwmpas mewn campus anthemau
Doethineb y cread mewn undeb faith graddau
Sy'n fôr o ryfeddod i fyrddiwn o raddau;
'Rol diffodd yr huan y deffry mewn hwyliau,
A sain y dorf union ei swn yn daranau,
Neu swn tònau moroedd yn sain tan ei muriau
Y dorf ali anedig 'n dirf eilia ganiadau
I'r Oen a laddwyd yn fywyd miliynau
Y mawl a'r anrhydedd a fydd fel rhuadrau—yn oesoedd
Dirif luoedd uwchuwch fydd eu llefau.

ETTO.

Pawb yn ddiau mewn gynau gwynion,
'Run wedd a gariant eu palmwydd gwyrddion,

A'r oll mewn iechyd gwynfyd ar gynnydd,
Heb drai a llanw drwy eu llawenydd;
Dirif luoedd yn oesoesoedd yno'n canu,
A molianu yn wyr rhyddion fydd yn rhyfedd;
Dyma wyl hynod heb demlau anian,
Ac heb Och gur i nychu'r gân;
Goleuni, O gwel annedd,
A Naf a fydd yn newydd wledd;
Dim nes i'w haros hwy,
Un gauaf nag un gofwy;
Ei wyneb ef wna'r nef yn fyw
Fydd gariad fodd digyfryw:
Pelydru nes synu y saint
Gan fawredd eu rhagorfraint,
Rhyw ffrydiau anghyffredin
Yn glau fydd fodd gloywin;
I'w lloni a llawenydd,
Ac yno'n fôr didor fydd.
Y brenin ddarfu brynu
I'r holl saint y fraint fru
A'i weled ef fydd y nefoedd
Heb un blin hybau bloedd;
Ac iddo ef medd nef yn un,
Mewn goleu man heb eulun,
A'n carodd a'n golchodd ni,
A'n rhyddid gwynfyd rhoddi;
Ef a'n gwnaeth helaeth modd
Fry anhau yn frenhinoedd;
Ac offeiriaid o alwad Ion,
A'n rhoddi yn wŷr rhyddion,
Ar dir di-nos i deyrnasu—
Brenhinol had y wlad fry;
Y Ganaan wiw ogonedd,
A gwyn ei fyd o hyd a'i medd,
Uwch y bedd iach bydd y saint
Pwy gyfrif eu rhagorfraint?

HYWEL DDA.

Hywel dda, hwylia ddyn—i rywle
O'r helynt yn sydyn,
Rhag i'r beirdd heirdd di hun
Dy guro ar dy goryn.

I'R ENLLIBIWR.

Ar y bryn syn yn siwr—dy fod
Yn ofidus dy gyflwr;
A chwipio'r beirdd heirdd wna'r gŵr
A dwndio mae mewn dwndwr.

Ar fuarth cyfarth fel ci—ar ddynion
Ei ddanedd mae'n noethi;
Hyf bwt gwyn betiaf gini
Cyn ei wadd am ein lladd ni.

I'w lechwedd pawb i'w luchio—a'i bwnio
Yn ei ben nes ei ddryllio;
Pawb yn un a chytun fo
A phasdwm yn ei ffistio.

Y DDIOD FEDDWOL.

Par hurtyn ydyw'r Porter—godi'r pen
A gwneud poen mawr bob amser;
Y cwrw ni fwrw fer
Trwy wybod try yn wiber

A draflynco o hono o hyd—i'r gïau
Daw gofid yn nychlyd;
I'r gewynau diau dy'd
Fawr boenau forau benyd.

ENGLYNION A FWRIADWYD ADRODD YN EISTEDDFOD Y GORDOFIGION, LE'RPWL.

Hen dadau diau yn dod—brysurant
O'u preswyl i'r 'steddfod;
Ffrwyth awen o'u pen sy'n bod
'Nawr genym ni mae'r gem hynod.

A gwŷr y llen geir i'n lloni—yn lluoedd
Yn llawn o fawrhydi;
Coder rhai'n yn gadarn rhi
O fyrddiynau farddoni.

Tra seren uwchben byd—tra haul
Yn oleu a thanllyd;
A thra fo lloer yn oer o hyd
A Gwalia'n fwy ei golud.

CYFANSODDWYD Y LLINELLAU CAN. LYNOL AR GAIS ELLEN EDWARDS, FRONGOCH, DOLGELLAU.

GAN AP IONAWR.

Wel Ellen eisteddwch am fynyd
I wrando rhyw bennill o gân,
Er imi fod dridiau'n myfyrio
A methu cael testyn yn lân;
Pan aethum i ati o ddifri
I 'studio fel taswn i yn 'sglaig,
Daeth rhywbeth yn sydyn i'm meddwl
Mor hapus cael Ellen yn wraig.

Mae dynion fydd yn arfer pregethu
Yn cael dewis y testyn eu hun,
Yn awr yr wyf finnau am wneud hyny,
O herwydd na roisoch im' 'run;
A dyma 'nymuniad wrth ganu
Er nad wy' ond canwr pur wael,
Fod gobaith am Ellen yn briod
Pan fyddis wir angen o'i chael.

Er imi fod unwaith mewn Pandy
Ond cefais fy ngalw yn ol,
Gan un 'rwyf yn meddwl wrth hyny
Oedd yn perthyn yn agos i Saul;
Pan gaffwyf fi Bandy tro nesaf,
Mi fynaf fo yn saff fel y graig,
'Nol imi gael pethau fel yna,
Mi fynaf gael Ellen yn wraig.

ENGLYNION A GYFANSODDWYD GAN DEWI HAFESP I FY MRAWD.

Eben gaf yn ben gwr—a'i bandy
Llawn bendith a dwndwr;
Ufudd waith dylif o ddwr,
Ydyw penod y panwr.

Arlun nef ar lan afon—yw ei lws
Dyma le i feirddion;
Engyl lunia englynion,
Hefo 'nhw yn y fan hon.

Eilio wrth wrando dwndwr— yr hen yrdd
Yn rhoi nerth eu cryfdwr;
A'r olwyn tra'n dirwyn dwr,
Lywia enaid englyniwr.

O! dyma le doniol iach—ac Eben
Yn gwbwl ddirwgnach;
Wrth y tân a'i lân linach,
Yno'n ben fel brenin bach.

Digrifwch a brwd grefydd—yw sylfaen
Eu preswylfod dedwydd;
Gwyn liw del haul ganol dydd,
Briodwyd â'i barwydydd.

Adar y grug sy'n heidio—at ei borth
A thalant barch iddo;
A'r wenolen dan eilio
A wna ei nyth yn ei nen o.

Ni faidd clong anfoddiog glwy—a'i rith
At borth hwn mo'r tramwy; [oer
Serch a hedd, mewn haeledd hwy,
Areithiant ar ei drothwy.

Yr aelwyd ddigwerylon—yw gorsedd
Gras y dedwyddolion;
Ac iachus fochau cochion,
Ddoniau ter gwbwl urddant hon.

I BOBL FFESTINIOG.

Oes dynion yn Ffestiniog—ar fyrddau
Am farddas hededog;
Daw i'w llaw fwy o'r llog
Ei chynnydd na chwecheiniog.

CYNNWYSIAD.

	tudal.
Cywydd y mab afradlon	3
Cywydd ar fawredd y ddaear	8
Y ddwy fenyw o flaen Solomon	12
Englynion i'r eulun-dduw	14
Di-les yw myfyrio ar wagedd	14
I Jini Thomas, fy nghefnither	15
Rhagluniaeth	15
Cwymp dyn a'i adferiad	16
Nid gwaeth y gonest er ei chwilio	16
Llythyr-gludydd Llysfaen	17
Pry'r ganwyll	17
Edifeirwch y Ninifeaid	17
I'r trydan—Cydnabyddiaeth o ddiolchgarwch	18
Amynedd Duw at ddyn	19
Ar ol gwrando Mynyddog	20
Englynion i angau	20
Englyn i'r dysgyblwr	25
Gogoniant y nef	25
Etto	26
Hywel Dda	28
I'r enllibiwr	28
Y ddiod feddwol	28
Englynion a fwriadwyd adrodd yn Eisteddfod y Gordofigion	29
Ar gais Ellen Edwards, Frongoch, Dolgellau	29
Englynion a gyfansoddwyd gan Dewi Havesp i fy mrawd	30
I bobl Ffestiniog	31

BALA: ARGRAFFWYD GAN H. EVANS.

CANEUON

MYNYDDOG.

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET.

RHAGYMADRODD.

Rhyw orchwyl digon an'odd
Ar ddechreu llyfr fel hyn,
Yw gwneuthur Rhagymadrodd
Fo 'n well na phapur gwyn:
Y ffordd gwnawn ni yr awrhon
Yw gadael lol di les,—
Cymerwch chwi 'r Caneuon,
Cymeraf finau 'r pres.

Llanbrynmair,
Calanmai, 1866.

Y CYNWYSIAD.

	Tu dal.
Y Lili a'r Rhosyn	7
Ymson Hen Ferch	8
Mae 'r Oriau 'n myn'd	9
Wedi 'r Nos yn Nghymru gynt	10
Rhyddid ein Gwlad	11
Ellen Wynn	12
Colliant y Royal Charter	19
Yr Arian	20
O tyred y Gwanwyn	23
Rhyddid	24
Y Gwylian	ib.
Y Diffyg ar yr Haul	26
Bwthyn y Weddw Dduwiol	27
Gwenno Fwyn	30
Fry, Fry	31
Marwnad Jack y Lantern	32
Heddwch	36
Einioes	37
Rho'i Troed goreu 'mlaen	38
Cyflafan y Beirdd yn Nghastell Beaumaris	39
Y Bydd yn marw	40
Edward a Huw	41
Y Wawr	42
Y Gaethwas	43
Y Bdâu Hen Langc	47
Ddôt di Gwen	48
Bu farw 'r Eneth	50
O na bawn yn Afon	51
Rhywbeth mwy	ib.
Cywydd Diolchgarwch am Ffon	54
Hoffder penaf Cymro	54
Un goeg oedd y Gneuen	55
Pan ddaw yr Haf	56
Y Bachgen diddimlad	57

buasai am fyned o flaen y ceffyl, a'i adael filltir neu ddwy ar ol cyn diwedd yr yrfa. Yn yr agwedd hon yn diwrnod, yn brysio at ei gyhoeddiad, y cyfarfyddai a'r boneddwr oedd yn olygwr ar y lle yr ydoedd yn byw. Cyfarchodd y boneddwr ef, "Yn enw dyn, Siencyn, ble'r 'ych chwi yn myn'd, gan yru mor ddychrynllyd." "Ah!" ebe yntau, "pe gwelit ti y cebystr damniol yna sydd am dy wddwg, ti yrit dy hun i rywle am dy fywyd." Cyfarchiad go ryfedd i wr boneddig, onidê; eto, oddiwrth Siencyn yr ydoedd yn pasio yn ddiberygl; eithr nid gwiw oedd i neb arall fyned yn y blaen fel yna. Yr oedd mor hawdd i'r Ethiop newid ei groen, a'r llewpard ei frychni, ag oedd ysgaru Siencyn a'i hynodrwydd oddiwrth eu gilydd. Y gwir yw, pe buasai bosibl gwneyd hyny, nid Siencyn Benhydd mohono mwyach.

Heb fod ymhell oddiwrth y fan yr ydoedd yn byw, y mae lle a elwir Taibach, Aberafon; man pur enwog am weithfaoedd copr. Mewn cysylltiad a'r gwaith uchod, yr ydoedd wedi myned yn dra helbulus rhwng y meistriaid a'r gweithwyr. Y diweddaf yn ymofyn ychwaneg o bris, a'r cyntaf yn nacäu hyny. Safodd y gweithwyr allan. O'r diwedd cymerwyd gafael ar rai o honynt gan y golygwyr, i'w gwneuthur yn esiampl, am esgeuluso y ffwrneisiau, a thrwy hyny achosi colledion dirfawr i'r perchenogion. Carcharwyd un yn Abertawe, ac yn y diwedd trosglwyddwyd ef i'r *press gang*, y rhai oedd yn y dref yr amser hono. Yr oedd pawb drwy y gymydogaeth yn trydar yn drwm am dynged y bachgen, wrth feddwl fod y fath caulyniad wedi dygwydd ag i beri iddo ymadael â'i wlad. Erbyn hyn yr oedd pawb yn dechreu edrych yn brysur ar yr amgylchiad, a cheisio dyfeisio beth oedd idd ei wneyd. Llawen o'r bobl fawrion a ddanfonasant ac a ddaethant at y gwr boneddig, i ddymuno arno adael i'r llanc ddyfod yn rhydd, gan fod ar ei law ef i wneyd hyny. Er yr holl ymdrech i gyd, methwyd a chael un tro yn y byd arno; yr ydoedd yn parhau yn ei ynddeiriogrwydd yn ddiymmod. Wrth weled pob peth fel hyn yn methu tycio, a'r amser yn agosäu i'w ddanfon ymaith, yr oedd y perthynasai bron yn ymdori gan ofid,

CANEUON MYNYDDOG.

Y LILI A'R RHOSYN.

Gwelais ddau flodeuyn hawddgar
Yn cyd-dyfu mewn gardd fach,
Un yn Lili dyner, ddengar,
A'r llall yn Rhosyn gwridog iach;
Sefyll wnai y Rhosyn ëon
Heb ddim byd i ddal ei ben,
Tra y llechai 'r Lili dirion
O dan nawdd rhyw ddeiliog bren.

Storm a ddaeth i chwythu arnynt,
Chwyddo wnai mewn nerth a rhoch,
Ac o flaen ysgythrog gorwynt
Syrthio wnaeth y Rhosyn coch;
Ymddiriedodd ynddo'i hunan,
Yn ei falchder 'roedd ei nerth,
Ond mewn storm fe brofai 'r truan
Dlysni boch yn beth di werth.

Ond yn nghanol y rhyferthwy
Sylwais ar y Lili wen,
Gyda'i phwys ar le safadwy,
Sef ar foncyff cryf y pren;
Er i'r gwynt ymosod arni
Gyda nerth ei ddyrnod ddwys,
Gwenu 'n dawel 'r oedd y Lili
Fel pe buasai dim o bwys.

Dyma wers i'r ieuangc, bywiog,
Sydd a'i lyder yn ei nerth,
Tlysni grudd, a boch rosynog,
Brofant iddo yn ddi werth;
Stormydd cystudd ddeuant heibio,
Gwywa 'r gwrid fel Rhosyn gwan,
Camp yw cael yr adeg hono
Rywbeth ddeil y pen i'r lan.

Awel oeraidd dyffryn marw
Chwytha arnom yn y man;
Pobpeth sy'n y byd pryd hwnw
At ein cynal dry 'n rhy wan;
Byw yn ynyl Pren y Bywyd
Ddylem oll tra fo y nen,
Pwyso arno yn mhob adfyd
Fel y gwnaeth y Lili wen.

YMSON HEN FERCH.

Ton:—"*Bugeilio'r Gwenith Gwyn.*"

Mae 'r adar bach ar frigau 'r coed
Mor ysgafn droed a dedwydd,
Pob un a wêl ei gydmar mwyn
Ar frig rhyw dwyn neu gilydd;
Ehedant bob yn ddau a dau,
Gan gyd fwynhau eu pleser;
Pan gano un mewn hwyl diwall,
Fe gân y llall bob amser.

Ar lethr y mynydd mae dwy nant
A redant tua 'r gwaelod,
Ac ar y gwastad yn y rhyd
Mae 'r ddwy yn cydgyfarfod;

Ac nid oes a'u gwahanu mwy,
Ymdodda 'r ddwy i'w gilydd,
Mae'r ddwy nant fach yn un nant lawn
Yn llawer iawn mwy dedwydd.

Ond O! 'rwyf fi fel 'deryn bach
Mewn awyr iach yn hedfan,
Heb wel'd erioed mewn lle na llwyn
Un cydmar mwyn yn unman;
Caf deithio f' oes o fryn i bant
Fel unig nant yn llifo,
A marw 'n môr tragwyddol fyd
Heb neb i gydymdeimlo.

MAE 'R ORIAU 'N MYN'D!

Mae 'r oriau 'n myn'd! yn myn'd o hyd,
A dyn yn myned gyda 'r oriau;
Un awr mae 'n faban yn ei gryd,
A'r nesaf bron mae 'r dyn yn angau.

Mae 'r oriau 'n myn'd! Pob awr a gawn
Sydd megys defnyn llawn sirioldeb;
Ond prin y cair ei gwel'd yn llawn —
Dyfera 'i hun i dragwyddoldeb.

Mae 'r oriau 'n myn'd! ac O! mae awr,
Er byred yw ei hoes, yn bwysig;
Mae 'n gwthio 'r dyn i lawr i lawr
Ar oriwaered einioes lithrig.

Mae'r oriau'n myn'd! mae'n d'w'llwch prudd!
Oes awr imi yn y dyfodiant;
Ai yntau bysedd yr awr sydd
Fyn gau am byth fy marwol amrant?

Mae 'r oriau 'n myn'd! fel llif y nant,
Chwyrn deithia amser mewn prysurdeb,
O'i ynys fach mae 'n gwthio 'i blant
I faith gyfandir tragwyddoldeb.

Mae 'r oriau 'n myn'd! ac mae pob awr
Yn dweud ein hanes yn y nefoedd;
A'u cyfri hwy 'n y frawdle fawr
A selia 'n tynged yn oes oesoedd!

WEDI 'R NOS YN NGHYRMU GYNT.

CANIG.—*Y miwsig gan Mr. J. D. Jones.*

FE weuai 'r fam ei hosan ddu,
A'r tad oedd yn canu 'n fwyn;
A phwytho 'r oedd yr eneth gu,
A'r forwyn yn pilio brwyn:

'Roedd Huw yn gwneuthur clocs i'w frawd
Na bu eu bath,
A'r hogyn bach yn gwneuthur gwawd
O'r ci a'r gath;

Ac ar y tân y berwai 'r uwd,
A Phegi 'n ei droi yn lew;
Ac ambell i 'sglodyn o glocsen Huw
Yn helpu ei wneud yn dew:

Ond er eu symledd a'u trwstanwch,
'Roedd yno gariad pur a heddwch;
A mwynhad na fedd y ddaear
Ond anfynych iawn ei gydmar.

RHYDDID EIN GWLAD.

ALAW :—"*Molawd Arthur.*"

MAE Cymru yn rhydd
Fel awelon y boraŵ,
Chweru o gylch y cangenau a'r dail;
Mae Cymru yn rhydd
Fel pelydron y golau
Ddawnsiant ar aeliau 'n mynyddau diail:
Cymru grefyddol, anwyl wyt ti;
Diolch am ryddid ein henwlad gynhenid,
A'i breintiau diri'.

Huno mae 'r cledd
Gyda 'i lafn wedi rhydu,
Gormes a thrais sydd yn isel eu pen;
Baner wen hedd
Sydd yn hardd gyhwfanu
Ar ben pob bryn trwy yr hen Ynys Wen:
Prydain grefyddol, anwyl wyt ti,
Diolch am ryddid ein henwlad gynhenid,
A'i breintiau diri'.

Cilio mae 'r nos
O flaen gwawr yr efengyl,
Cyfyd yr haul ile mae t'w'llwch yn awr;
Daear lân, rydd,
Fydd ein daear ryw egwyl,
Daw, fe ddaw 'n ddydd dros derfynau y llawr:
Prydain grefyddol, anwyl wyt ti,
Diolch am ryddid ein henwlad gynhenid
A'i breintiau diri'.

ELEN WYNN:

NEU,

YR ENETH AMDDIFAD DDIGARTREF.

Mae boncyff du o dan y twyn,
Yn ngodrau 'r bryn,
A'r newswg oesol am ei drwyn
Yn rhwymyn tyn;
Bu oesau a blynyddau maith
Yn cerfio arno lawer craith,—
Bu hwn yn orsedd lawer gwaith
I Elen Wynn.

O flaen ei sedd fwsoglyd hi
Mae gloew lyn,
A'r unig addurn sy' ar ei hi
Yw alarch gwyn,
Yn ddarlun hardd o'r purdeb mwyn,
A'r rhinwedd, ac o bob rhyw swyn,
Feddianai 'r ferch fu dan y twyn,
Sef Elen Wynn.

Chwilfrydedd sy'n awyddus iawn—
Ymwibio fyn,
I roi darluniad teg a llawn
O'r llenyrch hyn;
Y llenyrch bu ymlyniad pur
Yn profi 'n nerthol fel y dur,
Ond nid heb beri llawer cur
I Elen Wynn.

Gerllaw y Llan, wrth foncyn cuwn,
Mae tyddyn iach,
Nid oedd y teulu fu yn hwn
O uchel ach;
'Roedd gwyntoedd ffawd yn chwythu llwch
Goludoedd i nyw, leoedd uwch,
Ond yno 'n godro pedair buwch
'Roedd Elen fach.

A llawer gwaith bu 'r eneth dlos,
Wrth odro rhai'n,
Yn suo canu fore a nos
Yn bêr ei sain,
A'i horiau 'n fwyniant pur i gyd;
Trwy forau oes, mewn cartref clyd,
Ni welsai eto yn y byd
Ddim pigau drain.

A iechyd gyda 'i resyn ooch
Addurnai hon;
Eisteddai harddwch fel ar foch
Yr eneth lon;
Ymranai 'i heurwallt ar wahan,
O gylch ei gwddf yn donau mân,
Ac arlun o brydferthwch glân
Oedd yn nhob ton.

Cymerai 'r eneth huwddgar dlos
Yn bleser mawr
I fyned weithiau ar fin nos
Am haner awr
I gŵr y llwyn oedd dipyn draw,
Ac ar y "boncyff" yn ddi fraw,
A llyfryn bychan yn ei law,
Eisteddai' lawr.

Ond Ow! pan oedd yn ddeuddeg oed,
Mewn cartref mâd,
Mor ddedwydd ag bu neb erioed
Mewn unrhyw wlad;
Trywanodd gofid fynwes hon,
A chiliai 'r gwrid o'i boch fach gron,
Pan 'sgubodd rhyw angeuol dòn
Ei mam a'i thad!

Ac nid oedd ganddi chwaer na brawd
I gyd-ymddwyn;
O ris i ris aeth yn dylawd,
Heb gartref mwyn:
Y dydd 'r aeth eiddo 'i rhiaint cu
Yn gipris rhwng chwerthinllyd lu,
Hi wylai ar y "boncyff du"
Oedd dan y twyn.

Yn mrig yr hwyr aeth at y tŷ,
A'i bron yn blwm;
Cyfodai adgof am a fu,
Ryw hiraeth trwm;
Agorai 'r drws â chalon wan,—
Edrychai 'r annedd wag bob rhan,
A llais atebai o bob man—
"Mae 'n eithaf llwm."

Pob dimai goch a aeth ar goll
O'i llogell hi,
Ac awyr ei gobeithion oll
Oedd berffaith ddu;
Ac felly gyda chalon drom
Gorweddodd yn y gongl lom,
Lle bu hi gynt cyn profi siom,
Ar wely plŷ'.

Ysgubai hen adgofion fyrdd
Trwy 'i mynwes brudd,
Tra dan ddyrnodiau pwysig gyrdd
Gofidiau cudd;
Ond wrth wel'd hyny oll yn awr
O'i gafael, hithau ar y llawr,
Fe dreiglai deigryn gloew mawr
Ar hyd ei grudd.

Hi geisiai gysgu—methai 'n llwyr
Trwy 'r noson laith,
A Duw o'r nef yn unig wyr
Ei gofid maith;
Myfyrdod dwys mewn lle fel hyn
A doddai 'i chalon fach yn llyn:
Ah! dweud gofidiau Elen Wynn
Byth nis gall iaith.

Y borau aeth at ffryndiau cu,
Fu gynt yn hael,
A'r ateb gai oedd llygad du,
A chuchiog ael;
Er cerdded hyd yn hwyr brydnawn,
O dŷ i dŷ oedd ddigon llawn,
A hithau yn newynog iawn,
'D oedd dim i'w gael.

Mor rhyfedd fel mae 'r byd yn myn'd!
Os arian fydd,
Bydd pawb yn gyfaill, pawb yn ffrynd,
Yn morau 'r dydd;
Ond cyn y nos, os angau ddaw,
Fe gilia 'r holl gyfeillion draw,
Ac ni bydd neb a estyn law
I'n tynu 'n rhydd.

Fe daflai 'r nos ei mantell oer
Dros fro a bryn,
Ac wrth oleuni gwan y lloer
Aeth Elen Wyn,
I gwr y llwyn bu lawer awr
Yn ddifyr ar y "boncyff" mawr
Sibrydai ar ol eisteddlawr
Y geiriau hyn:—

"Mor unig wyf! O faint fy loes!
Y funyd hon;
Un cysur mwyach im' aid oes.
Drwy 'r ddaear gron;
Wyf yma yn fy hiraeth trwm,
A'm cylla 'n wag, a'm cefn yn llwm;
Fy nghalon sydd fel darn o blwm
O fewn fy mron.

"Os troaf tua 'r annedd gu
Bum gynt yn byw,
Unigrwydd dd'wed ar drothwy 'r ty—
Nid cartref yw;
Os gofyn wnaf i feibion ffawd
Am damaid bach i Elen d'lawd,
Hwy daflant ataf wg neu wawd,—
'Does neb a'm clyw.

"Mor ddedwydd ydyw 'r alarch gwyn,
Heb brofi sen,
Yn gwthio 'i big ar loew lyn
I'w aden wen;
Mae *ef* yn cael ei ddewis fan
I gysgu 'n dawel wrth y lan,
A *minau* gyda chalon wan
Heb le i ro'i 'mhen.

"Tra dedwydd treuliwn f' oriau gynt,
Mewn mwyniat llon,
Pan redwn ar fy nifyr hyat
I'r gilfach hon,
Cyn gwel'd a phrofi gofid cudd,
Na deigryn galar ar fy ngrudd,
A chyn bod nyth i deimlad prudd
O dan fy mron.

"Yr amser hwnw 'n ol ni ddaw,
Aeth dan y llen;
Byth mwy ni thyn fy nhad ei law
Ar hyd fy mhen:
O na chawn wel'd fy anwyl fam,
Gawn gynt i'm gwylio rhag pob cam,
A'm helpu i wisgo 'n brydferth am
Fy noli bren."

Ond pan oedd cysur wedi ffoi,
A'i dagrau 'n lli',
Dechreuai 'r fantol bwysig droi
O'i hochr hi;
Sibrydai rhywbeth yn ei chlyw,
"Mae Tad amddifaid eto 'n fyw,
Bydd dda gan galon dirion Duw
Dy wrando di."

Yn mhob cyfyngder rhedai mwy
At orsedd gras;
A phrofai yno dan ei chlwy'
Ryw nefol flas;
Trwy yspieinddrych galar dwys
Hi welai byrth y nefoedd lwys,
A gwelai fan i ro'i ei phwys
Mewn gofid cas.

Un lle oedd ganddi i ddweud ei chwyn
Yn eithaf hy',
Sef wrth ei Duw ar lwydaidd drwyn
Y " boncyff du ;"
Cai yno ddiangc rhag pob gwawd
Ro'id gan y byd ar Elen d'lawd,
A dal cymdeithas gyda 'i Brawd,
Sef Iesu cu.

Er lluchio hon gan dònau 'r byd
I draethell cur ;
Er i'w felusder pena 'i gyd
Droi iddi 'n sur ;
Hi gadwodd olwg dan bob loes
At haeddiant UN fu ar y groes,
A gweithiodd allan ddisglaer oes
O rinwedd pur.

Chwi blant amddifaid yn mhob man,
Ystyriwch hyn,
Os mynwch Iesu Grist yn rhan,
Eich codi fyn ;
Ystyriwch chwithau, fawrion byd,
Sy 'n byw mewn llawnder cartref clyd,
Fod llawer geneth ar y pryd
Fel Elen Wynn.

COLLIANT Y "ROYAL CHARTER."

Moriai, hir hwyliai 'r "*Royal Charter*" hylon,
Heb arw agwedd ar wyneb yr eigion;
A difyr ddwndwr dyfroedd y wendon,
A'i ru o danynt dawelai 'r dynion:
Eithr er alaeth rhuthrai yr awelon,
A huliwyd awyr a chymyl duon;
Cynhyrfa, digia y dòn!—croch rua—
Ei brig a lidia,—berwa 'i gwaelodion!

Corwynt erchyll sydd fel cawr yn tyrchu
Yr eigion erfawr, er ei gynhyrfu;
Ac mal i gwrdd y cymylau gorddu,
Môr gan ddryc-hin sy'n diflin ymdaflu;
Rhag gwel'd yr annhrefn mae 'r dydd yn cefnu,
O! wg mantellawg, mae hi 'n tywyllu!
Ac ar y llong, O! dacw 'r llu—dynion
Gan eu byw loesion yn gwyneb lasu!

Ffraeo 'n wgus wna 'r dòn, a ffyrniga,—
Angau agwrddawl ar ei mwng gerdda;
A'i lli' angerddol y llong a hyrddia
I greigiog làn;—ar y graig y glyna:
Ah! edrych i wyneb y drych yna
Dŷn lwyth o alar,—dynoliaeth wyla;
Y llong a ymollynga—i'w dyfnfedd,—
Y waneg halltwedd ffyrnig a'i hollta!

O! ing y teithwyr!—eu tynged hwythau
Yw marw yn eigion môr a'i wanegau;
Ac uwch tabyrddiad 'storm a'i rhuadau
E gwyd wylofain, gwae, a dolefau;
Ar lanau tudwedd orlan eu tadau
Erfawr rengoedd a rifir i angau;
Ac yn mhob man ar y glanau—geirwon,
Ymrolia dynion mewn marwol dònau!

YR ARIAN.

Mae 'r testyn yn boblogaidd
Beth bynag fydd y gân,
Mae fel tae swyn gyfaredd
Yn nglyn a'r darnau mân;
O'r anwyl! *mae* nhw 'n anwyl,
Mae pawb yn caru 'r rhai'n;
Os na fydd gwr ag arian
A'i barch i le lled fain.

Yn grynion gwneir yr arian
Er mwyn eu treiglo'n rhydd;
Ond dyna sydd yn rhyfedd,
Er cymaint treiglo sydd.
Ni welais i 'r un ddimai
Yn treiglo 'rioed i'm cwrdd,
Ond gwelais lawer ceiniog
Yn treiglo 'n syth i ffwrdd.

Mae tuedd yn y darnau
I ddiangc rhag y t'lawd,
A rhedeg i'r palasau
I goffrau meibion ffawd;
Mae aur yn treiglo ' fynu
Yn lle yn treiglo i lawr,
Peth od fod aur a chopor
Yn adwaen pobl fawr.

Fel hyn mae 'r byd a'i ffafrau
Yn rhedeg nerth ei goes,
Os gwel dylawd mewn eisiau,
Pe'r doethaf yn ei oes;
Os nad oes rhyw wahaniaeth
'Nol croesi i'r ail fyd;
Siawns wael fydd i'r tylodion
Am nefoedd dawel, glyd.

Peth ffol yw son am arian
I lenwi rheidiau bol,
A gwneuthur tŷ o arian,
Mae hyny 'n berffaith lol;
A gwisgo *côt* o arian
Sydd waeth na 'r ddau yn nghyd.
Ac eto rhaid cael arian
I gael y rhai'n i gyd

Mae 'r byd, 'run fath a gofaint,
Yn gyru darn o ddur,
Yn gyru aur yn synwyr
I dalcen hurtyn pur;
Ac felly mae 'r boneddwyr
Yn ddynion call, wrth gwrs,
Os na fydd synwyr coryn
Bydd synwyr yn y pŵrs.

Mae ambell ŵr arianog
Sy 'n hynod fawr ei wangc,
A'i barch mewn cist o haiarn
A'i synwyr yn y bangc;
Mae hwnw 'n fawr ei helynt
O foreu hyd brydnawn,
I lenwi coffrau 'r bangcwr,
A'i ben ddim haner llawn.

Y cybydd yw 'r pencampwr
Am hela aur yn nghyd,
Mae ef yn tynu arian
O bobpeth yn y byd;
Ei Alpha a'i Omega
Yw aur yn mhob ysgwrs,
Mae 'i enaid yn ei boced,
A'i galon yn ei bwrs.

Ond wedi ail ystyried,
Gwahaniaeth bychan sydd
Rhwng cybydd wrth gynilo
A'r dyn gwastraffus, rhydd;
Mae un yn hela arian
Er mwyn cael cadw punt,
A'r llall yn hela arian
I'w lluchio hefo 'r gwynt.

Gall cybydd ac oferddyn
"Gyd rwbio gefn y'nghefn,"
Mae 'r ddau yn trafod arian,
Ond nid yw 'r ddau 'r un drefn;
Mae 'r naill yn cloi ei hunan
Yn nghyd a'i aur i gyd,
Mae 'r llall yn llyngcu 'i hunan,—
Pe gallai, llyngcai 'r byd!

'Ran hyny nid oes undyn,
Boed ef yn ffol neu gall,
Yn mhwngc yr aur a'r arian,
All ddannod fawr i'r llall;
Mae 'r byd wrth hyn fel pobpeth,
Yn fyd amrywiog iawn,
Mae pawb a'i ffordd a'i ddyben,
Ond nid yw pawb 'run ddawn.

Er hyn i gyd mae rhywbeth
Yn eisiau ar y dyn,
Er tyru aur o'i gwmpas
Mae 'i angen ef yr un;
Nid ydyw casglu cyfoeth
Yn ateb dyben oes,
Pe rhoech chwi *fyd* i'r galon
Mae hono 'n gwaeddi "*Moes.*"

O TYRED Y GWANWYN!

O! TYRED y Gwanwyn, cynhesa ein byd,
Trydana ei rewllyd wythenau;
Mae natur yn curo ei gliniau yn nghyd
Gan anwyd er's llawer o ddyddiau.

O! tyred y Gwanwyn, mae llygaid y byd
Yn disgwyl am weled dy wyneb;
Tyr'd, dangos i'r eira fu 'n aros cyhyd,
Y medri ei ladd â'th siriol deb.

O! tyred y Gwanwyn, a chladda lwyd wedd
Y gauaf yn meddrod tymorau;
A chwyd gofadeilad i ddangos ei fedd,
O ddail, o friallu, a blodau.

O! tyred y Gwanwyn, mae natur yn fud,
A'i thanau i gyd wedi rhewi;
Cyweiria 'r hen delyn fu 'n ddistaw cyhyd,
A deffro beroriaeth y llwyni.

O! tyred y Gwanwyn, mae llygaid y dydd
Yn tyfu yn ol dy gerddediad;
Wrth deimlo tynerwch dy awel iach, rydd,
Y rhosyn a egyr ei lygad.

O! tyred y Gwanwyn, anadla yn llon,
Anadla ail fywyd i'n bröydd,
A gad i brydferthwch roi 'i phen ar dy fron
I wrando caniadau llawenydd.

RHYDDID.

Geiriau ar y Glee "Here in Cool Grot."

DADBLYGER baner rhyddid cu
Uwchben cadwynau 'r Ethiop du
Uwch anialdiroedd Affric fawr,
Cilied y nos o flaen y wawr;
Daw, daw amser gwell, mae'r dysglaer ddydd
Yn nesu, nesu ar ol dunos brudd:
Lle clywid trwst y gadwyn gref
Cyhoeddir geiriau pur y Nef;
Newidir swn y fflangell lem
Am fwyn newyddion Bethlehem:
Caniadau rhyddid fydd ryw bryd
Yn adsain dros derfynau 'r byd.

Y GWYLIAU.

TON:—"*Dydd Gwyl Dewi.*"

MAE rhai yn hoff o hinon haf,
Ei flodau tlws a'i ddail,
Ei wresog hin a'i ffrwythydd braf,
Ei hirddydd teg a'i haul;
Ond o bob darn o'r flwyddyn gron
Y Gwyliau well gen i,
Mae rhywbeth yn y Gwyliau llon
Yn anwyl iawn i mi:
Cawn eiste 'n rhes o gylch y tân
O swn y storm a'i rhu,
Cawn chwedl bob yn ail a chân
Ar hirnos Galan gu.

Er fod yr eira ar y tô,
A rhew yn hulio 'r llyn,
Ac er fod stormydd trwy y fro
Yn chwythu 'n gryf pryd hyn;
Ond chwythed gwynt, a rhewed dw'r,
Mi neswn ninau 'n nes,
Ac ar yr aelwyd lân, ddi-stwr,
Try 'r gauaf oer yn wres:
Cawn eiste'n rhes o gylch y tân, &c.

Y Gwyliau daw y plant di nam
I gyd o'r trefydd pell,
Cant groesaw tad, a gwenau mam,
A llawer henffych well;
Mor ddifyr ydynt wedi cwrdd,
Daw pawb a'i stori 'n rhwydd,
Cant wledda oll o gylch un bwrdd
Ar gorpws ceiliog gŵydd:
Cawn eiste'n rhes o gylch y tân, &c.

Y Gwyliau caiff hen ffryndiau llon
Ddweud cyffes calon lawn,
Ac adrodd helynt blwyddyn gron
Wrth olau tân o fawn;
Mae tad a mam, mae mab a merch,
A phawb yn ei fwynhau,
A hen gylymau anwyl serch
Yn cael eu hail dynhau:
Cawn eiste 'n rhes o gylch y tân,
O swn y storm a'i rhu,—
Cawn chwedl bob yn ail a chân
Ar hirnos Galan gu.

Y DIFFYG AR YR HAUL

GORPHENAF 18, 1860.

EDRYCHA 'R ddaear werdd yn brudd
Fel pe b'ai t'w'llwch nos yn dyfod,
A'r miloedd blodau tlysion sydd
Yn plygu 'u penau mewn yswildod.

Mae Duw fel pe 'n rho'i cŵr ei law
Cydrhwng y byd a'r haul tanbeidiol,
I dynu sylw 'r dyn uwch law
Ei bryder a'i ofalon bydol.

Ni wna 'r digwyddiad hwn ddim dwyn
Y dyn di feddwl, hurt, o'i gaban,
Ddim cynt na phe b'ai canwyll frwyn
Yn cael ei chuddio gan law baban.

Anffyddiwr, cwyd dy olwg 'n awr,
A gwel mor gywrain yw 'r peirianau,
A wel' di enw y Bôd Mawr
Mewn du ar fron yr ëangderau?

Edrycha, ddyn, ar dad y dydd,
A gorchudd dros ei wyneb melyn;
Rhyw fawredd anhraethadwy sydd
Yn argraffedig ar y darlun.

Yr hwn sy 'n edrych ar y nen
Bob amser gydag anystyriaeth,
Cwyd d' olwg 'nawr, a gwel uwch ben
Amlygiad clir o Dduw Rhagluniaeth.

BWTHYN Y WEDDW DDUWIOL.

Dan aden gysgodfawr celynen henafol
Y saif bwthyn bychan yn ngodrau y bryn,
O'i amgylch y gwelir rhyw symledd tra gwladol,
Ei dô sydd wellt llathraidd, a'i fur oll yn wyn;
Y llwyn a gysgoda ei gefn rhag gerwindeb
Hyf wynt y gorllewin a'r dymhestl gref,
A heulwen y nefoedd a chwardd yn ei wyneb,—
Arllwysa fendithion i lawr arno ef.

Mae'r gwynt a'r elfenau mewn cyngrair gwastadol,
Am adael tawelwch i'r lle bychan hardd,
Teyrnasa dedwyddwch a symledd tra swynol
Ar wyneb pob rhosyn a dyf yn yr ardd;
Y fwyalch chwibana ei chân o'r gelynen,
A'r pistyll chwareua 'r isalaw gerllaw,
A mantell o iddew ddillada y talcen,
I'w gadw 'n ddiangol rhag curiad y gwlaw.

Os ydyw y bwthyn yn hardd oddi allan,
O'i fewn mae 'r prydferthwch foddlona y Nef,
Mae perl fydd yn nghoron y Duwdod ei hunan
Mewn telpyn o ddaear yn byw ynddo ef:
Ti weddw unigol, anwylyd y Nefoedd,
Os cefnodd perth'nasau, a'th adael dy hun,
Dy noddwr tra chadarn yw Arglwydd y lluoedd,
Mae 'n Dad a Gwaredwr, mae 'n Gyfaill a lŷn.

Ar aelwyd gysurus eistedda y weddw,
Heb unrhyw rwysg bydol o'i chylch yn un lle,
Nac unrhyw gydymaith, ond hen gadair dderw,
A Bibl Peter Williams, sydd ar ei llaw dde':
Ah! gadair henafol, mae mwy o wir fawredd,
Er gwaeled dy olwg, yn perthyn i ti,
Na'r eurawg orseddau, er maint eu hanrhydedd,
Sy'n dal ymerawdwyr mewn urddas a bri.

Oes, oes, oddiar hon yr anadlwyd gweddïau
O fynwes y weddw i glustiau y Nef;
Bu dda gan angylion ro'i tro gylch ei godrau,
I godi y deigryn a gwrando y llef:
Wrth eistedd ar hon, pan yn distaw fyfyrio
Ar gariad yr Iesu, ca'dd le llawer baich,
A llawer hen benill a ganodd wrth gofio
Am wynfyd y Nefoedd, a'i phen ar ei braich.

Gorwedda 'r hen Fïbl gerllaw wrth ei hystlys,
Ni phrynai holl berlau y byd mo 'no ef;
Ah! dyma 'r hyfforddwr—hwn ydyw 'r mynegfys
Sy'n dangos y drofa i groesffordd y Nef:
Y ddalen a sonia am chwys Gethsemane,
A fwydwyd a dagrau o gariad at Dduw,
A dengys y nodion, yn nghyd a'r plygiadau,
Mae 'r Bïbl yw y fan lle mae 'i henaid yn byw.

Yn mhen draw y cornel, gerllaw yr hen bentan,
Ar gyfer y weddw, y gwelir ei ffon,
Pan yn y tywyllwch yn teithio ei hunan,
Un cyfaill ni chafodd mor ddidwyll a hon;
Bu hon yn gydymaith wrth deithio i'r capel—
Bu ganwaith yn dyst o'i gweddïau a'i chri,—
Bu 'r weddw yn adrodd ei chwyn yn y dirgel,
Bu 'n derbyn bendithion a'i phwys arni hi.

Gadawn un ystafell, a thrown i un arall,
Ysgrifgist ei gŵr sy'n un gongl i hon,
O'i mewn mae ysgrifau sy'n anhawdd eu deall,
Mae dagrau a thraul wedi 'u *blotio* o'r bron;
Llawysgrif ei gŵr sydd ar lawer o'r lleni,
Llythyrau y plant gydorweddant fan hyn;
A sibrwd yn drist maę 'r llyth'renau a'r llwydni,—
"Y dwylaw a'u gwnaeth sydd dan dywyrch y glyn."

Gerllaw mae ei gwely, lle 'r huna ei chyntun,
'Nol trafferth y dydd a'i ystormydd tra blin,
A chlustog o fanwellt sydd dan yr hen erchwyn,
Fu filoedd o weithiau o dan ben ei glin;
Oddiar yr hen wely ei henaid seraphaidd
Eheda ryw ddiwrnod i fynwes ei Thad,
Ca hwn fod yn orsaf i'r gosgordd angylaidd
Wrth gychwyn ei henaid fry, fry, i well gwlad.

Yn mhob congl o'r bwthyn mae rhywbeth yn rhyfedd,
Ei ddodrefn a'i bethau deilyngant ryw fri;
A'r hon a'i preswylia sy 'n haeddu anrhydedd,
Mae palas gogoniant yn ol iddi hi;
Ac er i helbulon yr anial dwfn gwyso
Y gruddiau fu 'n gwisgo prydferthwch a moes,
Daw adeg y gwisgant ieuengctyd hardd eto,
Dros faith drag'wyddoldeb, heb drallod na loes.

Ac er mai tô manwellt sy'n cadw yn ddiddos
Ei bwthyn bach prydferth a gwladol ei lun,
Y palas mawreddog sydd draw yn ei haros,
Ddiddosir gan law yr Anfeidrol ei hun;
Ac er mai llawr pridd ydyw 'r llawr y mae 'n sangu,
Un gareg nag astell i'w urddo ni roed,
Aur balmant grisialaidd trigfanau yr Iesu
Ryw adeg yn fuan a ga dan ei throed.

Chwi feilchion freninoedd, er gwyched palasau
Sydd genych, er cymaint eich rhwysg yn y byd,
Er amled y milwyr a wyliant eich dorau,
Oferedd a gwagedd yw 'r cyfan i gyd;
Mae mwy o gadernid o amgylch y bwthyn
Lle trig y wraig weddw, er gwaeled ei wedd,
Lleng gref o angylion a wyliant y llecyn,
A mynwes y weddw sy'n orlawn o hedd.

trafnidiaeth gyda Phrydain yn cael ei dwyn ym mlaen mewn ystyr helaeth, ac adgyfnerthion yn barhaus yn cael eu cludo o'i phorthladdoedd i'w chyngrheirwyr ar y Cyfandir. Eto, er yr holl brofion diamheuol hyn o wareiddiad sefydledig, mae Gâl gyn-Rufeinaidd yn wagle llenyddol,—nid oes un penill o'i chaneuon milwrol, na brawddeg o'i hathronddysg, wedi nofio fel drylldarnau crwydredig i lawr atom ni ar hyd ffrŵd amser. Gan mai felly yr oedd yn Gâl, y mae genym achos llai i ryfeddu na adawodd yr Almaen, Llychlyn, na'r Hispaen, gymaint a phenill ar gôf a chadw mewn ysgrifen.

Fel arall yr oedd hi gyda Hen Brydain. Hi ydoedd sêdd Crefydd fawreddus Japheth, neu Grefydd bur y Cenedloedd; hyny yw, crefydd Noah a'i feibion. Unai ei llywodraeth eglwysig ynghyd swyddogaethau pwysig yr Heddynad, yr Offeiriad, yr Athronydd, a'r Athraw cyhoeddus. Pan y daeth gyntaf i gyddarawiad â Rhufain, yr ydym yn gweled oddiwrth yr hanes a ddyry Caisar, yr ystyrid hi fel Ynys gysegredig y Gorllewin,—ac er fod miloedd o'r Gaeliaid yn gynefin a'i glànau, ei hangorfëydd, ei phorthladdoedd, a'i sefydliadau, eto, gwelai fod yn anmhosibl iddo ef, y munud y daeth nodweddiad gelynol ei ddarpariadau i'w herbyn yn hyspys, gael y wybodaeth leiaf ganddynt ar y pyngciau hyny. Dywed bod holl bendefigion Gâl yn cael eu haddysgu yn Athrofäau Derwyddol Prydain—bod eu profedigaeth weithiau yn para am ugain mlynedd o amser—bod y cylch addysg yn cynnwys y pyngciau dyfnaf mewn Athroniaeth Naturiol ac Arddansoddol, a bod diwylliant y côf yn cael ei ddwyn i'r fath berffeithrwydd fel ag y gallai llawer o'r efrydwyr adrodd ugain mil o linellau prydyddol pan y mynent. Parotoid ni gan y cyfryw ddarluniad i ddysgwyl canfod, mewn cysylltiad â Phrydain, gyflwr tra gwahanol o barth addysg, i'r gwagder hollol o bob gwybodaeth hanesiol a gyrhaeddai dros yr holl wledydd eraill yng Ngorllewin

Gweno fwyn, Gweno fwyn,
Onid hapus yw,
Cael bwyd, a thân, ac ambell gân,
A chornel glân i fyw;
O bobpeth da sydd yn y byd,
Y gorau genyf fi,
Yw cefnu ar ofidau blin,
A rhedeg atat ti.
O Gweno fwyn, Gweno, &c.

FRY, FRY.

ALAW:—"*Home.*"

FRY, fry,
Mae fy nghyfeiriad,
Uweh pob
Gofid a phla;
Myn'd fry
Yw fy nymuniad,
Fry ceir
Pobpeth yn dda;
Fry mae
Engyl yn byw,
Fry mae
Nefoedd fy Nuw.

Fry mae
Pob rhyw anrhydedd,
Fry, fry,
Gwynfyd a gawn,
Fry mae 'r
Teulu a'u bysedd
Ar dant
Anwyl yr Iawn;
Fry mae
Palmwydd a gwledd,
Fry mae
Moroedd o hedd.

Fry, fry,
Mae ein cyfeillion,
Heb un
Trallod na loes;
Fry, fry,
Gwisgir y goron
Gan bawb
Gariodd y groes;
Fry mae
Iesu fy Nuw,
Fry af
Finau i fyw.

MARWNAD JACK Y LANTERN.

Mae beirdd pob oes a gwlad
Wrth ganu marwnadau,
Yn arfer gwneud rhyw nâd
Gwynfanus iawn i ddechrau;
Mi nadaf finau 'n awr,—
Beth bynag wnaf, rhaid nadu,
Gwneud nâd yw'r orchest fawr
Sy'n nglŷn a marwnadu.

Gadewch ro'i nâd i Jack
Sy 'n huno gyda 'i deulu,
Mae tànau 'mhawen lac
Bron at y peth i nadu;
Mae 'n ffasiwn trwy y wlad
I nadu am enwogion,
Os haedda neb gael nâd,
Mae Jack yn un o'r dynion.

fodd y llall, yn heddwch a thangnef." Galwent yr Ynys, yn Ynys Wen, ac Ynys y Cedeirn, ac yn Fêl Ynys, hyd nes y gwladychodd Prydain yma, pryd y galwyd hi ar ei ol ef yn Ynys Prydain.

Mae yr hanesiaeth yma yn un tra nodedig; mae ei dyddiad yn blaenori, o ganrifau lawer, draddodiadau boreuaf Groeg a Rhufain. Mae ei hadroddion yn cyd daro yn hollol â'r hyn a gafwyd allan drwy yr ymchwiliadau diweddaraf o barth gwreiddyn ieithoedd a chenedloedd.

Os nad hîl Gomer yw y Cymry, yna mab hynaf Japheth fyddai yr unig un yr hwn nid adawodd ar ei ol nac enw na hiliogaeth. Nis gallasai hyn fod, canys y mae Moses yn cofnodi meibion Gomer yn bendant, a'r addewid ydoedd, "Duw a helaetha ar Japheth." (Gen. ix. 27).

Mae holl ysgrifenwyr hynaf Groeg a Rhufain yn cytuno i ddweyd mai y Cymry, neu y Gomeriaid, dan gyfenwadau lled amrywiol, oeddynt y teulu mwyaf cynenid neu hynaf yn y byd. Ar hyd eu preswylfa gyntefig, sef glanau y Môr Dû a Môr Azov, adnabyddid hwynt wrth yr enw Cimri neu Cimmerioi; mae yr orynys a ffurfiai ran o'u tiriogaethau yn cadw ei henw fyth sef Cimria, wedi ei lygru yn awr i Crimea. Ar dueddau Deheuol mynyddoedd y Caucasus gelwid hwynt yn Gomrai. Y dosbarth hwn drwy ymgyfathrachu â phlant Madai, yw y Mediaid a geir mewn hanesyddiaeth. Cyfran arall o honynt, gan ymddidoli oddiwrth y cyfangorff, a alwent eu hunain "Parthwys," oddiwrth y ferf Gymraeg *parthu*. Cynyddodd y rhai hyn mewn amser nes ffurfio ymherodraeth ofnadwy y Parthiaid, neu yn ddiweddarach y Persiaid. Rhan fawr arall ar rawd y genedl tua'r Gorllewin, a symudodd ar hyd y gadwen o fynyddoedd a elwir yr Appenniniaid, a dyma oeddynt Chymbri, neu a gadael allan yr *ch*, Umbri, neu Humbri yr Eidal. Y rhai hyn a ddaethant i fod yn brif gŵff o ba un y deilliodd y Lladiniaid, y Samnitiaid, y Sabin-

Ni fynai mo'no 'n ŵr,
A'i rheswm oedd, fe dd'wedir,
'R oedd ef am fyw 'n y dw'r,
A hithau ar y sychdir;
Ac feily hyd ei drangc,
Ar ol i hon ei siomi,
Bu Jacko fyw 'n hen langc
Heb neb i'w ymgeleddu.

O gors i gors yr äi
Trwy 'i oes, heb neb yn agos,
A golau 'i lantern wnai
Pan unwaith doi y ddunos:
Pob "Canwyll Gorff" fu 'rioed
Yn gwibio cymoedd Cymru,
O lantern Jack y rhoed
Y golau ar y rhei'ny.

Pan welai deithiwr t'lawd
Yn cerdded braidd yn fyrbwyll,
Fe dynai Jack y brawd
I ddilyn golau 'i ganwyll;
A phan y syrthiai 'r dyn
I fawnog o gryn ddyfnder,
Gadawai Jack ê 'i hun
Heb son 'run gair am swper.

Pan welai Jack ryw dŵr
O langciau gwylltion, penrhydd,
Yn cerdded gyda chwr
Tiriogaeth wlyb y corsydd,
Fe'u denai hwy mor fwyn
I'r corsydd at eu gyddfau,
A'i yntau i ben twyn brwyn
I chwerthin am eu penau.

Wrth fyw mewn lle rhy wlyb
Aeth Jack yn sal ryw amser,
O leiaf dyna'r dyb
Gyffredin ar y mater;
Hen gynjer o Sir Fôn
Fu 'n rho'i cyfleri iddo,
Mi glywais rai yn sôn
Fod hwnw 'n perthyn iddo.

Ysgydwai hwnw 'i ben
Wrth deimlo *puls* 'r hen fachgen,
A d'wedai 'n brudd dros ben
"Wel, mae o 'n ddrwg ofnatsen;"
Wrth iddo fyn'd yn waeth,
Aeth Jack i ffaelu chwythu,
A chyn bo hir fe ddaeth
Yn barod iawn i'w gladdu.

Y lantern oedd gan Jack
Adawodd yn ei 'wyllys
I'w gefnder, "Wil-y-Wisp,"
Mae yntau 'n ddigon hysbys;
Fe redodd rhyw hen frawd
A lantern Jack i hwnw,
Ond erbyn cyraedd "Wil,"
'Roedd yntau wedi marw!

Mae Wil a Jack yn awr
Yn huno 'n ddigon tawel,
Yn hen Gors Fachno Fawr,
A'u penau 'n od o isel;
'Doedd neb wrth gladdu 'r ddau
Yn teimlo fawr o bryder,
Nac undyn yn pruddhau,
Os nad oedd ambell gynjer.

Y "Tylwyth Teg" i gyd
Fu farw gyda rhei'ny,
A phob hen yspryd mud
Fu 'n blino yr hen Gymry;
Wel, bendith ar eu hol,
A waeddaf fi o galon,
Does neb yn awr mor ffol
A meddwl am ysprydion.

Yn awr fe ddrachtia 'r wlad
O ffrydiau pur gwybodaeth,
A bechgyn Cymru fad
Sy'n dringo bryn dysgeidiaeth;
Y niwlen ddu fu 'n toi
Ein gwlad â llèn o d'w'llwch,
Sy'n awr yn prysur ffoi—
Mae 'n toddi 'n ddydd o harddwch.

Mae addysg ar ei hynt
Trwy lawer ardal lydan,
Lle d'wedai pobl gynt
Fod Jack y Lantern druan;
A llygad Cymru wen
Sy'n edrych ar i fynu;
Rhoed pawb trwy'r wlad Amen,
I fynu 'r ele Cymru!

HEDDWCH.

Arwyddair amser heddwch—yw cariad,
Ac eirian dawelwch;
Darfu trwst arfau tristwch,
O tan draed rhydant yn drwch.

Heddwch, hoff heddwch ddiffodda—gynnen,
A'r gwanaf gyfoda;
O'i flaen, llèn brudd ymdaena,—
Rhyw ail Nef ar ei ol wna.

EINIOES.

O WANED ydyw einioes!
Aẅ yw i niwl: olwyn oes,
A'i throad erch wthia 'r dyn
O'r byd fel rhyw abwydyn:
Gyda bod ei gyfnod gwael
Y' myd, mae yn ymadael.
Fy awr red, mor frau yw oes'
Edef fain ydyw f' einioes;
Afiechyd enyd fechan
A dŷr y wyw ede' wan.
Ar eu hynt cyflym y rhed
Yr oriau ar i waered,
Hyd riniog pen draw einioes,
Lle derfydd hwyrddydd ein hoes.
Cadwen fain a'n ceidw 'n fyw,—
Dyma 'n dydd, dim ond heddyw;
Yr oed sy 'n cyflym redeg,—
Ah! ddoe nid oedd y wen deg,
Y foru eto 'n farwol;
O Dduw Ner! beth fydd yn ol
I'r enaid wedi'r einioes?
P'le bydd ei le mewn ail oes?
O! na ddoem i chwilio 'n ddwys,
Ai cam, ai ynte cymwys
Y rhodiwn tra byddwn byw,—
Adeg dra phwysig ydyw.
Bore einioes, byw rhinwedd,
Tua 'r nawn sy 'n troi yn hedd;
A draen yn hydre' einioes,
Yw wario rhan orau 'r oes,

"RHOI 'R TROED GORAU 'MLAEN."

Hen Ddiareb.

Mae llawer o ddullian gan ddynion i fyw,
Rhai 'n myn'd ar i waered, a'r lleill fynu 'r rhiw;
Mae rhai hyd eu hoes dros eu penau 'n y byd,
A'r lleill ar eu heithaf yn falchder i gyd:
Peth anhawdd yw d'weud pwy sydd gal',
Ac anhawdd yw d'weud pwy sydd ffol;
Mae rhai am "roi 'r troed gorau 'mlaen,"
A'r lleill am roi 'r troed gorau 'n ol.

Peth digon di barch yw "rhoi 'r troed gorau 'mlaen,"
A digon colledus a d'wedyd yn blaen;
Peth gwael byw mewn sidan o'r gwaelod i'r *top*,
A *bill* cy'd a braich yn 'sgyrnygu 'n y *siop:*
Mae "rhoi 'r troed gorau 'mlaen" ddyliwn i,
Wrth sylwi, yn waith digon ffol;
Os bydd rhyw un troed gwell na'r llall,
Gwell cadw 'r troed gorau ar ol.

'Roedd *party* ryw ddiwrnod yn Hafod-y-rhyd,
A'r "anwyl a minau!" yr oedd yno fyd;
Ond ar ganol y gwledda 'n y parlwr mawr tlws,
Dyna "feili 'r cwrt bach" yn rho'i cnoc ar y drws!
'Roedd pobpeth yn *hallt* erbyn hyn,
Os oedd pobpeth yn *felus* o'r blaen,
A gwyneb y wraig yn troi 'n wyn,
O achos "rhoi 'r troed gorau 'mlaen."

Peth sobr yw gweled y llangc yn rhoi 'i bres,
I dalu am bethau sydd waeth na di les;
A chadwyn o arian neu aur ar ei fron,
A chadwyn o ddyled yn pwyso wrth hon:
Gadewch ini gofio i gyd,
Os byddwn ni 'n wastad mor ffol,
A "rhoi 'r troed gorau 'mlaen" yn y byd,
Bydd y ddau droed ryw ddiwrnod ar ol.

CYFLAFAN Y BEIRDD YN NGHASTELL BEAUMARIS.

Y Miwsig gan Mr. J. D. Jones, A.R.C.P.

Gymru anwylaf, mor aml yw'th ofidiau,
Mynych y rhwygwyd dy fynwes gan gur;
Llawer tro gynt y derbyniai 'th briddellau
Gochwaed dy feibion gwladgarol a phur:
Gormes fradwrus a fu ddigon creulon
Wrth dy iawnderau i'w mathru dan draed;
Gwelwyd cyn hyn yn dy gestyll talgryfion
Bur Ddiniweidrwydd yn marw 'n ei gwaed.

O! 'r fath gyflafan fu 'n Nghastell Beaumaris!
O! 'r fath fradwriaeth ddadblygwyd fan hyn!
Pan y cyfrifid gwaed beirddion yn ddibris;
Safai Ceridwen i wylo yn sŷn,
Gollwng ei deigryn ar balmant y castell
Wnai, i gymysgu â gwaed plant y gân;
Cleddyf melldigaid bradwriaeth a dichell
Drochwyd mewn bronau dihalog a glân.

Cymru ddynesa yn foddfa o ddagrau
Uwch y gyflafan, edrycha yn sŷn;
Gyda 'r awelon gollynga 'i hoch'neidiau,
Tra y sibryda ryw eiriau fel hyn:—
"O, fy anwyliaid! ai yma gorweddwch
Wedi 'ch llofruddio yn aberth i drais?
Mwyach nid oes yn fy aros ond tristwch,—
Ffarwel am byth i gael clywed eich llais!

"Hoffwyr y gerdd, rhoddwch heibio 'ch telynau,
Tafod yr Awen ddistawodd yn lân;
Na foed i'w glywed ond dwfn ocheneidiau
Mwyach trwy Walia am feibion y gân:

Clywed y Fronfraith sy 'n tori fy nghalon,
Byngcia ar gangen yn ymyl ei nyth,
Ara mae y bardd a fu 'n moli 'i hacenion
Wedi dystewi yn lân ac am byth."

Chwythed yr awel ei lleddfdon alarus,
Wyled y nefoedd ei gwlith ar y fan;
Dònau y môr, ocheneidiwch yn glwyfus,
Pan tuag yno 'r ymroliwch i'r làn:
Oes ar ol oes pan fo 'r Cymro twymgalon
Tua 'r hen Gastell yn edrych yn sỳn,
Hiraeth a wthia ochenaid o'i ddwyfron,
Teimlad a dodda ei lygad yn llyn.

Y DYDD YN MARW.

Edrych mae 'r cymylau 'n drymllyd
O gylch gwely angau 'r dydd,
Yntau ar dòenydd dyfrllyd
Yn tynu 'i anadl olaf sydd:
Dal eu hanadl mae perth'nasau
Yn ngwydd angau erch ei wedd,
Felly anian ddeil ei hanadl
Pan ymsudda 'r dydd i'w fedd.

O! mor brydferth yw 'r gorllewin,
Ond y mae 'n brydferthwch prudd,
Fel prydferthwch merch yn marw
Gyda rhosyn ar ei grudd;
Gwena 'r eneth pan yn meddwl
Am yr adgyfodiad mawr,
Felly gwena 'r Dydd wrth farw,
D'wed ei wên—"Daw borau wawr."

EDWARD A HUW.

'Roedd Edward yn dipyn o lengcyn
Pan nad oedd ond tair-ar-ddeg oed,
Yn hoff braïdd o'r taclau pysgota,
A chario ei ŵn trwy y coed;
A phan oedd rhwng pymtheg a deunaw,
Ryw noson fe ga'dd ei fam dlos
Hen getyn yn llogell ei wasgod,
A 'baco yn mhoced ei glôs.

'Roedd Huw wed'yn eisiau cael ysgôl,
A darllen, a darllen o hyd,
Fe'i magwyd a'i drwyn mewn rhyw lyfrau,
Fel cybydd a'i drwyn yn y byd;
Fe yfai wybodaeth yn ieuangc,
A'i syched gynyddai bob llwngc;
Aberthai ei gwsg a'i gysuron
Er mwyn cael llwyr ddeall rhyw bwngc.

'Waeth tewi na siarad, 'roedd Edward
Yn llawer mwy dyn gyda 'i dad,
A brolio ei fachgen am *gamblo*
Oedd gwaith yr hen ŵr hyd y wlad;
Adroddai ei droion direidus
Dan wenu, heb arwydd o ŵg,
Aeth Edward fel hyny i feddwl
Nad ydoedd dim drwg mewn gwneud drwg.

Os sonid am Huw, ei fab arall,
Ysgydwai 'r hen gyfaill ei ben,
A meddwl am Huw, dyn a'i helpo,
A'i gyrai cyn sobred a phren;
A d'wedai yn fynych, "'Rwy 'n ofni
Yr aiff yr Huw acw o'i go',
Wrth bondro a phwndro mewn llyfrau,
Mae 'n edrych mor wirion a llô."

Bu farw 'r hen ŵr a'r hen wreigan,
A marw difrifol oedd hwn,
Sef marw oherwydd i Edward
Roi 'u meddwl dan ormod o bwn:
Aeth Edward yn lleidr a meddwyn,
Efe fu yn hogi y cledd,
Efe fu 'n ei estyn i angau
I daro ei riaint i'w bedd.

Oad Huw ddaeth yn gristion goleuddysg,
Er cymaint dderbyniodd o wawd,
Ysgodd yr adfydau truenus
Sydd tua phen draw ffordd ei frawd;
Rieni, cymerwch yr awgrym,
Tra byddo y plant yn eich clyw,
Ymdrechwch eu gwneud yn ddarllenwyr,
A chofiwch am Edward a Huw.

Y WAWR.—Canig.

Y Miwsig gan Mr J. D. Jones, A.R.C.P.

Ymegyr dorau 'r dwyrain draw
Gan dywallt golau ar bob llaw;
O forau teg! mae llaw 'r wawr dlos
Yn ysgwyd llaw â llaw ddu 'r nos:

Yr adar a chwery gân,
Gan edrych i'r dwyrain glaer,
Chwarddant am ben yr haul yn codi
Fry o'i wely aur:

Yr awel chwery rhwng y dail,
Yn araf a thyner y chwyth;
A dawnsia llon belydrau 'r haul
Ar fynwes pob defnyn o wlith.

I Eneas, o'i wraig gyntaf Creusa, merch i Briaf, y ganed Iwl Ascanius. O ail fab Ascanius Iwl, y tarddodd teulu Iwl Caisar, ac ymherawdwr Rhufain. Mab hynaf Ascanius oedd Sylvius Ascanius. Efe a briododd Edra, nith Lavinia, o'r hon y ganed iddo Brut, gwreiddyn llîn freninol Droianaidd Prydain.

Eppil ail briodas Eneas â Livinia ydoedd Silvius Eneas, o'r hwn y deilliodd Romulus, sylfaenydd Rhufain.

Yn y bymthegfed flwyddyn o'i oedran, lladdodd Brut ei dad, yn ddamweiniol wrth hela. Mewn canlyniad i'r dygwyddiad gofidus hwn, gorchymynodd ei daid iddo ymadael o'r Eidal. Casglodd Brut ynghyd dair mil o ieuengtyd gwrolaf Umbria, a gosododdei hun yn flaenor arnynt, a mordwyodd at ei gydwladwyr yn Albania, a elwid wedi hyny Epirus.

Yno mewn cysylltiad ag Assaracus, tywysog Troianaidd arall, cododd i fynu faner annibyniaeth yn erbyn Pandrasus, yr hwn oedd olynydd Agamemnon ym mreniniaeth Groeg. Rhif o fuddugoliaethau ar ochr y Troianwys a ddiweddodd mewn heddwch; a rhoddodd Pandrasus ei ferch, Imogene, yn wraig briod i Brut. Yr oedd glànau Môr y Canoldir y pryd hyn yn frith gan drefedigaethau wedi eu sylfaenu gan y câd-flaenoriaid Groegaidd ag oeddynt yng ngwarchae Caerdroia; canys yr oedd Groeg wedi ei hollol ddyhyspyddu a'i hanrhefnu drwy ei hymdrechion dirfawr yn ystod y deng mlynedd o ryfel; ac am fwy na dwy ganrif dylynid yr hên wareiddiad gwronaidd gan gyflwr o aflywodraeth. Brut gan wybod nad ellid sefydlu teyrnas Droianaidd yn Albania, heb fod yn agored i ryfeloedd dibaid, a benderfynodd ymfudo gyda ei holl bobl i orsaf Gogleddol prif gŷff ei hiliogaeth,—sef, yr Ynys Wen. Cymeradwywyd y penderfyniad yn unfryd. Adeiladwyd llynges o dri chant a deuddeg-ar-hugain o longau—darparwyd arfau a lluniaeth—cyflwynwyd sailgolofn Paladiwm Caerdroia i ofal Geryon y Dewin, ac aeth yr holl boblogaeth ar fwrdd y llynges. Dyg-

Gorphwysfa 'r nos, mor felus yw
I lawer bachgen gwyn,
Ond Sambo, druan, ddu ei liw,
Sy'n methu profi hyn;
Mae tingc y gadwen rydlyd, gref,
A phoen ei gefn dolurus,
Yn ddau gydymaith iddo ef
Ar hyd ei oes druenus.

Mor hyfryd ydyw 'r borau cu
I'r bachgen gwyn sy 'n rhydd,
Ond cenad gwae i'r caethwas du
Yw 'r ceiliog gyda 'r dydd;
Mae 'r wawr yn gwasgar cysur pur
Trwy 'r cread maith o'i chwmpas,
Tra mae 'n pentyru cur ar gur
Yn mywyd blin y caethwas.

Ysgydwa 'r awel frig y twyn,
A dawnsia 'r ddeilen fach,
A miloedd o alawon mwyn
Gôfleidia 'r borau iach;
Yr afon dreigla nos a dydd
I'r môr, heb ddim i'w lluddias,—
Mae 'r greadigaeth oll yn rhydd
Oddieithr Sambo 'r caethwas.

Ryw noson wedi llafur maith
Eisteddai Sambo 'n brudd,
Dan furmur ei doredig iaith
A'r deigryn ar ei rudd:—
"Mae Massa 'n elyn pur i mi,
Er cymaint 'rwy 'n ei weithio,
Does neb trwy 'r ddaear wrendy gri
Ochenaid glwyfus Sambo.

"Tynghedwyd Sambo ddu yn nôd
I boen, a chefn yn friw,
A hyn i gyd oherwydd fod
Ei groen yn ddu ei liw;
O Ryddid hoff! p'odd cefnaist ti
Ar feibion duon Affrig?
Gwynfyd na theimlai 'm gwadnau i
Dy ddaear fendigedig.

"Mae 'm hoes er pan y sugnais fron
Fy mam, yn llawn o gur,
O mam! paham yr enwais hon
I ddeffro cariad pur?
O mam! rwy 'n cofio 'r borau erch
Y rhwygwyd fi o'i mynwes,
Pan ddrylliwyd holl linynau serch
Gan ddwylaw gwaedlyd gormes

"Cofleidiai fi yn dyner iawn,
Cofleidiwn inau mam,
Wrth feddwl am y cam a gawn
Ei serch enynai 'n fflam;
Mi gofia 'i threm,—ei chalon oedd
Am danaf fel ei breichiau,
Yn swn ei thorcalonus floedd
Gwahanwyd mam a minau.

"Gwreichionen olaf cariad pur
Enhuddwyd yn y fan,
A byth er hyny wermod cur
Ddarperir ar fy rhan;
Fy nghalon sydd fel darn o faen
Galedwyd gan ofidiau;
Tywyllwch dudew 'n haen ar haen
Orchuddiant fy syniadau.

"Os tremiaf i'r dyfodiant du,
Mae hwnw fel y nos,
Heb belydr gobaith o un tu
Nac amnaid seren dlos;
O'r newydd daw pob nos a dydd
A llu o greulonderau,
Ac felly 'r caethion truain sydd
Yn ei'feddion gwaeau."

O ormes erchyll! beth a fydd
Dy dynged di ryw bryd?
Pan egyr rhyddid byrth y dydd
I'th ddangos di i'r byd;
Dalenau 'th hanes erch a droir
Ryw dro gan fys cyfiawnder,
A thithau yn y gadwyn ro'ir,
Fe rifwyd dyddiau d' amser.

O ormes erchyll! byddar yw
Dy glust wrth bob rhyw gri,
Swn fflangell lem ar gefnau briw,
Peroriaeth yw i ti;
Ar ol dy gamrau gwaedlyd di
Mae llygaid Hollalluog,
Gofynir gwaed rhyw dorf ddi ri'
Oddiar dy law lofruddiog.

Pelydred golau rhyddid cu
O fôr hyd fôr yn awr,
Datoded rwymau 'r caethwas du
Sy 'n gruddfan am y wawr;
A thodder holl gadwyni 'r byd
Yn gadwyn cyfeillgarwch,
Y "du" a'r "gwyn" fo'n rhodio 'nghyd
Dan aden aur dedwyddwch.

wrthi y freniniaeth ar yr holl Ynys—"unbenaeth Prydain." Arhosai y gâd-flaenoriaeth filwrol yn y Giwdawd hynaf, sef y Cymry; ac o honynt hwy yr oedd y Pendragon neu y penrheolwr milwrol, a chanddo feddiant ar awdurdod anymddibynol am yr amser, lle byddai tebygolrwydd o ymgyrch tramor neu ryw berygl gwladol, i gael ei ddewis. Yr oedd y gadflaenoriaeth yma yr un fath a'r hon a arferid gan Sparta yn Groeg, a chan Rufain yn yr Eidal. Yr oedd pob un o'r deiliaid mor rhydd a'r brenin. Nid oedd yma unrhyw ddeddfau mewn grym heblaw y rhai a adwaenid fel cyfreithiau, neu "iawnderau cyffredin," (cyd-raith.) Ac nid oedd yma gaethweision ychwaith; y caethweision cyntaf yn yr amseroedd dylynol oeddynt y caethion, neu y carcharorion a gymerid mewn rhyfel.

Nid ellid newid mo ddefodau Prydain drwy unrhyw ddeddf neu gyhoeddiad o eiddo y goron neu yr orsedd ddygynnull. Ystyrid hwy fel iawnderau priodol a genedigaeth-fraint pob Prydeiniwr, o ba rai nid allai unrhyw arlywiad dynol ei amddifadu. Mae llawer o'r defodau hyn yn nodedig am eu gwrolfryd uchel a dyngarol; er engraifft, "Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ai aillt ai Cymro y bo: gwraig; plant; a da cylchynawl." "Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ac nis gellir eu rhanu ag arall, ac nis telir yn nghamlwrw: gwraig; plant; ac argyfreu; sef yw argyfreu, gwisg, ac arfau a pheirianau celfyddyd freiniawl; canys hebddynt nis gellir ei gyfiawn ansawdd i wr; ac nid iawn i gyfraith anwriaw gwr, neu anghelfyddu celfyddyd."

Priodola y cyfreithwyr dysgedicaf brif ddefodau ein hynys i'r ddeddf Droianaidd a ddygwyd yma gan Brut. Mae yr Arglwydd Prif Farnwr Coke, (y Rhaglith i Gyf. III. o'i Adroddion,) yn myntumio "bod deddfau cyntefig y wlad hon wedi eu cyfansoddi o'r cyfryw elfenau ag a ddetholodd Brut gyntaf o'r hen osodedigaethau Groegaidd a Throianaidd."

Rhys. A blygi di Dafydd o flaen allor serch?
Dafydd. Na wnaf byth, na wnaf byth.
R. A ro'i di dy hunan yn aberth i ferch?
D. Na wnaf byth, na wnaf byth.
D. Ai tybed, Rhys anwyl, wnei dithau mo hyn?
R. Na wna 'n wir, na wna 'n wir.
D. Mae cwlwm priodas yn gwlwm rhy dŷn,
R. Ydyw 'n wir, ydyw 'n wir.
Y ddau. Mae cwlwm priodas yn gwlwm rhy dŷn,
Pwy byth gymer wraig tra bo gwragedd fel hyn.

DDOI DI, GWEN!

A ro'i di genad eneth lân
I'th anerch gyda phenill?
Fy mynwes lysg gan serchog dân
O eisiau gallu 'th emill;
Ac O! na allwn er dy fwyn
Ro'i f'enaid yn fy ngeiriau,
A'th yru i gredu iti ddwyn
Y cyfan o'm serchiadau:
Ond O! nid geiriau ingc ar bapur gwyn,
A fedr ddweud y filfed ran o hyn.

A wnei di wrando ar fy llef?
Llef bron sy'n llawn anwyldeb,
Llef un a'th gara fel mae'r Nef
Yn caru delw purdeb;
Llef un ystyria glod a bri
Yn ddim wrth gariad meinwen,—
Llef un a lyna wrthyt ti
Fel iddew am y goeden:
A chyn y gollwng iddew gorff y pren,
Rhaid myn'd a'i fywyd,—felly finau, Gwen.

O'th gwmni anwyl!—na chawn i
Un haner awr o'i fwyniant,
Mor ddedwydd byddwn gyda thi
A'r angel mewn gogoniant;
Mae 'r byd yn bobpeth gyda thi,
A dim pan heb dy gwmni,
Dy golli sydd yn nos i mi,
A'th gael sydd wawr goleuni;
Ai tybed y gadewi i'm, O eneth dlos,
I fyw a marw mewn rhyw anobeithiol nos?

Mae 'th dremiad arnaf fel y llòer
Yn edrych o'r uchelder,—
Mor dlws, mor glir, ac eto 'n oer
Fel delw ar fy nghyfer;
Mae 'th wên a fu yn nefoedd im'
Yn gwanu fy nheimladau;
Ac wrth ei gwel'd wna f' enaid ddim
Ond gwaedu 'i hun i angau;
O na bai 'r Greenland sy'n dy fynwes di,
Yn troi yn Affric grasboeth fel f' un i.

Disgyned fflam o gariad cu
I wneud dy fron yn gynes,
Ai tybed Gwen i'th galon di
Droi 'n gareg yn dy fynwes;
Wrth ddrws dy galon, anwyl fun,
Rwy 'n curo 'n ddyfal, ddyfal,
Ac nid oes dim ond angau 'i hun
A feiddia ddod i'm hatal;
Ac os na wnei di agor,
Cei wylio nghalon i,
Yn rho'i ei churiad olaf
Ar drothwy 'th galon di.

BU FARW YR ENETH.

Bu farw yr eneth! a'r Nefoedd a ŵyr
Y chwerwder a deimlodd wrth farw;
A'r lleuad yn wylaidd dan amrant yr hwyr
Edrychai i'w gwyneb oer, gwelw.

Bu farw yr eneth yn ymyl y ddor,
A phwysau ei phen ar y rhiniog,
A rhewai dyferion y bargod oer, oer,
Ar fynwes fu unwaith yn wresog.

Bu farw ar drothwy tŷ anwyl ei thad,
Yr hwn roddodd dro i'r agoriad,
Ar ol troi yr eneth anwyla 'n y wlad
O'r tŷ, am mai t'lawd oedd ei chariad.

Bu farw y ferch, tra â'i dwrn bychan gwyn
Y curai y ddôr er ys meityn,
Ond perffaith ddistawrwydd atebai pryd hyn,
Fod tad wedi bolltio 'n ei herbyn.

Bu farw, tra llithrai rhyw air trist neu ddau,
Dros wefus oedd wanaidd a gwelw;
"Yn ffyddlon i *un* rwy' o hyd yn parhau,
Ar allor ffyddlondeb rwy 'n marw."

Bu farw, a'i beddrod a erys o hyd
Yn ddarlun o dad heb ddim teimlad;
Y twmpath gwyrdd yna a ddengys i'r byd
Fod nerth anorchfygol mewn cariad.

O NA BAWN YN AFON!

ALAW:—"*Rosalie the Prairie Flower.*"

MYN'D ymlaen mae 'r afon loew, loew, lân,
Rhwng y dolydd lle mae blodau fyrdd;
Chwerthin mae am ben y 'Deryn du a'i gân,
Byngcia ar y cangau gwyrdd:
Myn'd ymlaen mae 'r afon loew, loew, lân,
Nid yw 'n hidio rhwystrau bach na mawr;
Myn'd ymlaen mae 'r afon loew, loew, lân,
Myn'd ymlaen i lawr, i lawr:
Rhwng ei cheulanau araf yr ä,
Gwenu yn llon ar bobpeth a wna,
Siarad dwyfol iaith yn mysg y graian mân
Mae yr afon loew, lân.

O na bawn i'n afon loew, loew, lân,
Unrhyw ofid dwys na phoen ni chawn;
Treulio f' oes ynghanol blodau tlws a çhân,—
Fel yr afon, O na bawn!
O na bawn i 'n afon loew, loew, lân,
Fel y gallwn beidio hidio 'r byd,
Chwerthin ar flinderau 'r ddaear fawr a mân,
Myn'd ymlaen, ymlaen o hyd:
Teithio yn ddiwyd i dŷ fy nhad,
Tynu o hyd tua môr cariad rhad;
Treiglo tuag eigion gwynfyd pur a chân,
Fel yr afon loew lân.

RHYWBETH MWY.

SAIF y dyn uwch ben goludoedd,
Prif ddymuniad calon ffol,
Rhifa 'r arian wrth y miloedd
Gan eu gwasgu yn ei gol;
Llawer un mewn awydd annoeth
Fu 'n ymdd'rysu gyda hwy,
Ond ar garnedd auraidd cyfoeth
Lleia 'r enaid,—*Rhywbeth Mwy.*

Rhed un arall at bleserau,
Gan gofleidio mwyniant byd,
Trocha 'i enaid yn y ffrydiau
Sydd yn llygru dyn bob pryd;
Pan yn nofio 'r dyfroedd swynol
Teimla yn ei enaid glwy',
Ac yn nghanol mwyniant bydol
Llefa 'r enaid,—*Rhywbeth Mwy.*

Rhed y llall at dduwies mawredd
Gan ymgrymu iddi hi,
Ymgais hwn yw cael anrhydedd
Enw bydol a phob bri;
Ar ol dringo 'r grisiau hyny
Yn llawn o iechyd nerth a nwy',
Metha gael tawelwch felly,
Llefa 'r enaid,—*Rhywbeth Mwy.*

Llecha 'r llall mewn rhyw ystafell
Lle mae llyfrau 'n haen ar haen,
Pleser hwn yw byw 'n ei lyfrgell
A thalentau 'r byd o'i flaen;
Plymia 'r gwersi dwfn di waelod
Sydd yn gronfa ynddynt hwy,
Ond yn nghanol ffrwyth myfyrdod
Llefa 'r enaid,—*Rhywbeth Mwy.*

Try y llall i feusydd gwyrddion
Yr Ysgrythyr Sanctaidd, wiw,
Bwyty 'r cynyrch pur a ffrwythlon
Sydd yn tyfu 'n ngwinllan Duw;
Teimla arogl Rhosyn Saron
Fel yn llwyr wellau ei glwy',
Yna gwaedda 'r enaid,—"*Digon,*
Nid oes eisiau dim sydd fwy."

CYWYDD DIOLCHGARWCH,

(Chwedl yr hen feirdd) am ffon a gefais gan fy nghyfaill N. BENNETT, *Yswain.* (Nicola), *Trefeglwys.*

Fr llonwych gyfaill union
Wnaeth harddaf, hoffusaf ffon
I MYNYDDOG;—mae'n haeddu
Am y rhodd fad, ganiad gu.
Tyr'd awen gymen o'th gôd,
Diosga hyd dy wasgod;
Cyweiria dànau cariad
I ddwyn mel o dy ddawn mad,
A diolch mewn brwd awydd
Heb un trais i BENNETT rydd.
Yn awr caf y ffon eirioes
I'm cynal cystal a'm coes,
Gwna 'm dilyn o hyn i henoed,
Os deil ei thrwyn, cystal a throed.
Wyr eres dewch yr awrhon
I weled hardded yw hon,
Ei chlapiog goes a'i chlwpa
Sy' lawn dwf,—sy o lun da.
Os daw y ddunos dywell
Dros anian a'i hugan hell,
A minau yn mhell o'm hanedd
Yn pallu dod o'r pwll di hedd;
Y ffon a'm hamddiffyna,
Wrth f'w'llys fy nhywys wna.
Os bwriada ysprydion
Rodio gwyll yr adeg hon,
Laeniaf yr holl gâd elynol
Ffwr 'n un haid i uffern yn ol!
Wandio i lawr gŵn diles
Yn yroedd wna 'r ffon eres;
I Ddaeargi rhydd ergyd
Ar ei ben, a'i gyr o'r byd.

Cawri uchel,—corachod
Geir dan haul, a gwŷr di nod
Rêd ffwrdd rhag curiad y ffon,
O'r golwg yn llwfr galon.
Ni chym'raf ragor o'm sorri,—
Ddowch chwi feirdd i heddwch a fi?
Oes dawel gewch os deuwch,
Onide eich lle fydd llwch;
Os clyw Cymru eich rhu a'ch rhoch,
Pwniaf bob copa o honoch.

HOFFDER PENAF CYMRO.

CANIC.

Hoffder penaf Cymro yw
Gwlad ei dadau;
Dyna'r fan dymuna fyw
Hyd ei angau:
Chwareu ar ei bronydd,
Yfed o'i ffynonydd,
A gwrando cân, yr adar mân
Delorant yn ei gelltydd.

Clywed rhu ei nentydd gwylltion,
Ac yfed iechyd o'i hawelon,
Yw prif ddymuniad pena'i galon:
Mae golwg ar ei dolydd gwiwlwys,
Yn adlewyrchiad o baradwys,
Ac awyr iachus ei mynyddoedd
Yw 'r awyr iachaf dan y nefoedd:
Mae 'ngwlad a fy nghalon fel wedi ymglymu,
Yn uwch, yn uwch dyrchafer hen Gymru

UN GOEG OEDD Y GNEUEN.

Y Miwsig yn y "Gyfres Gerddorol," Rhan V., gan Mr. J. D. Jones.

Ar frigyn hen gollen yn ngwrych top y rhos
Mi welais un gneuen,
Edrychai o draw yn un hynod o dlos
Mor felen a sofren;
Mi wnes benderfyniad y mynwn i 'hi
Er cymaint y drafferth,
Mae clamp o gnewyllyn i'w gael, ebe fi,
Mewn cneuen mor brydferth.

Tra 'n llamu trwy 'r d'rysni, mi rwygais fy nghôt
Wrth ryw hen fieren,
Ac wedi cael ffwdan braidd fwy na gwerth grôt,
Cyrhaeddais y gollen;
Ar ol myned ati, nid mymryn o waith
Oedd cyraedd y gangen,
Ond wedi im' gynyg ryw chwe' thro neu saith,
Mi gefais y gneuen.

Ac wrth im' ei thori, mi holltais ryw ddau
O'm danedd yn yfflon,
Mae 'r ddanodd er hyny heb byth esmwythau,
Bron tori fy nghalon;
'D oes ryfedd fy mod i yn methu o hyd
Ag edrych yn llawen;
A dyna 'r peth gwaethaf o'r stori i gyd,—
Un goeg oedd y Gneuen.

Y llangciau ddygwyddodd gael gwragedd lled wael
A wyddant i'r mymryn,
Y casgliad sydd fwyaf priodol i'w gael
Oddiwrth yr hanesyn;
Ar ol cael colledion a llawer o fyd
I gyraedd y feinwen,
Yr hyn sy 'n eu nychu i'w meddwl o hyd
Mai *coeg oedd y Gneuen.*

Ar aelwyd annhrefnus eistedda y gŵr
Gan edrych o'i ddeutu,
A synu fod gwneuthur cyfeillach a'r dŵr
Mor gas gan ei deulu;
Yn hulio 'r holl aelwyd yn ymyl ei droed
Mae 'r lludw 'n un domen,
Ac wrtho ei hunan fe dd'wed yn ddioed,
Un goeg oedd y Gneuen.

Mae gwe y pryf copyn yn nghonglau y ty
Er rywbryd y llynedd,
A'r *plates* ar y dresser yn edrych yn ddu
O eisiau ymgeledd;
Mae 'r llawr heb ei 'sgubo,—mae lludw yn drwch
Ar hyd yr holl ddodr'en;—
Bys du esgeulusdod argraffodd mewn llwch—
Un goeg oedd y Gneuen.

PAN DDAW YR HAF.

Y Mwsig gan Mr. E. James, Newcross.

Pan ddaw yr haf a'i dyner hin
I loni bro a bryn,
Cawn drwsio bedd y gauaf blin
A blodau gwyrdd a gwyn;
Cawn weled myrdd o egin mân
Yn tyfu 'n ngwres yr haul,
A chlywed cân yr awel lân
Ar dànau 'r delyn ddail:
Cawn gasglu blodau hyd y glyn
A rhodio'r dyffryn dir,
A chanu marwnad gauaf gwyn
Ar goryn clogwyn clir.

Daw 'r haf i dynu newydd gân
O dànau cangau 'r coed,
Lle sang yr haf mae meillion mân
Yn tyfu 'n ol ei droed;
Prydferthwch wisga am ei ben,
A'i ddwylaw 'n llawnion sydd;
Ac ar ei fron mae 'r lili wen
Mor deg a gwawr y dydd:
Cawn gasglu blodau, &c.

Ar wely 'r haf, ffarwel i'r rhew
Roi blaen ei droed i lawr,
A'r lle bu 'r eira 'n haenen dew
Daw haen o flodau 'n awr;
Daw 'r byd i wenu ar y nen
Mewn newydd wisg o ddail,
Daw hithau 'r awyr las uwch ben
I wenu bob yn ail:
Cawn gasglu blodau hyd y glyn
A rhodio 'r dyffryn dir,
A chanu marwnad gauaf gwyn
Ar goryn clogwyn clir.

Y BACHGEN DIDEIMLAD.

Eisteddai henwr, llwyd ei wallt,
Ar bincyn craig,
A thano rhuai tonau hallt
Y brigwyn aig;
Bu 'i fron yn nyth i lawer clwy',
A gorthrymderau fwy na mwy;
A than dywarchen mynwent plwy'
Yr oedd ei wraig.

Cynhyrfai corwynt Hydref fru
Y dyfnder mawr,
A'r haul ar fynwes cwmwl du
Ymsuddai 'i lawr;
A chwifiai 'r gwyntoedd y gwallt gwyn
Ar hyd ysgwyddau 'r henwr syn,
Eisteddai ar y graig ddi gryn
Er's pedair awr.

'R oedd bron a rhynu 'n delpyn oer,
Tra 'stormus nwyd—
Y môr a luchiai ei glafoer
I'w wyneb llwyd:
Fe deimlai ar ei galon wan
Ryw lesmair, a chwant bwyd mewn rhan,
Er hyn ni wyddai am un man
Y caffai fwyd.

Gwnai gais at godi, er mor wan,
Dros amser maith,
A'r gwynt a'i gwthiai 'n ol i'w fan
Am lawer gwaith;
Ond ildio wnai i'r gwynt a'i drais,
Ac wedi methu yn ei gais,
Clustfeiniai 'r 'storm i wrando 'i lais,
A dyma 'i iaith:—

"O mor resynus wyf yn awr!
Mewn unig fan,
Nis gwn am neb trwy 'r holl fyd mawr
A rydd im' ran;
Fy mab a'm gwthiodd dros ei ddôr,
(Ac yntau 'n byw mewn llawnder stôr,)
I drengu 'n swn rhuadau 'r môr,
Yn hen, a gwan.

"Ei holl deimladau mabaidd ef
O'i fynwes ffoes,
Ac ni wrandawai 'm hegwan lef
O dan fy loes;
Agorais iddo ddwylaw hael,
Pan oedd yn faban bychan gwael,
A dyma 'r tâl wyf finau 'n gael
Yn niwedd oes!

"Fy mab a ddeliais ar fy nglin
Am lawer awr,
Rhoi's lawer cusan ar ei fin,
Heb feddwl fawr
Mai dyma'r bachgen wnai fy nhroi
Dros drothwy 'r tŷ, gan feiddio 'i gloi,
A minau 'n hen heb le i roi
Fy mhen i lawr.

"Mae ef yn eiste 'r fynyd hon
Ar aelwyd gu,
A phawb o'i ddeutu 'n iach a llon
Yn gwenu 'n llu;
Heb feddwl fawr am henwr llwyd,
Sydd bron newynu eisiau bwyd,
Heb wely gwell na chareg lwyd,
Ar noson ddu."

Rhoes angau derfyn ar ei oes,
A'i chwerw hynt,
Anadlodd anadl olaf oes
I gôl y gwynt;
Dan sibrwd gweddi o'r iawn ryw
Ar ran ei fab i glust ei Dduw,—
'R oedd cariad tad wrth farw 'n fyw,
A chryf fel cynt.

PARADWYS Y DDAEAR.

PARADWYS y ddaear yw Cymru fach lonydd,
A bendith y Nef ar ei phen;
'R wy'n caru gwylltineb ysgythrog ei chreigydd
A'm serch a ymglyma o amgylch ei moelydd
Fel iddew 'n ymglymu am bren.
Coleddwn ein hiaith, a mawrygwn ein gwlad;
Tra cura y galon yn gynes,—
Tra gronyn o serch yn ein mynwes,
Carwn hen Gymru fad.

Mae 'r awel a chwery a grug ei mynyddoedd,
A'i dyfroedd yn iechyd i gyd;
Ac yma mae 'r awen, a'r delyn trwy 'r oesoedd,
A rhyddid yn byw yn mynwesau y glynoedd,
Addurnant baradwys y byd.
Coleddwn ein hiaith, &c.

Mae enwau ei dewrion trwy 'r byd yn ddiareb,
Ni fagodd y ddaear eu hail;
Ei harwyr gwladgarol sydd lawn o wroldeb,
A'u henwau ddarllenir ar graig anfarwoldeb
Tra goleu yn llygad yr haul.
Coleddwn ein hiaith, &c.

Cael bwthwn i fyw, a chael bedd a ddymunaf
Yn rhywle yn Nghymru bach lon,
A'm gweddi at Dduw mewn Cymraeg a anadlaf,—
Bendithia hen Gymru, O! Dad trugarocaf,
Dy nodded fo'n aros ar hon.
Coleddwn ein hiaith, a mawrygwn ein gwlad;
Tra cura y galon yn gynes,
Tra gronyn o serch yn ein mynwes,
Carwn hen Gymru fad.

Y TE.

Y Mwsig, yn y "Gyfres Gerddôrol," Rhan 29

Os bydd gwr a gwraig mewn ffrae,
Fel mae weithiau 'n digwydd;
A'r gwr am ddangos, fel pe bae
Pwy sydd uwcha 'i ysgwydd;
Os gall hi liniaru 'i wg
Nes daw "Moc" i ferwi,
Bodda 'r "Tê" ei natur ddrwg
Ddim ond iddo 'i brofi:
Am gael yspryd dyn i'w le
Yn drefnus, drefnus;
Eithaf peth yw pryd o "Dê,"
Melus, melus.

Os bydd gwraig, dro arall, braidd
Fel pe am golynu,
A'i geiriau 'n glynu fel col haidd
Wrth i'r gwr eu llyngcu;
Swn y llestri yn eu lle
Leddfa 'r 'storm a'r dwndwr,
Todda geiriau 'r wraig mewn "Tê"
Fel y todda 'r siwgwr:
Am gael yspryd gwraig i'w le
Yn drefnus, drefnus;
Eithaf peth yw pryd o "De,"
Melus, melus.

Pan fydd gwaew yn dy ben
Nes bydd ar ymagor,
Gofyn di am De gan Gwen
Lle myn'd at y doctor;
Swn y llestri ar y bwrdd,
Sü y dwfr yn berwi,
Yr y gwaew blin i ffwrdd
Cyn i ddyn ei brofi;

Am gael iechyd dyn i'w le,
Yn drefnus, drefnus;
Eithaf peth yw pryd o De,
Melus, melus.

Os bydd arnoch eisiau cael
Pob hanesion hynod,
Ceisiwch swp o wragedd hael
I gael "Te" ryw ddiwrnod;
Tingc y llestri Te, a'r llwy,
Sydd fel miwsig dyddan,
Yn eu swn cewch hanes plwy'
Yn wir a chelwydd allan:
Am gael hanes gwlad a thre'
Yn drefnus, drefnus;
Eithaf peth yw pryd o De,
Melus, melus.

CARTREF.

ALAW—"*The tight little Island,*"

WEDI teithio mynyddoedd,
Llechweddi a chymoedd,
A llawer o dirgedd blinderus;
'Does unlle mor swynol,
Na man mor ddymunol
A chartref bach siriol cysurus:
O fel mae 'n dda gen' i 'nghartef,—
Mae swn bendigedig mewn '*cartref*;'
Chwiliwch y byd, drwyddo i gyd,
'D oes unman yn debyg i gartref.

Pan fo'r gwyntoedd yn chwythu,
A'r 'storm yn taranu
Ei chorn i groesawi y gauaf;
Mae nefoedd fy mynwes
Yn yr hen gornel cynes,
Yn nghwmni fy nheulu anwylaf:
O fel mae'n dda gen' i ' nghartref, &c.

Mae yr aelwyd ddirodres
Yn agor ei mynwes
I'm derbyn yn gynes, heb genad;
Ac mae 'r hen gadair hithau,
Yn estyn ei breichiau,
A bron a dweud geiriau o gariad:
O fel mae'n dda gen' i 'nghartref, &c.

Mae y dodrefn yn gwenu
I gyd o fy neutu,
A phrin mae'r piseri heb siarad;
Ac mae'r hen awrlais tirion
Pan cura ei galon,
Yn siarad cysuron croesawiad.
O fel mae 'n dda gen' i ' nghartref,—
Hen le bendigedig yw cartref;
Chwiliwch y byd, drwyddo i gyd,
'D oes unman yn debyg i gartref.

Y FODRWY BRIODASOL.

Y fodrwy briodasol
Sydd ar y bys yn dweud,
Fod dau yn byw yn ei chanol
A'r ammod wedi 'i gwneud;
Mae 'n grwn 'r un fath a chariad,—
Difwlch fel yntau yw;
Mae 'n gylch am fyd o deimlad
Anwylaf dynolryw.

Ar forau i'engtyd swynol
Edrycha 'r eneth lon,
A llygaid clir, gobeithiol,
I gylch y fodrwy gron;
Mae 'n gweled nef o hawddfyd
O'i mewn, a d'wed y ferch,—
"Ah! dyma 'gylch y gwynfyd,'—
Cylch cysegredig serch."

Mae dymuniadau calon
Yr eneth fywiog iach,
A sylwedd ei gobeithion
Yn byw 'n y fodrwy fach;
Wrth nofio cefnfor cariad,
Mae nodwydd gobaith llon
Yn wastad a'i chyfeiriad
Yn syth i ganol hon.

Mae hon 'r un fath a'r tywod
Sy 'n wregys am yr aig,
Yn wregys am yr ammod
Sy 'n uno gwr a gwraig;
Mae serch a chywir undeb
Yn cadw 'r fodrwy 'n gron,
A llanw môr anwyldeb
Sy 'n chwyddo byth yn hon.

Mae cariad yn y galon
Yn gwneud ei nefol nyth,
A holl serchiadau dynion
Ehedant yno 'n syth;
Mae hithau 'r fodrwy eres
Fel ffrwyth ar gangen pren,
Yn siarad iaith y fynwes
Ar law yr eneth wen.

Waeth beth a fyddo 'i defnydd,
Os bydd y serch yn grwn,
Maent oll 'r un fath a'u gilydd
Gan deimlad cryf fel hwn;
Lle bynag byddo cariad,
Boed ef yn llawn neu 'n llwm,
Mae cysur yno 'n wastad,
Pe ba'i y fodrwy 'n blwm.

Addurna rhai 'u modrwyau
A pherlau gwledydd pell,
Fel pe bae addurniadau
Yn gwneud priodi 'n well;
Ond bywyd llawn o rinwedd,
Ah! dyma addurn drud,
Mae hwnw yn y diwedd
Yn werth holl berlau 'r byd.

Mae serchog gymydogion
Lle byddo heddwch llawn,
A rhwymyn pur gyfeillion
Yn rhwymyn *agos* iawn;—
Mae modrwy fawr cymdeithas
Yn *nesu* mab a mun,
Ond modrwy fach priodas
Sy 'n gwneud y ddau yn *un*.

Mae mil o addurniadau,
A gwenau bron heb ri';
Ac oes o amgylchiadau
Yn gorwedd ynddi hi:
Mae 'n gryfach fil o weithiau
Na chreigiau 'r ddaear hon,
'D oes dim ond dyrnod angau
All dori 'r fodrwy gron.

MEDDYLIAU OFER IEUENGTYD.

Wr ieuangc, wrth ollwng y ffrwyn i dy feddwl
I edrych yn mlaen ar bleserau y byd;
Wrth dynu darluniau o einioes ddigwmwl
Meddyli mai mwyniant fydd d' amser i gyd;—
Arafa dy gamrau,—ystyria 'th ffyrdd anghall
Efallai fod *gofid* yn meddwl fel arall.

Wrth edrych yn mlaen ar ryw gyfnod dych'mygol,
Mae 'n hawdd genyt feddwl am gyfoeth a bri,
A rhed dy ddychymyg yn mhell i'r dyfodol,
A lleinw dy logell ag aur yn ddi ri';—
Arafa dy gamrau,—ystyria 'th ffyrdd anghall,
Efallai fod *t'lodi* yn meddwl fel arall.

Dy feddwl goledda fod coron anrhydedd
Yn goron osodir ryw dro ar dy ben;
Dychymyg gymera ddyrchafiad, a mawredd,
A gwenau cyfeillion i fritho ei len;
Arafa dy gamrau,—ystyria 'th ffyrdd anghall
Efallai fod *siomiant* yn meddwl fel arall.

Wrth edrych ar iechyd yn gosod ei rosyn
I harddu dy wyneb,—ystyria ei werth;
Wrth deimlo corff iachus, a nwyf yn mhob gewyn,
Mae 'n hawdd genyt feddwl y pery dy nerth;
Arafa dy gamrau,—ystyria 'th ffyrdd anghall,
Efallai fod *cystudd* yn meddwl fel arall.

Wrth sylw ar d' einioes yn ngolau trybelid,
Yr heulwen ddisgleiria ar forau oes glir,
Gwnai gynllun o fywyd llawn c'yd a'r addewid,
Edrychi ar d' einioes yn gyfnod hir, hir;—
Arafa dy gamrau,—ystyria 'th ffyrdd anghall,
Efallai fod *angau* yn edrych fel arall.

DACW 'R BWTHYN GWYN.

ALAW—*"Just before the battle, mother."*

Dacw 'r bwthyn gwyn ym ganwyd
Ar y llechwedd bychan, tlws;
Dacw 'r pistyll gloew 'n disgyn
Ar y gareg wrth y drws:
Dacw 'r hen gelynen anwyl
Yn ymgrymu gyda 'r gwynt,
Dan ei chysgod bum yn chwareu
Fil o weithiau 'r amser gynt:
Ond ffarwel i'r holl fwynderau
Gefais pan yn faban iach,
Mynwes ysgafn, ddi ofidiau,
Ydyw mynwes plentyn bach.

Borau disglaer di gymylau
Ydyw borau bywyd brau,
Cyn y daw canolddydd einioes
Mae 'r awyrgylch yn trymhau;
Gofid eilw ofid arall,—
'Stormydd ddaw i hulio 'r nen,
Ni ddaw diwrnod heb ei gawod
I ymdywallt am fy mhen:
Ffarwel byth i'r holl fwynderau, &c.

P'le mae 'r hen gymdeithion difyr
Oedd yn llawn o nerth a nwyf?
Ateb mae 'r twmpathau gwyrddion
Sydd yn mynwent oer y plwyf;
Amser chwalodd nyth fy ngwynfyd
Gyda phedwar gwynt y nen,
Pan a'i 'n awr i geisio cysur,
Trallod chwardda am fy mhen:
Ffarwel byth i'r holl fwynderau, &c.

YR ENETH AR Y BEDD.

ALAW :—"*Annie Lisle.*"

DAN yr Ywen dewfrig gauad
Ar dywarchen lwys,
Gwelais eneth fach amddifad
Yn och'neidio 'n ddwys,
Ebai 'r fechan, "Dyma 'r beddrod
Lle mae 'm rhiaint cu,"
Ond o ganol loes a thrallod
Codai 'i golwg fry;—
D'wedai 'r awel dyner, denau,
Yn yr Yw uwch ben;
Nid oes galar na gofidiau
Yn y nefoedd wen.

Hiraeth wthiai 'r dagrau gloewon
Dros ei gruddiau mad,
Yn y beddrod 'r oedd ei chalon
Gyda 'i mam a'i thad;
Môr o dristwch ydyw 'r ddaear,
Mwy i'r eneth gu,
Ond o ganol tònau galar
Codai 'i golwg fry;
D'wedai 'r awel, &c.

"O na allwn wylo 'nghalon,"
Ebai 'r eneth gu,
"Fel bo 'nagrau 'n berlau gloewon
Ar y beddrod du:
Nid yw 'nhad a mam yn wylo
Yn y nefoedd wiw,
Ac mae 'r Iesu anwyl yno,—
Tad amddifaid yw:"—
D'wedai 'r awel dyner denau, &c.

PRIODAS HUW AC ANN.

Mae ambell un wrth geisio gwraig
Yn ceisio bod yn gryn 'sgylaig,
Ond llawer un a'i cafodd hi
Heb fedru countio "*Rule of Three.*"

Peth diflas iawn gan bob rhyw ferch
Yw son am rywbeth heblaw serch;
Addition yw eu cownts i gyd,
Sef *addio* un ac un yn nghyd.

Fe ddarfu Huw a'i anwyl fun
Gyd ddysgu *addio* un at un,
Ond mewn *addition* mab a merch,
Mae 'r ddau yn un yn nghwlwm serch!

'R y'ch chwithau 'n un, er bod yn ddau
Ac un y byddoch yn parhau;
Gweniadau siriol o bob man
Belydro byth ar Huw ac Ann.

Ar ol priodi, pawb heb feth
Sy 'n dysgu *multiplyo* peth;
A hwyrach yn mhen amser teg
Y *multiplyir* dau yn ddeg.

Beth bynag, boed i'ch yrfa hir
O dan weniadau awyr glir;
A phan ddiffodda 'r anadl wan,
Y nef fo 'n derbyn Huw ac Ann.

ADGOFION PLENTYNAIDD.

Anfonodd yr awdwr y llinellau hyn at ei anwyl gyfaill Mr. W. Jones, gynt o'r Tymawr, Llanbrynmair, yr hwn a ymfudodd i'r America.

Ah! fy nghyfaill hawdd yw cofio
Orlau dedwydd borau oes,
Pan oedd gafael byd heb gydio
Yn ein bryd i beri loes;
Cofio 'r oriau llawn o fwyniant
Dreuliem hyd ein hardal iach,—
Rhoddwn fyd, pe yn fy meddiant,
Am fod eto 'n blentyn bach.

O! 'r fath ddarlun prydferth, eglur,
Sydd y fynyd hon o'm blaen,
Sef adgofion oriau difyr
Dreuliem gylch yr afon Iaen;
Corwynt anghof chwyth yn erwin,—
O'i flaen llawer adgof ffoes,
Ond fel derwen yn y ddryghin
Saif adgofion borau oes.

Cwrdd a wnaethom fil o weithiau
Wrth y "bont" yn morau 'r dydd,
Yna dechreu ar y campau,—
Chwareu, neidio, rhodio 'n rhydd;
Colli amser myn'd i'r ysgol,—
Chwareu weithiau gryn ddwy awr,
Yna teimlem arg'oeddiadol
Bwysau 'r wialen fedw fawr.

Gwnaem yn ddirgel wrth ein llyfrau
Ryw fân gastiau fwy na mwy,
Gorfod byw heb godi 'n penau
Wnai un awr cyhyd a dwy;
'N ol cael awgrym am ollyngiad,
Aem i chwareu amser maith,
Gwelem ddwyawr fel dau eiliad,
Gan felysed oedd y gwaith.

Maes y chwareu ddyl'sai enw'r
Hen "Glwt Glas" gael bod o hyd,
Ond yn awr mae beddau 'r meirw
Yn ei hulio bron i gyd;
Wrth y llanerch anwyl hono
Piniwyd hen adgofion fyrdd,
Ond mae rhai fu 'n chwareu yno
Heddyw dan ei gwyneb gwyrdd.

A y'ch chwi 'n cofio 'r chwarau "*bando*"
Fyddai ar y "Llanerch wen"?
Yno cadd aml hogyn deimlo
Pwysau'r "clap" yn nghyd a'i ben
Wedi methu chwareu chwaneg
Pwyntiem dranoeth i gyd gwrdd,
Os na wnaem 'r oedd rhaid rhoi careg
Ar ben canllaw "Pont-glyn-hwrdd."

Pysgota buom lawer adeg,
Dal, a gadael rhai ar ol,
Gwyddem lun a maint pob careg
O'r Ddolfach hyd at Benddol;
Llawer cenllif fu'n chwyrnellu
Wedi hyny 'n wyllt i lawr,
Fel nad oes o'r ceryg hyny
Nemawr un yn aros 'n awr.

Amser sydd ar chwyrn olwynion
Yn ymdreiglo yn ei flaen,
Pur ychydig o'r golygon
Heddyw erys fel o'r blaen;
Ond mae penau 'r hen fynyddoedd
Eto 'n aros megys gynt,
Gan roi her i ymadferthoedd
'Stormydd blin, a nerth y gwynt.

"Moel Cae twpa" sydd yn aros
Am y cwm a'r "Esgirfraith."
Gwylio 'r fro mae 'r "Gareg-ddiddos,"
Fel y gwnai er's blwyddau maith;
Sudda 'r haul dros "Gader Idris"
Pan ddaw 'r hafddydd ar ei hynt,
Dyna bron yr oll a erys
O olygon dyddiau gynt."

Hawdd yw nyddu gwael benillion
Ar adgofion boreu oes,
Yno mae defnyddiau ddigon
Anwyl gyfaill, onid oes?
Darlun ar ol darlun tlylen
Ddaw i'r cof heb unrhyw ball,
Fel mae 'n anhawdd iawn i'r awen
Enwi 'r naill o flaen y llall.

"FFRWD FAWR Y PENNANT."

Hen ddernyn llawn addurniant—rhuadwyllt
Yw "Ffrwd fawr y Pennant;"
Anian yn ei gogoniant
Ro'i fy Ner yn nhwrf y nant.

Dros grib y daneddog glogwyn—i'w daith
Ymdeifl y dwfr brigwyn;
E roes Ior mewn rhaiadr syn
Fawredd yn mhob dyferyn.

Mae 'n disgyn i lyn aflonydd—eilwaith,
Gan ymrolio beunydd;
Yn y bâr trochioni bydd,—
O ruadwy ferwedydd!

A haul anian melynwawr,—a lawen
Dryliwia 'r ffrwd erfawr
Yn rhyw enfys eirianfawr,
Groga fyth dros y graig fawr.

NI WN I P'RUN AM HYNY.

Y Mwsig yn y "Gyfres Gerddorol," Rhan IX., Mr. J. D. Jones, A.R.C.P.

Cwrdd a wnawn yn nghysgod llwyn
A'r eneth wy 'n ei charu,
Mentrais ofyn yn y fan
A ddoi hi i'r Llan eleni?
Ond trodd ei chwt a d'wedai 'r fun,—
"Nis gwn i p'run am hyny."

Cyn pen deufis 'r oedd y ferch
O draserch bron a d'rysu,
Holi wnai 'n druanaidd iawn
A wnawn i ffyddlawn lynu?
D'wedais inau wrth y fun,—
"Nis gwn i p'run am hyny."

Pob hen langc o fewn y byd
A ddeil o hyd i daeru,
Mai gwell i ddyn fod heb un ffrynd
Na meddwl myn'd i garu,—
Byw yn fynach arno 'i hun,—
"Nis gwn i p'run am hyny."

Y sawl briododd forau 'u hoes
Sy 'n dal yn groes i'r rhei'ny,
Mai llawer gwell i bawb o'r braidd,
(Dros fyw ar haidd,) briodi;
Ffoledd yw fod dyn ei hun,—
"Nis gwn i p'run am hyny."

Myn'd ymlaen fel hyn mae 'r byd
A phawb o hyd a'i stori,
Yn groes i'w gilydd ar un gwynt,
Nes ydynt bron a'm gyru
I ddweud wrth wrando pob rhyw ddyn—
"Nis gwn i p'run am hyny."

CYMRU, CYMRO, CYMRAEG.

ALAW :—"*The good Rhine Wine.*"

AWYR hen fynyddoedd Cymru iach
Yw 'r awyr buraf brofais,
A swn ei nentydd bywiog, bach,
Yw 'r swn pereiddia' 'rioed a glywais;
Tra t'w'no seren yn y nen,
Yn uwch, uwch, uwch, eled Cymru wen.

Penderfynu sefyll fel y dur
Dros ei iawnderau 'n mhobman,
Ac esgyn grisiau rhinwedd pur
Fo nod pob Cymro 'gwaed coch cyfan;
Tra t'w'no seren yn y nen,
Yn uwch, uwch, uwch, eled Gymru wen.

Oes y byd i'r iaith Gymraeg, a chân,
A thelyn anwyl Cymru,
A'r hen alawon llawn o dân
O oes i oes fo 'n cael eu canu;
Tra t'w'no seren yn y nen,
Yn uwch, uwch, uwch, eled Cymru wen.

CARTRE 'R BARDD.

Cartre 'r bardd caredig mwyn
Sydd dan y llwyn celynen,
Pwy a welodd lecyn bach
Siriolach is yr heulwen;
Dymunoldeb pur a'i todd
Mae 'n lle wrth fodd yr awen.

Mynydd mawr tu cefn i'r tŷ
Ymgoda fry mewn mawredd,
Creigiau noethion ar ei war
Sydd goron arucheledd;
Ac ar gopa tal y bryn
Mae 'r cwmwl gwyn yn eistedd.

O! mae 'r ardd o flaen y drws
Yn arlun tlws o Eden,
Hawdd yw gwel'd oddeutu 'r lle
Ei fod yn gartre 'r awen;
Yn y gwrychoedd gylch y tŷ
Barddoniaeth sy 'n mhob deilen.

EWCH I'R YSGOL SUL.

Alaw:—"*The Hazel Dell.*"

Gwelais Johnny bach yn myn'd i'r Ysgol
Pan yn bedair oed,
Clywais ef yn dweud y geiriau Dwyfol
Yn ei ddwylaw roed;
Gwelais ef o flwydd i flwydd yn tyfu
Gyda gruddiau iach,
Sylwais arno 'n dilyn llwybrau'r Iesu
Pan yn blentyn bach:
D'wedai 'r byd yr ai yn uchel
Ar y ddaear hon,
Ond dywedai 'r Nef mai coron angel
Oedd yn disgwyl John.

Gwelais John yn gorwedd ar ei elor
Pan yn ddeuddeg oed,
Gwelais feddrod bach yn cael ei agor
Yntau ynddo roed;
Tad a mam a wylent eu calonau
Am eu bachgen llon,
Tra 'r oedd engyl gyda mwyn delynau
Yn croesawi John:
Dyma lais y bachgen duwiol
Draw o'r beddrod cul,
"*Ymhyfrydwch yn y geiriau dwyfol,—*
Ewch i'r Ysgol Sul."

"'R OEDD 'DERYN BACH UNWAITH."

'Cyfansoddwyd y geiriau hyn ar y deuawd—"*The last links are broken.*'

'Roedd 'deryn bach unwaith heb 'hedeg erioed
Mewn nyth fach o fwswg yn nghanol y coed;
Canfyddai yr adar dros ymyl ei nyth,
A theimlai awyddfryd i 'hedeg i'w plith;
A hiraethai am weled yr adeg hoff, pan
Y doi nerth i ehedeg i'w aden fach wan,
A chredai fod gwynfyd mewn 'hedeg yn rhydd
O gangen i gangen trwy gydol y dydd.

Cyn hir ei ddymuniad i'r 'deryn a roed,
Ac ehedai mor heinyf a'r un yn y coed;
Ond buan y gwelodd fod siomiant tra chwith
Mewn bywyd aderyn 'n ol gadael ei fyth:
Tra y troai gobeithion y nyth iddo 'n groes,
A'i wynfyd dych'mygol yn ofid a loes,
Dymunai ddychwelyd o gyraedd pob cam,
Tr nyth fach o fwswg dan aden ei fam.

Mae 'r plentyn yn edrych i'r dde ac i'r chwith,
'R un fath a'r aderyn dros ymyl ei nyth;
A chreda fod perffaith ddedwyddwch yn nglyn
A gadael plentyndod, a "dyfod yn ddyn";
Breuddwydia am yrfa heb ofid na loes,
A rhosynau yn tyfu hyd lwybrau ei oes;
Ond diangc wna 'r hawddfyd, daw trallod i'w le,—
Mae drain dan y blodau a welodd efe.

Pwy byth na ddymunai gael bod hyd ei oes
Yn blentyn diniwaid o gyrhaedd pob loes,
Mae ei ben bach modrwyog rhy isel yn awr
I wynt profedigaeth ei daro i lawr;
Caiff chwareu a chysgu heb deimlo un cam,
A derbyn pob tamaid o ddwylaw ei fam;
'R wy 'n barod i dd'wedyd mewn llawer storm groes,
"O na bawn i 'n blentyn trwy ystod fy oes."

UST, GORWYNT.

I Miwsig yn y "Gyfres Gerddorol," Rhan XV., gan Mr. J. D. Jones.

Ust, gorwynt erchyll, ust!
Ystormydd cysgwch bellach;
Disgynodd ar fy nghlust
Ryw seiniau llawer mwynach;
Fe ddaeth y gwanwn gwych
A'i felus beroriaeth i'n lloni;
Ymloewa 'r nefoedd megys drych
I natur wisgo am dani.
Mae 'r nefoedd a'r ddaear yn ateb eu gilydd,
Mewn cân gymysgedig o fawl a llawenydd.

"GAIR O GYNGOR."

Mae genyf gyngor bach i'w ddweud,
Mae 'n gyngor da 'r wy 'n credu,
Mae 'n gyngor hen, a hawdd ei wneud,
Ond nid yw 'n waeth er hyny;
Y sawl a wnelo 'r cyngor hwn
Ni fydd ef ar y golled,
Caiff fwy o barch gan bawb mi wn,
A mwy o bres i'w boced;
A dyma y cyngor, gwrandawed pob dyn—
Meindied pawb ei fusnes ei hun.

Os gwelwch ddyn yn fawr ei flys
Am wybod pob helyntion,
Mae 'n debyg iawn o losgi 'i fys
Yn nrowes ei gymydogion;
Fe ä y gwr "o chwech i rôt"
Yn gyflym anghyffredin,
Ac odid fawr nad â ei gôt
A thwll yn mhen ei helin:
Mae'n siwr fod y cyngor o werth i bob dyn—
Meindied pawb ei fusnes ei hun.

Fe fyddai llawer llai o ddrwg
Tae pawb yn gwneuthur felly
A llai o gas, a llai o wg,
A llawer llai o bechu;
A mwy o heddwch yn y wlad,
A mwy o gariad brawdol,
A llawer mwy o bob mwynhad
Gydrhwng y teulu dynol:
Gofalwn am wneuthur y cyngor bob un—
Meindied pawb ei fusnes ei hun.

Y TRI BACH SY'N ISDER BEDD,

JANE, JOHN, A RICHARD;

Plant Richard a Mary Breese, Ffriddfawr, Cemmes, Maldwyn.

Cyfansoddwyd y naw penill cyntaf cyn marw John, a'r degfed cyn marw Richard.

WRTH edrych tua'r bedd
'D oes yno ddim ond t'w'llwch,
Ac angau ar ei sedd
Yn gwylio rhandir tristwch;
Ac O! mae 'r afon ddofn,
Ac ymchwydd gwyllt ei thonau,
Yn creu pryderus ofn
Mewn miloedd o fynwesau.

Efallai gallech chwi
Cyn claddu 'ch geneth dirion,
Roi tro trwy 'r fynwent ddu
A llygaid digon sychion;
Cyn *teimlo*, gwelir myrdd
Yn edrych ddigon diwall
Ar dwmpath beddrod gwyrdd,
Bron fel rhyw dwmpath arall.

Ond O! pan droir y bedd
Yn wely anwyl blentyn,
Mae 'r fynwent oer ei gwedd
Yn ddaear barchus wed'yn;
Cryn gamp i chwithau fydd,
Pan welo'ch fynwent dawel,
Gadwyno 'r meddwl prudd
O fynwent yr Hen Gapel.

Mae yno dwmpath gwyrdd
  Yn nghanol maes o feddau,
O'i amgylch gwibia myrdd:
  O'ch dyfnaf ocheneidiau.
Dwys hiraeth; nos a dydd
  Gyfeiria 'i fys at hwnw,
Gan ddyblu 'r geiriau prudd,—
  "Fod JANE yn mysg y meirw."

Ond diolch, y mae gwlad
  Heblaw gwlad lom y beddau.
I feddwl mam a thad,
  I 'hedeg at berth'nasau.
Mae 'r nefoedd dawel iach
  Ga'r saint tu draw i adfyd.
Yn nefoedd i blant bach
  Ant adre 'n morau 'n bywyd.

Y sawl sy 'n byw yn hen
  Gânt fyrdd o'r llwybrau garwaf,
Ond croesodd yspryd JANE:
  I Ganaan y ffordd nesaf;
Pe cawsai deithio oes
  O bedwar ugain mlynedd,
Hi brof'sai lawer loes,
  A marw yn y diwedd.

Mae 'r plant a gymer Duw
  I'r Nef yn morau 'n bywyd,
Yn blant rhy dlws i fyw
  Mewn byd sydd lawn o adfyd;
A chofiwch chwithau hyn,
  Mewn bywyd o groeswyntoedd,
Fod JANE ar Seion fryn
  Yn un o dlysau 'r nefoedd.

Bydd enw'r clefyd cas
  Yn ddychryn byth i'ch teimlad,
Mae hwnw 'n ffyddlon was
  I angau 'n mhob amgylchiad;
Ond er mor ddu yw 'r glyn,
  Ac er mor gas yw 'r clefyd,
Gwnaeth Duw e 'n gerbyd gwyn
  I fyn'd a JANE i'r gwynfyd.

Ar fur ganllawiau 'r nef
  Mae JANE yn gwel'd eich dagrau,
A d'wed a thyner lef,—
  "Na wylwch hoff berth'nasau;
Mae cwmni 'r Iesu cu—
  Y saint, a'r engyl hoew,
Yn well na'ch cwmni chwi,
  Er cystal ydoedd hwnw.

Ac am eich anwyl JOHN
  A guddiwyd yn y gweryd,
Mae yntau 'r fynyd hon
  Yn yfed awyr gwynfyd:
Mae 'r ddau yn ddigon iach
  Uwch cyraedd pob rhyw ely
Ar "oriel y plant bach"
  Yn chwareu pawb ei delyn.

Y blodau fu 'n eich gardd
  A foddiai y Gwaredydd,
Ac ol cael dau mor hardd,
  Anfonodd am y trydydd;
Cymerodd RICHARD bach,
  Rhag ofn i groes awelon
Edwino 'i ruddiau iach,
  A gwelwi ei olygon.

MAE EISIAU NERTH.

Mae eisiau nerth i fyn'd trwy 'r bvd,—
Mae eisiau nerth o hyd o hyd;
Mae 'r oes i gyd yn rhiwiau serth,
Ac a' bob rhiw mae eisiau nerth.

Wrth deithio 'r haf mewn haul a thes
Mae eisiau nerth i ddal y gwres,
Ac yn ystormydd croesion certh
Y gauaf oer, mae eisiau nerth.

Pan fyddo clod a'i awel lefn
Yn chwythu 'n union o'r tu cefn,
A llwyddiant teg yn gwenu 'n rhwydd,
Mae eisiau nerth i ddal y llwydd.

A phan ddaw gofid cas ei hun
Fel nos dros holl feddyliau dyn;
Fe'i llethir o dan draed rhyw loes,
Os na cheir nerth o dan bob croes.

Pan fo cyfeillion bron heb ri
Yn estyn i'n cofleidio ni,
Mae eisiau nerth i beidio myn'd
Rhy bell i fynwes unrhyw ffrynd.

Pan fo'r cyfeillion oll yn ffoi,
A rhyw elyniaeth cas yn troi
Pob cyfeillgarwch yn ddi werth,
Ceir gwel'd pryd hyn fod eisiau nerth.

Wrth ini agor llygad ffydd
I edrych tua gwlad y dydd,
Ein nerth ein hun rhy fychan yw,
Mae eisiau nerth deheulaw Duw.

Mae eisiau nerth i *fyw 'n gall*
Yn nghanol holl ystrywiau 'r fall,
Mae eisiau nerth i *farw yn gry'*,
A hwnw 'n nerth o'r nefoedd fry.

GWR HAFOD-Y-GAD.

'R oedd dyn yn byw unwaith yn Hafod-y-gad
A gerid yn wastad gan bawb yn y wlad;
Ni fu yr un wg yn llychwino 'i ael lon,
Ac ni fu cenfigen erioed yn ei fron:
Er hyny 'd oedd dim yn neillduol yn hwn
Heblaw fod o 'n talu ei rent a'i dreth,
A'i fod o mor dewed, mor dewed, mor dewed,—
Yn siarad mor gynted, mor gynted, mor gynted,
Na welsoch chwi 'rioed 'siwn beth.

Dymunwn drwy ' nghalon gael "bydio" fel hwn,
A'm hysgwydd yn wastad yn rhydd oddiwrth bwn:
Os do'i rhyw ofidiau i gwrddyd a'r brawd,
Wynebai hwy 'n ëon dan glecian ei fawd:
Nid oedd ef yn hidio na thrallod, na loes,
Na gofid, na mwstwr, na ffwndwr, na pheth;
Ond byddai fel 'deryn ar frigyn y gangen,
Yn canu mor llawen, mor llawen, mor llawen,
Na chlywsoch chwi 'rioed 'siwn beth.

Pan fyddai rhyw chwedlau ar hyd yr holl fro,
'D oedd hyny 'n effeithio dim byd arno fo;
Rho'i dân ar ei getyn pan gai newydd drwg,
A chwythai y cyfan i gwmwl o fwg:
I wrando ystraeon celwyddog y fro,
Ni roddodd ei glustiau erioed o dan dretn;
Ond troai ei wegil mor sythed, mor sythed,
A cherddai mor faned, mor faned, mor faned,
Na welsoch chwi 'rioed 'siwn beth.

Gwynfyd na fa'i chwaneg o ddynion fel hwn,
Yn byw yn y byd heb na phenyd na phwn;
A dim ond un gwyneb, a hwnw 'n un llon,
A chalon ddi ddichell yn curo 'n eu bron:
Pe gallem ni dreulio ein heinioes i'r pen,
Heb hidio na mwstwr, na ffwndwr, na pheth,
Ae 'r byd ar i fynu, yn lle ar i waered,
A hyny mor gynted, mor gynted, mor gynted,
Na welsoch chwi 'rioed 'siwn beth.

Y GAN A GANAI BETSI.

Y Miwsig yn y "Gyfres Gerddorol," Rhan VI., gan Mr. J. D. Jones.

AR lechwedd bryn yn mhell o'm gwlad,
Heb fam, na thad, na theulu;
Eisteddais gyda 'm dwylaw 'mhleth,
I feddwl peth am Gymru:
Pan oedd alawon brig yr hwyr
Bron wedi llwyr ddystewi,
Ymwthiai i'm dychymyg gwan
Y gân a ganai Betsi.

Bum lawer gwaith yn Ngwalia lon
Yn gwrando hon yn canu,
Pereidd-dra ei halawon mwyn,
A'i swyn oedd yn fy synu;
Er clywed prif gerddorion byd
O bryd i bryd i'm lloni,
Ni chlywais un mor llawn o dân,
A'r gân a ganai Betsi.

O! na oa r awel ar fy nghaus
Yn cludo 'i llais hyd ataf,
Ac O! na allai 'r fronfraith lân
Ail ddweud ei chân bereiddiaf;
Gwynfyd na bawn y fynyd hon
Tu draw i'r tonog heli,
Hyd cyraedd i ryw adlais gwan
O'r gân a ganai Betsi.

Mi glywais lawer geneth wen
Uwch ben ei phwyth yn canu,
Er hyn i gyd eu mwynder llon
A wnai i'm bron alaru;
Rhyw adgof gluda 'm meddwl cu
I aelwyd tŷ 'm rhieni,
I wrando 'n dawel wrth y tân
Y gân a ganai Betsi.

Bum lawer gwaith pan fyddai 'r haul
Yn cyffwrdd ael y gorwel,
Yn gwrando ar ei nodau clau
Yn marw 'n mreichiau 'r awel;
A chyda hwy bu feirw i gyd
Fwynderau ien'gtyd heini;—
O na chawn glywed adlais gwan
O'r gân a ganai Betsi.

Os na chaf wel'd fy chwaer byth mwy
Os na cha'm clwy' ei wella;
Os na chaf roi fy nhroed ar làn
Hen diroedd anwyl Gwalia;
Gobeithio daw rhyw gyfaill mad
O'r wlad lle ce's fy ngeni,
I ganu uwch fy marwol ran
Y gân a ganai Betsi.

O NA BAWN I GARTREF.

ALAW :—"*The last Rose of Summer.*"

O NA bawn i gartref ar aelwyd fy nhad,
Yn lle bod fel alltud yn mhell o fy ngwlad;
Lle treuliwn foreuddydd fy einioes yn llon
Heb ofid na hiraeth, yn ysgafn fy mron.

'N ol chwarau boreuddydd fy einioes i gyd,
Newidiodd y chwarau am ofal y byd;
Ymguddiodd haul dysglaer boreuddydd fy oes
Tu ol i gymylau o drallod a loes

'R oedd awyr boreuddydd fy einioes yn glir,
Ond Ow! ni pharhaodd fy heulwen yn hir;
Daeth 'stormydd o ofid i hulio fy nen,
Mae rhei'ny 'n ymdywallt o hyd am fy mhen.

Pan fyddwyf yn cefnu ar ofid a loes,
Boed f' awyr yn ddysglaer fel borau fy oes,
Terfyngylch fy hwyrddydd fo 'n olau pryd hyn
A'i belydr yn cyraedd gwaelodion y glyn.

Y FFYNON.

MEWN llwyn o frwyn ar gwr y fron
Y llecha distaw ffynon fach,
A thros ei min y treigla 'n llon
Y ffrwd risialaidd, loew, iach;
Ond rhwystro hon, 'does neb a faidd,
Mae anfeidroldeb wrth ei gwraidd.

O oes i oes mae Duw ei hun
Yn gweithio 'r sugnedyddion hyn,
Ac wrth fyn'd heibio, gwel'd ei lun
Yn nrych ei dwfr mae 'r cwmwl gwyn;
Dwy chwaer yw Rhinwedd hoff a hon
A delw 'r nefoedd yn eu bron.

Y ffrwd a dreigla fyth o hon
Fel llinyn arian rhwng y brwyn,
A disycheda 'r bugail llon
Sy 'n gwylio 'r defaid mân a'r wŷn;
Fel hyn wrth ddrws darllawdy natur lon
Mae 'r ddiod orau fedd y ddaear gron.

Edrycha 'r ffynon ar i lawr
I wel'd ei merch, y gornant lon
Yn ymeangu 'n afon fawr
I dderbyn llongau ar ei bron;
Mae fel pe'n dweud yn nghlust pob defnyn mad,
"Fy nghofion serchog at y môr, dy dad."

Pan fydd yr haul a gwresog hin
Yn yfed llawer ffrwd bob dafn,
A llawer nant gan sychder blin
Yn marw yn ei chreigiog hafn;
Mae 'r ffynon fach yn herio 'r haul a'i wres,
Gan dafiu 'i dwfr i wyneb poeth y tes.

O mae hi 'n dlws! 'r un fath a'r gwir,
Yn byw yn lân,—yn mynu byw;
Tra 'n edrych ' lawr i'w gwyneb clir
'Rwy'n gwel'd fy hun, wrth weled Duw:
A diolch, gwelaf ffynon Crist a'i drefn,
A môr anfeidrol gariad wrth ei chefn.

BEDD LEWYS MORUS.

Mae Cymru wedi rho'i ei bardd,—
Ei serchog fardd anwylaf,
Yn mynwes Ceredigion hardd,
I huno 'i hun ddiweddaf;
Ond er mai oer a marwol yw
Gweddillion Lewys Morus,
Mae 'i enw 'n gynes, ac yn fyw,
A'i goffa 'n anrhydeddus.

Mae Cymru n caru 'r priddlyd flwch
Sydd yn y fynwent isel,
Lle 'r ymgymysga 'i anwyl lwch
A llwch Llanbadarn dawel;
Ac fel gofala 'r fynwent ddu
Am lwch y rhai sy 'n marw,
Bytholrwydd anfarwoldeb sy 'n
Gofalu am ei enw.

O anwyl fedd! anrhydedd yw
I'r rhosyn bach gwywedig
Gael marw yn yr Hydref gwyw
Ar lwch mor gysegredig;
Ac adgyfodi 'r gwanwyn hardd,
Yn ddarlun o'r newydd-deb
Sydd yn llinellau byw y bardd
Ar ddwyfron anfarwoldeb.

Yn nghalon hoff ei anwyl wlad
Mae 'i babell yn malurio,
Ac yn nghalonau 'i genedl fad
Mae 'i enw yn blaguro;
Yn nghanol adfail oesau hir
Ei awen, ddeil yn newydd,
Tra cano 'r "gog" ei deunod clir,
"Ar fryniau Sir Feirionydd."

Nid careg fedd yr anwyl un
Yw 'r unig gareg wybu
Am enw 'r gŵr a wnaeth ei hun
Yn ganwyll llygad Cymru;
Na, na, holl greigiau Cymru wiw
Sy 'n adsain ei awenydd,
A chareg fedd i'r gwron yw
Holl geryg ein haelwydydd.

Na ddeued haf a'i hyfryd wedd
Dros wyneb Ceredigion,
Heb fardd a cherddor ar ei fedd
I ganu ei benillion;
Boed farw sain y gân a'r tant
Yn swn y floedd ddychrynllyd
A ddyry Duw i alw 'i blant
I chwarau telyn gwynfyd.

SAFLE 'R RHEILFFORDD,*

I Safle 'r Rheilffordd af am dro yn awr,
Y fan mae bywyd masnach yn cartrefu,
O'm blaen y gwelaf yr adeilad mawr
Fel pen yr adeiladau 'n ymddyrchafu.
Ei do grisialaidd sy 'n cofleidio 'r dydd,
A'r awyr, yma, wêl ei delw beunydd,
A'r nen y Safle hoff gelfyddyd sydd
A natur megys yn cofleidio 'u gilydd.

Ond oddifewn, mae natur fawr yn rhoi
Y gorau i gelfyddyd, gan ei pharchu;
Mae 'i holl elfenau megys yn cyd droi
O amgylch llaw y dyn i'w wasanaethu.

* Fe wel y cyfarwydd fod rhai o'r drychfeddyliau sydd yn y gân hon, wedi eu cymeryd o ddarlun dihafal Frith,—"*The Railway Station.*"

Os hoffit weled mawredd meddwl dyn,
A natur a'i helfenau iddo 'n osgordd,
Yn cyd ymgrymu iddo ef bob un,
Tyr'd gyda ni am dro i Safle 'r Rheilffordd

Bywiogrwydd welir yma ar bob llaw,
A gweision a swyddogion mewn prysurdeb
Yn gwibio trwy eu gilydd yma ' thraw,
Ac arwydd "myn'd" i'w ganfod ar bob wyneb;
Ac ambell hoglange yma sydd mewn swydd
Yn teimlo 'i hun yn fwy na llon'd ei wasgod,
A theimla gan ei falchder ffrom a'i chwydd
Fel pe bae llyw y byd dan ei awdurdod.

Cyn hir ymdyra dynion gyda ffrwst,
Pob un a chob neu rywbeth ar ei freichiau,
A cherbyd ar ol cerbyd, gyda thrwst,
Arllwysa eu cynwysiad wrth y drysau.
Ac fel mae 'r dyrfa 'n chwyddo 'n fwy o hyd,
Mae 'r brys a'r cynhwrf hefyd, yn cynyddu,
Ac engraifft bron o holl deuluoedd byd
Yn safle 'r Rheilffordd geir yn ymgymysgu.

A rhai i geisio tocyn gyda brys,
A'r lleill yn ymdrafferthu gyda choffrau;
Daw 'r lleill i mewn yn gagal, ac yn chwys,
A golwg wyllt, a'u hanadl "yn eu dyrnau":
Ond yn y cynhwrf, dyna swn y gloch,
A chwiban "teyrn y ffyrdd" yn ateb hono;
A rhuad ei besychiad dwfn a chroch,
A sigla 'r ddaear tra 'r ysguba heibio.

Yr adeg i gychwyn yn awr sydd gerllaw,
Ac anhawdd yw tynu darluniad.
O gymaint o ddwndwr, a chymaint o fraw,
A chymaint o ferw a siarad;
Mae rhai gan wylltineb, a phryder, a braw,
O gerbyd i gerbyd yn rhedeg,
A'r lleill yn ymddyddan yn dawel gerllaw
Mor oer a digyffro a'r gareg.

Fan acw mae mintai yn cychwyn i'r wlad
I yfed awelon y moelydd,
Yn ysgafn eu calon y sugnant fwynhad
Yn nifyr gymdeithas eu gilydd;
Gadawant y dref a'i thrafferthion yn awr,
Rho'nt heibio bob gofal masnachol,
A rhed eu meddyliau 'n gyflymach na 'r wawr,
I benau 'r mynyddau iachusol.

Yn ymyl, mae mam yn ymaflyd yn llaw
Ei bachgen ymunodd â'r fyddin,
Rhaid myn'd, dyna 'r swyddog yn galw 'n ddi daw
Rhaid myn'd tuag India 'r Gorllewin;
Ac O! fel mae cariad, a hiraeth, ac ofn,
O lygaid y fam yn ymsaethu,
Mae 'i thafod yn fud, ac ochenaid ddofn, ddofn
I wyneb ei mab mae 'n anadlu.

Fan acw mae rhian brydweddol a hardd
Yn pwyso ar fraich ei hanwylyd,
Mae 'n ysgafn ei bron a hapusrwydd a chwardd
Trwy 'r wên sydd yn toi ei hwynebpryd;
Rhoi awgrym o'i hanes y mae 'r faneg wen
Sy 'n cuddio y fodrwy aur newydd,
Fel hyn y cychwyna Llewelyn a Gwen
I'w taith briodasol yn ddedwydd.

Yn ymyl y pâr priodasol mae dyn
Yn llamu i'r cerbyd yn frysiog,
Ond ar yr amrantiad mae 'n teimlo ei hun
Dan law awdurdodol y swyddog;
Mae grym ei euogrwydd yn ysgwyd ei fron,
A'i galon yn suddo 'n ei fynwes,
A'r gwaed yn ymdaflu yn dòn ar ol tòn
I'w wyneb i adrodd ei hanes.

Canfyddáf eneth lwyd ei boch
Yn gwthio 'i hun i'r cerbyd,
Aeth trallod cas a'r rhosyn coch
Addurnai ei hwynebpryd,
Ni ddywed air,—eistedda ' lawr,—
Ond ah ! yn nghil ei llygad
Syllldremia 'r deigryn gloew mawr,
Mae hwnw 'n mynu siarad.

Try hon ei hwyneb ar y wlad
Ond nid i ymddifyru,
Y dydd o'r blaen *bu farw* 'i *thad*,
Mae hithau 'n myn'd i'w gladdu;
Er cymaint terfysg sydd o'i chylch
'D oes dim a dyn ei sylw,
Ei chadach gyda 'i dagrau ylch
Gan hiraeth am y marw.

Wrth gerbyd arall, dacw ferch
Yn edrych yn bryderus,
O'i llygaid byw rhed ffrwd o serch
I lygaid morwr nwyfus;
Mae gwasgiad llaw yr eneth ddel
Yn gyfrol fawr ar gariad,
A'i phwyslais ar y gair "*farwel*"
Yn ddarlun byw o deimlad.

Ond dyna dreiddgar swn y gloch
Yn nghlustiau pawb yn suo,
A dyma 'r peiriant a'i bwff croch
Yn ateb adsain hono;
A'n mlaen, a sigla 'r ddaear gref
O dan ei chwyrn olwynion,
Ac wrth ro'i ffarwel prudd i'r dref
Ysgydwa llawer calon.

Mae wedi myn'd! ond dyma frawd
A'i wyneb fel marworyn,
Yn holi 'n nghanol 'storm o wawd
"Pa bryd mae 'r trên yn cychwyn?"
Daeth ef mewn pryd i fod ar ol,
A gwarth orchuddia 'i wyneb,
Yn siomiant y creadur ffol
Cawn draethawd ar brydlondeb.

Trown yn awr i wel'd prysurdeb
Gweision bywiog y swyddfeydd,
Ac i wel'd y byd o nwyddau
Sydd yn beichio 'r ystorfeydd;
Dyma lle teyrnasa masnach
Gyda dwylaw llawn bob pryd,
Un sydd ganddi 'n casglu beunydd,
Tra mae 'r llall yn rhoi o hyd.

Wrth ei hystlys mae celfyddyd
Yn ymgrymu gyda pharch,
Dim ond iddi roddi awgrym
Dyna hono at ei harch;
Nid oes raid i'r dyn ond edrych,
Gyda sefyll wrth y llyw,—
Rhoddi awgrym i'w beirianau,—
Dweud y gair,—a digon yw.

Wele 'n dod gerbydres anferth
Gyda nwyddau môr a thir,
Rhwygo dyfod mae y peiriant
Gyda 'i gynffon bwysig, hir;
Nid yw miloedd o dunelli
Ddim i hwn ond "plyf i wynt,"
Rhua farwnad pedrolfeni,
A hen droliau 'r dyddiau gynt.

Dacw swyddfa y pellebyr
Mewn ystafell fechan draw,
Lle mae dyn a'r mellt ofnadwy
Fel teganau gylch ei law;
Yma, duwies hardd celfyddyd
Sydd yn plethu mellt y nen
Fel pe byddent wiail irion,
I'w rhoi 'n dalaith am ei phen.

Rhyfedd-gweled dyn yn gallu
Chwareu 'n ddifyr gyda 'r mellt,
A chadwyno 'r gallu hwnw
Rwyga 'r dderwen gref yn ddellt;
Dodi ffrwyn yn mhen y trydan,
Arwr gwyllt y 'stormydd ban,
D'wedyd wrtho, "Dos i neges,"
Yntau 'n myned yn y fan.

Natur a chelfyddyd unant
I drosglwyddo meddwl dyn
Cyn gyflymed bron ag aden
Y dychymyg chwim ei hun;
Enfyn newydd,—caiff atebiad,
Dros gyfandir,—dan y dòn,;
Saetha 'i eiriau ar amrantiad
I eithafoedddaear gron.

Ust! mae tingc y gloch yn suo
Yn fy nghlustiau,—Beth sy 'n bod?
Ac mae 'r lle yn ferw drwyddo,—
Y gerbydres sydd yn dod:
Chwyrnu 'n ddigllon mae y peiriant,—
Lluchia fwg a thân o'i gol,
Ac mae 'n tuchan fel pe byddai 'n
Llusgo 'r ddaear ar ei ol!

Dyma 'r dorau yn agoryd
Ac mae cynhwrf wrth bob dôr,
Rhuthra dynion o'r cerbydau
Fel llifeiriant llanw 'r môr;
Tonau o wynebau dynol
Fel yn gwthio 'u gilydd sydd,
Megys diluw byth barhaol
Drwy y Safle nos a dydd.

Ar balmant llwfn y Safle
Y gwelir trefi mad,
Fel pe baent yn dod allan
I ysgwyd llaw â'r wlad;
Amrywiaeth amgylchiadau,—
Amrywiaeth rhyw ac oed,
A welir yn y Safle
Rifedi dail y coed.

Yr agerbeiriant nerthol
O fôr i fôr yr â,
Cyfandir â chyfandir
Fel dau gymydog wna:
A gwregys cyfeillgarwch
Gwregysa lwyna 'r byd,
Ac a llinynau cariad
Cenhedloedd rwyma ' nghyd.

Adseinio 'i bwff a'i beswch
Y mae clogwyni 'r byd,
A'i chwiban cryf a eilw
Ddynoliaeth oll yn nghyd;
Ei ager a'i fwg torchog
Fo 'n gorwedd ar bob glyn,
O begwn pell y Deau
I eitha'r Gogledd gwyn.

RHWYFA DY GWCH DY HUN.

[EFELYCHIAD.]

Mi welais lawer tref a gwlad,
A llawer rhyw fath o ddyn;
Ond welais i ddim byd mor rhad
A rhwyfo fy nghwch fy hun:
P'run bynag gaf ai gauaf ai haf,
'Dwy 'n hidio fawr pa un,
'Rwy 'n taflu pob croes i gefnfor oes
Wrth rwyfo fy nghwch fy hun;
Gan hyny 'r ffordd i fyn'd trwy 'r byd
Yw parchu dyn fel dyn,
A chanu 'n llon o hyd o hyd
Rhwyfa dy gwch dy hun.

Ni feddaf fi na gwraig, na phlant,
Na chariad i hel, a thrin;
Ond canaf yn llon ar frig y don
Wrth rwyfo fy nghwch fy hun:
'Rwy 'n edrych yn wyneb y byd yn rhydd
Dan wenu ar bob dyn;
'Dwy 'n hidio am arian, os digon a fydd
I rwyfo fy nghwch fy hun:
Gan hyny 'r ffordd, &c.

Mae 'n burion peth cael ffrynd wrth law
Os cefaist ti brofi 'r dyn,
Ond gwell o lawer yn y pen draw
Iti rwyfo dy gwch dy hun;
Na cheisia fenthyg,—prynu 'r peth
Yw 'r rhataf i bob dyn,
Ni chei di na gwg na thafod drwg
Wrth rwyfo dy gwch dy hun:
Gan hyny 'r ffordd, &c.

Os stormydd ddaw i beri braw
Trwy fynwes llawer un,
Na hidia 'r byd a'i wg i gyd
Ond rhwyfa dy gwch dy hun:
Daw haul dan odrau 'r cwmwl du
Gan wenu ar bob dyn,
A d'wed ei wên o'r nefoedd fry,—
Rhwyfa dy gwch dy hun:
Gan hyny 'r ffordd i fyn'd trwy 'r byd
Yw parchu dyn fel dyn,
A chanu 'n llon o hyd, o hyd,—
Rhwyfa dy gwch dy hun.

MARW R GROES.

Draw yn mhell cyn geni amser,—
Cyn bod son am haul na byd;
Cyn rhoi seren, lloer, na phlaned
O gysawdau 'r nef yn nghyd;
Cyn i angel chwim anadlu
Anadl ysprydoliaeth fyw,
'R oedd cyfamod wedi 'i drefnu
I heddychu dyn a Duw.

Holl weithredoedd Duw mewn natur
Sydd yn rhyfedd iawn i ddyn,
Delw anfeidroldeb welir
Yn gerfiedig ar bob un;
Casgler rhyfeddodau 'r cread
Welwyd,—welir yn mhob oes,
Nid yw'r cwbl ond cysgod eiddil
O ryfeddod marw 'r Groes.

Do, bu farw 'r Iesu tirion
Dan arteithiau poen a chur,
Tra 'r oedd beiau byd o ddynion
Bron a llethu 'i yspryd pur;
Pob ochenaid ddofn a dreiddiodd
O ddyfnderau 'i galon friw,
Dd'wedai'n hyf yn nghlust cyfiawnder
Fod pechadur i gael byw.

Do, bu farw 'r Iesu tirion,
Ond mae bywyd yn ei glwy';
Dyma ddadl fawr y cristion
Am fendithion fwy na mwy:
Edrych ar ei groes, bechadur,—
Edrych gyda llygad ffydd,
Ti gai falm i wella 'th ddolur,
Ti gai enaid iach a rhydd.

Do, bu farw, ond cyfododd,
Trwy ei ddwyfol nerth ei hun,
Ac mae agoriadau uffern
A marwolaeth wrth ei glun:
Wrth fyn'd adref yn fuddugol
Heibio i gysawdau 'r nen,
Taflai byrth y nefoedd olau
Yn agored led y pen.

'N awr mae llaw trugaredd dirion
Wedi 'i hestyn at y byd
Ac mae 'n cynyg nef a choron
Yn haeddianau'r aberth drud:
Gwrando ddyn ar lais trugaredd.
Gan fod barn yn agoshau,
Ac mae llaw trugaredd ddwyfol
Cyn bo hir i gael ei chau.

MOEL FADIAN.

Un borau esgynais i gopa Moel Fadian,
Tra 'r t'w'llwch yn plygu ei leni yn nghyd,
A'r wawr yn ymdrwsio mewn gemwaith o arian
I dywys yr haul dros derfyngylch y byd;
'Roedd gwên fel yn eistedd ar ruddiau'r gre'digaeth,
A natur yn gorwedd ar wely o swyn,
Tra 'r awel fach dyner yn siarad barddoniaeth
Wrth yfed y dagrau oedd ar flaenau 'r brwyn.

O hyfryd olygfa! caiff fyw yn fy meddwl
'N ol marw tymorau a blwyddau maith, maith,
Tra teimlwn fy hun fel cymydog i'r cwmwl
Yr hwn newydd ddeffro gychwynai i'w daith;
Rhyfeddais, a d'wedais,—mae môr o feddyliau
Yn gorwedd rhwng plygion naturiaeth ei hun,
Yr afon a'r mynydd,—y dolydd a'r creigiau,
Bregethant ddwyfoldeb o flaen wyneb dyn.

Oddiar yr hen Foel mae dalenau 'r gre'digaeth
I'w gwel'd yn agored heb rwymiad na sêl,
Os hoffet ti deimlo pa beth yw barddoniaeth,
Dos yno os oes genyt deimlad, a gwêl:
Pob dalen gynwysa ryw fyd o feddyliau
Sydd wedi 'u hargraffu mewn harddwch di ail,
Ac yma a thraw mae hanesiaeth hen oesau
Yn gwneud ei nodiadau ar ymyl y dail.

Yn ymyl o danodd mae bro Aberhosan
O dan amddiffyniad y bryniau di ri',
Brefiadau y defaid, a swn y nant fechan
Yw 'r unig beroriaeth a roed iddi hi:
Mae yma addoldy sy 'n glod i'r ardalwyr
Lle derbyn plant Seion fendithion y ne';
Boed dynion yr ardal i gyd yn grefyddwyr
Mor gedyrn a'r bryniau amgylchynant y lle.

Mewn bythol dawelwch y mae Rhyd-y-felin
Yn gorwedd o'r golwg yn nghesail y bryn,
Gan warchglawdd o fryniau ni feiddia y ddryghin
Prin ysgwyd y dail mewn ardaloedd fel hyn;
Mae natur yn gwisgo y ddwy am yr harddaf,
Mae 'r ddwy wedi clywed newyddion y Groes,
Ac felly esgyned y ddwy am yr uwchaf
Hyd ysgol anrhydedd, a rhinwedd, a moes.

I'r gogledd orllewin y tro'f fy ngolygon,
Tu hwnt i Benegoes y gwelaf o draw,
Y mwg a esgyna yn farwaidd ddyblygion
Gan ddweud fod Machynlleth yn rhywle is law:
Machynlleth! mae d' enw yn anwyl yn Nghymru,
Tydi fu 'n breswylfod i Owain Glyndwr,
Ac oesau i ddyfod a fynant dy barchu,
Mae d' enw 'n anfarwol yn nglyn a'r fath wr.

Mae gwaed wedi britho dalenau ei hanes,
Sef gwaed a dywalltwyd dros ryddid ei wlad;
Bu 'n darian iawnderau,—bu 'n wermod i ormes,—
Bu 'n ddychryn i'r gelyn ar feusydd y gâd:
Fel gwron yn angerdd ei deimlad gwladgarol
Y teithiai ymlaen trwy afonydd o waed,
Er gwaethaf pob trais a dichellion gormesol
Ar fryn annibyniaeth gosododd ei draed.

Is law i Fachynlleth mae hen afon Dyfi
Yn dotio ar swyn a phryferthwch y wlad,
Tra 'n estyn bendithion i Feirion a Theifi
Cyn marw mewn heddwch ar ddwyfron ei thad;
O na byddai tafod ac iaith gan yr afon
I ddweud hen hanesion ei dyffryn hardd hi,
Mi hoffwn ei chlywed yn adrodd helyntion
Enwogion a fagwyd yn murmur ei lli'.

Draw 'n mhellach canfyddaf yr eigion trochionog
Yn yfed afonydd a ffrydiau ein tir,
Amgylcha ein hynys fel gwregys mawreddog
Cyn loewed a'r grisial neu'r deiamwnt clir;
A dacw y llongau yn britho ei ddwyfron
Gan wneud negeseuon fil myrdd ar eu hynt,
Symudant mor esmwyth ar wyneb yr eigion
Tra 'u hwyliau chwyddedig yn yfed y gwynt.

Mae gwledd i'r golygon os troir tua 'r gogledd,
Darowen a'r Cemmes a welaf is law,
A bryniau Meirionydd eisteddant mewn mawredd
Y naill ar y llall yn y pellder draw, draw;
Y Gader, a'r Aran—dwy ysgwydd hen Gymra,
Sy 'n esgyn yn hyfion fry, fry, tua'r nen,
Ac O! dacw 'r Wyddfa tu cefn i'r rhai hyny
Yn dweud mewn awdurdod mai hi sydd yn ben.

Draw, draw tua 'r deau edrychaf yr awrhon
A gwelaf fynyddau ar draws ac ar hyd,
Yn sefyll fel grisiau i ddringo Plunlumon,
Yr hwn yw tywysog y deau i gyd;
A dacw fryn Hyddgant yn esgyn yn dirion
Yn uwchaf mewn hanes y saif yn eu plith,
Efe sydd yn cadw llwch anwyl ein dewrion
Heb feddfaen nac addurn, ond cawod o wlith.

Ddarllenydd! os hoffet ti weled gwir fawredd,
Rho dro i Foel Fadian, cei ddigon o waith
I syllu a synu ar bur arucheledd,
Mae 'n werth iti fyned, cei dâl am y daith;
Hanesiaeth a natur sydd fel ar eu gorau
Yn dangos eu hunain yn mhob cwm a glyn,
A hefyd cei glywed hyawdledd y creigiau
Bregethant Ddwyfoldeb ar gopa pob bryn.

Y MAB AFRADLON.*

Ar riniog tŷ ei fam a'i dad
Y safa bachgen glân a hoew,
Bwriada gefnu ar ei wlad,
A chysur pur y cartref hwnw.

Dirmyga erfyniadau 'i fam,
Ac ymbil tad sydd lawn o deimlad;
A ymaith heb un rheswm pa'm
Heblaw mai—dyna 'i benderfyniad.

Disgyna heilltion ddagrau 'r tad
Wrth ysgwyd llaw, ar law y bachgen,
Ond profa 'r dagrau 'n ddi leshad
Edrycha ef yn hyf a llawen.

Sibryda 'i fam,—"Bydd fachgen da,"
Mewn iaith doredig un yn teimlo,
Rhydd yntau ffarwel oer fel ia
Tra 'n edrych ar ei fam yn wylo.

Mae 'n cefnu yn ei fympwy ffol
Ar gartref lle na welodd gilwg,
A sylla 'i riaint ar ei ol
Nes llwyr ddiflana ef o'r golwg.

A phan ddaw y terfyngylch pell
I'w gau o olwg ei rieni,
Pan dry y ddau i'w hunig gell
Mae enw 'r bachgen yn eu gweddi.

* Nid oeddwn wedi bwriadu dodi yr un gân cyn feithed a hon yn y llyfr hwn o gwbl, ond "ar daer annogaeth lluaws o gyfeillion" (fel y bydd yr awdwyr enwog yma yn dweud) dodir hi i mewn.

Mae ef a'i hyder ynddo 'i hun,
Ac yn y llogell lawn sydd ganddo;—
Ni ddaeth i'w feddwl ef fod Un
Sydd uwch na 'r uwchaf wedi digio.

A'n mlaen, a phawb sydd iddo 'n ffrynd,—
Gwna arian bawb yn ben cyfeillion;—
A'n mlaen,—ond i ba le mae 'n myn'd
Wrth foddio awydd gwag ei galon?

Mewn cwmni difyr gyda 'r gwin,
A'r ddawns, y cawn ei weled nesaf;
Wrth godi 'r gwydrau at ei fin
Ei grechwen ef a glywir uwchaf.

Y tafod ddysgodd eiriau Duw
Dan ofal tad pryderus, duwiol,
Fwrlyma lwon o bob rhyw,
A heria ddigter yr Anfeidrol.

Ehed pob meddwl da o'i fron,
Mewn gloddest ffol mae 'n ymddifyru;
Ac mewn awyrgylch megys hon
Mae annuwioldeb yn addfedu.

Mae anadl cwmni drwg fel hyn
Yn gwywo tuedd at ddaioni,
'R un fath ag effaith llwydrew gwyn
Yn lladd y blodau yn y gerddi.

A'r bachgen yn ei flaen o hyd
Gan ymhyfhau mewn drwg weithredoedd
Ac yfa wagedd ffol y byd
Fel ych neu farch yn yfed dyfroedd.

Ond er a yf, mae 'i chwant o hyd
Am ryw oferedd, yn cynyddu,
Mae gwagedd ffol yn ddiod ddrud,
A syched byth yn dilyn pechu.

Rhyw adgof byw o'i gartref gynt
O'i flaen rai prydiau sy 'n ymrithio,
A thybia glywed gyda 'r gwynt
Ochenaid mam sy 'n teimlo drosto.

Cydwybod euog ambell dro
Sy 'n chwerwi cwpan ei bleserau,
Tra bydd a'i bys ar len y co'
Yn tynu darlun o'i bechodau.

Ond er y cyfan, myn'd ymlaen
Mae 'r llangc ar yrfa annuwioldeb;
Pentyra 'n ddiwyd, haen ar haen,
Ddefnyddiau gwae am dragwyddoldeb.

Y mab a fagwyd gan ei dad
Yn anwyl, welir erbyn heddyw
Yn ddigon hyf i gael boddhad
Wrth wawdio 'r nef ar drothwy distryw.

Ond nid yn hir mae llogell lawn
Yn dal yn llawn i langc fel yma,
Mewn afradlonedd, buan iawn
Y gwelir lliw y geiniog ola'.

Rhy wag yw cronfa cyfoeth drud
I borthi blys afradlon penrhydd;
O ran ei awydd gwariai fyd,
Ac wedi 'r cyfan yn anedwydd.

Ond gyda i'r afradlon roi
Y geiniog olaf am oferedd,
Mae 'i holl gyfeillion pena 'n ffoi
Heb gynyg iddo 'r un drugaredd.

Fel hyn mae 'r byd yn gwthio dyn
Ar oriwaered annuwioldeb,
A phan â 'n d'lawd ca wel'd ei hun
A th'lodi 'n tremio yn ei wyneb.

* * * * *

Machluda 'r haul tu hwnt i gymyl trwchus
Y rhai a yrir gan y gwynt ystormus
Fel prudd genhadon trwy yr wybren uchod,
I ddweud fod nos ddryghinog bron a dyfod.
Dwfn rua 'r corwynt yn nganghenau 'r pinwydd
Wrth alw 'n nghyd fyddinoedd yr ystormydd:
Y gweithiwr druan red i'w fwthyn bychan
Gan ddwys resymu wrth y sawl sydd allan;
Wrth wel'd y gwg ar guchiog ael y ddunos
Mae pawb trwy 'r fro yn cyrchu i ryw ddyddos.
Tabyrdda 'r gwynt ar furiau 'r palas uchel
Tra mae 'r preswylwyr oll yn eithaf tawel;
Mae 'r goleu yn y ffenestr fel pe 'n chwerthin
Am ben bygythion a rhuadau 'r ddryghin:
Ond wele un tu ol i'r palas yna
O dan guriadau 'r storm, yn wag ei gylla;
Mae 'n ceisio llechu rhag rhuthriadau ffyrnig
Y corwynt blin, dan gysgod coeden dewfrig;
Ond O! ei changau llymion a wrthoda
Fod i'r newynog hwn yn unrhyw noddfa.
Ah! dyma 'r llangc wrthododd holl gynghorion
Rhieni duwiol, a'u herfyniau taerion;
Hwn yw y llangc fu 'n lluchio ei holl gyfoeth
I borthi blys a phob rhyw nwydau annoeth:

Hwn yw y llangc fu 'n rhedeg i bob rhysedd
Yn awr yn rhwym yn rhwydau caeth anwiredd.
Hwn yw y llange fu 'n meddwi ar win pechod
Yn awr yn profi chwerw flas y gwaddod:
Ac yn y cyflwr hwn o ddarostyngiad,
Mae'n dweud yn nghlust y nos ei bruddaidd brofiad:—

"Gwae 'rioed imi gefnu ar gartref mor gu,
Lle chwarddai cysuron o'r nef ar bob tu;
Lle ni chyfarfyddais a gwg ar un ael,
A'r lle mae rhagluniaeth bob amser yn hael.

Digonedd o fara ga gweision fy nhad,
A minau yn marw yn mhell o fy ngwlad;
Cysuron a redant trwy nghartref fel lli'
Tra 'r "cibau" yn fwyd gwaharddedig i mi.

'Rwy 'n marw o newyn yn estron tylàwd
O gyraedd tosturi rhieni a brawd;
Nid oes unrhyw galon a' ystyr fy nghri;
Mae pawb yn dirmygu afradlon fel fi.

O na bai y corwynt sy 'n rhynu fy nghnawd'
Yn cludo am unwaith f' ochenaid dylawd,
I'r cartref adewais pan ddigiais y Nef,
'Rwy 'n siwr y gwrandawai fy nhad ar fy llef.

Yn ngolau'r mellt fforchog mae'r storm yn gwneud gwawd
O'r wisg oer a thyllog ddarn guddia fy nghnawd;
Y curwlaw, a'r oerfel, a'm noethni y sydd
Yn uno i wneud fy sefyllfa 'n fwy prudd.

Ac O! mae cydwybod yn gwanu fy mron,
Er ceisio ei hatal, llefaru fyn hon;
A'i bys ar fy meiau mae 'n dweud yn fy nghlust
"Ple bynag yr ai, dof i'th erbyn yn dyst."

Mae awyr fy ngobaith yn hynod o ddu,
Ni welaf er syllu ond un llecyn cu;
A chraffu ar hwnw sy 'n rhoi im' foddhad,
Mae 'r wawr olau 'n union uwch ben tŷ fy nhad.

Mi godaf 'n ol gweled goleuni 'r wawr fwyn
Af at fy nhad tirion a d'wedaf fy nghwyn;
Efallai er imi ei ddigio cyhyd
Y todda ei galon yn gariad i gyd.

Addefaf fy mhechod, a chwympaf o'i flaen,
Mewn dwfn edifeirwch rho'f f' achos ar daen;
Pwy wyr wrth fy ngweled na chaiff ef foddhad,
Mi af dan ymddiried i gariad fy nhad."

* * * * *

Pan oedd y gwynt yn chwythu
Ar nawn dryghinog du,
Yn ffenestr ei ystafell
Eisteddai henwr cu;
'R oedd olion bysedd gofid
Yn amlwg ar ei rudd,
A phryder a ganfyddid
Yn ngwraidd ei lygaid prudd.

Ehedai aml ochenaid
O'i fynwes brudd yn awr,
Y rhai 'n yw tafod enaid
Fo wedi 'i lethu ' lawr;
Ei lygaid llawn gyfeiriodd
I'r gorwel du ei liw,
A gweddi daer anadlodd
I glust agored Duw.

Cyn hir y corwynt beiddgar,
(A siglai ddol a bryn,)
Oddiar ei wefus hawddgar
A gludai 'r geiriau hyn:
"P'le mae fy machgen anwyl
Adawodd dŷ ei dad,
Cael gwybod peth o'i hanes
Ro'i imi fawr foddhad.

'Rwy 'n cofio wrth ffarwelio
Ei olwg falch a hyf,
'Ond O! 'rwyf yn ei garu,—
Mae gafael serch mor gryf;
Mae dagrau hiraeth eto
Heb sychu ar fy ngrudd,
A'r adgof byw am dano
Yn gwanu ' mynwes brudd.

'O na chawn air o'i hanes,—
O na chawn wel'd ei wedd;
'Os ydyw wedi marw,
Pa le mae 'i anwyl fedd?
'Os marw wnaeth, bu farw
Heb dad i ddal ei ben,
'Na llaw perthynas anwyl
I sychu 'i ddwyrudd wen."

Fel yna syn fyfyriai
Tad yr afradlon ffol,
Heb feddwl y dychwelai
Y bachgen byth yn ol;
'Ond gyda hyn e welai
Ryw grwydryn wrtho 'i hun,
Adnabu ei gerddediad,—
Ei fachgen oedd y dyn.

Y bachgen a fu farw
  Yn meddwl ei hoff dad,
Sydd eto 'n gwel'd o'i gwmpas
  Fynyddau ei hen wlad;
A mwy na 'r cwbl, e welai
  Ei dad ar lawr y ddol
Yn rhedeg i'w gyfarfod
  I'w dderbyn yn ei ol.

O! dacw 'r tad yn syrthio
  Ar wddf y bachgen drwg,
Tra 'r deigryn mawr yn treiglo
  Ar hyd ei ael ddi wg;
O! dyma gyfarfyddiad
  Na fu ei fath rhwng dau,—
Y bachgen drwg yn diolch,
  A'r tad yn llawenhau.

O! fel yr wylai 'r bachgen
  Wrth rodio tua 'r tŷ,
Tra rhuthrai i'w feddwl drylliog
  Adgofion dyddiau fu;
Y coed a'r ceryg hyny
  Amgylchent dŷ ei dad
Oedd erbyn heddyw 'n harddach
  Na pherlau estron wlad.

"Dygwch allan y wisg orau,"
  Ebai 'r tad, "mae 'm mab yn fyw
Do, atebwyd fy ngweddiau,
  Bendigedig fyddo Duw!
O! 'rwy 'n maddeu, wedi clywed
  Swn ei edifeiriol lef,—
Pobpeth gorau fedd ei gartref
  Sydd yn eiddo iddo ef."

Parotowch y llo pasgedig
Ac arlwywch lawen wledd,
Dyma 'r bachgen a gollasid
Fel pe wedi dod o'i fedd;
Am gael gwneud cymwynas iddo,—
Am gael gwel'd fy mab yn fyw,
Boed ein cân yn ddiolchgarwch,—
Diolch i drugaredd Duw."

Mae gwers i bechadur oddiwrth yr afradlon,
Mae yntau 'n golledig a Duw yn anfoddlon:
Dirmygodd baradwys, ei chyfoeth, a'i breintiau,—
Newidiodd ddedwyddwch am ardal y "cibau."
Mae 'n grwydryn dî gysur, yn nod i bob aflwydd,
A'i fynwes yn uffern dan bwysau enogrwydd:
Nid oes gwag ddigrifwch nad yw wedi 'i broti,
Ond "Moes," medd ei enaid mae heb ei ddigoni.
Ni ellir cael allan un gongl o'r cyfanfyd
Heb ol troed dynoliaeth yn chwilio am wynfyd.
Hi gefnodd ar gartref, a thad, a dedwyddwch
I chwilio am gysur mewn byd o anialwch;
Gadawodd afonydd grisialaidd a gloewon,
A chloddiodd bydewau toredig a gweigion:
Gwatwara alwadau tyneraf trugaredd,
Mae 'n treiglo i ddinystr fel maen ar y llechwedd.
Arafa bechadur rhyfygus, arafa!
Mae cefnfor o wae o dy flaen y ffordd yna:
O gwel! dacw fellten cyfiawnder yn fflachio,
A chlyw! dyna daran ar daran yn rhuo!
Byddinoedd digofaint sydd bron ag ymosod,
Mae dryghin yn ymyl, a thithau heb gysgod:
Ond clyw! rhwng dwy daran mae llais o Galfaria
Yn sibrwd mor dyner,—"*trugaredd a noddfa.*"
Tro adref, bechadur, o ffyrdd annuwioldeb,
Mae 'th dad yn hiraethu am weled dy wyneb:
Edrycha angylion dros ganllaw y gwynfyd,
Gan ddisgwyl a disgwyl dy wel'd yn dychwelyd:

Mae 'r nefoedd mewn pryder o herwydd dy gyflwr,
Wyt beunydd yn destyn eiriolaeth Gwaredwr.
Y chwysu a'r gruddfan fu 'n ngardd Gethsemane
Sy 'n gwaeddi yn uchel "Bechadur tro adre;"
Ac O! mae llef gwaed dy Waredwr mor anwyl,
Yn d'wedyd fod cartref a gwledd yn dy ddisgwyl;
Mae 'th dad yn hiraethu am roi iti delyn,
A gwisgoedd gogoniant sydd barod i'th dderbyn.

MERCHED Y FLWYDDYN.

Y GWANWYN.

MERCH henaf blwyddyn ydyw
Y GWANWYN, dyner, fwyn;
Ac O! mae heb ei chyfryw
Mewn i'engetyd, ac mewn swyn;
Mae 'n sangu fel ar wywdra,
Ac yna 'n ol ei throed
Y ddaear a esgora
Ar flodau tlysa' 'rioed.

Y rhew sydd fel yn marw
O flaen ei gwyneb hardd,
Ac yn ei mantell loew
Yr wybren fawr a chwardd;
Distawa 'r corwynt bellach,—
Ymdodda 'n awel fwyn,
I chwarau gyda 'r deiliach
Flaendardda o bob twyn.

I wel'd ei gwyneb tirion
  Deffroa natur iach;
I'w chyfarch a'u halawon
  Daw myrdd o adar bach:
Yn ei deheulaw dalia
  Y brigyn llawn o ddail,
Ar hwnw 'r fronfraith gana
  Alawon heb eu hail.

Yn ei llaw aswy gwelir
  Yr egin mân di ri';
A'r rhai 'n a ymgeleddir
  Gan ei thynerwch hi;
A gwlith mae 'n eu diodi
  O gwpan natur fwyn,
A gwna i'r huan godi 'n
  Fwy borau er eu mwyn.

Ar ben ei hysgwydd dyner
  Disgyna 'r Gog mor llon,
I glust y Gwanwyn syber
  Ei deunod gana hon;
A neidia 'r ŵyn o'i deutu
  Yn hoenus ac yn iach,
Fel mam mae hithau 'n gwenu
  Uwch ben ei theulu bach.

Edrychwch! Ar ei dwyfron
  Mae llygaid mân y dydd,
Fel seren ar ei chalon
  A wnaed gan natur rydd;
O gylch ei thalcen purwyn
  Y mân friallu chwardd;
Wel, onid yw y Gwanwyn
  A'i gwisg yn hynod hardd.

YR HAF.

YR HAF yw merch arall y flwyddyn
  Yr hon sydd mor brydferth a'i chwaer,
Ar dranoeth cynhebrwng y Gwanwyn
  Ymddengys mewn gwisgoedd mor glaer;
Mae mwy o rosynau o'i deutu,
  A mwy o haelioni 'n ei bron;
Ei gwaith drwy ei hoes yw cyfranu,
  Mae golud dihysbydd gan hon.

Mae 'n gwisgo y ddol gyda meillion,
  A'r mynydd mewn mantell o wyrdd,
A blodau amryliw a thlysion
  Sy 'n rhidens o amgylch ei ffyrdd;
Mae 'r nefoedd gan burdeb ei glesni
  Fel drych o flaen wyneb y byd,
I'r Haf i gael gwisgo am dani
  Ei dillad prydferthaf i gyd.

Ei gwisg gan mwyaf sydd yn wyrdd,
Wedi ei britho â blodau fyrdd;
A natur olcha rhai'n bob nos
Mewn gwlith, yn nghelwrn anian dlos.

'W sychu eilwaith daw yr haul,
Ac awel dyner bob yn ail:
Mae 'r Haf fel merched "gwlad y gân,"
Yn hoffi gwel'd ei gwisg yn lân.

Yn mhlith holl addurniadau 'i phen
Y benaf yw y lili wen,
Bengryma 'n wylaidd ar ei boch
I fwyn gusanu 'r rhosyn coch.

Mae 'r haul yn methu symud bron
Gan edrych ar brydferthwch hon,
Yn forau cwyd,—mae 'n dotio 'n llwyr
Wrth syllu arni hyd yr hwyr:

Mae 'n chwerthin arni fry o'r nef,
A gwena hithau arno ef;
Gwastraffa 'i amser hyd yr awyr dlos
Fel pe mewn awydd i ohirio 'r nos:

A phan yn araf yr ymsudda i lawr
Gollynga ddagrau fel o'i lygaid mawr,
Disgyna rhei'ny i addurno 'r byd
Fel pe baent gawod fawr o berlau drud.

Gan hiraeth am gael gwel'd yr Haf drachefn,
O'r braidd pryd hyn y try yr haul ei gefn;
Dros derfyngylch y gogledd gwelir draw
Yr hwyr a'r borau fel yn ysgwyd llaw,
A'r dydd brysura ar ei yrfa lon
I gael ail olwg ar brydferthwch hon.

YR HYDREF.

Hydref yw 'r foneddiges nesaf ddaw
A myrdd o bob bendithion yn ei llaw;
Er nad yw mor rhosynog, nac mor glaer,
Mae mwy o gyfoeth ganddi na'i dwy chwaer.

Ei llaw a esyd yn ei llogell lawn,
A'i holl gynwysiad ganddi 'n siriol gawn;
Rhyw "Ddorcas" gan ragluniaeth ydyw hon
A phur haelioni 'n llywodraethu 'i bron.

Yr agoriadau welir ganddi yw
Allweddau ystorfeydd bendithion Duw;
Dadglöa gelloedd ymborth dyn i gyd,
A hulia fyrddau llawn o flaen y byd.

Os yw wrth sangu ar y ddaear ddwys
Yn llethu ambell flodyn, tyner, glwys,
Bob amser y mae ol ei throed yn llawn
O ffrwythau addfed, ac o ŷd a grawn.

Y GAUAF.

Yr olaf o ferched y flwyddyn
Yw 'r GAUAF wywedig ei gwedd,
Y llwydrew yw addurn ei choryn
A'r ia gloew, oer, yw ei sedd;
Ar bentwr o flodau gwywedig
Y gesyd hi bwysau ei phen,
A gwisga, mewn amdo rhewedig,
Weddillion yr hoff lili wen.

Prydferthwch merch ieuange yn gwywo
A gwelwder y glyn ar ei gwedd,
A'r darfodedigaeth yn gwyro
Ei phabell yn araf i'r bedd;
Y blodau sydd yn ei llaw ddehau
A dorwyd er's deuddydd neu dri,
Bregethant ddynesiad yr angau
Wrth wywo 'r un fath a'i grudd hi:

Prydferthwch pruddglwyfus fel yna
A gawn trwy y gauaf oer, oer;
Neu fel y prydferthwch ymrithia
Ar wyneb arianaidd y lloer;
Mae hono yn brydferth,—er hyny
Mae 'n edryrh yn hynod o brudd,
Ond mae rhyw ddwyfoldeb o'i deutu,
Er oered, a gwyned ei grudd.

O gwel y fantell yna sydd
Dros ysgwydd lom y gauaf du!
Mae 'n wynach bron na gwawr y dydd
Sy 'n agor dôr y borau cu.

A gwel yr afon-loew lefn
Oedd ddoe yn dònau mân i gyd;
Ca'dd wisg o risial am ei chefn
Ddisgleiriach na holl berlau 'r byd.

Gwel raiadr serth wrth neidio i lawr
Dros grib y graig yn ddafnau mân,
Yn rhewi fel rhyw enfys fawr
O risial teg, neu berlau glân.

Yn aml y gwelir tlysau llon
Yn nghrog wrth glustiau llawer merch;
A'r rhaiadr sydd yr adeg hon
Fel tlws wrth glust y gauaf erch.

Ofnadwy brydferth yw ei gwedd
Ar brydiau pan y ffroma hi,
Chwibana ei angeuol gledd
Nes gwelwa gwedd ein daear ni.

Yn crogi mae wrth wregys hon
Allweddau pyrth y corwynt cryf,
Yr hwn a sigla 'r ddaear gron
Wrth alw ar y dymestl hyf.

Mae 'n cadw drws yr eira gwyn
Ac ystorfeydd y cenllysg erch,
Pw gollwng allan pan y myn
I gôl y 'storm, ei hanwyl ferch.

Mae un ochr olau, onid oes,
I ddarlun celfydd a di wall,
A thywyll yw yr ochr groes,
Tra 'r naill yn brydferth fel y llall.

Y Gauaf yw y cysgod du
Sydd gan y flwyddyn yn ei llun,
A pherffaith oll yw 'r darlun cu
A wnaed gan Ddwyfol law ei hun.

Y PWN AR GEFN YR AWEN.

Y Mwsig, yn y "Gyfres Gerddorol," Rhan 3.

"Wel, Evan, tyr'd i lawr
Lle llosgi canwyll,
Mae 'th dad er's haner awr
Yn trin yn erchyll;
'R wyt wedi dylu 'n lân
Yn "moidro" hefo 'th gân,
Yn lle bod wrth y tân
Drwy 'r hirnos dywyll.

Mae 'th dad yn dod i'r tŷ
Yn ddrwg ei dymer,
Yn wir, mi "cei di hi"
'Mhen 'chydig amser;
Mae 'i lygaid fel y mellt
Gan eisiau tori gwellt,
Mi wna ei ffon yn ddellt
O gylch dy grwper."

A dyma 'i dad yn dod
Dan ddulio 'i wadnau;
Cadd Evan deimlo 'i fod
O fewn y muriau;
Ymaflodd yn y gân
I'w rhoi yn *dreat* i'r tân,
A dyna ddiwedd glân
Ar ffwdan oriau!

Ah! dyma erchyll bwn
Ar gefn yr awen,
Nis gall un llangc fel hwn
Byth ganu 'n gymhen;
Mae gwg y fam a'r tad,
Yn nghyd a gwawd y wlad,
Yn gwneuthur perffaith frad
Ar duedd darllen.

Rieni! er eich chwant,
Gwrandewch am unwaith,
Rhowch chwarau teg i'r plant
Ar faes llenyddiaeth;
Efallai, fam, deg bryd,
Dy fod yn siglo 'r cryd
I ddyn a sigla fyd
A'i dalent helaeth.

BETH SYDD DDEWR?

Beth sydd ddewr? Cenhadwr ffyddlon,
Gefna ar anwylion cu,
Er mwyn traethu y newyddion
Am y Gwaed i bagan du;
Diystyru pob mwynderau,—
Dewis adfyd yn eu lle,
Er lledaenu 'r nefol olau,—
Dyma ddewrder, onide?

Beth sydd ddewr? Cardotyn duwiol
Deithia 'n foddlon trwy y byd,
A gred y rhydd rhagluniaeth ddwyfol
Damaid iddo yn ei bryd;
Gwel'd haelioni ei Dad nefol
Yn mhob tamaid gaiff efe,—
Yn mhob cyni, dal i ganmol,
Dyna ddewrder, onide?

Beth sydd ddewr? Y taer weddiwr,
Sydd mewn edifeirwch llawn,
Yn apelio at Waredwr,
Am faddeuant yn yr Iawn;
Nerth ei ffydd ddadgloa ddorau,
Holl drysorau 'r Nefoedd wen,
Gyda thaerni ei weddiau
Tyn fendithion am ei ben.

Beth sydd ddewr? Y cristion hwnw
Genfydd seren gobaith eu,
Yn ymddyrchu 'n berlyn gloew
Uwch terfyngylch angau du;
Wrth ei olwg hyf, a thawel,
Ffy ysprydion dychrynfeydd,
Yntau 'n edrych dros y gorwel
Ar nefolaidd olygfeydd.

"MAE 'R NOS YN DOD."

Geiriau ar y Glee,—"*Ye spotted snakes.*"

Mae 'r nos yn dod,—holl natur fawr
Blyga 'i phen i orwedd lawr,
Cryma 'r Lili hardd pryd hyn
Fel angyles yn ei gwyn,
Dywed wrth y rhosyn iach
"Cysga, cysga 'n ddistaw bach."
Cefnu 'n brudd
Mae golau 'r dydd;

Hithau 'r awel dyner, iach,
Dd'wed "nos da" yn ddystaw bach.
Dacw 'r sêr aneirif lu,
Draw ar fron yr wybren fry;
Heirdd ffenestri 'r nefoedd wiw,
Wedi 'r nos yn dangos Duw:
Hithau 'r awel dyner, iach,
Dd'wed "Nos da" yn ddystaw, ddystaw bach.

Y "NHW."

Mae llawer o chwedlau yn cerdded trwy 'r wlad
Na fyddai eu coelio o nemawr leshad:
Pe 'r holid eu hachau, mi gym'rwn fy llw
Eu bod hwy yn disgyn o deulu y "Nhw:"
Y "nhw" fu'n eu meddwl,—y "nhw" fu'n eu gwneud,
A chofiwn bob amser, y "nhw" sy 'n eu dweud.

Cryn bwnc eu dal "nhw," y mae "nhw" 'n rhai mor chwim
Mae pob cais i'w canfod yn darfod mewn dim;
Pe gyrid *Policemen* y byd ar eu hol,
'Rwy 'n siwr na ddoi neb ond *Policemen* yn ol;
Wyr neb yn y byd lle cartref y "nhw,"—
Waeth tewi na siarad rhai rhyfedd yw "nhw."

Y "nhw" sydd yn cofio pob helynt y fu,—
A "nhw" sy 'n cofrestru pob helynt y sy';
Hwy wyddant bob hanes fu 'rioed tan y nen,
Ac ambell i hanes bach arall dros ben!
Am wybod a chofio 'does neb fel y "nhw,"
Waeth tewi na siarad rhai rhyfedd yw "nhw."

Mi glywais gyfrinach, ai gwir yw, nis gwn,-
Mai teulu menywaidd ryfeddol yw hwn;
Mae 'r oll o'r gyfrinach yn wir meddai 'r gwynt,—
Cymered y merched sir gwragedd yr *hint:*
P'run bynag ai gwryw ai benyw yw "nhw,"—
Waeth tew na siarad rhai rhyfedd yw "nhw."

Mae rhai am fedyddio y teulu 'n ddioed
A rhyw enw newydd rhyfeddaf fu 'riaed;
Un dosparth a'u geilw 'n "hiliogaeth y wrach,"
Ac eraill a'u geilw yn "blant y gras bach;"
Ond wedi 'r holl helynt y "nhw" ydyw "nhw,"
Waeth tewi na siarad rhai rhyfedd yw "nhw."

SIAN PENRHOS.

'R oedd Sian Penrhos yn eneth dlos
Yn rhai o'r oesoedd aethant heibio,
Ond erbyn hyn, mae 'i gwallt yn wyn,
A hithau wedi llwyd heneiddio.

'R oedd Sian Penrhos yn caru 'r nos
Yn 'r oesoedd gynt, medd rhai hen bobol;
Ond erbyn hyn, 'does neb a'i myn,
O na! mae Sian yn hen ryfeddol.

Mae wedi blino 'n dal ei bys
I ddangos nad oes dim am dano,
Ond llawer gwaith y teimlodd flys
I gael y fodrwy i'w addurno.

Fe wenodd llawer bachgen glân
Wrth glywed son am bres y feinwen,
Ond d'wedent oll pan welent Sian
Ei bod mor hen a boncyff derwen.

Mae 'n gwisgo bonet fach yn awr,
I ddilyn ffasiwn y genethod;
Yn hyn mae Sian yn methu 'n fawr,—
Mae mwy o'r gwyneb hen i'w ganfod.

Mae Sian, er hyned yw, mor ffol
A gosod cylchau i'w hamgylchu,
A'r llangciau 'n sibrwd o'r tu ol,
Fod "Sian yn hen, ac eisiau 'i chylchu."

Mae 'n gwisgo blodau gylch ei phen,
Gan feddwl gwneud ei hun yn harddach;
Ond dyna 'r drwg, mae 'r lili wen
Yn dangos gwyneb hen yn hyllach.

Mae cadair hen yn nghongl y tŷ,
I ddysgwyl gwr, pe doi rhyw fachgen;
Ond beth sydd arni? Hen gath ddu,
Yn golchi 'i gwyneb hefo 'i phawen.

Anrhegodd *gynjer* a dwy *ham*
Am ddweud pa'm ddrwg na ddoi y bechgyn,
Ond methodd hwnw ddweud y "pa'm"
Nes bwyta 'r hamiau cig bob mymryn.

Wrth halltu cig am flwydd neu ddwy,
Bu 'n halltu mwy o haner mochyn;
Mewn hyder byddai 'r teulu 'n fwy
Cyn halltu moch y flwyddyn wed'yn.

Pa fodd y safodd hi 'n hen ferch?
Nid oes trwy 'r ardal gystal dynes!
Am nad oedd lle i angor serch
I fachu yn ei hoerllyd fynwes.

heddwch â ni, hwy a gânt farw dan ddwylaw y Saeson.' Lladdwyd yno 1200 o offeiriaid, y rhai a ddaethant yno i weddio am lwydd byddin y Cymry, (cyflafan Bangor-is-coed.) Yn 614, bu Cynegils a Cwichelm yn ymladd yn erbyn y Cymry yn Bampton. Yn 633, y lladdwyd Edwin brenin Northumberland gan Cadwallon y Brutwn a Phenda, ar y 14eg o Hydref. Cafodd ei fab Osffrid ei ladd gydag ef. Anrheithiodd Cadwallon a Phenda yr holl wledydd ar du gogleddol yr afon Hymyr. Yn 642, lladdwyd Oswald brenin y Northumbriaid yn Maserfield (Croes Oswallt.) Claddwyd ei gorph yn Enlli. Yn 645, cafodd y brenin Kenwal ei fwrw ymaith. Yn 651, lladdwyd y brenin Oswin. Yn 652, lladdwyd y brenin Anna. Yn 655, lladdwyd y brenin Penda a deg-a'r-hugain o dywysogion gydag ef yn Wingfield. Daeth y Mersiaid yn Gristionogion. Yn 661, gwnaed gwyr Ynys Wyth yn Gristionogion. Yn 664, dechreuodd y Pla Mawr ym Mhrydain. Yn 685, dechreuodd Cadwalla ymrafaelio am y deyrnas. Yn 686, gwnaeth Cadwalla (sef, Cadwaladr Fendigaid y Croniclau Brutanaidd) wlad Caint yn anghyfanedd. Yn 688, aeth Cadwalla i Rufain a chafodd ei fedyddio gan y Pab Sergius; bu farw yno, a chladdwyd ef yn ei wisg fedydd yn Eglwys St. Pedr; olynwyd ef gan Ina (Ifor y Croniclau Brutanaidd), yr hwn a deyrnasodd am 33 o flynyddoedd. Efe a adeiladodd fynachlog Ynys Afallon, ac a aeth wed'yn i Rufain a bu farw yno. Yn 743, bu Ethelbald o Mers a Cuthred y Saeson Gorllewinol yn ymladd â'r Cymry. Yn 755, ymladdodd Cynwulf lawer o frwydrau celyd â'r Cymry. Yn 787, y daeth llynges gyntaf y Gogleddwyr (y Daniaid) i Brydain. Yn 833, y bu Egbert yn ymladd â'r Morladron Gogleddol yn Charmouth; gwnaed lladdfa fawr, ac arhosodd y Daniaid yn feistriaid y maes."

Nyni a adâwn Frut y Saeson gydag ychydig nodiadau. Yn gyntaf, os yw yn awduredig a chywir, ymddengys na ymladdodd y Saeson am yspaid cân mlynedd (o.c. 449—552,) ar ol glànio dan Hengist a Horsa, gymaint ag un frwydr—oddieithr y frwydr yn yr hon y cwympodd Nathan Leod (Llew,) yn y canoldir nac yn unlle arall ond ar y man y tiriasant, a than amddiffyniad eu gwersylloedd môrawl; ac yn yr holl frwydrau hyn mai y Brutaniaid oeddynt yr ymosodwyr, y Saeson yn ymladd yn unig mewn hunan amddiffyniad. Rhaid fod nodwedd y tiriadau heddychol hyn megys y gosodir hwynt allan yma wedi cael eu camddeall yn resynol gan ein hynafiaid; ond mewn gwir-

Tra cura gwaed fy mynwes i,
Tra calon dan fy mron,
A thra y saif ei bryniau hi,
Bydd dda gan i am hon:
O cofiwch fy nymuniad i,
A deliwch ar fy ngair;—
Pan wedi marw, rhowch i mi
Gael bedd yn LLANBRYNMAIR.

Y TEGAN ENBYD.

Wr ieuangc a ddarfu 'ti feddwl ryw bryd
Fod pwys mewn dewisiad teganau
A welaist ti rywbryd yn ngwagedd y byd,
Ryw swyn yn at-dynu 'th feddyliau?
A ddarfu ti deimlo rhyw flys yn dy fron
I hoffi 'r teganau peryglus,
Sy 'n tynu y llangc heb yn wybod o'r bron
I byllau o adfyd truenus?

Ystyriwn y perygl, gyd-ie'ngctyd i gyd,
Os tegan a ddaw dan ein sylw,
Gadawn i gydwybod roi barn ar y pryd
Fydd rhywbeth yn enbyd yn hwnw;
Meddyliwn o ddifrif cyn cellwair a'r un,
Fydd niwaid yn dilyn y chwarau;
Mae argraff y tegan ar fywyd y dyn,—
Mae pwys mewn dewisiad teganau.

Mor fawr ydyw gofal a phryder y fam
Yn gwylio o amgylch ei phlentyn,
Rhag iddo trwy anffawd gael briw, neu ryw gam,
Ei llygad o byd sy 'n ei ddilyn;

Dychlama ei chalon gan bryder a braw
Os gwel hi y bach yn ymaflyd
Mewn rhywbeth peryglus, a thyn ef o'i law,
A cheidw bob tegan sy 'n enbyd.

Y mamau rhinweddol a geisiant bob pryd
Ryw degan a'r A, B, C, arno,
Er mwyn i'w rhai bach tra o amgylch y cryd
Gael dysgu 'r egwyddor a'i chofio;
Mor fuddiol a fyddai i langciau ein gwlad
Gymeryd esiampl y baban,
Gofalu bob amser, heblaw cael mwynhad,
Am ddysgu egwyddor o'r tegan.

DIRWEST.

ALAW:—"*Y Derya Pur.*"

LLEDAENER dirwest dros y byd,
Estyner hyd ei hedyn,
A gwasged yn ei thyner gôl
Bob ffol anfuddiol feddwyn;
Iachus oriau a chysuron
A helaeth daena yn mhlith dynion,
Egyr ddorau hen garcharau
Lle cadwynwyd meibion gwaeau,
Gan ddwyn y rhai'n i awyr iach
Anwylach yn eu holau:
Perlau anwyl pur lawenydd
A eres gluda dros y gwledydd,
Gwena 'n dirion ar y meddwon,
Nes diflana 'u anghysuron,
Brenhines bendith yw mewn gwlad,
A chariad yw ei choron.

Derbyniwch feddwon tref a gwlad
Ei galwad a'i hymgeledd,
Addurna eich aneddau mad
A chariad yn lle chwerwedd;
Dewch o feddwon dan ei baner,
Ufuddhewch i'w galwad tyner;
Gwelwch fel mae 'i phlant yn gwenu,
Wrth eich gwa'dd yn un o'r teulu,
A chwithau, druain, heb un wên
Trwy angen bron yn trengu:
Dirwest leinw nythod newyn,—
Dirwest esmwythä y coryn,
Anedwyddwch nos o dristwch,
Dry yn ddydd o wir hyfrydwch,
A than ei nawdd gofidiau gant
A doddant yn ddedwyddwch.

PRYDFERTHWCH Y GREADIGAETH.

* * * * * *

Y Greadigaeth sydd yn brydferth oll,
Edryched dyn i'r man y myno ef,
Prydferthwch saif o'i flaen. Ei ddelw sydd
Fw weled mèwn tywodyn bach ar fin
Y môr, yn gystal ag ar wyneb haul.
Ei lais a glywir yn nghaniadau 'r llwyn,
Yn gystal ag yn nghyngherdd mawr y 'storm,
Neu yn rhuadau dyfnion eigion blin.
Darlithio ar brydferthwch natur fawr
A wna y pistyll bach wrth ddrws y tŷ;
A'r un hyawdledd sydd yn ngenau hwn
Ag sydd gan raiadr y Niag'ra fawr.

Rhyw dlws yw 'r cread roed ar bared mawr
Y gwagle anherfynol, di bendraw,
Yr hwn sydd ardeb hardd o'r Duw a'i gwnaeth:
Neu fel dwyfroneg lawn o feini byw,
A roed ar fynwes tragwyddoldeb maith,—
Pob maen a pherl yn cynnwys enw 'r Ion.

* * * * * * *

Edrych, O! ddyn ar bobpeth o dy gylch,
Ymrithia yr Anfeidrol o dy flaen.
Pa fodd y meiddi wadu nad oes Duw,
Ag yntau 'n siarad gyda thi bob dydd,
Yn mhobpeth welaist ti erioed.

* * * * * * *

EIN TYWYSOG A'N TYWYSOGES.

O BOED Tywysog Cymru wiw,
A'i anwyl Dywysoges,
Yn drachtio hawddfyd pur wrth fyw,
A'r nefoedd lon'd eu mynwes;
Ac o fewn cylch eu modrwy gron
Blodeued pob rhinweddau,
A haul dedwyddwch byth ar hon
Fo 'n taflu ei belydrau.

Mae Prydain gyda gwên o serch
Yn estyn ei deheulaw,
I law ei mabwysiedig ferch
Gan ddweud o galon,—"*Croesaw;*"
Mae 'r Cymro 'n gwenu, ac mae 'r Sais
Yn ateb gwên y Gwyddel,
A'r 'Scotyn yn dyrchafu 'i lais
I chwyddo 'r fanllef uchel.

Mae tywysogion Cymru wen
Yn huno dan garneddau,
Ond awel rhyddid uwch eu pen
Sy 'n suo hwyr a borau;
A'r blodau ar y beddau hyn
Sy 'n awr yn cym'ryd sylw,
Maent fel angylion yn eu gwyn
Yn gwenu dros y mefrw.

Coelcerthi fyrdd a dd'wed "Lwc dda"
I'r T'wysog calon gynes,
A'r clychau etyb gyda 'r chwa
"Lwc dda" i'r Dywysoges;
Mae holl fagnelau môr a thir
Yn dweud mewn iaith daranllyd,—
O boed eu hoes yn ddwy oes hir,
A'u dyddiau oll yn hawddfyd.

Mae 'r deyrnas fawr a'i herys ef
Yn addurn i deyrnasoedd,
Boed yntau ar ei orsedd gref
Yn addurn i frenhinoedd;
A holl adnoddau 'i meddwl coeth
O boed i ALEXANDRA,
Ei gynorthwyo i ddal yn ddoeth
Deyrnwialen aur Brittania.

GWREXHAM: ARGRAFFWYD GAN R. HUGHES A'I FAB.

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.